Bangor University

**DOETHUR MEWN ATHRONIAETH**

# Agweddau ar hanes Cyngor Eglwysi Cymru 1956-1990

## c.1 Meithrin perthynas ac undeb -- c.2 Tystiolaeth Gristnogol yng Nghymru ac yn Fyd-eang

Davies, Noel Anthony

*Award date:*
1997

*Awarding institution:*
University of Wales, Bangor

Link to publication

**General rights**
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

**Take down policy**
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 03. Apr. 2025

# AGWEDDAU
# AR
# HANES CYNGOR EGLWYSI CYMRU
# 1956 - 1990

## Cyfrol II
## Tystiolaeth Gristnogol yng Nghymru ac yn Fyd-eang

Traethawd Ymchwil am Radd

Doethor mewn Athroniaeth

gan

Noel Anthony Davies B.Sc. (Cymru), B.A. (Rhydychen)

I'W DDEFNYDDIO YN Y
LLYFRGELL YN UNIG

TO BE CONSULTED IN THE
LIBRARY ONLY

Cyflwynwyd ym Mhrifysgol Cymru, Bangor

Mehefin 1997

LLYFRGELL U.C.N.W. LIBRARY C.P.G.C.

AGWEDDAU AR HANES CYNGOR EGLWYSI CYMRU, 1956 - 1990

CYNNWYS

Cyfrol II


| | |
|---|---|
| Pennod 9: | Yr Eglwys a Chymdeithas: Dechreuadau a Sylfeini |
| Pennod 10: | Yr Eglwysi a Hunanlywodraeth |
| Pennod 11: | Y Dystiolaeth Gristnogol mewn Diwydiant |
| Pennod 12: | Tystiolaeth mewn Diwydiant: Ymateb i Ddiweithdra |
| Pennod 13: | Tystiolaeth mewn Diwydiant: Yr Eglwysi a'r Anghydfod Glo |
| Pennod 14: | Hilyddiaeth a De'r Affrig |
| Pennod 15: | Rhyfel a Heddwch: Diarfogi Niwclear |
| Pennod 16: | Rhyfel a Heddwch: Rhyfel Ynysoedd y Malfinas |
| Casgliadau | |
| Atodiad I: | Prif Swyddogion y Cyngor |
| Atodiad II: | Crynodeb o raglen waith y Grŵp Astudio Litwrgi |
| Llyfryddiaeth | |

PENNOD 9

# YR EGLWYSI A CHYMDEITHAS: DECHREUADAU A SYLFEINI

> 'A large part of the energy of the ecumenical movement has been directed to the search for a common Christian witness to the problems of modern society. Indeed, for laymen, most of the attraction of the ecumenical movement is in its creativity and vitality in facing social issues and in the challenge they have posed to Churches.'[1]

A thrwy flynyddoedd yr Ail Ryfel Byd a sefydlu Cyngor Eglwysi'r Byd (ym 1948) bu arweinwyr megis George Bell (Esgob Chichester), William Temple (Archesgob Caergaint), J.H.Oldham a'r Ysgrifennydd Cyffredinol cyntaf, W.A.Visser 't Hooft, yn pwysleisio fod y Cyngor a'r mudiad ecwmenaidd yn gyffredinol yn cael eu galw i weinidogaeth broffwydol a gweinidogaeth cymod. Rhoes Cymanfa gyntaf Cyngor Eglwysi'r Byd (Amsterdam, 1948) y diffiniad canlynol o'r 'gymdeithas gyfrifol' fel fframwaith briodol i ddeall cyfrifoldeb yr Eglwys mewn cymdeithas:

> 'Man is created and called to be a free being, responsible to God and his neighbour...A responsible society is one where freedom is the freedom of men who acknowledge responsibility to justice and public order, and where those who hold political authority or economic power are responsible for its exercise to God and the people whose welfare is affected by it...For a society to be responsible under modern conditions it is required that the people have freedom to control, criticize, and to change their governments, that power be made responsible by law and tradition, and be distributed as widely as possible through the whole community. It is required that economic justice and provision of equality of opportunity be established for all the members of society.'[2]

Os mai'r prif gymhelliad dros ffurfio Cyngor Eglwysi Cymru oedd yr awydd i weld enwadau ac eglwysi Cymru yn cyrchu'n fwy egnïol tuag at y nod o undeb eglwysig, cymhelliad arall dylanwadol oedd datblygu offeryn effeithiol i'w galluogi i gydweithio fwyfwy â'i gilydd mewn tystiolaeth dros gymdeithas gyfiawn a rhydd yng Nghymru ac yn fyd-eang. Tros y blynyddoedd rhoddwyd mwy a mwy o egni'r Cyngor i'r materion hyn ac yn y gweithgarwch hwn bu gweledigaeth a gwaith

--------------------

1. Paul Abrecht yn *A History of the Ecumenical Movement*, Cyfrol II, Gol. Harold E. Fey, CEB, 1986, tud. 235.

2. ibid., tud 241 - 2.

Cyngor Eglwysi'r Byd yn arweiniad allweddol mewn nifer o feysydd.

Yn y blynyddoedd cynnar hyn rhoddwyd sylw i nifer o bynciau llosg yng Nghymru a oedd yn galw Cristnogion i fynegi barn arnynt a chynnig arweiniad i'w cyd-Gymry. Felly, ymhlith materion eraill, bu'r Cyngor yn ystyried darlledu (mewn cyfnod pan oedd teledu yn dechrau cyrraedd Cymru), deddf agor tafarnau ar y Sul (yng nghyfnod y bleidlais gyntaf ar y pwnc ym 1961), a diweithdra a chau pyllau glo (a'r Bwrdd Glo Cenedlaethol yn bygwth cau nifer o byllau ym maes glo'r De).

**TIR YNG NGHYMRU**

Cwestiwn defnyddio tir Cymru a gafodd y sylw mwyaf ar y dechrau. Yn ei gyfarfod ar 7 Hydref 1955 pwysodd y Cydbwyllgor ar Gyd-ddeall a Chydweithio rhwng y Cymundebau Cristnogol yng Nghymru fod pobl cefn gwlad Cymru yn cael eu hamddiffyn 'rhag y duedd gynyddol i droi at Gymru am dir ar gyfer gweithfeydd dŵr a chynlluniau eraill, tra'n anwybyddu hanes a bywyd crefyddol a diwylliannol gwahanol gymunedau.'[1] Yn yr un cyfarfod cytunwyd i wahodd y Cyngor, yn ei gyfarfod cyntaf ym Mai 1956, i sefydlu Comisiwn ar 'ein gweithgarwch mewn ardaloedd gwledig'. Ymateb oedd hyn nid yn unig i'r argyfwng cymdeithasol ac eglwysig yng nghefn gwlad Cymru ond hefyd i adroddiad Y Comisiwn ar Dir yng Nghanolbarth Cymru. Etholwyd y canlynol i fod yn aelodau Comisiwn y Cyngor: Yr Athro E.G.Bowen, T.Pierce Jones, T.I.Ellis, J.Morgan Jones, Y Parchedigion Huw Wynne Griffith a Melville Jones, Y Canon G.O.Williams a Ficer Tregaron (ynghyd â phedwar aelod cyfetholedig nas enwir yn yr adroddiad). Y Prifathro W.R.Williams (Ysgrifennydd y Cyngor newydd) fyddai'n cynnull y Comisiwn. Wrth sefydlu'r Comisiwn hwn galwodd y Cyngor sylw'r holl gyrff crefyddol yng Nghymru at yr adroddiad y byddai yn ei astudio gan y byddai ei argymhellion yn golygu newidia-

1. Cofnodion y Cydbwyllgor, 7 Hydref 1955.

dau pellgyrhaeddol ym mhatrwm bywyd cymdeithasol ac economaidd canolbarth Cymru ac yn codi cwestiynau hollbwysig i bawb yr oedd ganddynt ddiddordeb yn ein bywyd diwylliannol a chrefyddol.

Cyflwynwyd adroddiad terfynol y Comisiwn i'r Cyngor yn Hydref 1960. Ei fan cychwyn oedd rheidrwydd derbyn y newidiadau economaidd, amaethyddol a chymdeithasol fel rhai anochel[1] a fyddai'n hawlio newidiadau yn y cymunedau eu hunain:

> '...it is fairly clear that reasonable home and social amenities can only be provided if the community becomes much more compact than the scattered pattern which has characterised rural Wales...Local Authorities and other organisations must, in planning for the future, look forward to an increasing concentration of population in the most favourably situated villages and to strengthening of community life.'[2]

'Roedd y Comisiwn yn derbyn hefyd fod angen ymdrech i sicrhau diwydiannau ysgafn yng nghefn gwlad Cymru, er y byddai gofyn am oresgyn anawsterau o du cyfleusterau, trafnidiaeth a difaterwch yn yr ardaloedd hyn. A fyddai gan y trigolion ffydd ddigonol yn eu gallu i wynebu'r dyfodol newydd i fedru addasu a newid yn ôl y gofyn?

> 'If the people in mid-Wales have a real awareness of their past and confidence in their future, they will be more ready to make the best of their resources, welcome new enterprises and not go cap-in-hand to 'Government' for intiative and support'.[3]

Felly, er ei fod yn croesawu ffurfio Cymdeithas Ddatblygu Canolbarth Cymru (sef, rhagflaenydd Bwrdd Datblygu Canolbarth Cymru) credai hefyd fod gan yr eglwysi a mudiadau cyffelyb gyfrifoldeb i fagu hyder yn nyfodol yr ardaloedd hyn.

Fodd bynnag, 'roedd effaith diwydiannu'r ardal ar yr iaith Gymraeg a'r ffordd

---

1. *Report of the Commission on Mid-Wales*, Cyngor Eglwysi Cymru, tud. 4.
2. ibid., tud. 4 ymlaen.
3. ibid., tud. 5.

Gymreig o fyw yn peri gofid i lawer ond credai Comisiwn y Cyngor y gellid osgoi'r problemau hyn pe bai arweinwyr bywyd cyhoeddus yr ardal yn fodlon eu hwynebu'n wrthrychol a gwrol.[1] Byddai hynny'n golygu polisi addysg ddwyieithog a bod yn ymwybodol o ddylanwadau 'allanol' megis radio a theledu. (Cyhoeddwyd yn ystod y cyfnod hwn y byddai trosglwyddydd yn cael ei adeiladu i sicrhau gwasanaeth teledu i drigolion ardaloedd Bae Ceredigion). A throsodd a thro pwysleisir yr angen am i'r trigolion eu hunain a'u harweinwyr ddwyn y cyfrifoldeb priodol nid yn unig am ddyfodol yr iaith ond am yr holl ffordd o fyw a nodweddai'r ardaloedd o dan sylw. Y mae'n cynnig 'trech a gais nag a geidw' fel arwyddair priodol yn y sefyllfa hon: 'a defeatist attitude is to be deprecated'.

Neilltuwyd ail ran adroddiad y Comisiwn i arolwg gan yr Athro E.G.Bowen o le'r eglwysi yn y newidiadau hyn, 'The Churches and Changes in Social and Economic Life'. 'Roedd dau amcan i'r arolwg hwn. sef, yn gyntaf, ystyried safle'r eglwysi yng Nghanolbarth Cymru mewn perthynas â'r newidiadau a oedd yn digwydd yn lleol ac, yn ail, gofyn a oedd gormod o eglwysi a chapeli ar gyfer poblogaeth bresennol yr ardaloedd hyn ac a oeddent wedi eu lleoli yn y mannau priodol ar gyfer dosbarthiad presennol y boblogaeth. Canolbwyntiwyd yr arolwg hwn ar ardal o ryw 140 o filltiroedd sgwar i'r de o Aberystwyth ac i'r gogledd o Bontrhydfendigaid. Rhoddwyd y sylw pennaf i'r Eglwys yng Nghymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru gan fod ganddynt fwy o eglwysi a chapeli oddi fewn i'r ardal hon na'r enwadau eraill. Daw'r Athro Bowen i ddau brif gasgliad o ganlyniad i'w ddadansoddiad, sef, fod mwy na digon o le i bawb yn yr addoldai hyd yn oed pe bai'r boblogaeth gyfan yn mynychu addoliad cyhoeddus ac nad oedd angen y dosbarthiad presennol o addoldai mewn perthynas â'r boblogaeth heblaw, efallai, am y dalgylch arfordirol lle mae'r boblogaeth yn dal i fod yn lled ddwys *(dense)* ac yn dangos arwyddion

---

1. ibid., tud. 6.

cynnydd.

Gwnaeth dri argymhelliad ar sail ei ddadansoddiad. Credai, yn gyntaf, y dylai'r Cyngor dderbyn argymhellion y Comisiwn cyhoeddus 'even if they mean a further loss of population in upland areas and the replacement of the traditional economy by the spread of afforestation and water conservation'[1]. Yn ail, credai y dylai'r Cyngor bwyso ar yr enwadau 'to amalgamate many of their churches and to concentrate their resources in those churches and chapels which are situated along or near the main roads, or in the smaller villages'. Yn olaf, cydnebydd fod gweithredu cynllun o'r fath yn dibynnu ar y cynnydd mewn cyfleusterau teithio ymhlith ffermwyr a thrigolion yr ardaloedd gwledig a lle nad oedd y fath gyfleusterau ar gael dylai'r eglwysi brynu moduron priodol er mwyn cludo pobl o fannau diarffordd i'r addoldai (a chymeradwyir cynllun o'r fath a oedd eisoes yn cael ei weithredu gan yr Eglwys Gatholig Rufeinig).

Wrth lunio'i argymhellion swyddogol pwysodd Comisiwn y Cyngor yn drwm ar waith yr Athro Bowen, ond y mae'n cychwyn gyda dwy egwyddor sylfaenol:

> 'The Christian Communions in Wales have a responsibility in matters social and economic that affect the life of Wales. Individual members of Christian Churches who are members of public bodies have likewise a responsibility and an opportunity for Christian action in public life'.[2]

Argymhellir fod yr enwadau yn rhoi sylw difrifol i'r datblygiadau a amlinellir gan yr Athro Bowen a'r awgrymiadau ymarferol a gynigir ganddo, yn defnyddio'u hadnoddau er mwyn cyfarfod â gofynion y datblygiadau cymdeithasol ac economaidd a ragwelwyd trwy geisio sefydlu ysgolion Sul a gweithgarwch ieuenctid ar y cyd, a chydweithio â mudiadau eraill megis Clybiau Ffermwyr Ifanc, Urdd Gobaith Cymru,

---

1. ibid., tud. 12.

2. ibid., tud. 14.

ac Adrannau Astudiaethau Allanol y Colegau Prifysgol. Pwyswyd hefyd am roi ystyriaeth ddifrifol i'r modd gorau o sicrhau i'r iaith Gymraeg statws swyddogol priodol.

Pan gyflwynwyd yr adroddiad a'r argymhellion hyn i gyfarfod y Cyngor ar 19 ac 20 Hydref 1960 fe'i derbyniwyd gyda gwerthfawrogiad mawr o waith y Comisiwn a phasiwyd yr argymhellion heb eu newid, a'u cyflwyno i'r enwadau a'r eglwysi. 'Roedd hwn yn adroddiad trylwyr ac ysgolheigaidd a gallai ei argymhellion fod wedi cael dylanwad mawr ar fywyd a chenhadaeth yr enwadau, ond ysywaeth nid oes llawer o arwyddion fod ystyriaeth yr enwadau o'i ddadansoddiad a'i argymhellion wedi cael mwy na mwy o ddylanwad ar bolisi'r eglwysi. Erbyn hyn y mae llawer o'i amcanion wedi eu cyflawni ond ai'r adroddiad ei hun a arweiniodd at hyn ynteu gwasgfa anochel y newidiadau eu hunain sydd wedi gorfodi newidiadau ym mhatrwm eglwysig llawer o'r ardaloedd gwledig hyn? Yn sicr, fe ddysgwyd un wers bwysig drwy waith y Comisiwn hwn a'r astudiaeth o'i adroddiad, sef, bod yr eglwysi yn cael eu galw'n gyson i wynebu her genhadol newidiadau cymdeithasol ac economaidd os ydynt am fod yn ufudd i'w galwedigaeth. Ar hyd y blynyddoedd, fodd bynnag, fel y gwelir, ni chafodd yr eglwysi lleol na'r enwadau'n genedlaethol hi'n hawdd i addasu'n ystwyth i'r gofynion hyn, naill ai'n enwadol neu'n gydenwadol.

**DARLLEDU**

Pwnc arall a gafodd flaenoriaeth yn ystod y blynyddoedd cynnar hyn oedd darlledu. Rhoddwyd y sylw pennaf i deledu mewn cyfnod pan oedd y cyfrwng hwn yn dod fwyfwy o fewn cyrraedd pobl Cymru. Daeth Cyngor Darlledu Cenedlaethol Cymru i fodolaeth ym 1952 ac ar yr un adeg daeth teledu i Gymru. Ond 'roedd hi'n 1959 cyn bod y Cyngor yn pasio'r penderfyniad canlynol a gynigiwyd gan T.I.Ellis:

> 'Having regard to the potent influence of Television upon our people, and particularly upon children and those of an impressionable age, this Council is glad to lend its support to those who are pressing for an

arrangement which will give Wales a Television service of its own'.[1]

Y tu ôl i benderfyniad o'r fath yr oedd dau gymhelliad cysylltiedig. 'Roedd awydd i sicrhau i Gymru'n gyffredinol reolaeth dros y rhaglenni a welid gan ei thrigolion, a hynny mewn cyfnod pan oedd parthau helaeth o Gymru yn gorfod derbyn rhaglenni drwy drosglwyddyddion yn Lloegr. Dyma'r unig ffordd i sicrhau i Gymry raglenni a fyddai'n adlewyrchu eu diwylliant a'u diddordeb. Ond 'roedd awydd hefyd i sicrhau fod mwy o raglenni Cymraeg o fewn cyrraedd mwy o'r trigolion. Ar y dechrau, (yn y 50au cynnar), sianel y BBC oedd yr unig sianel Gymreig, ond ym 1955 sefydlwyd y gwasanaethau teledu annibynnol a daeth Cymru'n rhan o 'diriogaeth *Television Wales and the West* (TWW) - "Teyrnas y Brenin Arthur"' unwaith eto - er bod gwylwyr yn y gogledd-ddwyrain yn medru derbyn gwasanaeth Granada o Fanceinion.[2] Ymhlith caredigion y Gymraeg 'roedd cryn anfoddlonrwydd ynglŷn â hyn, gan eu bod yn ymwybodol gymaint oedd dylanwad y teledu ar ddiwylliant a thraddodiad ac iaith. Gan fod y Cyngor hefyd yn ymwybodol o hyn bu cryn ymgyrchu ar sail y penderfyniad uchod. Ceisiwyd cael y Llywodraeth i dderbyn dirprwyaeth o blith eglwysi Cymru ond ni lwyddwyd gyda hynny. Yn y cyfamser, ar 18 Medi 1959 galwodd Arglwydd Faer Caerdydd Gynhadledd Gynrychioliadol Genedlaethol i ystyried y mater, ac yr oedd cynrychiolwyr o'r Cyngor yn bresennol. Galwodd y Gynhadledd hon - fel y gwnaeth y Cyngor ynghynt yn y flwyddyn - am wasanaeth teledu i Gymru ac apwyntiwyd Pwyllgor Parhad.[3]

Pan gyfarfu'r Cyngor nesaf yn ei gyfarfod blynyddol yn Hydref 1960 'roedd Pwyllgor Pilkington wedi ei sefydlu i ystyried dyfodol darlledu ym Mhrydain yn gyffredi-

---

1. Cofnodion y Cyngor, 25 Mai 1959.

2. John Davies, Hanes Cymru, tud. 611.

3. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 26 Hydref 1959.

nol a phwysodd y Cyngor ar i Gymru gael llefaru ag un llais yn y dystiolaeth a gyflwynid i'r Pwyllgor. O ganlyniad pasiwyd penderfyniad, unwaith eto o dan arweiniad T.I.Ellis, a oedd yn galw am

> '...ddal ar bob cyfle i geisio sicrhau i Gymru gyfrwng teledu iddi hi ei hun...i gwrdd a'i hangenion *(sic)* arbennig. Ym marn y Cyngor dylai'r prif gyfrwng fod yn gyfrifoldeb y BBC a dylai Cymru fwynhau rheolaeth mewn polisi a rhaglenni, ac heblaw hynny bod a'r *(sic)* un hawl a *(sic)* gweddill y wlad i wasanaeth arall *(alternative)*. Y mae'r Cyngor hefyd yn cymeradwyo gwneud pob ymdrech i gael mwy o amser i'r rhaglenni crefyddol yn ogystal a *(sic)* mwy o ystyriaeth i anghenion Cymru'n gyffredinol'.[1]

Wrth gyflwyno'r penderfyniad hwn yn y Cyngor pwysleisiwyd y dylai unrhyw wasanaeth arall gyfarfod â gofynion arbennig Cymru a bod yn sensitif i werthoedd moesol a diwylliannol Cymru wrth ddewis rhaglenni. Dilynwyd hyn gan ohebu rhwng y Cyngor a Chyngor Darlledu Cymru a Phwyllgor Pilkington. Gwrthododd yr olaf dderbyn dirprwyaeth o'r Cyngor gan eu bod yn teimlo eu bod eisoes yn hyddysg ym marn Cymru ynglŷn â theledu ac na allai trafodaeth o'r fath ychwanegu dim at eu dealltwriaeth! Fodd bynnag, ym 1962 gofynnodd y Pwyllgor am ganiatâd y Cyngor i gyhoeddi'r memorandwm a gyflwynwyd iddo fel atodiad i Adroddiad Pilkington.

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym 1962, ac o ganlyniad i'w argymhellion sefydlwyd BBC Cymru, gyda'r cyfrifoldeb am ddarlledu deuddeg awr o raglenni teledu yr wythnos, tua'r hanner yn y Gymraeg. Ym 1961 sefydlwyd Cwmni Teledu Cymru 'gan garfan o Gymry gwlatgar...'[2] i wasanaethu trigolion yr ardaloedd hynny a oedd y tu hwnt i gyrraedd trosglwyddydd a oedd yn darlledu rhaglenni Cymraeg. Ysywaeth daeth y cwmni hwnnw i ben ym 1963 wedi darlledu am ddeg mis yn unig, ac etifeddwyd ei gyfrifoldeb gan T.W.W., a oedd i ddarlledu pum awr a

--------------------

1. Adroddiad Blynyddol y Cyngor am 1960 - 61, tud. 1.

2. John Davies, Hanes Cymru, tud. 627.

hanner o deledu Cymraeg yr wythnos. O leiaf 'roedd rhai o'r brwydrau dros ddarlledu yng Nghymru yn cael eu hennill yn raddol a bu gan y Cyngor ei ran yn yr ymdrechion hyn, mewn cydweithrediad â nifer o fudiadau eraill a'r enwadau a oedd yn aelodau'r Cyngor.

Un peth fodd bynnag oedd sicrhau rhaglenni Cymraeg a Chymreig i fwyafrif trigolion Cymru, mater arall oedd ceisio sicrhau fod y cyfrwng newydd yn cyfarfod â'r gofyn ac yn cadw safonau Cristnogol priodol. Felly, ym 1964 derbyniwyd penderfynaid oddi wrth Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn galw am sefydlu Pwyllgor yng Nghyngor Eglwysi Cymru i ystyried holl faes darlledu:

> 'A ninnau'r ymwybodol o ddylanwad a phosibiliadau mawr radio a theledu yn ein dydd, dymunwn fod grŵp o bobl yn cael ei sefydlu fyddai â'r wybodaeth i fedru rhoddi cyngor a chadw llygaid ar ddatblygiadau yn y cyfryngau torfol.
>
> 'Awgrymwn y medrai'r BBC a TWW apelio at y pwyllgor hwn pan fyddent yn dymuno cael cyngor yr Eglwys Gristnogol, ac y gallai'r pwyllgor gyflwyno gwybodaeth a barn i'r corfforaethau.'[1]

Cytunodd y Pwyllgor Gwaith i sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol i ystyried y defnydd effeithiol o'r cyfryngau hyn, a pha hyfforddiant y gellid ei sicrhau i'r diben hwn ac i gydweithio â phwyllgorau ymgynghorol sydd eisoes mewn bod. Penodwyd yr Athro Mansel John (Undeb Bedyddwyr Cymru), Y Parchedigion Derrick Childs (Yr Eglwys yng Nghymru), Wyndham Bold (Yr Eglwys Fethodistaidd), M.R.Mainwaring (Eglwys Bresbyteraidd Cymru) ac Emlyn Jenkins (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg) i fod yn aelodau ohono. Y pwyllgor hwn fu'n gyfrifol am ymwneud y Cyngor â holl faes darlledu a'r cyfryngau drwy gydol y 60au nes ffurfio Adran Cyfathrebu Cristnogol ym 1974. Bu'r Adran honno'n fforwm ar gyfer ystyried datblygiadau mewn radio a theledu, mewn perthynas â rhaglenni'n gyffredinol yn ogystal â rhaglenni crefyddol. Bu hefyd yn ddolen gydiol rhwng yr enwadau a'r sawl a oedd yn cynhyrchu rhaglenni crefyddol ac yn cynrychioli'r enwadau ar gyrff ymgynghorol y cwmnïau

---

1. Cofnodion Pwyllgor Gwaith Cyngor Eglwysi Cymru, 25-26 Ionawr 1965.

darlledu.

Dyma enghraifft arall, felly, o arweinwyr y Cyngor yn y dyddiau cynnar yn effro i gyfle a her cyfrwng hollol newydd a chwyldroadol ac yn medru elwa ar brofiad a dylanwad pobl fel T.I. Ellis i'w cynorthwyo i ymateb yn greadigol a chyfrifol. Dyma enghraifft hefyd o allu'r Cyngor i weithredu ar ran yr enwadau a'r eglwysi ar fater cenedlaethol pwysig er mwyn iddynt fedru llefaru ag un llais.

**AGOR TAFARNAU AR Y SUL**

Ym 1960 dechreuwyd ystyried newid y ddeddf (a fu mewn grym ers 1881) ynglŷn ag agor y tafarnau ar y Sul yng Nghymru. Gwrthwynebwyd hyn gan y rhan fwyaf o'r enwadau - a'r enwadau anghydffurfiol Cymraeg yn arbennig. Yn ei gyfarfod ar 19 - 20 Hydref 1960 pasiwyd y penderfyniad canlynol gan y Cyngor:

> '...in the opinion of the Council no change in the law of Sunday opening in Wales should be made without an enquiry by means of a Royal Commission or other appropriate body to ascertain the state of responsible opinion in Wales on the matter'.[1]

Ond yn Neddf Drwyddedu 1960 gosodwyd fod trigolion Cymru i benderfynu'r mater trostynt eu hunain mewn bwrdeisdrefi a siroedd a hynny ar waethaf gwrthwynebiad nifer o aelodau seneddol Cymreig, George Thomas yn eu plith. Cynhaliwyd refferendwm ym mis Hydref 1961. Ar drothwy'r refferendwm hwn cyhoeddodd y Cyngor y datganiad canlynol:

> 'The Council of Churches for Wales strongly urges members of the Christian Churches in Wales to act in accordance with their christian and civic duty when they come to use their vote in connection with the provisions of the Licensing Act, bearing in mind the importance of this vote, particularly to the youth of Wales, in view of the moral dangers which they have to face.'[2]

--------------------

1. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 19 - 20 Hydref 1960.

2. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 21 - 22 Medi 1961.

Ymateb oedd hyn yn bennaf i ddatganiad gan Archesgob Cymru, Dr. Edwin Morris, yn y *Western Mail* ar 13 Medi 1961 ar *'The Christian Use of Alcoholic Beverages'*, pan aeth mor bell ag amddiffyn agor ar y Sul, er iddo ddadleu y byddai pedair awr bob Sul yn ddigon i unrhyw un.[1] Gofynnodd Synod De Cymru yr Eglwys Fethodistaidd i'r Cyngor wneud datganiad a fyddai'n rhoi arweiniad i Gristnogion Cymru. Y penderfyniad uchod oedd y canlyniad. Y mae adroddiad blynyddol y Cyngor am 1960 - 61 yn ailfynegi'r farn mai 'prif ddyletswydd cenedl y Cymru (sic) ar ddydd Sul (yw) addoli'r Arglwydd Dduw.'

Canlyniad y bleidlais oedd rhaniad. Pleidleisiodd yr ardaloedd diwydiannol, seisnigedig yn Ne, De Ddwyrain a Gogledd Ddwyrain Cymru o blaid agor. Pleidleisiodd yr ardaloedd gwledig, Cymraeg yng Ngogledd a Gorllewin Cymru yn erbyn agor ar y Sul. 'Roedd hyn yn golygu fod 72 y cant o boblogaeth Cymru yn byw bellach mewn ardaloedd 'gwlyb'. Yn ystod y blynyddoedd nesaf byddai'r canran hwn yn cynyddu ym mhob refferendwm, ac erbyn 1982 dwy ardal yn unig, sef, Ceredigion a Dwyfor (yn cynrychioli tua 3 y cant o'r boblogaeth) a oedd yn 'sych'.[2]

Yn ôl Kenneth O. Morgan[3], 'roedd refferendwm 1961 yn:

> '...somewhat pathetic commentary on the waning authority of organised religion...the chapels and their ethos were retreating to the rural fastnesses, setting their face against secularism and materialism which flew against all their deepest and most cherished convictions...another permanent nail was laid in the coffin of Welsh puritanism and those social and institutional symbols which served to perpetuate it.'

Tra bo'r dadansoddiad hwn yn wir i ryw raddau - yr oedd y canlyniad hwn yn arwydd amlwg fod dylanwad yr eglwysi a'r capeli ar fywyd trigolion Cymru wedi

--------------------

1. gweler Kenneth O. Morgan, *The Rebirth of a Nation, Wales 1880 - 1990,* Gwasg Prifysgol Cymru a Clarendon Press, 1981, tud. 355.

2. gweler John Davies, Hanes Cymru, tud. 618.

3. *Rebirth of a Nation*, tud. 355.

dadfeilio - y mae lle i gredu ei fod hefyd yn arwydd o newid ym mlaenoriahau'r eglwysi a'u dealltwriaeth o'r gwerthoedd Cristnogol a oedd yn gyfrifoldeb arnynt i'w hyrwyddo. Heb amheuaeth, 'roedd hyn yn wir am y Cyngor ei hun oherwydd ni chodwyd y mater hwn yn ei gyfarfodydd byth wedyn. Byddai cwestiynau gwahanol yn cael y sylw pennaf o hyn ymlaen.

Yn union ar ôl y refferendwm, sefydlwyd Pwyllgor gan y Llywodraeth 'to review the law, other than the Licensing Acts, on Sunday entertainments, sports, pastimes, and trading, in England and Wales, and to make recommendations'.[1] Cytunwyd fod y Cyngor yn gohebu ag ysgrifennydd y Pwyllgor yn cynnig cyflwyno memorandwm ar y materion o dan sylw ac yn gofyn am gyfle i ddwyn tystiolaeth lafar gerbron y Pwyllgor. Cafwyd cyfle i gyflwyno memorandwm (a dderbyniodd gymeradwyaeth y Cyngor) a chafodd y Llywydd, y Prifathro W.R.Williams a Mr. T.I.Ellis gyfle i gyfarfod â'r pwyllgor ar 17 Ebrill 1962. Nid oes tystiolaeth fod cwestiwn y Sul wedi cael sylw pellach gan Gyngor Eglwysi Cymru nes fod diwygio deddf masnachu ar y Sul yn dod yn fater llosg yn niwedd yr '80au, ac ni waned dim mwy y pryd hynny nag ysgrifennu un llythyr o brotest at y llywodraeth yn erbyn y newidiadau arfaethig. Y mae'n ddiddorol nodi, fodd bynnag, fod Cyngor Eglwysi Prydain a'i olynydd Cyngor Eglwysi Prydain ac Iwerddon wedi ymgyrchu yn y maes hwn yn niwedd yr 80au a dechrau'r 90au. Ond 'roedd y pwyslais wedi newid erbyn hyn. Pwysigrwydd y Sul fel cyfle gorffwys i deuluoedd a chymuned oedd y pwyslais bellach ac nid yn gymaint yr agweddau 'crefyddol' a oedd yn ganolog yn y 60au.

Ym mlynyddoedd cynnar y Cyngor, yn ogystal, codwyd nifer o faterion eraill, yn cynnwys, yn fwyaf arbennig, diweithdra a chau pyllau glo. Ond y tri hyn - sef, tir yng Nghymru, darlledu, ac agor y tafarnau ar y Sul - a gafodd y sylw mwyaf. Ac ar

---

1. Cofnodion Pwyllgor Gwaith y Cyngor, 6 Tachwedd 1961.

ddiwedd y '50au a dechrau'r '60au 'roedd i'r tair brwydr arwyddocâd nid yn unig ynddynt eu hunain ond fel sumbolau o frwydrau dros hunaniaeth y genedl. Mewn gwahanol ffyrdd 'roedd elfen gysegredig ym mhob un ohonynt. Ar hyd y canrifoedd bu'r tir yn gysegredig ac ymladdwyd brwydrau drud dros ei gadw o dan reolaeth y Cymry ac i fod yn feithrinfa i'r cenedlaethau. Cynrychiolai radio a theledu ddulliau cyfoes o feithrin ac adnewyddu a throsglwyddo'r diwylliannau a wnaeth, ac a wnâi eto, Gymru yn Gymru. 'Roedd y Sul yn arwydd grymus o ymlyniad Cymry, dros y ganrif flaenorol o leiaf, at y Gristnogaeth a fu'n 'enaid' y genedl. Bellach 'roeddynt oll o dan fygythiad nid o'r tu mewn i Gymru'n unig (er bod bygythion mewnol yn aml yn fwy creulon na'r bygythion allanol) ond, efallai yn bennaf, o'r tu allan. 'Roedd eraill am foddi a sarnu'r tir, am feddiannu rheolaeth dros gyfryngau darlledu, a diwylliannau seciwlar o'r tu allan yn bygwth ymlyniad Cymru wrth sumbolau ei hen grefydd. Teimlai'r eglwysi a'r enwadau orfodaeth i ymuno yn y frwydr. Gwelodd y Cyngor a'i arweinwyr yn y dyddiau cynnar fod yn rhaid i'r dystiolaeth Gristnogol i gymdeithas a chenedl lefaru wrth galon y sumbolau hynny a'i lluniodd yn genedl. Ond, wrth gwrs, yn nhreigl y blynyddoedd byddai'r sumbolau hynny'n newid, drwy ddylanwadau mewnol ac allanol, a rhan o gamp yr Eglwys ym mhob cyfnod yw dirnad y newidiadau hyn a darganfod ffyrdd newydd i alluogi'r eglwysi - yn yr achos hwn, gyda'i gilydd drwy'r Cyngor - i ddirnad her y dystiolaeth Gristnogol mewn cyfnod newydd.

## GOSOD Y SYLFEINI

Dyna a ddigwyddodd yn achos y Cyngor. Yn rhannol o ganlyniad i anerchiad gan Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Eglwysi Prydain, Esgob Kenneth Sansbury, yng nghyfarfod blynyddol Cyngor Eglwysi Cymru yng Nghaergybi ar 6 - 7 Tachwedd 1967 penderfynwyd mynd ati i ystyried 'Y Cyngor a chyfrifoldeb cymdeithasol'. Gwnaed hyn yn yr ymwybyddiaeth fod 'un gwall amlwg yn (nhrefniadau'r

Cyngor)...'does dim paratoad ar gyfer y dystiolaeth i gymdeithas'.[1] Gofynnwyd i W.H.Pritchard, Y Bermo, wneud arolwg o'r holl fater yng ngoleuni'r hyn a wnaed gan yr enwadau ar wahân, a gweithgor arfaethedig Cyngor Eglwysi Prydain ar weithredu *dictum* Lund[2] a llunio memorandwm ar gyfer y Cyngor.[3] 'Roedd yr holiadur a ddanfonwyd at yr enwadau yn un cynhwysfawr iawn a holwyd am natur unrhyw adran gymdeithasol, cefnogaeth yr enwad i weithgareddau cydeglwysig, llenyddiaeth a chyhoeddusrwydd, a'r defnydd a wnaed o argymhellion a deunydd Cyngor Eglwysi Prydain yn y maes hwn. Cwblhawyd y gwaith hwn erbyn Medi 1968 ac fe'i cyflwynwyd i Gyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 24 - 25 Hydref 1968. Yno awgrymwyd mai'r cam nesaf oedd cynnull Cynhadledd Genedlaethol ar Gyfrifoldeb Cymdeithasol.

Yn y cyfamser, 'roedd canlyniadau ac argymellion cynhadledd fyd-eang gyntaf Cyngor Eglwysi Byd ar Yr Eglwys a Chymdeithas (Genefa, 1966) yn dechrau treiddio i fywyd a gwaith enwadau Cymru a chafodd hon gryn ddylanwad ar y paratoadau ar gyfer y gynhadledd Gymreig a'i chanlyniadau. Yn ôl Paul Abrecht[4], Cynhadledd Genefa oedd '...the most serious attempt by the WCC to understand the revolutionary realities that shape the modern world'.[5] Er mwyn cynorthwyo'r eglwysi a'r enwadau'n fyd-eang i baratoi ar gyfer cynhadledd Genefa cyhoeddwyd

--------------------

1. Llythyr gan Erastus Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyngor, 27 Rhagfyr 1967.

2. Yng ngynhadledd Ffydd a Threfn Cyngor Eglwysi'r Byd yn Lund, Sweden, ym 1952 heriwyd yr eglwysi, drwy neges y gynhadledd, `whether they should act together in all matters except those in which deep differences of conviction compel them to act separately'. Byth oddiar hynny cyfeiriwyd at yr `egwyddor' hon fel y *dictum* Lund

3. Cofnodion y Cyngor, 13 Rhagfyr 1967

4. Cyfarwyddwr Is-Uned Cyngor Eglwysi'r Byd ar Eglwys a Chymdeithas, 1948 1983.

5. *A History of the Ecumenical Movement*, Cyfrol II, tud. 250 ymlaen.

pedair cyfrol o draethodau ar *Christian Social Ethics in a Changing World, Revolutionary Government in a Revolutionary Age, Economic Growth in a World Perspective*, a *Man in Community.* Adlewyrchai is-adrannau'r gynhadledd y penawdau hyn a cheisiwyd eu gweld yng ngoleuni tair thema arall a oedd yn dylanwadu ar yr holl faes, sef, materion diwinyddol mewn moesoldeb gymdeithasol, posibiliadau'r chwyldro technolegol a gwyddonol cyfoes, a gweithgarwch yr Eglwys mewn cymdeithas. Cafodd gryn effaith ar bob agwedd o'r mudiad ecwmenaidd, ond y mae Abrecht yn rhoi pwyslais arbennig ar dair agwedd.

Yn gyntaf, gosododd gerbron yr eglwysi her y cyfrifoldeb Cristnogol am ddatblygiad economaidd a chymdeithasol byd-eang. Ar sail yr her hon galwodd Trydedd Gymanfa Gyffredinol Cyngor Eglwysi'r Byd ar yr eglwysi[1]:

> '...to go beyond the charitable understanding to the need for fundamental social changes based on a new urgent concern for social justice in a world perspective.'[2]

Yn ail, cafwyd cytundeb sylfaenol fod yn rhaid i'r Eglwys sylweddoli'r angen am newidiadau chwyldroadol mewn strwythurau cymdeithasol a gwleidyddol a chredai Cymanfa Uppsala y dylai'r rhain fod yn seiliedig ar egwyddorion di-drais. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar 'Yr Amgylchedd, Trais a Didreisedd' yng Nghaerdydd ym Medi 1972, o dan nawdd Cyngor Eglwysi'r Byd, fel rhan o broses astudio dwyflynedd a arweiniodd at adroddiad hollbwysig ar "Violence, Non-violence and the Struggle for Social Justice".[3] Yn ystod yr ymgynghoriad hwn cynhaliwyd cyfarfodd cyhoeddus pan siaradodd Margaret Mead (yr anthropolegydd enwog) a James Lawson (o Memphis, Tenessee). Un o brif gyfraniadau Lawson oedd croesawu'r

--------------------

1. Yn Uppsala, Sweden, ym 1968.

2. ibid., tud 253.

3. gweler *Dictionary of the Ecumenical Movement,* tud. 1056 ymlaen.

Rhaglen i Wrthweithio Hiliaeth[1] a fabwysiadwyd gan Gyngor Eglwysi'r Byd ym 1970. Fe'i gwelodd fel symbol o'r cariad sydd am herio llywodraethau ac unigolion sy'n gormesu a threisio ac sydd am eistedd ochr yn ochr â'r rhai sy'n dioddef trais a gormes caethiwus sefydliadau o bob math. Manteisiodd nifer o gefnogwyr y mudiad ecwmenaidd yng Nghymru ar y cyfle hwn i rannu yn un o'r ychydig gyfarfodydd ecwmenaidd byd-eang i'w cynnal yng Nghymru erioed.

Yn drydydd, sylweddolwyd fod Cyngor Eglwysi'r Byd a'r Eglwys Gatholig Rufeinig yn cydweld â'i gilydd ar rai pwyntiau penodol ac y dylid adeiladu ar y rhain.

Wrth gloriannu cyfraniad Cyngor Eglwysi'r Byd hyd at 1968 daw Abrecht i'r casgliad:

> 'Despite the achievements in recent years, ecumenical social thinking remains a precarious enterprise...Up to the present *(sef, 1970)* ecumenical consensus on Christian social responsibility has been limited, experimental and provisional and with relatively slight impact on the action of the Churches in society...Possibly, the most significant achievement of the ecumenical movement has been its ability to encourage and nourish that dialectic of obedience and unity, even in situations where opposing points of view seemed to make real encounter impossible.'[2]

**CYNHADLEDD CAERFYRDDIN 1970**

Yng Nghymru, o leiaf, byddai'r Gynhadledd ar Gyfrifoldeb Cymdeithasol a oedd i'w chynnal yng Nghaerfyrddin ym 1970, yn gwneud cyfraniad sylweddol at y 'cydddeall ecwmenaidd ar gyfrifoldeb cymdeithasol Cristnogol' y dyheai Abrecht amdano. Wrth baratoi ar gyfer y Gynhadledd Gymreig hon cyfrannodd Cynhadledd Genefa a dadansoddiad W.H.Pritchard o dystiolaeth gymdeithasol enwadau Cymru

--------------------

1. gweler Pennod 14

2. ibid., tud. 259.

yn helaeth at ei chynnwys a'i phatrwm. Y mae papur a gyflwynwyd i gyfarfod y Cyngor[1] yn adlewyrchu'r cyfuniad yma o ddylanwadau, drwy sôn am 'Newidiadau chwildroadol mewn cymdeithas' (yn cynnwys, datblygiadau technolegol a gwyddonol, ehangu cyson ar y bwlch rhwng tlawd a chyfoethog yn y byd, a'r ymgais fyd-eang am gyfranogiad cyffredinol mewn penderfyniadau gwleidyddol yn hytrach na thra-awdurdodi gan leiafrif) a 'Newidiadau chwildroadol yng Nghymru' (yn cynnwys, perthynas â Lloegr, cenedlaetholdeb, gweithredu treisiol a didrais, undeb ac amrywiaeth yng Nghymru [yn cynnwys, lle'r iaith Gymraeg], newidiadau diwydiannol, diboblogi, a'r Sul Cymreig.) Awgrymir fod y Gynhadledd yn ymdrin â'r materion hyn yng ngoleuni nifer o weithgareddau a oedd eisoes ar droed yng Nghymru, ym Mhrydain a thrwy Gyngor Eglwysi'r Byd.

O ganlyniad i'r arolwg, daethpwyd i dri chasgliad am ymagwedd yr enwadau yng Nghymru tuag at dystiolaeth gymdeithasol. Yn gyntaf, 'roeddynt oll yn cydnabod eu cyfrifoldeb cymdeithasol. Yn ail, 'roeddynt oll yn cydnabod eu methiannau mewn perthynas â'r cyfrifoldeb hwn. Yn drydydd, drwy ganolbwyntio ar y materion cymdeithasol traddodiadol 'roeddynt yn tueddu i beidio â rhoi sylw digonol i brif faterion y dydd. 'Much of their witness is in the field of individual morality, or constitutes a defence against attacks on traditional ways of living'.[2]

'Wedi trafodaeth hir' cytunwyd i gynnal cynhadledd ar y llinellau a awgrymwyd, i geisio cymeradwyaeth yr enwadau ac i benodi pwyllgor trefnu. Fe'i ffurfiwyd o blith y canlynol: Yr Athro Glyn O. Phillips, E.M.Job, R.O.Roberts, Yr Athro Graham Rees, Ieuan John, Yr Athro Paul Halmos, Chris Harries, Ivor Cassam ac Esgob Bangor. Methodd Gwynfor Evans â derbyn gwahoddiad. 'Roedd y rhain i gyd ac

--------------------

1. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 5 Mawrth 1969.

2. Memorandwm a gyflwynwyd i'r Cyngor 5 Mawrth 1969.

eithrio'r ddau olaf, yn athrawon neu ddarlithwyr colegau prifysgol.

Wrth wahodd yr enwadau i ymuno yn y gynhadledd nodwyd fod y Cyngor, ar sail y dadansoddiad o'u tystiolaeth gymdeithasol, yn credu '...(that) the time is ripe for the churches of Wales to move together towards a common approach to social questions'[1] ac mai amcan y gynhadledd, felly, fyddai

> '...(to) survey the scope of Christian social responsibility in Wales and advise the Council on a permanent machinery for effective co-operation in this field'.[2]

Y mae'r llythyr cysylltiedig yn dyfynnu o adroddiad Uppsala:

> 'Drwy'r darganfyddiadau gwyddonol a'r mudiadau chwyldroadol sy'n digwydd yn ein hoes ni, mae posibiliadau a pheryglon newydd yn agor o flaen dynion. Mae dyn ar goll am na ŵyr pwy ydyw. Ond y mae Duw yn gwneud yn newydd'.

Gwahoddwyd yr enwadau i benodi cyfanswm o 105 o gynrychiolwyr a gwahoddwyd hefyd nifer o gyrff a mudiadau Cymreig megis Cyngor Cymru, y Cydbwyllgor Addysg, y Swyddfa Gymreig a Chymdeithas y Cenhedloedd Unedig, yn ogystal â chynghorau eglwysi lleol. (Yn y diwedd, 'roedd 79 yn bresennol.)

Lluniwyd papurau arbenigol ar themâu'r gynhadledd er mwyn cynorthwyo'r cynrychiolwyr a'r enwadau'n gyffredinol i baratoi ar ei chyfer. Y mae'r papur ar y thema 'Newid technolegol, economaidd a chymdeithasol' (a luniwyd gan grŵp yn Aberystwyth) yn gosod y pwnc yn ei gyd-destun byd-eang a chenedlaethol ac yna'n adolygu'r newidiadau o dan dri phennawd, sef, ffydd, moesoldeb personol a chymdeithasol, a'r eglwys a chymdeithas. Honnwyd fod yr her i ffydd yn ogymaint

---

1. Adroddiad i'r Eglwysi, 8 Ebrill 1969.

2. ibid.

â'r her foesol a chenhadol:

> 'Canlyniad llwyddiant gwyddoniaeth, ac yn arbennig llwyddiant y method gwyddonol, fu tanseilio awdurdod yr Eglwys...(Y mae) llawer yn credu nad oedd yr eglwysi yn deall, heb sôn am fedru cyfeirio, y galluoedd sydd er da neu er drwg yn mowldio cymdeithas.'

Paratowyd y papur ar yr ail thema, 'Penderfyniadau mewn materion economaidd a pholiticaidd', gan grŵp yn ardal Abertawe. Iddynt hwy craidd y mater oedd fod 'sialens enfawr i ddod â mwy o gyfiawnder, a chwaethach cariad, i mewn i fywyd pobl tu mewn i'r gwledydd a rhwng gwledydd a'i gilydd'. 'Roedd angen, felly, wynebu cwestiynau ynglŷn â bwyd a chyfyngu ar boblogaeth, y ffyrdd a oedd gan Gristnogion i ddylanwadu mewn cymdeithas, effeithiolrwydd y cyfryngau yn rhannu gwybodaeth, y wasgfa ar y gymdeithas les a'r angen am gymodi 'gofynion cymdeithasau lleol (gwledig) a gofynion cymdeithasau mawr, dinesig a thechnocrataidd'.

Ym marn y grŵp a luniodd y papur ar y drydedd thema, 'Cenedligrwydd ac Unoliaeth Dyn', 'roedd yn rhaid deall unoliaeth dynolryw a chenedligrwydd Cymru yng ngoleuni dyfodiad a phresenoldeb Crist: 'Os ydym i ddweud a gwneud pethau Cristnogol arbennig yn sefyllfa Cymru a'r byd...rhaid sylfaenu'r cyfan ar wirionedd Crist.'[1] Gwelent ddau berygl yng Nghymru ar y pryd, sef, ar y naill law, y perygl o 'ddyrchafu cenedl uwchlaw'r gyfraith foesol' ac, ar y llaw arall, 'ymddwyn fel petai'r gobaith am unoliaeth dyn yn golygu dileu'r amrywiaeth diwylliant sy'n nodweddu'r greadigaeth'.[2] Awgrymwyd canolbwyntio ar dair agwedd yn ystod y Gynhadledd, Cenedligrwydd Cymru, Yr Iaith Gymraeg a Dulliau o Hyrwyddo Newid (sef, y tyndra a wynebwyd yng Ngynhadledd Cyngor Eglwysi'r Byd yng Ngenefa

--------------------

1. O'r papur paratoad ar gyfer y drydedd thema, `Cenedligrwydd ac Unoliaeth Dyn'.

2. ibid.

ym 1966 rhwng dulliau cyfansoddiadol a chwyldro).

'Cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth a chymdeithas' (*Participation in decision-making and in community*) oedd y bedwaredd thema[1]. Awgrymwyd ystyried holl gwestiwn cymhleth grym ac awdurdod ('What political arrangements are desirable to ensure that the real power of some individuals [and the powerlessness of others] does not exceed levels which we think right?'). Rhaid oedd gwneud hynny mewn cymdeithas a oedd yn rhanedig yn nhermau credo a gwerthoedd. Sut mae dod i gytundeb ar gwestiwn megis, 'Is it ever legitimate to break the law even when "constitutional" means of reform are not available...(or) to attempt to overthrow by non-constitutional means an existing legal and social order?'. Awgrymwyd tair egwyddor sylfaenol mewn perthynas â chyfranogiad Cristnogion mewn cymdeithas: cyfrifoldeb pob Cristion i wybod a meddwl am y materion sy'n ein hwynebu; cyfrifoldeb pobl briodol i gyfranogi yn y bywyd a'r gweithgaredd gwleidyddol; cyfrifoldeb yr Eglwysi gyda'i gilydd, i geisio gweithredu'n wleidyddol er mwyn creu cymdeithas fwy Cristnogol. (Derbyniwyd y rhain gan y Gynhadledd fel sylfaen ymwneud yr eglwysi â gwleidyddiaeth.)[2] Awgrymwyd hefyd fod patrymau democrataidd Cymreig, yn lleol a chenedlaethol, yn faes priodol i'w ystyried gan fod y patrymau hyn yn allweddol bwysig os oedd pobl i gael llais mewn penderfyniadau.

'Roedd y cyfan hyn yn cynrychioli agenda enfawr a nod uchelgeisiol iawn a ddaeth yn drwm o dan ddylanwad ymdrechion Cyngor Eglwysi'r Byd yn y maes hwn. Dyma ymgais wirioneddol i wynebu'r cwestiynau sylfaenol ac ymdrech i wreiddio cwestiynau ac atebion Cynhadledd fyd-eang Genefa 1966 yn naear Cymru. I ba raddau y cyflawnwyd amcanion y Gynhadledd genedlaethol hon ac y llwyddwyd i

--------------------

1. Cynhwysir y dyfyniadau o'r papur hwn yn y Saesneg gan fod y cyfieithiad Cymraeg yn aneglur ac amwys mewn mannau.

2. Adroddiad Cynhadledd Yr Eglwysi a Chymdeithas, Cyngor Eglwysi Cymru, Caerfyrddin 1970, tud. 9.

alluogi'r eglwysi i symud yn gytûn tuag at ymagwedd gyffredin tuag at gwestiynau cymdeithasol?

Cynhaliwyd y Gynhadledd yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin ar 14 - 18 Gorffennaf 1970. 'Roedd 79 yn bresennol ac yn eu plith 24 o'r Eglwys yng Nghymru, 18 o Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 13 o Annibynwyr, 4 o Fedyddwyr Saesneg ac un o Undeb Bedyddwyr Cymru, 4 o'r Eglwys Gatholig Rufeinig (yno fel aelodau llawn o'r Gynhadledd), 2 o'r Eglwys Fethodistaidd a 2 o Gymdeithas Grefyddol y Cyfeillion. 'Roedd hi felly'n lled gynrychioliadol o'r patrwm enwadol yng Nghymru. O blith y rhain 'roedd 37 (tua 47%) yn bobl leyg a 18 (tua 23%) yn wragedd. O gofio fod hyn dros chwarter canrif yn ôl, 'roedd y Gynhadledd yn dwyn at ei gilydd gynrychiolaeth deilwng a lled gyfartal o holl bobl Dduw yn eglwysi ac enwadau Cymru. (Byddai wedi bod yn ddiddorol i wybod pa nifer o bobl ifanc a oedd yn bresennol - 'roedd y Cyngor wedi bod yn awyddus i sicrhau cyfartaledd dda - ond nid yw'n bosibl darganfod hyn o restr y rhai a oedd yn bresennol). Y mae'r ffaith fod y gynhadledd wedi denu cynrychiolaeth mor dda yn un arwydd o'i phwysigrwydd a'i harwyddocâd yn nisgwyliadau'r eglwysi.

Un o'r profion pennaf o'i heffeithiolrwydd yw'r neges a gyflwynodd a'r argymhellion a gyhoeddodd. Y mae'r neges yn llawenhau fod y cynrychiolwyr wedi darganfod mesur helaeth o gytundeb rhyngddynt ar faterion cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol a moesol. 'Roeddent wedi sylweddoli hefyd 'that the extent, the rapidity and complexity of the changes that are taking place in society demand a rethinking by our churches of Christian social responsiblity and we are convinced that such study should be done by them together'.[1]

--------------------

1. ibid., tud. 7.

'Roedd y ddau gasgliad hyn yn bwysig ynddynt eu hunain ac o ganlyniad prif argymhelliad y Gynhadledd oedd y dylid symud ymlaen gyda brys i sefydlu Adran Cyfrifoldeb Cymdeithasol oddi fewn i Gyngor Eglwysi Cymru, a hynny am dri rheswm.

Yn gyntaf, 'roedd nifer o dasgau canolog yn galw am sylw cytûn yr enwadau a'r eglwysi. Ymhlith y rhain 'roedd yr angen am feithrin deialog mwy effeithiol â chyrff cyhoeddus megis y Swyddfa Gymreig a'r Cydbwyllgor Addysg Cymreig, a pharatoi ar gyfer newidiadau arfaethedig mewn llywodraeth leol yng Nghymru (a fyddai'n digwydd ym 1974). Ymdeimlwyd ag angen hefyd i wynebu newidiadau cenedlaethol a chymdeithasol, megis dyfodol cefn gwlad Cymru a'r angen am fuddsoddi mewn diwydiannau a fyddai'n gwrthweithio'r diboblogi cynyddol yng nghefn gwlad Cymru. Gwelwyd angen hefyd am ystyried cwestiynau iaith a chenedligrwydd a oedd yn achos cryn dyndra mewn rhai ardaloedd yng Nghymru yny cyfnod hwn.

Yn ail, gwelwyd fod angen hybu gweithgarwch cymdeithasol yn lleol. Credid fod cyfathrebu effeithiol yn allweddol i lwyddiant y gwaith hwn ac awgrymwyd comisiynu gweinidogion (ni sonnir am bobl leyg yn y cyswllt hwn, am ryw reswm) i arbenigo yn y maes hwn. Mae'r rhestr o weithgareddau sy'n gofyn am sylw'r eglwysi gyda'i gilydd yn cynnwys polisi addysg, tai, gwella safonau gofal (yn fwyaf arbennig dros yr hen), effaith cronfeydd dŵr ar y boblogaeth leol a pholisi iaith. Yn fwyaf arbennig, awgrymwyd ffyrdd y gallai cynghorau eglwysi lleol weithredu mewn perthynas â rhai o'r materion hyn.

Yn drydydd, awgrymwyd rhoddi sylw arbennig i ddau fater 'cyhoeddus'. Dylai'r eglwysi wneud defnydd mwy effeithiol o'r cyfryngau cyfathrebu a chroesawyd ffurfio Pwyllgor ar Ddarlledu gan y Cyngor. Cefnogwyd apêl y Pwyllgor Cydenwadol ar yr Iaith Gymraeg ar i'r Llywodraeth weithredu ar argymhelliad Cyngor Cymru a Mynwy (a wnaed ym 1963) i sefydlu corff parhaol i ofalu am fuddiannau'r iaith

Gymraeg.

Ar ddiwedd y Gynhadledd gwnaed nifer o ddatganiadau, yn eu plith un yn galw ar yr eglwysi i adeiladu ar y ddeiseb yn galw am gymorth swyddogol i wledydd a oedd yn datblygu, drwy wneud cyfraniadau cynyddol tuag at gymorth, drwy ddatblygu rhaglen addysgol ar y materion hyn a thrwy barhau i ddwyn pwysau ar aelodau seneddol a'r Llywodraeth. Gwnaed datganiad sylweddol hefyd ar yr iaith Gymraeg, a oedd yn gosod y gofal am ddyfodol yr iaith yng nghyd-destun canolrwydd diwinyddol iaith fel cyfrwng cyfathrebu dynol ac adlewyrchiad yn y ddynolryw o'r Duw sy'n cyfathrebu drwy y Gair ac a'n gwnaeth ar ei ddelw. 'Roedd hyn, yn ôl y datganiad, yn hawlio parch at unrhyw iaith. Byddai amarch at iaith yn 'affront to that dignity of man which Christianity is concerned to affirm and uphold. We are taught by our religion to have a reverential regard for one another as the children of God. And such a reverential regard for any man implies, amongst other things, a genuine respect for the language which is his native or mother-tongue.'[1]

Mynegwyd llawenydd hefyd ar achlysur pen-blwydd Y Cenhedloedd Unedig yn bum mlwydd ar hugain, 'We hope that Her Majesty's Government, under your leadership, will be unfailing in its support for this most important agency of peace...'[2]

Nid oes amheuaeth nad oedd y Gynhadledd hon wedi cael dylanwad creiddiol ar raglen cyfrifoldeb cymdeithasol y Cyngor ei hun ac ar bartneriaeth yr enwadau â'i gilydd drwyddo. Cadarnhaodd, yn gyntaf, fod ymateb i faterion cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol yn hanfodol i'r dystiolaeth Gristnogol yng Nghymru. Daeth yn amlwg, yn ail, mai mewn partneriaeth â'i gilydd yn unig y gallai'r enwa-

--------------------

1. ibid., tud. 10.

2. O frysneges a ddanfonwyd at y Prif Weinidog ar 16 Gorffennaf 1970.

dau gyflawni'r cyfrifoldeb hyn yn effeithiol. Yn drydydd, gwelwyd fod cryn gytundeb rhwng yr enwadau ar faterion diwinyddol, moesol ac ymarferol yn y meysydd hyn. O ganlyniad, gellid gweithio yn gytûn arnynt drwy Gyngor Eglwysi Cymru. Yn bedwerydd, cytunwyd fod yn rhaid canolbwyntio ar Gymru, ei bodolaeth, ei chenedligrwydd, ei hiaith, y bygythion i fywyd ei phobl a'i chymdogaethau, a'r newidiadau enbyd a oedd yn digwydd yma o ganlyniad i ddylanwad gwyddoniaeth a thechnoleg ar feddylfryd a diwylliant a ffydd. Yn bumed, gwelwyd fod yn rhaid gweld yr hyn a oedd yn digwydd i Gymru mewn cyd-destun ehangach, a bod y chwyldro byd-eang a gafodd gymaint o sylw yng Nghynhadledd Genefa yn digwydd yng Nghymru a bod angen dysgu gwersi'r byd yng Nghymru. Yn chweched, dylai eglwysi ac enwadau Cymru gydweithio dros fyd mwy cyfiawn a rhydd, a hynny'n bennaf yn y gwledydd a oedd yn datblygu.

Y casgliad anochel oedd fod ffurfio Adran Cyfrifoldeb Cymdeithasol yn fater o frys a chymaint oedd yr angen am hyn fel y galwyd ar yr enwadau i wneud cynnydd sylweddol yn eu cyfraniadau i'r Cyngor er mwyn sicrhau Ysgrifennydd llawn-amser a chynorthwy-ydd a swyddfa. Yn ogystal, credid fod yr agenda a osodwyd gan y Gynhadledd mor enfawr a phwysig fel y byddai angen penodi ysgrifennydd llawn-amser i'r Adran yn fuan iawn. Gwelwyd hyn i gyd fel menter ffydd:

> '(The Churches) will be setting out on a new and difficult journey which will make great demands on their resources. We judge, however, that it will be a journey of faith - faith in the victory of Him to whom belongs all power in heaven and earth.'[1]

Fodd bynnag, ni chafwyd ysgrifennydd llawn amser i'r Cyngor tan 1977 ac ni fu erioed adnoddau digonol i sicrhau ysgrifennydd na rhan-amser na llawn-amser i weithgarwch cymdeithasol y Cyngor. Ond ffurfiwyd Adran Eglwys a Chymdeithas. (Dyma'r enw a roddwyd arni ac nid Adran Cyfrifoldeb Cymdeithasol fel yr argymhellwyd yn wreiddiol). Dyma oedd prif ganlyniad a chyfraniad cynhadledd hanesyd-

---

1. *Conference Declarations and Actions*, Gorffennaf 1970.

dol Caerfyrddin. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf yr Adran ar 12 Mawrth 1973 gyda'r Llywydd, W.Ungoed Jacob, yn cadeirio. Yn ystod y misoedd cyntaf, canolbwyntiwyd ar osod sylfeini'r gwaith a hynny'n bennaf ar sail argymhellion ac adroddiadau Caerfyrddin 1970.

'Roedd dau brif gymhelliad y tu ôl i'r Adran:

> 'A conviction of the world's need for the freedom and fulness of life which Christ brings. Each of our churches in the past has seen that social responsibility is an essential part of its witness.
>
> A conviction that our churches should rethink together the nature of Christian responsibility and, where possible, act together on such issues...'[1]

Sylweddolwyd o'r cychwyn na fyddai gosod blaenoriaethau'n hawdd gan fod y maes mor eang. Yng ngeiriau'r memorandwm: 'The tithing of mint and anise has always been easier than pursuing the mightier matters of justice and mercy.' Cytunwyd, fodd bynnag, ar dri chylch o weithgarwch i'r Adran. Yn gyntaf, materion byd-eang, yn cynnwys materion 'Un Byd' (dyma gyfnod yr adroddiad *Limits to Growth*) a datblygiad, yr ymgais am heddwch byd, a'r ymdrech dros drefn wleidyddol a chymdeithasol gyfiawn mewn gwladwriaethau (megis, De'r Affrig a Rhodesia). Yn ail, byddai Cymru yn cael sylw, yn cynnwys cwestiynau cenedl ac iaith, cyfranogi mewn llywodraeth leol a chenedlaethol, Cymru a'r gymuned Ewropeaidd, polisi addysg, cyflogaeth, economi a'r amgylchfyd, y cyfryngau torfol, deddfau trwyddedu a diboblogi cefn gwlad. Yn olaf, byddai'n rhaid ystyried materion personol megis gofal a lles, cyffuriau, moesoldeb rhywiol a sensoriaeth, a chadwraeth y Sabath.

'Roedd Pwyllgor Darlledu eisoes mewn bodolaeth erbyn hyn a byddai rhai o'r materion hyn yn rhan o'i gyfrifoldeb. Bu gan y Cyngor Bwyllgor Diwydiant ers 1965;

---

1. Memorandwm i'r Adran, 12 Mawrth 1973.

gwnaethai waith holl-bwysig eisoes a byddai'n parhau i ddwyn y cyfrifoldeb pennaf dros faterion diwydiannol ac economaidd Cymreig. Yn ystod y blynyddoedd dilynol canolbwyntiodd yr Adran ei sylw ar rai o'r pynciau eraill, yn cynnwys, hunanlywodraeth a'r iaith Gymraeg [1], materion economaidd a diwydiannol,[2] hilyddiaeth a Deheudir yr Affrig,[3] a rhyfel a heddwch[4].

---

1. gweler pennod 10.
2. gweler penodau 11 - 13.
3. gweler pennod 14.
4. gweler penodau 15 a 16.

# PENNOD 10

## YR EGLWYSI A HUNANLYWODRAETH I GYMRU

"It is a noteworthy fact that nationalist thought in Wales has been guided by men with strong Christian convictions. Michael D. Jones, Emrys ap Iwan, Thomas Gee, T.E.Ellis, E.T.John, J.E.Daniel, J.R.Jones, Saunders Lewis, Gwenallt Jones, D.J.Williams, Miall Edwards, Gwynfor Evans, Waldo Williams, J.Gwyn Griffiths, Pennar Davies and D. Eirwyn Morgan have all developed their nationalism on the basis of specifically Christian presuppositions...wishing to understand their political commitment in the light of the Christian revelation...(Yet for many) this line of thought (is) a perversion of Christianity. For them nationalism is a direct contradiction of the Gospel emphasis on the centrality of love, a pernicious undermining of the true internationalism of Christianity, a retreat into a nasty chauvanism, an attempt to transform Jesus Christ into a national mascot and plain treason against the message of reconciliation."[1]

Dyma grynhoi mewn un paragraff rai o'r prif gasgliadau y gellir dod iddynt o ganlyniad i astudiaeth o'r Eglwysi a Hunan-lywodraeth i Gymru yn ystod y ganrif hon. Yn gyntaf, y mae'r mwyafrif o'r rhai a wnaeth y cyfraniad mwyaf at ddehongli ystyr cenedlaetholdeb Cymreig a lle hunanlywodraeth ynddo wedi bod yn rhan allweddol o fywyd yr eglwysi. Yn ail, credent fod eu dealltwriaeth hwy o genedlaetholdeb yn tarddu'n uniongyrchol yn eu ffydd Gristnogol a'r Beibl. Yn drydydd, credai eraill gyda'r un angerdd fod cenedlaetholdeb o'r fath - ac felly, unrhyw ymdrech o blaid hunanlywodraeth i Gymru - yn hollol groes i'r ddealltwriaeth Gristnogol mai amcan Duw yw uno'n ddynoliaeth gyfan yn un teulu yng Nghrist, ac nad oes unrhyw le i genedlaetholdeb yn y bwriad hwn. Fel y gwelwn, bydd y pwyntiau hyn yn ymddangos drosodd a thro wrth inni fwrw golwg dros ymwneud yr eglwysi â hunanlywodraeth i Gymru yn ystod y blynyddoedd o dan sylw.

Yn yr adran hon ystyrir rhai o'r dehongliadau Cristnogol o Genedl, Llywodraeth, Iaith a Hunaniaeth a chawn gipolwg ar rai o'r ymatebion cyd-eglwysig i rai o'r prif ddigwyddiadau yn yr ymdrech dros hunanlywodraeth yn ystod yr hanner canrif ddiwethaf.

--------------------

1. R. Tudur Jones, *Christian Nationalism*, yn *'This Land and People'*, tud. 74, Canolfan Ddiwinyddiaeth Golegol, Caerdydd, 1979, sy'n cynnwys cyfres o erthyglau gwerthfawr ac amrywiol ar hunaniaeth genedlaethol Gristnogol a Chymreig.

**EGWYDDORION**

Yn ei draethawd yn *This Land and People* y mae R. Tudur Jones yn disgrifio'r ymdrech genedlaethol fel ymgyrch rhyddhad:

> 'concerned with releasing the creative energies of the Welsh people so that they may live a fuller, more humane, more democratic life and so contribute responsibly to the making of history...The struggle for a Welsh parliament provides some hope of gioving structural expression to the deeply held conviction of the Welsh people over the centuries that the maximum diffusion of power amongst citizens and amongst the various societal structures that comprise the nation is greatly to be desired.'[1]

Drosodd a thro pwysleisir mai nod yr ymdrech yw nid annibyniaeth ond rhyddid:

> 'And the meaning of freedom in this matter is responsibility. We who are Welsh people claim that we are responsible for the civilisation and the ways of social life in our part of Europe.'[2]

Mewn erthygl ym 1973 y mae Archesgob Cymru ar y pryd, G.O.Williams, yn gwneud yr un pwynt:

> 'If we care for our heritage in Wales we have to concern ourselves with political questions. There is a place for the kind of nationalism that seeks to secure for Wales whatever degree of autonomy is needed to control vital decisions affecting the life of the nation. 'Independence' is a concept that seems to me to have little relevance...The proper debate is about where the particular decisions ought to be made - the degree of devolution that the Welsh situation demands.'[3]

Y mae'n deg dweud, er hynny, fod yna nifer fawr o bobl ddylanwadol ac aelodau 'cyffredin' yn ein heglwysi ni sy'n gwrthod y safiad hwn yn llwyr, fel y crybwyllwyd eisoes. Ystyrier, fel enghraifft, y dyfyniad hwn o waith Daniel Jenkins, brodor o Ddowlais a dreuliodd ei yrfa, bron yn gyfan gwbwl, yn Lloegr:

> 'A Christian interest...(would predispose us), other things being equal, to support a wider and more inclusive loyalty rather than a narrow and sharply defined one...The Ecumenical Movement arose at least in part as an attempt to express Christian repentance for having so uncritically baptized national movements in the past *(cyfeiriad yw hwn at y ddau ryfel)* and many older ecumenists find it depressing that the

--------------------

1. ibid., tud. 91.
2. Gwynfor Evans, dyfynnir gan R. Tudur Jones, ibid., tud. 89.
3. G.O.Williams, yn *The Welsh Dilemma*, gol. W.J.Morgan, 1973, tud. 58.

> same is being done again in many parts of the world...'[1]

Os edrychwn yn ôl at gyfnod yr Ail Ryfel Byd gwelwn fod trafodaeth fywiog iawn wedi bod ynglŷn â pherthynas yr ymdrech dros hunanlywodraeth i Gymru â'r hyn oedd yn digwydd ar y pryd yn yr Almaen. Un o'r Cristnogion amlycaf yn y dadleuon hyn oedd yr Athro J.E.Daniel, Athro Athrawiaeth Gristnogol yng Ngholeg Bala-Bangor. Wrth ystyried y peryglon a wynebai wareiddiad yn y cyfnod hwnnw fe ddywed:

> 'O'r dde ac o'r chwith, gan gyfalafwyr cydgenedlaethol dinas Llundain a chan Moscowpolitaniaid cydgenedlaethol y Blaid Lafur, cyhoeddir mai prif achos rhyfeloedd ydyw Cenedlaetholdeb. Prif achos rhyfeloedd a phrif berygl gwareiddiad heddiw yw galluoedd chwyddedig y gwladwriaethau mawr, nad oes ynddynt wir ddemocratiaeth. Unig obaith gwareiddiad yw eu ffrwyno, a'r unig arf sydd ganddo yw Cenedlaetholdeb.'[2]

Drosodd a thro cyhoeddodd ei gred fod unrhyw ymsyniad o hunanlywodraeth yn golygu

> 'natur iswasanaethgar... y wladwriaeth, yr angen am hunangynhaliaeth neu "genedlaetholdeb economaidd", ymwrthodiad â chyfalafiaeth y farchnad rydd, yr alwad i warchod buddiannau'r teulu, hawl y werin ar ei thiroedd ei hun, pwysigrwydd amaethyddiaeth fel sylfaen ar gyfer economi'r genedl, ynghyd â'r delfryd o ddad-ddiwydiannu'r Deheubarth.'[3]

Yn ystod y cyfnod hwn cafodd Daniel ei feirniadu'n llym iawn - a hynny gan bobl oddi mewn i'r eglwysi - am wrthod condemnio'r hyn a wnâi'r Ffasgiaid yn Ewrop a chefnogi'r ymdrech filwrol yn erbyn Hitler. Iddo ef yr archelyn mawr oedd Comiwnyddiaeth ac felly, meddai, 'beth bynnag yw'r elyniaeth rhwng Ffasgaeth a Democratiaeth try'n gyfeillgarwch yng ngwydd y gelyn mawr, Comiwnyddiaeth.'[4] Bu'r ddadl hon yn un gyhoeddus a chwerw iawn, gyda'r ohebiaeth rhwng Daniel a

--------------------

1. Daniel Jenkins, *A British Welsh Reaction*, yn *This Land and People*, tud. 113.

2. J.E.Daniel, Y Genedl a'r Wladwriaeth, yn 'Y Ddraig Goch', Medi/Tachwedd 1939; argreffir yn 'Torri'r Seiliau Sicr, gol. D.Densil Morgan, Gwasg Gomer 1993, tud. 143.

3. ibid., tud. 53.

4. ibid., tud. 53.

golygydd Y Llenor, Yr Athro W.J. Gruffydd, yn un arbennig o chwerw a phersonol. Amddiffynai Daniel bolisi niwtraliaeth y Blaid yn ystod y rhyfel oherwydd

> 'nid gormes gwladwriaethol boed Ffasgaidd neu Gomiwnyddol oedd y nod, na grym canolog llywodraeth ddemocrataidd fel yr eiddo Lloegr. "Our aim is to make Wales self-governing...by so diffusing property that Welshmen rule themselves"'[1]

Daw Densil Morgan i'r casgliad, ar ôl ymdrin â'r ohebiaeth ryfeddol hon fod yr hollt rhwng y ddwy agwedd 'Gristnogol' yn gyflawn:

> 'Ar y naill law, dyneiddiaeth oleuedig a'i harswyd o absoliwtiaeth wleidyddol a chrefyddol o bob math oedd y safon i fesur popeth ac ar y llall, hawl sylfaenol Cymru i benderfynu ei thynged ei hun.'[2]

Ychydig enghreifftiau yn unig yw'r rhain o ymrwymiad amlwg nifer fawr o arweinwyr yr eglwysi a'r enwadau yng Nghymru nid yn unig wrth genedlaetholdeb ond wrth hunanlywodraeth i Gymru. Ac fel y gwelwn fe adlewyrchwyd y rhain mewn penderfyniadau enwadol a chydenwadol. Dylid nodi fod rhai wedi dehongli'r gefnogaeth hon i genedlaetholdeb, i hunanlywodraeth ac i'r iaith Gymraeg nid fel rhan o dystiolaeth gymdeithasol yr enwadau ond yn hytrach fel elfen sylfaenol o'u cenhadaeth Gristnogol i adeiladu'r eglwysi mewn cyfnod o ddirywiad. Mewn astudiaeth sy'n canolbwyntio ar ddadansoddi ymateb y pleidiau gwleidyddol a'r sefydliadau Cymreig i'r 'Cwestiwn Cymreig' y mae Alan Butt Phillips yn dod i'r casgliad fod Mudiadau Cenedlaethol yn aml wedi derbyn cymorth gwleidyddol sylweddol oddi wrth yr eglwysi Cristnogol ac yn wir fod parhad yr enwadau a'r eglwysi wedi ei gysylltu ar brydiau â llwyddiant gwleidyddol y mudiad cenedlaethol:

> 'In most cases it does not appear that support for the nationalist and linguistic movements among priests and ministers of religion is entirely disinterested. While many have an intellectual commitment to nationalism and a strong interest in the cultural development of society, many too are aware of the general decline of the hegemony of organised Christian sects and see in nationalism a way of restoring or preserving their social control over the populace, especially the young and thus

---

1. ibid., tud. 58.
2. ibid., tud. 63.

arresting the decline of church influence.'[1]

Y mae'n anodd dod o hyd i unrhyw dystiolaeth sy'n cefnogi'r thesis hwn, sef, fod safiadau ynglŷn â hunanlywodraeth a'r iaith Gymraeg yn cael ei gwneud ar unrhyw seiliau heblaw rhai dilys Gristnogol a diwinyddol ac mai achub awdurdod yr eglwys yn y gymdeithas Gymreig oedd cymhelliad yr ymgyrchu. Yn wir, sylweddolwyd ers degau o flynyddoedd nad oedd unrhyw safiadau gwleidyddol na newidiadau mewn sefydliadau gwleidyddol yn debyg o drawsnewid safle'r eglwysi a'r enwadau oddi fewn i'r gymdeithas nac o arwain at gynnydd yn eu haelodaeth. Ffactorau hollol arall fyddai'n arwain at hynny!

Yn naturiol, y mae perthynas rhwng hunanlywodraeth a'r iaith Gymraeg ym meddwl yr enwadau a'r eglwysi yng Nghymru. Dros y blynyddoedd y mae ymgyrchu dros y ddau fater hyn wedi mynd law yn llaw â'i gilydd. Yn wir, wrth ddadansoddi ymatebion enwadol y mae llawer wedi credu fod ymatebion i'r iaith Gymraeg yn fesur o ymrwymiad i genedlaetholdeb ac i hunanlywodraeth. Y mae'n amheus a ydyw hwn yn gasgliad teg. Heb unrhyw amheuaeth byddai'n llawer haws dod i gytundeb cydenwadol heddiw ar ymgyrchu dros yr iaith Gymraeg na thros hunanlywodraeth. Y mae cryn gytundeb ynglŷn â'r naill ond cryn anghytundeb ynglŷn â'r llall. Yn y cyswllt hwn y mae'n ddiddorol sylwi fod Saunders Lewis, yn ei Ddarlith Radio 'Tynged yr Iaith' ym 1962 yn rhoi'r flaenoriaeth i ymgyrchu dros yr iaith:

> 'Efallai y byddai'r iaith yn dwyn hunanlywodraeth yn ei sgil - nis gwn i. Y mae'r iaith yn bwysicach na hunanlywodraeth. Yn fy marn i, pe caed unrhyw fath ar hunanlywodraeth i Gymru cyn caniatáu a defnyddio'r iaith Gymraeg fel iaith swyddogol...yn ardaloedd Cymraeg Cymru, yna ni chai'r iaith statws swyddogol o gwbl...'[2]

Ar y cyfan, nid yw'r eglwysi a'r enwadau yng Nghymru wedi derbyn yr ymresymu hwn. Tra'n cydnabod cydgysylltiad rhwng yr iaith a hunanlywodraeth cadwyd

---

1. Alan Butt Phillips, *The Welsh Question: Nationalism in Welsh Politics, 1945 - 1970*, Gwasg y Brifysgol, 1975, tud. 328.

2. Saunders Lewis, Darlith Radio, 13 Chwefror 1962, 'Tynged yr Iaith'

ymgyrchu dros y naill a'r llall ar wahân i'w gilydd, heb geisio mewn unrhyw fodd benderfynu blaenoriaethau rhyngddynt.

Gallwn ystyried ymatebion cydeglwysig i hunanlywodraeth yng Nghymru drwy ganolbwyntio ar rai o brif ddigwyddiadau'r degawdau diwethaf, sef, sefydlu Comisiwn Crowther ym 1970 a'i adroddiad fel Comisiwn Kilbrandon ym 1974, trafodaethau ynglŷn â datganoli yng nghyfnod refferendwm 1979 a'r trafodaethau diweddaraf am ddemocratiaeth yng Nghymru. Bu cryn drafod enwadol a chydenwadol yn y cyfnodau hyn a gallwn weld darlun lled eglur o ymateb yr eglwysi drwy wneud arolwg o'r trafodaethau hyn.

Cyn symud ymlaen at yr ymatebion hyn dylid nodi fod adran arbennig ar 'hunanlywodraeth ac undod dynol' yng nghynhadledd y Cyngor ar yr Eglwys a Chymdeithas ym 1970. Y mae adroddiad yr adran hon yn adlewyrchu'r rhaniad oedd yn anochel ymhlith yr enwadau yng Nghymru, gyda rhai'n datgan fod 'ffurf ar hunanlywodraeth yn angenrheidiol i sichrau'r lles mwyaf i bobl Cymru' ac eraill yn cymell pwyll nes bod yr eglwysi wedi dwyn at ei gilydd 'yr holl wybodaeth, economaidd ac arall, ac wedi cynnull tîm o arbenigwyr i ystyried y materion hyn'[1] gyda golwg ar ddwyn adroddiad i Gomisiwn Crowther.

## COMISIWN CROWTHER A KILBRANDON

Sefydlwyd Comisiwn Crowther ym 1969 fel comisiwn brenhinol ar y cyfansoddiad gyda chanllawiau eang iawn yn cynnwys pob agwedd o weithrediadau llywodraeth ganolog a llywodraeth leol. 'Roedd arno ddau aelod Cymreig, Syr Ben Bowen Thomas ac Alun Talfan Davies - y ddau ohonynt â chryn gydymdeimlad â hunanlywodraeth i Gymru a'r ddau hefyd â chysylltiadau agos â bywyd yr enwadau yng Nghymru. Cyflwynodd yr holl enwadau yng Nghymru, ac eithrio'r Eglwys Gatholig

---

1. Adroddiad Cynhadledd Cyngor Eglwysi Cymru ar Yr Eglwys a Chymdeithas, Gorffennaf 1970, tud. 6.

Rufeinig, dystiolaeth i'r Comisiwn. Nid yn annisgwyl, 'roedd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn gefnogol i egwyddor hunanlywodraeth, ac Undeb y Bedyddwyr hefyd (a bwysleisiodd nad oedd hyn yn golygu arwahanrwydd nac ynysrwydd.) Yn ei thystiolaeth hi, pwysleisiodd Eglwys Bresbyteraidd Cymru

> 'un peth yn unig fyddai'n cyfarfod â'r holl ofynion ac yn rhoddi cyfle i Gymru fyw fel cenedl. Dim ond awdurdod pobl Cymru dros eu bywyd eu hunain fyddai'n medru cadw a meithrin y gwerthoedd y ceisiodd y Methodistiaid Calfinaidd eu datblygu yn y genedl dros y canrifoedd.'[1]

Yn ei hymateb hithau dywedodd yr Eglwys yng Nghymru fod 'dadgysylltiad wedi bod yn fendith i'r Eglwys yng Nghymru. 'Roedd i'r iaith Gymraeg yr un statws â'r Saesneg yn yr Eglwys. Dylai unrhyw Gyngor neu Senedd fod yn gorff etholedig.'[2]

Bu'r Comisiwn yn araf iawn yn cyflawni ei dasg. Yn ôl Kenneth O. Morgan '(it) pursued its slow and deliberate path between 1970 and 1973, with only vague hopes that a new step forward towards self-government might result.'[3] Cyhoeddwyd ei adroddiad ym 1973, a'r Comisiwn wedi ei ailenwi'n Gomisiwn Kilbrandon erbyn hynny, gan fod yr Arglwydd Kilbrandon bellach yn Gadeirydd yn dilyn marwolaeth yr Arglwydd Crowther.

> 'Cytunodd pob un o'r tri chomisiynydd ar ddeg fod y drefn a oedd ohoni'n anfoddhaol; ffafriai dau ohonynt system o gynghorau rhanbarthol i'r deyrnas gyfan, tra oedd dau arall o blaid cryfhau awdurdod swyddfeydd Cymru a'r Alban. Cymeradwyo corff etholedig i Gymru a wnaeth y gweddill, gyda chwech ohonynt - a'r ddau aelod Cymreig yn eu plith - yn dymuno i'r corff hwnnw fod â phwerau deddfwriaethol.'[4]

Sefydlwyd gweithgor gan Gyngor Eglwysi Cymru i lunio ymateb i'r Adroddiad. Y mae adroddiad y gweithgor cydenwadol hwn yn argymell tair egwyddor gyffredinol fel sylfaen i'w ddaliadau:

--------------------

1. Dyfynnir yn *Christians and Nationalism in Modern Wales*, gan J.P.Brown, *This Land and People*, 1979, tud. 51.

2. Ymateb a gyflwynwyd ym 1970 ac a gyhoeddwyd yn Yr Haul, Gaeaf 1971.

3. Kenneth O.Morgan, *Rebirth of a Nation: Wales 1880 to 1980*, tud. 394.

4. John Davies, Hanes Cymru, tud. 649.

'a) Churches have an interest in fostering a healthy and responsible sense of citizenship and a responsibility for encouraging this attitude amongst their members.
b) (The importance of) the identity and distinctive character of the society and its people and a desire to see institutions which will sustain these qualities and which will be effective instruments for dealing with the problems peculiar to Wales.
c) (A) responsibility to ensure that constitutional changes lead to improvement in service and do not hinder effectiveness in meeting needs.'[1]

Credai'r gweithgor y byddai sefydlu Cynulliad Etholedig Cymreig yn gam ymlaen sylweddol a'i fod i'w groesawu, ond ni fyddai'n ddigonol onibai fod gan y Cynulliad bwerau addas a'i fod yn fwy na chorff ymgynghorol. Yr oedd yn gytûn y dylai Cyngor Eglwysi Cymru gefnogi datganoli gweinyddol i Gynulliad Cymreig. 'Roedd y gweithgor yn fwy ansicr ynglŷn â'r argymellion i drosglwyddo pwerau cyfreithiol mewn rhai meysydd a'r hawl i ddosbarthu adnoddau ariannol ond heb yr hawl i osod trethu. Nid oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i'r trefniadau hyn, ond ni allai roi ei gefnogaeth lwyr gan na chredai fod mwyafrif digonol yng Nghymru o blaid y drefn hon, a'i fod yn ofni y byddai trosglwyddo'r pwerau hyn yn fater cymhleth ac araf. Credai'r gweithgor yn hytrach mai gwell fyddai oedi ynglŷn â hyn a chwilio am ffyrdd o roddi i'r Cynulliad fodd i ddylanwadu ar ddeddfwriaeth. Byddai hyn yn galluogi gweithredu ar fyrder ar yr argymelliad sylfaenol am Gynulliad Gweinyddol tra'n rhoi amser i ystyried yn ofalus gamau priodol tuag at Gynulliad â phwerau mwy sylweddol. (Dylid nodi hefyd fod y Cyngor wedi rhoi cryn sylw yn ogystal i'r argymhellion ynglŷn ag ad-drefnu lleol a'r newidiadau mewn cyfartaledd cynrychiolaeth a awgrymwyd gan Kilbrandon, ac wedi argymell y dylai etholiadau i'r cynulliad fod ar sail addasiad o gynrychiolaeth gyfrannol).

Derbyniwyd yr adroddiad hwn gan Adran Eglwys a Chymdeithas Cyngor Eglwysi Cymru yng Ngorffennaf 1974 a'i ddanfon at y Swyddfa Gymreig a'r enwadau yng Nghymru.

---

1. Adroddiad Grŵp Cyngor Eglwysi Cymru ar Adroddiad Kilbrandon, Gwanwyn 1974, tud. 1.

## DATGANOLI: CYMRU A PHRYDAIN

Cymerodd rai blynyddoedd i'r Llywodraeth Lafur ddwyn deddfwriaeth gerbron y Senedd i weithredu'r argymhellion hyn, deddfwriaeth a arweiniodd at y refferendwm ym 1979. Yn y cyfamser, 'roedd Cyngor Eglwysi Prydain a Chyngor Eglwysi Cymru wedi ystyried datganoli ac wedi cytuno ar benderfyniadau eglur o'i blaid. Ym mis Mawrth 1977 derbyniodd Cymanfa Cyngor Eglwysi Prydain adroddiad ar 'Ddatganoli ac Eglwysi Prydain' a ysgrifennwyd gan Archesgob Cymru (G.O.Williams), Bill Johnson (Eglwys yr Alban) a W.D. Pattinson (Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Loegr).

Barnai'r adroddiad:

> '...devolution for both (Scotland and Wales is) necessary now and...legislative devolution for Wales (is) as necessary as for Scotland.'[1]

Credai y dylai'r Cynulliad gael awdurdod digonol (gan gynnwys awdurdod economaidd) i'w alluogi i gael dylanwad real ar fywyd y genedl a bod Bil Cymru a'r Alban yn syrthio'n fyr o'r gofynion - yn ddifrifol felly mewn rhai materion. Gwelent sefydlu Cynulliad o'r fath fel cyfle i greu patrymau cymdeithasol newydd (yn fwyaf arbennig ym meysydd cyd-berthynas ddiwydiannol, cyfrifoldeb cymdeithasol ac addysg). Gobeithient hefyd y byddai'r Cynulliad yn medru codi ei olygon uwchlaw hawliau cenedlaetholdeb '...to look to the developed and developing world. Christians whose first loyalty is to the man who died for all mankind cannot be simply, uncritically, nationalists and will always watch out for the dangers of any less inclusive loyalties.'[2]

Mewn llythyr at Ysgrifennydd Cyngor Eglwysi Cymru yn ystod cyfnod paratoi ar gyfer trafodaeth Cymanfa Cyngor Eglwysi Prydain o'r adroddiad, dywedodd Harry O. Morton, a oedd yn Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Eglwysi Prydain ar y pryd,

---

1. *Devolution and the British Churches*, Cyngor Eglwysi Prydian, 1977, tud. 38.
2. ibid., tud. 53.

'The significance of this occasion is to engage the English in having to think seriously about their future relationships with Wales and Scotland.' Yn ei Ragair i'r Adroddiad y mae'n tanlinellu'r pwynt hwn: 'What will not do is for residents in England to continue ignoring the plain will of the majority of the Scottish and Welsh peoples. A change of heart among the English will greatly help all the major political parties to move quickly to an acceptable consensus and early legislation.'[1]

Ar ddiwedd y drafodaeth o'r Adroddiad yn y Gymanfa derbyniwyd penderfyniad a oedd yn cydnabod yr angen am ddeddfwriaeth datganoli i gyfarfod ag anghenion arbennig Cymru a'r Alban, yn pwyso am i'r pwerau a ddatganolid i Gynulliadau fod yn ddigon sylweddol i roddi iddynt le arwyddocaol ym mywyd Cymru a'r Alban ac yn mynegi consyrn fod unoliaeth y Deyrnas Gyfunol yn cael ei gadw. Dyma'r tro cyntaf, yn wir yr unig dro, i gorff cydenwadol Prydeinig wneud ymrwymiad mor eglur a chadarn i ddatganoli. 'Roedd felly yn benderfyniad hanesyddol.

Rhaid gofyn, fodd bynnag, pa nifer o'r eglwysi a'r enwadau oddi allan i Gymru a'r Alban a oedd yn aelodau o'r Cyngor fyddai wedi pasio penderfyniad yn y termau hyn yn eu cymanfaoedd enwadol eu hunain. Mae lle i gredu fod Cyngor Eglwysi Prydain, ar y pryd, ar y blaen i lawer o'r enwadau a oedd yn aelodau ohono, yn y mater hwn fel mewn nifer o faterion eraill.

Ym mis Hydref 1977 cytunodd Cyngor Eglwysi Cymru hefyd ar benderfyniad ar Ddatganoli:

> 'Y mae Cyngor Eglwysi Cymru...yn cadarnhau o'r newydd ei argyhoeddiad fod Cynulliad Etholedig yn hanfodol i sicrhau llywodraeth dda yng Nghymru, i roi'r mesur angenrheidiol o ddatganoli a democratiaeth ac i ddiogelu hunaniaeth cenedlaethol y Cymry.
>
> 'Y mae'r Cyngor yn gofidio am yr oedi yn sefydlu'r Cynulliad ac yn annog Llywodraeth ei Mawrhydi i symud ymlaen cyn gynted â phosibl yn y mater hwn gan gredu y bydd oedi yn gwneud y sefyllfa'n waeth.

---

1. ibid., tud. iii.

> '...Y mae'r Cyngor yn annog Eglwysi Cymru i wneud popeth yn eu gallu i atgoffa'r pleidiau gwleidyddol fod hwn yn fater o frys, ac yn galw ar bob Cristion i gyfranogi yn y drafodaeth hon mewn modd rhesymol a chymodlon.'[1]

Croesawyd y penderfyniad hwn gan nifer o'r enwadau, yn arbennig felly, yr enwadau anghydffurfiol Cymraeg. Yr oedd, wedi'r cyfan, yn cynrychioli safbwynt llawer iawn ohonynt ac yr oedd yn dda cael mynegiant cydeglwysig o'u safiad. Fodd bynnag, er bod arweinwyr nifer o'r enwadau eraill yn gefnogol i brif bwyslais y penderfyniad nid oedd yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn. Ac fe gafwyd un llythyr oddi wrth un offeiriaid yn yr Eglwys yng Nghymru - fu'n dra chefnogol i weithgareddau ecwmenaidd - yn ymateb yn chwyrn iawn i'r penderfyniad:

> '...the resolution on devolution I personally find totally unacceptable and believe to be unrepresentative of the opinions of the majority of my congregations. Therefore...I would prefer to have no further dealings with the (Council of Churches for Wales). Both the issues of language and devolution are extremely divisive, and in my opinion, it would have been wiser and more charitable to have kept them separated from a movement specifically designed to heal the breaches of the past and intended to bring separated people together.'[2]

Y mae'r ymateb a ddanfonwyd ar y pryd yn dal i fynegi'r dasg ecwmenaidd mewn sefyllfa o'r fath:

> 'Any church council which does not tackle (divisive issues) is lacking ecumenical obedience...The ecumenical vision embraces the whole of life and involves an evaluation of and concern for the whole of society...On many points there will be agreement. On some matters we will disagree and on those occasions we will wish to state our criticisms and seek in mutual love to clarify the issues, absorb the tensions and continue to grow together.'[3]

**Y REFFERENDWM**

Ym Mawrth 1979 daeth y refferendwm ar Ddatganoli a'r methiant llwyr i sicrhau mwyafrif digonol o blaid y mesur ymhlith etholwyr Cymru (12% yn unig a bleidlei-

---

1. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 13 Hydref 1977.
2. Llythyr dyddiedig 28 Rhagfyr 1978.
3. Llythyr dyddiedig 23 Ionawr 1979.

siodd dros y Mesur yng Nghymru.) Yn ôl John Morris, yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd, 'Pan ydych yn gweld eliffant ar stepyn y drws 'rydych yn gwybod ei fod e yno.'[1] Nid oedd yamteb yr eglwysi a'r enwadau yn gyffredinol yng Nghymru, na'u haelodau ychwaith, yn wahanol i ymateb yr etholwyr. Bu rhai oedd yn frwd dros hunanlywodraeth yn gefnogol i'r mesur ac eraill, a oedd yr un mor gefnogol i hunanlywodraeth, yn gwrthod y Mesur am nad oedd yn cwrdd â'r gofynion ar y pryd. 'Roedd eraill, wrth gwrs, yn wrthwynebus i hunanlywodraeth, ac felly yn gwrthod y Mesur. Y gwir ydoedd nad oedd rhychwant barn yr enwadau a'r eglwysi yn dra gwahanol i'r farn gyhoeddus gyffredinol.

Y cwestiwn sylfaenol i Gyngor Eglwysi Cymru oedd: Beth oedd i'w wneud yn awr? Yn ei gyfarfod ar 21 a 22 Mawrth cafwyd trafodaeth ar y thema, Wedi'r Refferendwm. Holodd Huw Wynne Griffith, a oedd yn Ysgrifennydd Adran Eglwys a Chymdeithas y Cyngor, tybed a oedd y canlyniadau yn taflu goleuni ar farn yr eglwysi yn y cyswllt hwn ac ar y modd yr oedd y Cyngor (a'r enwadau a berthynai iddo) yn llunio datganiadau ar faterion cyhoeddus fel hyn a'u heffeithiolrwydd fel modd o ddyfnhau dealltwriaeth ac aeddfedu barn yn yr eglwysi lleol. Credai cyn-ysgrifennydd y Cyngor, Meirion Lloyd Davies, fod y problemau y ceisiodd y Mesur gynnig atebion iddynt yn parhau. Ofnai y gellid camddefnyddio'r canlyniadau mewn perthynas ag ymddygiad tuag at ddyfodol yr iaith Gymraeg. Credai hefyd nad oedd yr ymgyrchu wedi ymgodymu â'r gwir broblemau, a bod angen llawer mwy o addysgu cyhoeddus mewn problemau gwleidyddol cyn bod refferendwm yn ddull effeithiol o geisio barn. Pwysleisiodd Esgob Abertawe ac Aberhonddu[2] fod angen cadw tri pheth mewn golwg: fod i bobl Cymru eu hunaniaeth eu hunain, fod i ddiwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg eu lle hanfodol a bod gofal am sefyllfa econo-

--------------------

1. Dyfynnir gan John Davies, Hanes Cymru, tud. 652.

2. Y Gwir Barchedig B.N.Y.Vaughan, Cadeirydd Adran yr Eglwys a Chymdeithas, Cyngor Eglwysi Cymru.

maidd Cymru yn holl-bwysig.[1]

Yng nghyfarfod y Cyngor ar 24 Ebrill 1980 trafodwyd Datganiad ar y sefyllfa yng Nghymru a chytunwyd i'w ddanfon at yr eglwysi a'r enwadau fel papur trafod - er nad oedd wedi ei dderbyn fel polisi swyddogol y Cyngor. 'Roedd hwn yn bapur cynhwysfawr a gymerodd olwg eang iawn ar y sefyllfa. Nododd, er enghraifft, fod bygythiad cynyddol i ddyfodol Cymru, y gallai'r llywodraeth gymryd mantais o ganlyniad y Refferendwm i esgeuluso Cymru'n economaidd. Mynegai'r papur ofn yr ystyrid Cymru fel rhanbarth ymylol oni cheid corff fyddai'n cynrychioli Cymru gyfan. Yn benodol, cydnebydd o'r newydd 'fod ymdrechu o blaid hunanlywodraeth cenedlaethol a hunaniaeth diwylliannol yn gyson â hawliau Teyrnas Dduw'. Dylid sylwi hefyd ei fod, tra'n pwysleisio hawliau'r genedl fach, yn rhoddi'r un pwyslais ar greu cymdeithas aml-ddiwylliannol: '...rhaid ymdrechu dros anghenion a hawliau gwleidyddol, economaidd a diwylliannol cenedl fach yn ei pherthynas â chenedl fawr...rhaid gweithio hefyd i wneud deialog rhyng-ddiwylliannol yn bosibl yng Nghymru ar bob lefel o fywyd y genedl.'

Dyma'r datganiad olaf a wnaed gan y Cyngor am rai blynyddoedd. Parhawyd i ymdrechu dros yr iaith Gymraeg a thros ehangu darpariaethau darlledu Cymraeg, yn fwyaf arbennig drwy'r bedwaredd sianel. Yn ystod y cyfnod hwn 'roedd rhai o'r enwadau yn dal i wneud datganiadau o bryd i'w gilydd, i atgoffa'u haelodau, y genedl a'r llywodraeth nad oedd y problemau eto wedi diflannu a bod angen o hyd am batrwm gwleidyddol a fyddai'n cyfarfod yn effeithiol ag anghenion pobl Cymru.

## DEMOCRATIAETH YN Y 90au

Aeth deng mlynedd heibio cyn i gwestiwn hunanlywodraeth gael unrhyw ymdriniaeth sylweddol eto. Erbyn hyn 'roedd Cyngor Eglwysi Cymru wedi peidio â bod a Chytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru wedi cymryd ei le, gyda'r Eglwys Gatholig

1. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 21 - 22 Mawrth 1979.

Rufeinig yn aelod cyflawn, am y tro cyntaf, yn y corff cyd-eglwysig yng Nghymru. Ond 'roedd y newid hwn yn fwy na newid enw ac ehangu aelodaeth. 'Roedd hefyd yn newid sylfaenol yn natur a phwrpas y corff cyd-eglwysig yng Nghymru. Ni fyddai Cytûn, yn arferol, yn gwneud datganiadau yn ei enw ei hunan, ac yn anamlach fyth yn enw'r enwadau a'r eglwysi. Tasg sylfaenol Cytûn fyddai hybu partneriaeth rhyngddynt a'u galluogi i ddod i gytundeb â'i gilydd ar bolisi a gweithgarwch. Beirniadwyd hyn yn llym gan rai yn yr enwadau - nid lleiaf yn yr enwadau anghydffurfiol Cymraeg a fyddai wedi bod yn awyddus i weld Cytûn yn cynnig arweiniad llawer mwy eglur ar fater hunanlywodraeth i Gymru nag a wnaeth - ac fe'i croesawyd gan enwadau eraill a fu'n anghysurus iawn ynglŷn â rhai o'r datganiadau a wnaed gan Gyngor Eglwysi Cymru yn y gorffennol. Nid oes osgoi'r tyndra hwn. Ni ellir ei ddatrys nes bod cytundeb rhwng yr holl enwadau ar fater megis hunanlywodraeth - fel sydd rhyngddynt, ar y cyfan, ynglŷn â'r iaith Gymraeg.

Gyda hyn mewn golwg, yng Ngorffennaf 1992, cytunwyd i gychwyn proses a fyddai'n cymell yr holl eglwysi i roddi 'ystyriaeth ofalus, fel mater o frys, (i) holl gwestiwn democratiaeth yng Nghymru, fel y gallwn osod allan yn eglur i'n haelodau ac i'r cyhoedd beth yw seiliau diwinyddol y safbwyntiau amrywiol sy'n bod ymhlith yr eglwysi a'r enwadau.'[1] Diffiniwyd tasg Cytûn yn y mater hwn fel '...ceisio rhoi mynegiant i farn Gristnogol unol ar hanfodion democratiaeth yng Nghymru yn niwedd yr ugeinfed ganrif; ...gwneud hyn mewn cyd-destun Ewropeaidd ac yng ngoleuni ymwybyddiaeth ein partneriaid Cristnogol ar draws y byd o'u hunaniaeth cenedlaethol a gwleidyddol;...a bod yn barod i gydweithio gyda chyrff eraill yng Nghymru mewn perthynas â hyn.[2]

Rhagwelwyd y byddai hyn yn arwain at adroddiad a fyddai'n crynhoi safbwyntiau

--------------------

1. Llythyr at enwadau Cymru, 14 Gorffennaf 1992.

2. ibid.

gwahanol yr enwadau ar ddemocratiaeth yng Nghymru ac at Ymgynghoriad cenedlaethol i'r eglwysi a'r enwadau Cymreig a fyddai'n eu galluogi i ddarganfod a oedd 'barn Gristnogol unol' yn bosibl ar hunanlywodraeth i Gymru. Dylid nodi fod y broses hon wedi cychwyn i raddau o ganlyniad i gyfarfod blynyddol yr Ymgyrch dros Senedd i Gymru a'r gwahoddiad i fod yn gyd-aelodau â Chynghrair yr Undebau Llafur a'r Ymgyrch o bwyllgor i drefnu cynhadledd genedlaethol i ystyried y camau nesaf mewn perthynas â hunanlywodraeth.)

Yn y cyfamser, gwnaed datganiad gan Lywydd ac Is-lywydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru, a gymeradwywyd gan Lywyddion yr enwadau anghydffurfiol Cymraeg ac a gadarnhawyd gan Gyngor Eglwysi Rhyddion Cymru yn ei gyfarfod Gwanwyn 1994. Ynddo galwyd

> 'ar ein brodyr a'n chwiorydd yn holl Eglwysi Cymru i ymuno yn yr ymgyrch, trwy bob dull cyfreithlon, i ryddhau'r genedl o anghyfiawnder a gormes y drefn drefedigaethol sydd yn bodoli yng Nghymru ac i gefnogi'n ddiarbed y mudiadau hynny sy'n gweithio dros urddas a ffyniant y genedl Gymreig a thros gyfiawnder ei hawliau i fynegi a gweithredu ei hewyllys trwy ei sefydliadau a'i senedd ei hun yn y gymdeithas o genhedloedd.'[1]

Croesawyd y datganiad hwn gan lawer oddi fewn i'r enwadau anghydffurfiol Cymraeg ac fe'i gwelwyd fel safiad a oedd yn cynnig arweiniad i'r enwadau a'r eglwysi eraill yng Nghymru. 'Roedd golygydd *Y Tyst*, fel enghraifft, yn ei gefnogi'n frwdfrydig, yn gresynu nad oedd Cytûn wedi gwneud safiad cyffelyb ac yn mynegi'r gobaith y byddai Cytûn yn derbyn arweiniad oddi wrth Gyngor Eglwysi Rhyddion Cymru yn y mater hwn. Ond pan gyfarfu Cyngor Cytûn ar 12 Mai 1994 ni allodd wneud mwy na chytuno i grynhoi'r gwahanol safbwyntiau hyn er mwyn darganfod a oedd barn unol ymhlith yr eglwysi ar y mater.

**CAGLIADAU**

Sut y mae pwyso a mesur cyfraniad eglwysi ac enwadau Cymru at yr ymdrech o

--------------------

1. Datganiad a gyhoeddwyd ar Ddydd Gwyl Dewi 1994.

blaid hunanlywodraeth Gymru? Yn ddiamheuol, y mae Cristnogion amlwg ar hyd y ganrif hon wedi cynnig i'r ymgyrchu hwn weledigaeth, ymroddiad ac arweiniad. Fe fyddai'r mudiad cenedlaethol a'r ymdrechion dros hunanlywodraeth yn llawer iawn tlotach heb yr arweiniad hwn gan Gristnogion blaenllaw. Yn wir, y mae lle i amau a fyddai'r ymdrech wedi parhau o gwbl - mewn rhai cyfnodau yn y ganrif hon - heb eu hymroddiad.

Y mae'r un mor wir i ddweud fod nifer o'r enwadau - yn fwyaf arbennig yr enwadau anghydffurfiol Cymraeg - wedi bod yn gyson ac egnïol gefnogol i hunanlywodraeth i Gymru ac y mae'r gefnogaeth sicr hon wedi parhau yn ddiwyro. Dylid cofio hefyd y byddai'r iaith Gymraeg wedi marw mewn llawer ardal yng Nghymru ers tro byd heb ymroddiad llwyr yr eglwysi Cymraeg hyn i'w chynnal a'i chadw - ffaith y mae'n hawdd iawn ei anghofio yn nyddiau nychdod llawer iawn o'r eglwysi hyn.

Yn gydeglwysig - drwy Gyngor Eglwysi Cymru a Chyngor Eglwysi Rhyddion Cymru - rhoddwyd arweiniad eglur a chyson o blaid hunanlywodraeth, mewn datganiad ar ôl datganiad. Trwy'r cyrff hyn a'r enwadau a oedd yn aelodau ohonynt rhoddwyd pwysau cyson ar lywodraeth ar ôl llywodraeth er mwyn sicrhau fod mater hunanlywodraeth yn cael ei gadw ar yr agenda gwleidyddol.

Trwy'r trafodaethau enwadol a chydenwadol hyn fe'i gwnaed yn amlwg yn gyson nad annibyniaeth wleidyddol i Gymru oedd y nod ond rhyddid i'r Cymry i gymryd cyfrifoldeb dros eu dyfodol a dyfodol eu cenedl. Pwysleisiwyd hefyd nad gweledigaeth o genedl ynysig, hunan-ddigonol a mewnblyg a oedd gan yr eglwysi na'u harweinwyr ond gweledigaeth o genedl y Cymry a fyddai'n gweithio dros ryddid, cyfiawnder a heddwch ar ei thir ei hunan ac i'n brodyr a'n chwiorydd yn nheulu'r cenhedloedd yn Ewrop ac yn fyd-eang. Nid culni cenedlaethol oedd yn nodweddu eu hymdrechion ond yn hytrach awydd i weld y genedl hon yn cyfrannu'n deilwng at olud diwylliannol y cenhedloedd.

PENNOD 11

# Y DYSTIOLAETH GRISTNOGOL MEWN DIWYDIANT

## Y CAMAU CYNTAF

Y mae stori ymwneud y Cyngor, ac ymwneud yr eglwysi drwyddo, â phroblemau a her diwydiant, yn bennaf yng Nghymru, yn datgelu nifer o agweddau tra phwysig o'r Genhadaeth Gristnogol mewn cyfnod yng Nghymru - ac yn y cenhedloedd hyn - pan ddigwyddodd newidiadau mawr ym mhatrymau gwaith ac economi yn y gymdeithas yn gyffredinol ac ym mywyd unigolion a theuluoedd. Holwyd cwestiynau sylfaenol am gymhellion y genhadaeth Gristnogol; gwelwyd fod y genhadaeth hon yn glymbleth o ofal bugeiliol, ymateb proffwydol a phartneriaeth rhwng yr eglwysi a diwydiant. A'r cyfan yn arwain at ddealltwriaeth ddiwinyddol newydd o le gwaith ac economi yng nghread Duw ac yng ngwead y ddynoliaeth.

Yn gynnar iawn yn hanes y Cyngor[1] cymeradwywyd penderfyniad ar ddiweithdra yng Nghymru i'w ddanfon at yr enwadau. Gofal bugeiliol dros bobl a oeddent eisoes yn dioddef canlyniadau'r diweithdra cynyddol yng Nghymru oedd byrdwn pennaf y penderfyniad:

> `Fel cynrychiolwyr Eglwysi Cymru, dymuna'r Cyngor ddatgan ei gydymdeimlad â phawb sy'n dioddef mewn unrhyw fodd oherwydd diweithdra. Mae'r dyddiau'n flin ac yn llawn pryder i lawer. Gweddus yw i ni alw i gôf addewidion Duw i'w bobl mewn cynni.
>
> `Gorffwys cyfrifoldeb arbennig ar glerigwyr, gweinidogion a swyddogion yr Eglwysi yn yr ardaloedd hyn i gadw mewn cyfathrach agos â thrigolion yr ardal, i ofalu am y rhai mewn angen a cheisio cymorth iddynt, i geisio diogelu bywyd cymdeithasol a diwylliadol ac yn bennaf oll ddwyn i'r bobl ddiddanwch yr Efengyl...'[2]

Flwyddyn yn ddiweddarach - yn Nhachwedd 1959 - cafwyd trafodaeth am benderfyniad ar gau pyllau glo a gyflwynwyd i'r Cyngor gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, drwy Alban Davies (Ton Pentre) a Curig Davies. 'Roedd awydd am

--------------------

1. Cyfarfod Blynyddol Cyngor Eglwysi Cymru, 21 Tachwedd 1958.
2. Cofnodion y Cyngor, 21 Tachwedd 1958, tud. 2.

ymgyrchu egnïol ar ran yr ardaloedd glofaol yn y penderfyniad:

> `...we are very much aware...of the dire effects of...closures on our living communities, with the threatened recurrence of unemployment on an alarming scale...
>
> `...the churches...should make representations to the Government for the extension of the economic basis of these affected areas on the ground of our deep conviction that the churches are deeply aware of their responsibility for the material and spiritual welfare of our people.'[1]

**GOSOD Y SYLFEINI**

Daeth y gofal bugeiliol hwn dros ardaloedd diwydiannol a'r diweithdra a oedd yn eu bygwth yn un o brif ffrydiau bywyd a gwaith y Cyngor yn ystod y blynyddoedd nesaf. Hyn a arweiniodd at gynull y gynhadledd Gymreig gydeglwysig gyntaf ar `Yr Eglwysi a Diwydiant', yng Ngholeg y Fro, y Rhŵs, o 15 i 18 Gorffennaf 1962.[2] Daeth trigain o bobl o'r eglwysi a diwydiant ynghyd i wrando naw darlith, i rannu mewn grwpiau trafod ac i ymweld â gwaith dur Guest, Keen a Nettleford yng Nghaerdydd (lle cafodd pawb hoelen un droedfedd o hyd i gofio am yr achlysur!). Costiodd y gynhadledd £175.00, yn cynnwys llety am dair noson i'r cynadleddwyr a chostau'r siaradwyr!

Cyflwynwyd y ddarlith agoriadol ar 'Yr Olygfa Ddiwydiannol yng Nghymru' gan Brinley Thomas[3]. Credai mai 'perthynas gyfnewid' (exchange relation) sy'n rheoli oddi fewn i ddiwydiant. Peth di-foes ydyw ac ni ddylid gwthio moesoldeb iddo. `Fe'n defnyddir ni i gyd fel cyfryngau economaidd a hynny heb i ni ddioddef yn foesol...'[4] Credai mai un o broblemau sylfaenol yr eglwysi yn eu perthynas â diwydiant yw mai delw'r wlad oedd ar weithwyr y meysydd glo, a phan ddaeth y

--------------------

1. Cofnodion y Cyngor, 26 Tachwedd 1959.

2. Am adroddiad llawn gweler 'Yr Eglwys a Diwydiant', gan M. Islwyn Lake yn Y Tyst, 12 Gorffennaf 1962, tud. 6, 7 a 10.

3. Athro Economeg, Prifysgol De Cymru a Mynwy, Caerdydd.

4. ibid., tud. 6.

gwrthryfel yn erbyn cyfalafiaeth `yr arweinwyr digapel Anghymreig a ddaeth i'r amlwg...Nid oedd gan y capeli gwledig eu naws ateb i'w gynnig.'[1] Ond credai hefyd fod gan yr eglwysi genhadaeth briodol: `Mae yna gylch economaidd nad ydyw'n faes i'r eglwys...ond pa le bynnag y defnyddir dyn yn llwyr fel cyfrwng, fe ddylai'r eglwys ymyrryd a sefyll drosto.'[2]

Gwnaeth nifer o siaradwyr gyfraniad nodedig drwy ystyried, mewn termau diwinyddol, beth yw lle'r ffydd Gristnogol a'r eglwys mewn diwydiant. Un o'r prif gyfranwyr oedd R.S.O.Stevens[3]. Yn ôl Islwyn Lake[4], `...pwysleisiodd mai un byd sydd ac y mae Duw wedi ei uniaethu ei hunan ag ef...O fewn yr un byd yma y mae dod o hyd i Dduw...Gelwir ar y Cristion i fod yn Grist yma ynghanol y sefyllfa lle y mae Duw yn gweithio allan ei bwrpas.' Ymestyniad o hyn oedd honiad David Lee (Caplan Diwydiannol llawn-amser cyntaf Cymru) mai'r peth pwysig `yw fod yr eglwys yn dangos ei bod yno ac yn rhoi argraff newydd i bobol. Dengys mai cig a gwaed ydyw ac mai cig a gwaed yw ei gofal.'[5]

'Roedd yr egwyddor Gristnogol hon o `bresenoldeb' yn sylfaenol i genhadaeth ddiwydiannol y cyfnod. Yn wir, parhaodd felly hyd heddiw. Cenhadaeth Duw yw'r genhadaeth hon, y Duw sy'n bresennol yn ei fyd ac yn Arglwydd arno. Braint y Cristion yw tystio i'r presenoldeb hwn a chael pwerau'r byd diwydiannol i gydnabod ei awdurdod trostynt. Ar sail y ffydd hon y mae'r eglwys i wasanaethu diwydiant ac ymgyrchu dros fuddiannau'r rhai sy'n gweithio yno a'r cymunedau sy'n ddibynnol ar ei ffyniant. Oherwydd y gred hon amheuai Glyn Simon[6], wrth gryn-

---

1. ibid., tud. 6.
2. ibid., tud. 6.
3. Caplan Diwydiannol yn Birmingham.
4. ibid., tud. 7.
5. ibid., tud. 7.
6. Esgob Llandâf.

hoi'r gynhadledd, `Ai gwir dweud fod yna gylchoedd o weithgarwch mewn diwydiant sydd yn "autonomous" ac am hynny y tu allan i gylch yr eglwys?'[1] Pwysodd am i bawb sylweddoli `fod agendor rhwng eglwys a diwydiant. Ni allwn ddisgwyl meddyginiaeth fuan i broses a aeth rhagddo am 180 - 200 o flynyddoedd. Rhaid fydd cyflenwi'r cyfalaf Cristnogol cyn iddo ddiflannu'n llwyr.' Credai fod gan yr eglwys gyfraniad holl-bwysig yn wyneb natur frawychus y diwydiannau anferth oedd ym Margam a mannau cyffelyb: `Pan yw person yn ysglyfaeth i nerthoedd amhersonol a didrugaredd yna ein hunig obaith ydyw diogelu urddas dyn fel plentyn i Dduw.'[2]

Yn ei adroddiad i'r Cyngor y mae K.B.Thomas[3] yn argymell fod y grŵp a fu'n gyfrifol am drefnu'r gynhadledd hon yn dod yn Bwyllgor Diwydiant Cyngor Eglwysi Cymru a bod cynhadledd debyg yn cael ei chynnal bob dwy neu dair blynedd, yn ogystal ag ysgolion undydd i hyfforddi gweinidogion a lleygwyr mewn cenhadaeth ddiwydiannol. A dyna a fu.

Ffurfiwyd y Pwyllgor ym 1965 ac ymhen amser mabwysiadodd yr amcanion canlynol: meithrin cysylltiadau â phwyllgorau enwadol perthnasol (ym Mhrydain a thramor), cymell trafodaethau ar berthnasedd diwinyddiaeth a moeseg Gristnogol i gwestiynau diwydiannol a chynnull trafodaethau ar genhadaeth a chyfrifoldeb yr eglwysi mewn perthynas â chymdeithas ddiwydiannol.[4]

Bu canol y chwedegau yn gyfnod prysur a chreadigol. Tarddodd y gweithgarwch hyn yng nghynhadledd Y Rhŵs ym 1962. Hon, felly, a osododd y sylfeini i genhadaeth ddiwydiannol yng Nghymru.

--------------------

1. ibid., tud. 7.

2. ibid., tud. 10.

3. Prifathro Coleg y Fro, a oedd yn gadeirydd y Pwyllgor Trefnu.

4. Cofnodion y Pwyllgor Diwydiant, 13 Mehefin 1967.

**CAPLANIAETH DDIWYDIANNOL**

Yn ystod y cyfnod wedi'r gynhadledd daeth cwestiwn caplaniaethau diwydiannol i'r amlwg. 'Roedd rhai caplaniaethau eisoes wedi'u sefydlu e.e. ym Margam ym 1960 (gydag offeiriad yr Eglwys yng Nghymru yn gweithio gyda chefnogaeth yr Eglwysi Rhyddion lleol - bu ymgais i ariannu a phenodi caplan ar ran yr eglwysi rhyddion yn fethiant ar y cychwyn) ac yng Nghasnewydd ym 1962 (gydag offeiriad yr Eglwys yng Nghymru a gweinidog o'r eglwysi rhyddion yn gweithio'n rhan-amser.) 'Roedd y Genhadaeth i Forwyr wedi bod yn trefnu caplaniaeth i burfeydd olew Aberdaugleddau ers 1954. Erbyn 1964 'roedd yr enwadau wedi cydweithio i benodi caplan ecwmenaidd yn Wylfa dros gyfnod adeiladu'r Orsaf Bŵer yno. O ganlyniad i'r datblygiadau hyn gwelwyd angen am ystyried anghenion caplaniaethau o'r fath yn ecwmenaidd a chodwyd y mater yn y Cyngor gan Bwyllgor Sefydlog y Methodistiaid. Pryderai'r Eglwys yng Nghymru hefyd y byddai derbyn nifer o geisiadau am gymorth ariannol tuag at gaplaniaethau o'r fath yn gorfodi'r Eglwys i ystyried ei pholisi. Nodwyd yn y drafodaeth[1] fod Cynhadledd Nottingham ar Ffydd a Threfn[2] wedi rhag-weld sefyllfaoedd tebyg i Margam a'r Wylfa ac wedi annog gweithredu ar y cyd.

O ganlyniad croesawodd Pwyllgor Gwaith y Cyngor[3] gyfle i roi sêl ei fendith ar gyfarfod caplaniaid diwydiannol llawn-amser a rhan-amser a chytunwyd fod W. Ungoed Jacob yn ei gadeirio. Gofynnodd y cyfarfod[4] am gael ei gydnabod fel isbwyllgor o'r Pwyllgor Diwydiant a phwysleisiodd fod angen cydweithio mewn perthynas â chaplaniaethau a phenodiadau yng Nghymru yn y dyfodol.

---

1. Cofnodion y Cyngor, 29 - 30 Hydref 1964.
2. Gweler Pennod 4.
3. Cofnodion y Pwyllgor Gwaith, 25 - 26 Ionawr 1965.
4. Fe'i cynhaliwyd ym Mhort Talbot ar 22 Mawrth 1965.

Canlyniad uniongyrchol hyn oedd galw cynhadledd genedlaethol arall ym mis Hydref 1967, unwaith eto yng Ngholeg y Fro, Rhŵs, i ystyried `Gwaith Diwydiannol yr Eglwysi - Patrwm i Gymru.'[1] 'Roedd y papur rhagarweiniol ar gyfer y gynhadledd, a baratowyd gan David Lee, yn pwyso'n drwm ar gynhadledd Cyngor Eglwysi'r Byd ar Genhadaeth ac Efengylu yn Ninas Mecsico ym 1963. Thema'r gynhadledd honno oedd `Cenhadaeth mewn chwe chyfandir' a gwnaed awgrymiadau radical ynglŷn â strwythurau ar gyfer cenhadaeth, yn bennaf o ganlyniad i'r astudiaeth fyd-eang `Strwythurau Cenhadol y Gynulleidfa.'[2] Barnai Lesslie Newbigin, a oedd yn gyfarwyddwr Comisiwn Cenhadaeth ac Efengylu Byd-eang y Cyngor ar y pryd, mai'r adrannau ar `Y Dystiolaeth Gristnogol i Ddynion yn y Byd Seciwlar' a `Thystiolaeth y Gynulleidfa yn ei Chymdogaeth' a gynhyrchodd y trafodaethau mwyaf arwyddocaol, gan iddynt danlinellu fod y genhadaeth mewn gwirionedd `i chwe chyfandir.'[3] Dan ddylanwad diwinyddion o Asia dygwyd i ganol y meddylfryd cenhadol y gred `that God is somehow at work in the secular events of our time, beyond the bounds of the Church.'[4] O ganlyniad, yn ôl yr adroddiad Adran II:

> `The pattern of Christian mission in the secular world must therefore be one of constant encounter with the real needs of our age. Its form must be that of dialogue, using contemporary language and modes of thought, learning from the scientific and sociological categories, and meeting people in their own situations.'[5]

Fel y gwelir, byddai'r ddirnadaeth hon o genhadaeth yn sylfaenol i ddatblygiad pellach cenhadaeth ddiwydiannol yng Nghymru am weddill y cyfnod o dan sylw.

---

1. Gweler adroddiad y Gynhadledd *'The Churches Industrial Work - A Pattern for Wales' and other papers'*, Hydref 1967,

2. Am ystyriaeth Gymreig, gweler *Structures for a Missionary Congregation*, gol. David Lee, Adroddiad Cyntaf Comisiwn Eglwys a Diwydiant yn Ardaloedd Diwydiannol De-orllewin Cymru, ym mhapurau Canolfan Ecwmenaidd Blaendulais, Rhif 2, Hydref 1964.

3. Lesslie Newbigin, *A History of the Ecumenical Movement, Cyfrol II, (1948 - 1968)*, Gol. Harold E. Fey, tud. 193.

4. ibid., tud. 194.

5. Adroddiad Cynhadledd Dinas Mecsico, 1963, tud. 121; ibid., tud. 194.

Man cychwyn papur David Lee[1] felly oedd fod cynhadledd Dinas Mecsico wedi agor y ffordd i ddealltwriaeth newydd ymhlith yr eglwysi o'r strwythurau sy'n angenrheidiol ar gyfer cenhadaeth yn y gymdeithas gyfoes. Barnai fod nifer o elfennau i'w hystyried wrth lunio patrymau priodol, gan gynnwys y strwythurau traddodiadol (na allent bellach gynnal holl genhadaeth yr eglwys), y dalgylch dynol *(human zone)*, gweinidogaethau arbenigol a phrosiectau ecwmenaidd (`...industries are responding to mission approaches by saying that they can accept ecumenical rather than denominational work.')[2]

Eisoes 'roedd patrymau cenhadaeth ddiwydiannol yng Nghymru yn datblygu ar hyd llinellau ecwmenaidd, gyda'r olaf a ffurfiwyd (yn yr Wylfa ym 1964) wedi ei chynllunio a'i sylfaenu'n ecwmenaidd o'r cychwyn. Tra bod angen ystyried gofynion cenhadaeth ddiwydiannol pan fo diwydiannau newydd yn cael eu sefydlu, cydnabyddwyd hefyd fod gofynion trymion cynnal patrwm traddodiadol gweinidogaeth yn straen ar adnoddau ac egni'r eglwysi.

Nid oedd gan neb unrhyw amheuon ynglŷn ag anawsterau'r gwaith hwn. Ers mis Rhagfyr 1964 gwnaed ymdrechion ym Mhort Talbot i sicrhau adnoddau digonol i benodi caplan llawn amser ar ran yr Eglwysi Rhyddion, ond, el y nodwyd, methiant a fu'r ymdrechion, ac ym Mawrth 1967, daethpwyd â'r ymdrech i ben. Mewn llythyr a gyflwynwyd i'r gynhadledd[3] y mae ysgrifennydd y pwyllgor lleol, Ivor T. Rees[4], yn mynegi siom fod y bwriad wedi methu, ond yn ailfynegi eu cred sylfaenol fod yn rhaid i genhadaeth ddiwydiannol fod yn ecwmenaidd ei natur a'i

--------------------

1. Adroddiad Cynhadledd y Rhŵs, tud. 4.

2. ibid., tud. 5.

3. ibid., tud. 13.

4. Gweinidog Eglwys Annibynol y Wern, Aberafan, ar y pryd.

phatrwm[1]. Pwysleisia hefyd fod yr holl eglwysi lleol yn ystyried fod y Caplan (David Lee) yn cynrychioli'r holl eglwys yn ei waith. `He possesses the full confidence of Anglicans and Free Churches alike, and his work is regarded as being fully ecumenical in its nature.'[2] Nodir hefyd nad anawsterau lleol yn unig a brofwyd ym Mhort Talbot. Tarddant, yn hytrach, o ymagwedd yr eglwysi yng Nghymru tuag at genhadaeth yr Eglwys fel y cyfryw, y mae cenhadaeth ddiwydiannol yn rhan ohoni. Geilw felly am gynllun cenedlaethol i Gymru wedi ei lunio a'i gefnogi gan yr holl enwadau.

A dyma oedd prif gyfraniad cynhadledd Y Rhŵs ym 1967. Mabwysiadwyd wyth argymhelliad ac yn eu plith un a oedd yn gofyn am roddi ystyriaeth frys i sefydlu caplaniaethau diwydiannol yng Nghaerdydd, Pontypridd a Chymoedd Dwyrain Morgannwg, Abertawe a Wrecsam. Awgrymwyd nifer o batrymau posibl ar gyfer sefydlu caplaniaethau, gan gynnwys y patrwm a fabwysiadwyd yn yr Wylfa, sef, bod un enwad (yn yr achos hwnnw Eglwys Bresbyteraidd Cymru) yn talu'r gyflog a'r enwadau eraill yn gyfrifol gyda'i gilydd am weddill y costau. Argymhellwyd hefyd fod sefydlu pwyllgor cydeglwysig lleol yn gefn i'r gaplaniaeth yn hollol hanfodol ac mai Pwyllgor Diwydiant Cyngor Eglwysi Cymru ddylai fod yn gyfrifol am lunio polisi, am hybu cydweithio effeithiol rhwng y caplaniaid, am drefnu hyfforddiant ac am gynnal trafodaethau tuag at sefydlu gwaith newydd yn y maes hwn. Am y tro cyntaf, 'roedd cynrychiolwyr yr enwadau a'r eglwysi yng Nghymru yn ogystal ag arbenigwyr ym maes cenhadaeth ddiwydiannol wedi mabwysiadu patrwm gwaith ar gyfer Cymru, ac wedi argymell y modd mwyaf effeithiol i hyrwyddo'r gwaith.

Heb amheuaeth, felly, 'roedd y gynhadledd hon yn drobwynt yn hanes cenhadaeth

---

1. ibid., tud. 14.
2. ibid., tud. 14.

ddiwydiannol yng Nghymru. Yn fuan wedyn cryfhawyd y pwyllgor er mwyn effeithioli ei waith. Ond 'roedd yna un gwendid sylfaenol - a bu hyn yn wendid yng nghyfansoddiad y pwyllgor o'r cychwyn (ac fe'i hadlewyrchir o hyd yng nghyfansoddiad Rhwydwaith Materion Diwydiannol ac Economaidd Cytûn, sy'n olynydd i'r Pwyllgor Diwydiant. Arbenigwyr yn y maes ar wahoddiad y pwyllgor ei hun a oedd yn aelodau ohono. Ni cheisiwyd erioed sicrhau fod gan yr enwadau gynrychiolaeth uniongyrchol arno. 'Roedd hwn yn benderfyniad bwriadol, gan fod awydd sicrhau fod aelodau'r pwyllgor yn hyddysg yn y maes arbenigol hwn. Y gwendid, fodd bynnag, oedd methiant y pwyllgor, ar adegau allweddol yn ei hanes, i sicrhau fod yr enwadau'n perchnogi a chefnogi'r gwaith ardderchog a wnaeth. Ni ellir disgwyl i enwad gefnogi gwaith arloesol fel hwn heb fod ganddo lais yn ei benderfyniadau. Mae hon yn egwyddor ecwmenaidd sylfaenol. Ond fe gryfhawyd y pwyllgor o bryd i'w gilydd drwy ychwanegu ato arbenigwyr o blith yr eglwysi yn ogystal â Christnogion a oedd â chyfrifoldebau oddi fewn i ddiwydiant naill ai fel undebwyr neu reolwyr.

Ymhen blwyddyn, ym mis Hydref 1968, a hynny'n uniongyrchol o ganlyniad i gynhadledd Y Rhŵs, hysbyswyd y pwyllgor gan Morgan Mainwaring[1] fod Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn barod i sicrhau caplaniaeth yn rhywle arall pan ddeuai cynllun yr Wylfa i ben ar derfyn cyfnod adeiladu'r Orsaf Bŵer. Yn unol ag argymhelliad y gynhadledd ac mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd Cenhadaeth cytunwyd i argymell penodiad yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, sef, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam. Dyma gychwyn Cenhadaeth Ddiwydiannol Gogledd Ddwyrain Cymru a sefydlwyd ym mis Gorffennaf 1969 gydag Arthur Meirion Roberts, a fu'n gaplan yn yr Wylfa, yn gaplan cyntaf. Am y cyfnod cyntaf o bum mlynedd bu Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn gyfrifol am gyflog a thŷ i'r caplan a'r enwadau eraill (yn yr achos

---

1. Ysgrifennydd Cyffredinol Bwrdd Cenhadaeth, Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

hwn Yr Eglwys yng Nghymru, Yr Eglwys Fethodistaidd, Eglwys Gynulleidfaol Cymru a Lloegr, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac Undeb Bedyddwyr Prydain ac Iwerddon) yn gyfrifol am dalu'r costau eraill. Fel yn achos caplaniaeth yr Wylfa 'roedd y gaplaniaeth hon yn drwyadl ecwmenaidd o'r cychwyn, gyda'r cyfrifoldeb dros sicrhau cefnogaeth yr enwadau a meithrin perthynas rhyngddynt a'r genhadaeth yn gorwedd gyda Chyngor Eglwysi Cymru. Parhaodd felly hyd heddiw, gyda'r ddau gaplan olaf, Michael Williams a Richard Kilgour, yn offeiriaid yn Yr Eglwys yng Nghymru a Llywydd Cytûn bellach yn gydymddiriedolwr gydag Esgob Llanelwy. Cymeradwywyd y patrwm hwn i'w efelychu mewn mannau eraill yn unol ag argymhellion cynhadledd Y Rhŵs. Ysywaeth, ni fu gan y Cyngor gyfrifoldeb uniongyrchol mewn perthynas â'r caplaniaethau eraill a sefydlwyd yn ystod y blynyddoedd, yng Ngwent a Morgannwg, er eu bod hwythau hefyd yn drwyadl ecwmenaidd.

Yn wir, yn ei adroddiad ym mis Hydref 1969, cydnabyddir fod ymgais i sefydlu caplaniaeth yn Abertawe ac yng Nghaerdydd - ar y cyd rhwng yr Eglwys Gynulleidfaol a'r Eglwys Fethodistaidd - wedi methu 'due to lack of support within Wales, at the local level.' Cydnebydd yr adroddiad,

> `Despite the Rhoose recommendations of 1967 - ratified by the Council - which sought to develop industrial work in key areas, the commitment of the churches to this work remains as it was five years ago.'

Ar yr un adeg, fodd bynnag, yn ei adroddiad yn ystod Haf 1969 fe ddywed Arthur Meirion Roberts wrth gloriannu ei gyfnod fel caplan yn yr Wylfa:

> `...greater understanding now exists between the churches in Wales, particularly in the establishment of future industrial work and in the deployment of manpower and financial resources...a growing awareness of a changing social and economic pattern in Wales and the need for the Church to consider its responsibilities within such a situation...'

Ysywaeth, tra bod hyn yn wir - 'roedd mwy o ymwybyddiaeth o her diwydiant ac ymrwymiad dyfnach i'r gwaith ymhlith rhai a oedd agosaf at y gwaith - y ffaith oedd na lwyddwyd i sefydlu caplaniaethau yn Abertawe a Chaerdydd (a ddylent

fod wedi cael blaenoriaeth fel dwy ddinas ddiwydiannol a masnachol fwyaf Cymru) ar waethaf ymdrechion dygn am fwy na dwy flynedd. Yn ei adroddiad i'r Cyngor ym mis Hydref 1971[1] fe ddywed yr Ysgrifennydd, David Lee, `The Committee records its disappointment that the churches in Wales are not responding to the challenge of mission in an industrial society, especially in the region centred upon Swansea.'

---

1. Adroddiad y Pwyllgor Diwydiant, 14 Hydref 1971.

PENNOD 12

# TYSTIOLAETH MEWN DIWYDIANT: YMATEB I DDIWEITHDRA

Yn adroddiad y Pwyllgor Diwydiant i'r Cyngor ym mis Hydref 1971 dygir sylw'r Cyngor at broblem gynyddol diweithdra yng Nghymru a chytunwyd fod y Pwyllgor yn cynnull ymgynghoriad arbennig a fyddai'n dwyn at ei gilydd arbenigwyr o nifer o feysydd cysylltiedig i ystyried y sefyllfa a chyflwyno argymhellion i'r eglwysi. Fe'i cynhaliwyd yng Nghaerdydd yn Ionawr 1972. Cytunwyd y gallai'r enwadau, drwy'r Pwyllgor Diwydiant, gael pwrpas deublyg mewn perthynas â diweithdra. Yn gyntaf, dylid ffurfio grŵp oddi fewn i'r Pwyllgor i ddwyn pwysau ar lywodraeth leol a chanolog, i geisio gwybodaeth am newidiadau arfaethedig mewn diwydiant yng Nghymru ac effeithiau cymdeithasol diweithdra. Yn ail, dylai'r Pwyllgor weithredu fel `think-tank' i edrych ar gynllunio tymor-hir oddi fewn i ddiwydiant yng Nghymru. Ar 20 Mai 1972, felly, aeth dirprwyaeth o'r Cyngor i gyfarfod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Peter Thomas (Y Blaid Geidwadol). Fe'i harweiniwyd gan W. Ungoed Jacob (Llywydd y Cyngor) a'r aelodau eraill oedd Arthur Meirion Roberts (Cadeirydd y Pwyllgor Diwydiant), Michael Williams (Ysgrifennydd y Pwyllgor Diwydiant), Ray Taylor (gweinidog Bedyddwyr a oedd yn gaplan yng Ngwent), T.R. Coughtrie a S. Killen (a oeddynt yn rheolwyr diwydiannol yng Nghasnewydd a Chaerdydd) ac Erastus Jones (Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyngor). Amcan y cyfarfod oedd trafod rhai o'r egwyddorion sylfaenol y dylid eu hystyried mewn perthynas â diweithdra yng Nghymru. Dengys y cyflwyniadau sylweddol i'r cyfarfod beth oedd cyfeiriad meddwl y Pwyllgor Diwydiant ar ddiweithdra, ei achosion a'r ymateb priodol iddo. Wrth gyflwyno rhai ystyriaethau sylfaenol dechreuodd Erastus Jones mewn modd hollol nodweddiadol o'i safiad ar hyd y blynyddoedd: `We are concerned with Wales.'[1] Arweiniodd hyn at ystyriaethau allweddol:

> `Wales is in a condition of permanent differential vulnerability...this produces (within our Welsh communities) alternatively acquiescence

---

1. Adroddiad y ddirprwyaeth, tud. 2.

> or lack of self-confidence and deep reaction...It is the concern of the church not only to comfort the victims but particularly to pose radical questions to our society...e.g. Can the will to create a worthwhile society in all its aspects be caught by the people themselves, so that they can discover how to participate in their own destiny...'[1]

Codwyd pwnc `Cymru yn y Gymuned Ewropeaidd' gan Michael Williams: `We need to be sure that adequate representation is made regarding Wales as a "Regional Development Area"'[2] Credai fod hyder yng Nghymru yn hanfodol os oedd i gymeradwyo'i hunan ar gyfer cymorth Ewropeaidd. Amlinellodd Ray Taylor yr egwyddor o'r `Gost Gyfan', a ddeuai'n un o egwyddorion sylfaenol y Pwyllgor yn ystod y blynyddoedd nesaf wrth iddo ymdrin â'r ymateb Cristnogol i ddiweithdra. Ymateb oedd Ray Taylor i'r duedd gynyddol a welai mewn diwydiant a llywodraeth i ddod i benderfyniadau tyngedfennol ar seiliau masnachol yn unig, heb roddi ystyried yn ddigonol effeithiau'r penderfyniadau ar eraill. Felly, argymhellodd fabwysiadu'r hyn a alwai'n *`social audit'*:

> `...the costing (of closure operations) should become more comprehensive and inclusive...the write-off of human capital investment in skills and the debilitating effects of continuing unemployment should also weight the account, even if they are not precisely costed.'[3]

Mewn datganiad yn union ar ôl yr ymweliad dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol:

> `...all the signs (are) of a resurgence of industry and this should make the employment situation easier in the future...He shared the concern of the council at the social effects of unemployment and would welcome the possibility of further contacts between his officials and representatives of the council.'[4]

'Roedd ymateb llawnach un o swyddogion y Swyddfa Gymreig[5] yn ddiddorol. Cydnabyddodd yn gyntaf fod y syniad o'r gost gyfan yn bwysig am ei fod yn pwysleisio agweddau cymdeithasol diweithdra ac yn anodd `because it raises

---

1. ibid., tud. 2.
2. ibid., tud. 5.
3. ibid., tud. 6.
4. Western Mail, 22 Mai 1972.
5. Adroddiad y ddirprwyaeth, tud. 7.

judgements about the balance and aims of economic organisation...' Ymhellach, credai y byddai'n anodd i Lywodraeth weithredu polisïau'n sylfaenedig ar yr egwyddor hon oherwydd y byddai ymgais gan y Llywodraeth i ddylanwadu ar benderfyniadau cwmnïau ar sail astudiaethau mor eang yn golygu `a greater degree of state intervention than has been practised hitherto or indeed regarded as generally acceptable.'

Yn ystod yr un cyfnod aed ati i feithrin perthynas rhwng y Pwyllgor a sefydliadau eraill oddi fewn i ddiwydiant yng Nghymru. Cynrychiolwyd y Pwyllgor gan Arthur Meirion Roberts yng nghyfarfod sefydlu Cynghrair Undebau Llafur Cymru a chroesawodd George Wright[1] y cyfle i drafod materion cyffredin `reflecting the ways in which the Church can make a real contribution in the industrial priorities of the Principality.'[2] Yn ogystal, cynhaliwyd ymddiddanion ag Ysgrifennydd y CBI yng Nghymru. Cafwyd cyfle hefyd i drafod â phrif reolwr Y Gorfforaeth Ddur Brydeinig yn Ne Cymru ei chynlluniau ar gyfer Shotton, Glyn Ebwy, Casnewydd ac East Moors (Caerdydd). Yn ôl yr adroddiad: `Our presence was welcome and productive.'[3]

Cyfnod cymharol dawel o feithrin perthynas a fu canol y saithdegau pan gyflawnwyd y rhan fwyaf o'r gwaith drwy'r cenadaethau diwydiannol. Ym 1974 penodwyd Arthur Meirion Roberts yn Warden Coleg Trefeca a chafwyd cryn anhawster i benodi olynydd iddo fel caplan yng Ngogledd Ddwyrain Cymru a hynny, yn ôl y Pwyllgor[4], `ar waethaf cryn ymdrech ar ran y Cyngor.' Ni chychwynnodd Michael Williams, ei olynydd, ar ei gaplaniaeth yno tan 1977. Arwydd arall o brinder pobl briodol i wasanaethu mewn maes arbenigol fel hwn.

---

1. Ysgrifennydd Cyntaf TUC Cymru.
2. Adroddiad y Pwyllgor Diwydiant i'r Cyngor, 29 Mawrth 1973.
3. ibid.
4. Adroddiad i'r Cyngor, Hydref 1975.

Erbyn diwedd y saithdegau, fodd bynnag, 'roedd diweithdra'n argyfyngus o uchel a gwnaeth y Pwyllgor gais i'r Cyngor am gychwyn prosiect ymchwil ar broblemau diweithdra a lle'r eglwys mewn creu a newid agweddau tuag at waith, gan gynnwys lle'r foesoldeb gwaith Brotestannaidd. Fel rhan o'r prosiect hwn cynhaliwyd cynhadledd genedlaethol ar y thema, *Why Work?*, ym mis Hydref 1979[1]. Y cwestiynau sylfaenol oedd: pa le oedd i waith ym mywyd unigolion a chymdeithas yn y dyfodol? A oedd gan yr eglwysi gyfrifoldeb i ystyried eu lle a'u cyfrifoldeb oddi fewn i gymdeithas a oedd yn wynebu dyfodol newydd pan na fyddai'r hen ragdybiaethau ynglŷn â gwaith naill ai yn ddilys nac yn berthnasol? 'Roedd rhai o'r arbenigwyr a oedd yn bresennol yn rhagweld cynnydd cyflym yn nifer y diwaith yng Nghymru yn ystod y degawd fyddai'n dilyn, o 80,000 yn 1979 i 230,000 yn 1991. (Mewn gwirionedd, erbyn 1984 - sef, hanner ffordd drwy'r cyfnod - 'roedd 163,000 wedi eu cofrestru'n ddiwaith[2]. Erbyn 1988, fodd bynnag, 'roedd y nifer wedi gostwng, yn hytrach na chynyddu ymhellach, i 113,000[3].) Ceisiwyd gosod y bygythion hyn yng Nghymru oddi fewn i gyd-destun byd-eang a chymharwyd y tueddiadau yng Nghymru â thueddiadau economaidd yng ngwledydd tlotach y byd.

Nid oedd gan y cynadleddwyr unrhyw amheuaeth nad oedd Cymru'n wynebu argyfwng a bod angen ymateb brys. 'Roedd Cynghrair Undebau Llafur Cymru yn argymell camau i leihau effaith y newidiadau hyn, megis, lleihau oriau gwaith, mwy o wyliau, cyfnodau sabothol a mwy o hyfforddiant mewn sgiliau newydd. Ond byddai angen diwygiad arall hefyd, yn ôl Clive Jenkins, sef, diwygiad hamdden! Gwelwyd yr argyfwng hwn fel cyfle i adolygu ymddygiad cymdeithas tuag at waith, lle gwaith yn y bywyd dynol a'r safonau byw y dylid anelu atynt yn wyneb

--------------------

1. Gweler yr Adroddiad o'r Gynhadledd, 19 - 21 Hydref 1979, *Why Work?*, gan Ray Taylor.

2. *Contemporary Wales: An Annual Review of Economic and Social Research*, Cyfrol 1, 1987, tud. 7.

3. *Contemporary Wales: An Annual Review of Economic and Social Research*, Cyfrol 3, 1989, tud. 238

tlodi byd-eang mor enbyd: `...that 90% of the world's population is living in poverty is an affront. Putting it right may mean a lowering of our own standards. What use can we make of the benefits (technology) can bring both...here and in the third world?[1]. Canlyniad arall i'r gynhadledd hon oedd sefydlu gweithgor i ystyried diwinyddiaeth gwaith, a chyhoeddwyd cyfrol werthfawr iawn, *Towards a Contemporary Theology of Work*, ym 1982 *(gweler isod)*

Pan gyfarfu'r Pwyllgor Diwydiant yn Ionawr 1980 i asesu'r gynhadledd credwyd fod cychwyn y cyfnod Thatcheraidd (etholwyd Llywodraeth Doriaidd gyda Margaret Thatcher yn brif weinidog ym 1979) yn argoeli'n ddrwg ar gyfer dyfodol economaidd Cymru. Eisoes gwelwyd polisïau `monetarist' nad oeddent yn ystyried `y gost gymdeithasol' a pholisi o wrthdaro yn hytrach na chydweithio a chynllunio cymdeithasol. `The consequences for Wales as a whole, its culture and national identity, (will be enormous) if its industrial base is destroyed.'[2] Teimlwyd fod y sefyllfa'n anobeithiol: `There is no light at the end of this tunnel.'[3] Cyfarfu'r Pwyllgor eto ymhen pythefnos a phwysleisiwyd unwaith eto, yn bennaf gan Erastus Jones, y byddai i'r argyfwng hwn `ganlyniadau i Gymru gyfan'[4]; `...there is need...for the "prophetic word" which has its sources in something deeper than current economic or political ideologies and which can see further than the pundits.' 'Roedd consyrn hefyd ynglŷn â'r athroniaeth wleidyddol a oedd yn sylfaen i'r strategaeth economaidd:

> `...the return to an emphasis on the competitive society, rather than the co-operative ideal; a pessimistic view of man as motivated entirely by self-interest, as against a possibly overoptimistic view which

--------------------

1. *Why Work?*, Adroddiad y Gynhadledd.
2. Cofnodion y Pwyllgor Diwydiant, 10 Ionawr 1980.
3. ibid.
4. Cofnodion y Pwyllgor Diwydiant, 25 Ionawr 1980.

expected too improved *(sic)* social conditions, education etc...'[1]

Ond 'roedd nodyn llawer mwy gobeithiol yn adroddiad y Pwyllgor i'r Cyngor yn Ebrill 1980[2] a hynny nid am fod y sefyllfa wleidyddol ac economaidd wedi newid ond am fod yr Efengyl yn cynnig arwyddion gobaith:

> `...It is not the business of the Church to sing laments; in the presence of death we are committed to preach resurrection...If deindustrialisation is inevitable and employment is no longer so readily and universally available, we may regard it as a problem - or see it as an opportunity. The Church must look for signs of hope...'

Ceisiodd gyflwyno gweledigaeth newydd ar gyfer y gymdeithas Gymreig:

> `Christians need to have a clear view of the kind of society to which we should be working and the description of that society as "just, participatory and sustainable"[3] is one which we commend for consideration. The Christian voice must surely be heard resisting a purely monetarist approach: the Bible sees wealth in God and in people, rather than in money and commodities, and we must insist on reckoning "social cost" as a factor in any adequate evaluation. Certainly the social cost for the people of Wales of the sudden and huge addition to the unempolyment queue will be considerable and in some respects (will) have consequences which are both damaging and irreversible.'

Ochr yn ochr â'r ymdrechion cenedlaethol hyn i ddeall a dehongli'r sefyllfa ddiwydiannol ac economaidd yng Nghymru, bu'r Pwyllgor yn dra phrysur yn cynnull ymgynghoriadau rhanbarthol mewn nifer o ganolfannau yng Nghymru a oedd yn dwyn at ei gilydd gynrychiolwyr yr eglwysi lleol, diwydiannau lleol (rheolwyr ac undebau), cyrff statudol a gwirfoddol yn ogystal â gwleidyddion. Cynhaliwyd y rhain yng Ngwynedd (Caernarfon), Powys (Y Drenewydd), Clwyd (Wrecsam) a Llanelli. Drwy'r rhain ceisiwyd pwyso ar eglwysi lleol i fod yn fwy ymwybodol o ddatblygiadau diwydiannol yn eu hardaloedd a bod yn barod i ymateb yn briodol:

> `We believe that the Church has a decisive role in helping to restore to economic and industrial man a sense of his intrinsic worth, not as

--------------------

1. ibid..

2. Adroddiad y Pwyllgor Diwydiant, 24 Ebrill 1980.

3. Un o brif themau Cyngor Eglwysi'r Byd yn y cyfnod rhwng pumed Cymanfa Nairobi (1975) a chweched Cymanfa Vancouver (1983). Yr astudiaeth hon a arweiniodd y ffordd at y broses, Heddwch, Cyfiawnder a Chyfanrwydd y Cread, a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn Vancouver.

worker or consumer, but as "child of God". It can only do so by entering into the industrial world and finding people there.'[1]

Ond nid dyma unig gyfraniad bugeiliol y Pwyllgor yn ystod y blynyddoedd hyn. Ym 1975 cyhoeddwyd (yn bennaf, o dan ddylanwad Ray Taylor) *Redundant! A Personal Survival Kit* ac ail-argraffiad ym 1980. Bwriadwyd hwn yn bennaf ar gyfer unigolion a gollai eu swyddi. Ym 1979 cyhoeddwyd *Redundancy: The Last Option* i gynnig arweiniad i reolwyr diwydiannol a swyddogion undebau llafur wrth iddynt ddelio â phroblemau diweithdra. Rhyngddynt gwerthwyd 20,000 o'r rhain a chyfieithwyd *A Personal Survival Kit* i nifer o ieithoedd Ewropeaidd eraill. Arweiniodd hefyd at daflen Comisiwn Gwasanaethau'r Gweithlu (?) (Manpower Services Commission) *Out of Work?* Dosbarthwyd dros 500,000 o hon yn rhad drwy Ganolfannau Gwaith ar draws Prydain.

Nid oes amheuaeth nad yw'r caplaniaid diwydiannol a'u cynorthwywyr wedi cynnig gwasanaeth bugeiliol Cristnogol hollbwysig ym myd diwydiant a diweithdra mewn cyfnod argyfyngus yn hanes diweddar Cymru. Drwy fod yno yng nghanol y sefyllfa buont yn bresenoldeb a llais yr Efengyl mewn mannau nad oedd eraill yn yr eglwysi yn beiddio mentro iddynt. Bu iddynt fanteisio ar bob cyfle i ddehongli i eraill yn yr eglwysi yr hyn a ddigwyddai a'u cymell i fod yn barod i weithredu yn `broffwydol' a `bugeiliol' oddi fewn i'w hardaloedd. Ac yn hyn oll, bu Cyngor Eglwysi Cymru yn dra chefnogol iddynt ac i'r Pwyllgor Diwydiant a oedd yn fan cyfarfod a chynhaliaeth iddynt yn eu gwaith anodd a digalon. Mae lle i ofni, fodd bynnag, mai ychydig o bobl yn yr eglwysi a glywodd eu cri yn ystod y cyfnod hwn ac na newidiodd blaenoriaethau cenhadol ac ariannol yr eglwysi a'r enwadau yng Nghymru yn sylweddol iawn o ganlyniad i'r `genhadaeth ddiwydiannol'. 'Roedd yr angen yn parhau am ymdrechion i helpu'r eglwysi a Christnogion ddeall yn well yr hyn a oedd yn digwydd mewn diwydiant, ei effaith ar ein cymdeithas gyfan a'r her i'n diwinyd-

---

1. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Diwydiant, 1980.

diaeth Gristnogol. Dyma ddaeth yn flaenoriaeth i'r Pwyllgor o hyn ymlaen.

**DADANSODDI A DIWINYDDA**

Gwnaed hyn yn bennaf drwy dri gweithgarwch. Yn Nhachwedd 1980 cynhaliwyd cynhadledd yng Ngholeg Trefeca, o dan nawdd y Pwyllgor Diwydiant ar y thema, *Wales - Making a New Future*. Ym 1982 cyhoeddwyd *Towards a Contemporary Theology of Work* fel ymgais i ailystyried diwinyddiaeth gwaith yn y cyd-destun Cymreig. Ym 1985 cyhoeddwyd taflen ar *Privatisation - A Dangerous Trend in British Society* a fu'n achos cryn drafod ac anghytundeb ar y pryd.

Prif siaradwyr cynhadledd 1980 oedd Charles Elliott[1] a Harold Carter[2]. Pwnc Charles Elliott oedd `Cymru yn y Byd'. Ceisiodd gymharu'r hyn a oedd yn digwydd yng Nghymru â'r hyn a oedd yn digwydd yng ngwledydd tlotaf y byd, gan sylfaenu ei ddehongliad ar y *model* o'r canol a'r ymylon.

> `...Putting the national and international applications of the model together, we can say in Wales that at the national level we are victims while at the international level we are beneficiaries. We are both exploited and exploiters...There is a lot to be said for not being caught up in the centre and to maximise the satisfaction that can be found on the periphery. Can this make sense in Wales?'[3]

Wrth edrych i'r dyfodol cynnig cymysgfa o broblemau a chyfleoedd a wnaeth Harold Carter, megis, ein bod yn wynebu newid parhaol mewn patrymau diwydiannol, bod angen athrylith *entrepreneurial* nad yw Cymru'n enwog amdano, y dylid rhoddi'r flaenoriaeth i gynhyrchu gweithlu sydd â'r sgiliau angenrheidiol yn hytrach na pharhau i weld addysg yn nhermau cynhyrchu 'teachers and preachers', fod yn rhaid sylweddoli fod i ymfudo oddi fewn i Gymru ei ganlyniadau cymdeithasol,

--------------------

1. Offeiriad Anglicanaidd a oedd yn gyfarwyddwr Canolfan Addysg mewn Datblygiad, Coleg y Brifysgol, Abertawe.

2. Athro Daearyddiaeth Gymdeithasol yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth.

3. Adroddiad y Gynhadledd, *Wales - Making a new Future: I,* gan Ray Taylor, Tachwedd 1980, tud. 2.

megis ymddieithrio oddi wrth y gymuned leol, a bod y newidiadau a welwyd yn sylfaenol elyniaethus i gynhaliaeth a datblygiad yr iaith Gymraeg.[1]

Pwysleisiodd y gynhadledd y gwerthoedd Cristnogol a'r camau ymarferol y dylid canolbwyntio arnynt. Gelwir Cristion i fod yn realistig a gobeithiol. Gwelwyd fod perygl `that we could depress ourselves by our own analysis.'

> `But we wish to affirm that there is a future to be made...There is need for realism but part of that realism must be confidence in what we have.'[2]

Ffordd Andrew Morton[3] o fynegi hyn oedd: `...while resurrection faith is optimistic, crucifixion faith is realistic...'[4] Credwyd hefyd y dylid pwysleisio ansawdd bywyd:

> `For the Christian...the industrial/economic process is not just about the creation of wealth but about the creation of worth...We have to ask how, in a society which has largely learned to value people by the work they do, people are to be given "worth" without work.'[5]

Yn ymarferol, yn y tymor byr, 'roedd angen am sefydlu cynlluniau lleol i gefnogi'r diwaith mewn cyfnod o argyfwng; yn y tymor canol, 'roedd angen gwella amgylchiadau ar yr ymylon a hynny drwy alluogi pobl leol i gyfranogi fwy-fwy mewn cynllunio; yn y tymor hir, byddai'n rhaid datblygu `sgiliau bywyd' gan na fyddai angen yn y dyfodol am yr hyn yr arferem ei alw yn `waith'.[6]

'Roedd y gynhadledd hon - fel ei rhagflaenwyr - yn cynrychioli ymdrech werthfawr nid yn unig i ddehongli'r sefyllfa a oedd yn bodoli ym 1980 ond i geisio dangos y

--------------------

1. ibid., tud. 2 - 3.

2. Adroddiad y Gynhadledd, *Wales - Making a New Future: II*, tud. 1.

3. Gweinidog gydag Eglwys yr Alban a oedd yn Ysgrifennydd Materion Cymunedol, Cyngor Eglwysi Prydain.

4. ibid., tud. 3.

5. ibid., tud. 2.

6. ibid., tud. 3 a 4.

ffordd ymlaen i'r eglwysi:

> `The churches must recognise their responsibility to contribute their insights and thinking on these and many other questions if they hope to participate in making a new future for Wales.'[1]

Ysywaeth ychydig a ymglywodd â'r alwad hon, yn rhannol am fod methiant cyson i ddatblygu patrymau cyfathrebu effeithiol a fyddai'n cyflwyno materion o'r fath i sylw'r eglwysi a'r enwadau, ac yn rhannol, am nad oedd yr eglwysi a'r enwadau yng Nghymru wedi datblygu dulliau effeithiol - naill ai'n enwadol neu'n gydeglwysig - o ymateb i her genhadol y newidiadau enfawr a oedd yn digwydd yma yn ystod y cyfnod o dan sylw.

Gwelsom eisoes[2] mai un o gasgliadau sylfaenol yr ystyriaeth fanwl a roddwyd i ddiweithdra yng Nghymru oedd fod angen edrych o'r newydd ar ddiwinyddiaeth gwaith, ac yn fwyaf arbennig, ar y foesoldeb gwaith Brotestannaidd a oedd yn sail i agweddau'r gymdeithas ôl-Gristnogol yng Nghymru ac yng Ngorllewin Ewrop. Sefydlwyd gweithgor a oedd yn cynnwys ysgolheigion mewn diwinyddiaeth a meysydd eraill, caplaniaid diwydiannol ac eraill â phrofiad helaeth mewn diwydiant. Tasg y Gweithgor oedd `to examine the Christian understanding of work in human society' a chyhoeddwyd *Towards a Contemporary Theology of Work*[3] ym Mawrth 1982. Yn ei Ragair i'r ddogfen dywed Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyngor:

> `This is no academic exercise; theology and action are interwoven and the author gives us an essential foundation for our search for new directions for the Churches' mission in our day. Furthermore, it is a significant contribution to the shaping of our society, in Wales and world-wide.'

Yn yr un modd gwelai'r awdur ei hun mai ymdrech oedd yma i wynebu

> `all the symptoms of industrial decline and change, and the need to

---

1. ibid., tud. 3.

2. Gweler *Why Work?*, adroddiad cynhadledd y Pwyllgor Diwydiant, 1979.

3. *Towards a Contemporary Theology of Work*, Paul H. Ballard, Canolfan Ddiwinyddaeth Golegol, Coleg y Brifysgol, Caerdydd mewn cydweithrediad â Phwyllgor Diwydiant Cyngor Eglwysi Cymru.

> discover, often by painful experience, slowly and painstakingly, the shape of the future in our society: the nature of industry, the patterns of employment, the alternatives to presently assumed lifestyles.'[1]

Yn nes ymlaen yn y ddogfen pwysleisir mai tasg mewn moesoldeb Gristnogol yw hon gyda'r prif nod o rannu gwybodaeth gyffredinol `providing the parameters of Christian judgement and a sense of direction.'[2]

Y mae pum pennod i'r ddogfen, ar *Development of Industrial Society and Work; Concepts of Work, theological and ideological; Biblical Perspectives; A Theme for Variations: God, man and work; Indications for Variations on a Theme* ynghyd â chrynodeb o'r prif gasgliadau i gloi.

Wrth gloriannu'r dystiolaeth feiblaidd mewn perthynas â gwaith daw i'r casgliad ei fod yn cyflwyno gweledigaeth sylfaenol amwys. Ar y naill law, y mae gwaith yn rhan o drefn y cread fel ei bwriadwyd gan Dduw ac yn rhan o waith yr iachawdwriaeth mewn byd syrthiedig a thoredig. Gelwir, felly, am ddiffiniad newydd a chynigir y canlynol fel man cychwyn:

> `Work is given to and for man, not man for work. The existence of man must not be defined by work or made dependent on work, however essential and proper work is but he must be understood and evaluated as God's creature who can find meaning and reward and identity in the relationship of love that draws out adoration, fellowship and service.'[3]

Gwelir gwaith fel rhan o egni creadigol y bywyd dynol; cyfoethogir pobl drwyddo; drwyddo hefyd gallant gyflawni eu posibiliadau cynhenid. Ond rhaid ei weld o bersbectif yr Efengyl: `...redemption is itself a work...a model for the world. (The work of Christ) reveals the fullness of the kingdom in the world.'[4] Drwy rodd yr

--------------------

1. ibid., tud. 1.
2. ibid., tud. 57.
3. ibid., tud. 41.
4. ibid., tud. 46.

atgyfodiad gall gwaith droi'n gyfraniad i'r dyfodol, yn drawsffurfiad a barn. Yn y sicrwydd hwn `...there can always be hope that, with creative imagination, committed caring and energetic action, no situation is total disaster...'[1]

Y mae'r ymgais i ymdrin â'r brif thema, Duw, dyn a gwaith, sy'n dilyn, yn cymryd fel cynsail yr amwysedd sylfaenol a nodwyd eisoes. Ceir anhawster cyson drwy'r ddogfen i ddianc rhag y tyndra sylfaenol rhwng `the ambiguity of human existence and the possibility of hope.'[2] Rhed y ddwy ffrwd hon drwy'r `amrywiaethau ar y thema' a gynigir yn y bedwaredd bennod, wrth ystyried perthynas yr unigolyn â gwaith, gwaith a'r gymuned, a gwaith ac eschatoleg. Efallai mai yma yn unig y mae'n bosibl dychmygu dileu'r amwysedd sylfaenol sy'n rhedeg drwy'r ddogfen. Y weledigaeth feiblaidd o *Shalom* yw'r allwedd:

> `Shalom ...is the harmonious interweaving of responsibility and pleasure in and with and for each other in which work is not a burden...but a fulfilling necessity...Shalom holds the vision of prosperity...Wealth, not for its own sake, but as a condition of peace.'[3]

Ond diwedd a diben y cyfan fydd "Duw oll yn oll":

> `...when everything in time and space will be handed over to him and in him to be made perfect. Work is worship, the way we transform ourselves and our world according to God's creative purpose. Each true act of work is part of that offering.'[4]

Nid yw'r ddogfen hon yn ceisio cyflwyno rhaglen waith sy'n tarddu o'r ymdriniaeth ddiwinyddol o waith a geir ynddi. Yn wir, cydnebydd nad dyma yw ei diben ond yn hytrach ceisio cynorthwyo'r Cristnogion hynny sy'n gweithio mewn diwydiant mewn gwahanol ffyrdd i ddeall yn well beth yw galwad Duw arnynt mewn sefyllfa gymhleth ac amwys. Y mae Cristnogion yn bresennol mewn diwydiant ac yn cyflawni nifer o dasgau gwahanol ac eto:

--------------------

1. ibid., tud. 47.
2. ibid., tud. 48.
3. ibid., tud. 56.
4. ibid., tud 56.

> `...in each case...the contribution of the Christian presence is to aim to embody a little more clearly and fully something of the sense of human dignity and worth that is part of the Christian understanding of man and his work.'[1]

Mewn cyfnod o ansicrwydd a phoen y mae'r ffydd Gristnogol yn pwysleisio dau wirionedd sylfaenol, yn ôl yr awdur, sef, fod Duw yn uniaethu ei hun â'r tlawd a'r difreintiedig (felly, dylai Cristnogion fod yn ymwneud â her diweithdra a'i holl ganlyniadau) a bod yr Efengyl yn berthnasol i'n cryfder yn ogystal â'n gwendid: `It is therefore just as important for the Christian presence to be found (within rapid developments of technology...and economic points of growth) as anywhere else.[2]

Un o brif gasgliadau'r ddogfen yw na ellir adnewyddu ein diwinyddiaeth ar gyfer oes newydd heb yr ymwneud hwn ym materion tyngedfennol ein cyfnod `...of which the problems of work, unemployment and economic change is one of the most crucial and immediate.' Gair o her i'r eglwysi, ac i Gristnogion unigol, yw gair olaf y ddogfen, felly:

> `It is absolutely essential that the word of judgement and hope which is the Gospel be heard. Christians know and will continue to strive to discover how it is that the heart of this secret is found in the cross and resurrection. And part of this will be to stand in and for the world in service, offering life through patience, love, caring and suffering.'[3]

Prif gyfraniad y ddogfen hon oedd ei bodolaeth! Ni chyhoeddwyd dogfen gyffelyb ar y themâu hyn yng Nghymru o'r blaen. Yr oedd yn werthfawr hefyd am mai cynnyrch trafodaethau rhwng diwinyddion a Christnogion a oedd yng nghanol bywyd diwydiannol Cymru ydoedd. Llwyddodd i grynhoi mewn cwmpas cymharol fyr brif ffrydiau'r dystiolaeth feiblaidd a'r traddodiadau diwinyddol mewn perthynas â gwaith. Yr oedd yn cynnig, felly, fframwaith ar gyfer adeiladu diwinyddiaeth gwaith Gristnogol ar gyfer cyfnod newydd, cyfnod a fyddai'n dwyn yn ei sgil

---

1. ibid., tud. 59.
2. ibid., tud. 60 - 61.
3. ibid., tud. 62.

newidiadau enbyd na allai'r cyfnodau a roddodd fodolaeth i'r dehongliadau diwinyddol a amlinellir yn y ddogfen fod wedi dechrau eu dychmygu. Fframwaith yn unig a gynigir yma; dyna'r unig fwriad. *Towards a Contemporary Theology of Work* oedd ei deitl, wedi'r cyfan. Gall hyn fod yn rwystredig ar brydiau, gan na cheir weledigaeth newydd, eglur o ddiwinyddiaeth gwaith Gristnogol ar gyfer diwedd yr ugeinfed ganrif. Her y ddogfen yw mai tasg i'r eglwysi yw ymestyn tuag at y weledigaeth hon wrth iddynt ymateb yn fwy egnïol a chreadigol i'r alwad i genhadaeth Gristnogol yng nghanol y newidiadau diwydiannol sy'n digwydd o'u cwmpas. Hyd yma ni chyhoeddwyd unrhyw waith diwinyddol arall ar y themau hyn yng Nghymru, mewn cyfnod pan oedd cryn ysgrifennu ar y pwnc mewn gwledydd eraill. Y mae lle i amau, hefyd, a ydyw'r eglwysi yng Nghymru, naill ai'n enwadol neu'n gydeglwysig, wedi ymgiprys mewn gwirionedd â'r dasg hon. Y mae byd diwydiant yn dal i fod yn ddieithr i'r eglwysi, yn ddiwinyddol a chenhadol, ac y mae ffydd, addoliad a chenhadaeth yr eglwysi yng Nghymru yn dlotach o'r herwydd.

Erbyn 1984 'roedd y Llywodraeth Doriaidd o dan arweiniad Mrs. Thatcher wedi bod mewn grym am bum mlynedd a pholisi economaidd y farchnad a phreifateiddio (mewn diwydiant a masnach yn ogystal ag ym mywyd unigolion a theuluoedd) ar gynnydd. Yn ystod Haf 1984, hefyd, y dechreuodd yr anghydfod yn y maes glo a gafodd effaith mor enbydus, nid yn unig ar yr ardaloedd glofaol ond ar y gymdeithas yn gyffredinol.[1]

Felly, cyflwynodd y Pwyllgor Diwydiant bapur i gyfarfod blynyddol y Cyngor ar 13 Hydref 1984[2] ar `Dueddiadau Peryglus yng Nghymdeithas Prydain.' Gwnaed cais am gael cyhoeddi'r daflen yn enw'r Cyngor. Bu'r drafodaeth o'r cais hwn yn anodd

---

1. gweler Pennod 13.

2. Yn y cyfarfod hwn hefyd y cytunwyd ar y penderfyniad a fu'n sail i holl ymwneud yr eglwysi yng Nghymru â'r anghydfod glo.

iawn, gyda rhai aelodau yn bleidiol i'r ddogfen ac eraill yn gofidio ei bod yn gwneud honiadau ysgytwol nad oeddent wedi eu seilio ar ffeithiau profedig. Yn y diwedd, gwrthodwyd y cais a chytunwyd yn hytrach i wahodd grwp bychan o blith aelodau'r Cyngor i gyfarfod â chynrychiolwyr y Pwyllgor Diwydiant i adolygu'r ddogfen a'i chyflwyno eto i'r Cyngor yng Nghyfarfod y Gwanwyn 1985. Bu'r penderfyniad hwn yn achos anfodlonrwydd ymhlith rhai o aelodau'r Pwyllgor: onid oedd effeithiolrwydd y Pwyllgor yn cael ei rwystro gan benderfyniad y Cyngor? O ganlyniad bu'n rhaid i Bwyllgor Gwaith y Cyngor ar 6 Rhagfyr 1984 ystyried cais gan y Pwyllgor Diwydiant fod rheolau'r Cyngor ynglŷn â gwneud datganiadau cyhoeddus yn cael eu hadolygu. Cadarnhawyd fod y Cyngor yn glynu at y rheolau, sef, fod datganiad yn cael ei ryddhau ar ôl trafodaeth lawn yng nghyfarfod y Cyngor neu mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith. Heblaw hynny, ni ellid ond rhyddhau datganiad yn enw Pwyllgor, gyda chaniatâd swyddogion y Cyngor.[1] Yn y cyfamser, cafodd y *Western Mail* afael ar gopi o'r ddogfen a chyhoeddodd erthygl sylweddol ar ei chynnwys o dan y pennawd anghynorthwyol, `*Churchmen slate "menace" of Tories' social divide*'[2] - a hynny yng nghanol streic y glowyr ac ymdrech yr eglwysi i gyfrannu at ddatrys yr anghydfod!

Bu'n rhaid i'r Pwyllgor adolygu'r ddogfen wreiddiol a bu Ray Taylor yn gyfrifol am baratoi ail ddrafft yn canolbwyntio ar breifateiddio. Credai'r Pwyllgor fod sylfeini diwinyddol anfoddlonrwydd yr eglwysi â'r Llywodraeth yn dod i'r amlwg ac ymdeimlwyd â chyfrifoldeb i geisio rhoi mynegiant i'r gofid hwn mewn termau llai ymfflamychol. Yn ei gyfarfod ar 5 Medi 1985 cytunodd y Pwyllgor Diwydiant ar fersiwn terfynol i'w gyflwyno i'r Cyngor ar yr amod y dylid ei dderbyn fel yr ydoedd neu beidio; ni ddylid newid y geiriad. `If the Council can't adopt it, it remains an

--------------------

1. Cofnodion Pwyllgor Gwaith y Cyngor, 6 Rhagfyr 1984.
2. *Western Mail*, 9 Tachwedd 1984.

Industrial Committee property.'[1]

Pan gyflwynwyd y ddogfen i gyfarfod blynyddol y Cyngor ar 2 Tachwedd 1985 cytunwyd i'w chyhoeddi fel dogfen drafod ac nid fel datganiad o bolisi, a hynny yn enw'r Pwyllgor Diwydiant ac nid yn enw'r Cyngor. Gwahoddwyd pwyllgorau eraill y Cyngor i lunio taflenni tebyg ar dueddiadau eraill yr oeddent hwy yn gofidio amdanynt. Ond ni ddigwyddodd hynny.

Fe'i cyhoeddwyd, felly, yn Ionawr 1986, dan y deitl, *Privatisation - A Dangerous Trend in British Society.* Canolbwyntiodd ar y ddwy agwedd ar breifateiddio a nodwyd uchod, sef, preifateiddio diwydiannau a gwasanaethau cyhoeddus a oedd yn bolisi'r Llywodraeth a'r duedd (yn ymagwedd y `dde') i feddwl mai'r egwyddor sylfaenol yn ein cymdeithas oedd rhyddid, hawl ac uchelgais yr unigolyn (a'i deulu). Calon beirniadaeth y daflen oedd cyfeiriadau at sylw'r Prif Weinidog mewn anerchiad i Gymanfa Gyffredinol Eglwys yr Alban yn seiliedig ar ddameg Y Samariad Trugarog, nad oedd y fath beth â chymdeithas, ac na fyddai'r Samariad wedi medru cynorthwyo'r teithiwr onibai iddo gasglu'r cyfoeth personol a'i galluogai i ddiwallu ei anghenion:

> `It was meant to legimitise selfishness, though not for its own sake but as means to an end...It was no less than cynical to use a biblical parable, which many of those most troubled would regard as authoritative, as a political lever. But to presume to absolve them was a far more serious deviation from her role than that of any bishop who merely wishes, as a responsible citizen, to play his part in the public debate about the kind of society we want.
>
> `It is indeed a dangerous trend when those who claim the moral right to govern are knowingly involved in subverting moral values and standards of behaviour, turning them upside-down and saying that bad is good.
>
> `These changes in attitudes and values ...we judge to be the main aim of the Government's present policies...'[2]

--------------------

1. Cofnodion y Pwyllgor Diwydiant, 5 Medi 1985.
2. *Privatisation - A Dangerous Trend in British Society*, tud. 4 - 5.

Cyflwynwyd dadansoddiad manwl o streic y glowyr fel enghraifft o'r broses hon. Yn wir credwyd mai dyma, yn y bôn, oedd nod safiad y Llywodraeth yn erbyn Undeb Cenedlaethol y Glowyr:

> `It was a formidable task, for it not only meant breaking traditions that were deeply embodied in the culture of the mining communities, but it would also demand considerable courage on the part of those who responded (by relinquishing any responsibility *they* might feel for the future of *their* industry and concentrate on what *they* saw to be best for *themselves* and for *their* family), whatever the rights and wrongs of doing so.'[1]

Honnai'r daflen fod nifer o ganlyniadau cysylltiedig yn dilyn o'r bwriadau hyn. Byddai eu gwaredu o ddibyniaeth ar wladwriaeth les, a'u rhyddhau `to the bracing climate of the real world,...motivated to compete, to innovate and to achieve...' yn gadael rheolaeth ein cymdeithas yn nwylo'r un bobl ag o'r blaen: `...in the hands of those already strong.'[2] Byddai cost y broses hon yn cael ei gosod ar y rhai sydd â'r adnoddau lleiaf, y tlawd. Diweithdra cynyddol a fyddai'r canlyniad. Cymdeithas ranedig a fyddai eu diwedd. Yng ngeiriau'r daflen:

> `...measured in terms of economic justice and social cohesion, an ideology of privatisation has consequences which take us further away from...the goals to which British society should be committed.'[3]

Beth a oedd gan y traddodiad Cristnogol i'w ddweud ynglŷn â'r tueddiadau hyn? Y mae'r daflen yn awgrymu nifer o egwyddorion perthnasol: y mae gwerth y person unigol yn Nuw ac yn ein perthynas â'n gilydd, felly, y mae preifateiddio unigolyddol yn groes i'r traddodiad Cristnogol. Duw cyfiawnder yw Duw, fel y cyhoeddodd proffwydi'r Hen Destament (`...the God of righteousness is unambigously on the side of the poor and the powerless.'[4]) Yn yr un modd, gwelir yr un amcan yng ngweinidogaeth Iesu (`...Jesus always responded to those who were already victims...but he could also be moved to compassion by the crowd, while both his

1. ibid., tud. 6.
2. ibid., tud. 9.
3. ibid., tud. 10.
4. ibid., tud. 10.

words and actions declared God's Kingdom...')[1] Ar sail yr egwyddorion Cristnogol hyn deuir i'r casgliad fod y Beibl yn cynnig inni weledigaeth sy'n cyfuno'r personol a'r cymdeithasol:

> `...we cannot...find biblical support for a world view which equates the spiritual with the individual and ignores the ways by which the spiritual values are incorporated into our social structures. Nor can we find support there for policies which exempt the inidividual from responsibility for society, isolate the individual from others or ignore the biblical insight into the integration of the personal with the social.'[2]

A chraidd y weledigaeth hon yw'r cariad sy'n rhoi ateb cadarnhaol yn ddieithriad i gwestiwn euog Cain, *Ai ceidwad fy mrawd ydwyf fi?*

Lluniwyd y daflen hon gan y Pwyllgor yn ystod streic y glowyr. Nid damwain oedd hynny. Gwelwyd yr hyn a oedd yn digwydd i'r diwydiant glo fel yr enghraifft rymusaf o'r tueddiadau a drafodir yn y daflen ac, fel y gwelwyd eisoes, rhoddir cryn ofod i ddadansoddi'r hyn a ddigwyddodd. Y mae'n briodol, felly, i roddi sylw arbennig i weithgaredd yr eglwysi yn ystod yr argyfwng hwn.

--------------------

1. ibid., tud. 11.)
2. ibid., tud. 11.

# PENNOD 13

## YR EGLWYSI A'R ANGHYDFOD GLO

'Roedd ymateb enwadau Cymru i anghydfod 1984 - 85 yn enghraifft nodedig, os nad unigryw, o dystiolaeth Gristnogol mewn argyfwng cymdeithasol yn y cyfnod diweddar. Y mae'n dra amheus a fyddai wedi bod yn bosibl ymateb fel y gwnaed onibai am gyfraniad nodedig y Pwyllgor Diwydiant i ddealltwriaeth y Cyngor a'r enwadau o her y dystiolaeth Gristnogol ym myd diwydiant dros yr ugain mlynedd blaenorol. Ers 1956 ni chafwyd cydsynio a chydsymud cyffelyb ac ni chafodd unrhyw weithgarwch o'r fath gymaint sylw gan y cyfryngau. O ganlyniad, haedda astudiaeth arbennig er mwyn dehongli'r gwersi a ddysgwyd drwyddo nid yn unig mewn perthynas â'r eglwysi yn yr ardaloedd glofaol yn benodol ond hefyd mewn perthynas â'r modd y gellid cryfhau partneriaeth yr eglwysi yn eu hymwneud â holl her cymdogaeth a chenedl.

Rhaid cydnabod mai yn araf y daeth yr eglwysi i mewn i'r sefyllfa ac mai prin yn y dechrau fu datganiadau eglwysig ac enwadol. Y cam cyntaf i Gyngor Eglwysi Cymru, fel y cyfryw, oedd penderfyniad yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor yn Aberystwyth ar 12 Hydref 1984 ar *Ddyfodol y Diwydiant Glo oddi fewn i Ddyfodol Cymru*:

> Yn wyneb pwysigrwydd y cymunedau glofaol oddi fewn i fywyd Cymru gyfan, y bygythion i undod y cymunedau, cyfiawnder a thosturi oddi fewn i'n cymdeithas, ymwneud yr eglwysi yn y cymunedau hynny dros gyfnod maith, a'u tasg sylfaenol o geisio dirnad ewyllys Duw ar gyfer cymdeithas Cymru, credwn y dylai dyfodol y diwydiant glo gynnwys y canlynol:
>
> Geilw am ddadl eang ynglŷn â pholisi ynni, yn canolbwyntio ar un o ffynonellau mwyaf naturiol ynni naturiol, glo. Ni ddylai'r ddadl fod ynglŷn ag elw yn unig ond ynglŷn â stiwardiaeth o roddion naturiol Duw er lles pawb.
>
> Yn y ddadl hon dylid rhoi sylw uchel iawn i'r doethineb a'r athrylith sylweddol a ddaeth i ran glowyr yn ystod canrif a hanner. Y mae dameg drychinebus Aberfan, lle 'roedd yr arbenigwyr yn anghywir a'r bobl leol yn gywir, yn rhybudd parhaol. Nid oes dyfodol digonol i'r diwydiant heb bartneriaeth lawn a chyfrifol rhwng y glowyr a'u cynrychiolwyr.

Wrth asesu bodolaeth y pyllau i'r dyfodol rhaid ystyried y gost gyfan. Os defnyddir y gair economaidd (neu aneconomaidd) dylid cynnwys cost uchel diweithdra, sydd hefyd yn cynnwys costau iechyd, tai ac addysg. Y mae Cyngor Eglwysi Cymru wedi dadlau hyn yn y Swyddfa Gymreig mewn cyfnod cynharach o ddiweithdra.

Y mae tosturi wedi nodweddu prif gyfeiriad polisi cymdeithasol Prydain oddi ar y rhyfel diwethaf. Rhaid ei ailfynegi yma, gan fod yn rhaid i'r gost gyfan gynnwys elfennau anghyffwrdd anhapusrwydd personol a rhyng-bersonol.

Pan fo pyllau, trwy gytundeb, yn gorfod cau dylid bod polisi cadarn o fuddsoddi mewn diwydiannau newydd yn y maes glo er mwyn sicrhau swyddi yn y genhedlaeth hon ac yn y cenedlaethau fydd yn dod.

['Rydym yn dwyn ar gof fod Cynhadledd o Enwadau Cristnogol yn Ne Cymru yn ystod y dirwasgiad wedi cychwyn syniad ac ymgyrch a arweiniodd at sefydlu stad ddiwydiannol Trefforest, hynafiad cyntaf Bwrdd Datblygu Cymru. Nid oedd byth yn ddigon - ond roedd yn sylfaen datblygiadau pellach.]

Rhaid cael ymgais genedlaethol frys i wynebu dyfodol y diwydiant glo a'r ardaloedd glofaol, yng nghyd-destun economi ar gyfer Cymru. Yn hyn yr ydym yn hyderus fod arweinwyr Cymreig y Bwrdd Glo Cenedlaethol ac arweinwyr Cymreig Undeb Cenedlaethol y Glowyr yn deyrngar i Gymru, a chredwn fod yma sylfaen cydweithrediad, ac y mae cydweithrediad y gymdeithas ehangach, gan gynnwys yr eglwysi, sydd ag ymrwymiad i Gymru drwy Gyngor Eglwysi Cymru, yn ganolog.[1]

Lluniwyd y penderfyniad hwn gan swyddogion Pwyllgor Diwydiant y Cyngor ac y mae'n adlewyrchu blynyddoedd lawer o brofiad diwydiannol yng Nghymru drwy gaplaniaid diwydiannol a thrwy ganolfannau megis Canolfan Ecwmenaidd Blaendulais a Thŷ Toronto yn Aberfan (y naill a'r llall o dan gyfarwyddyd Erastus Jones). Y mae'r sôn am 'arwyddocâd y cymunedau glofaol oddi fewn i fywyd cyfan Cymru' a'r 'dasg sylfaenol o geisio dirnad ewyllys Duw ar gyfer y gymdeithas Gymreig' yn rhoi mynegiant i'r hyn fu'n sylfaenol i waith y Pwyllgor Diwydiant o'r cychwyn, sef bod a wnelo'r gweithgarwch hwn â chenhadaeth y Deyrnas yng Nghymru. Dyma'r ateb i'r sawl oedd yn cwyno (fel y gwnaeth un brawd o Lanishen) mai "..priod waith yr eglwys yw addoli Duw a chyhoeddi'r efengyl" ac na ddylid o ganlyniad fod yn ymwneud mewn anghydfod o'r fath! 'Roedd y datganiad hwn yn arwyddocaol hefyd am ei fod yn codi'r cwestiynau tymor-hir yn ogystal â'r rhai tymor byr a oedd

1. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 12 Hydref 1984, tud. 3

yn hawlio'r penawdau ar y pryd. Byddai ymadroddion megis `polisi ynni', `tosturi', `buddsoddi mewn diwydiannau newydd', `y gost gyfan' a 'dyfodol y cymunedau glofaol' yn allweddol mewn trafodaethau a datganiadau yn nes ymlaen.

Er fod y penderfyniad hwn wedi ei basio'n ddiwrthwynebiad nid oedd pawb yn yr eglwysi'n esmwyth a chafodd ei ddehongli mewn pennawd yn y *Western Mail* rai dyddiau'n ddiweddarach fel *Churches side with miners*. 'Roedd ymateb Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Nicholas Edwards, mewn llythyr ar 6 Tachwedd 1984 yn un diddorol:

> These are the natural worries of those whose future and way of life is linked to the future of the mining industry and your Council's resolution properly highlights major issues...the dispute has shown the harsh reality of what is possible when the pursuit of economic objectives by leaders of the NUM is carried to extremes and breeds violence, intolerance and intimidation...
>
> We are fully committed to a strong and viable coal industry and are prepared to see substantial levels of investment....
>
> Investment in new industry is the way forward..These are acts of economic planning. They are also acts of compassion and caring....But in (turning to the future) let us not forget that the actions of the current NUM leadership are...threatening many of the values on which our social and religious structure depends.

Ar 19 Tachwedd, mewn ymateb i wahoddiad Undeb Cenedlaethol y Glowyr i eglwysi (ymhlith mudiadau eraill) i fod yn fwy gweithredol yn yr anghydfod, aeth Gronw ap Islwyn a Noel Davies (gweinidogion gydag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg), Douglas Bale a John Morgans (gweinidogion gyda'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig) i gynnal trafodaethau hollol gyfrinachol gyda changen De Cymru Undeb Cenedlaethol y Glowyr a Chyfarwyddwr De Cymru y Bwrdd Glo Cenedlaethol. Amcan y cyfarfodydd hyn oedd 'gwrando ar farn y ddau gorff ynglŷn â chyflwr presennol yr anghydfod, darganfod sut y gwelent y posibiliadau o symud tuag at gytundeb ac asesu a oedd gan yr eglwysi ran i'w chwarae.' Roeddent yno fel unigolion ac nid mewn unrhyw fodd fel cynrychiolwyr eu henwadau na'u mudiadau.

Wedi'r ymweliadau hyn treuliwyd rhai dyddiau yn ystyried arwyddocâd yr hyn a ddarganfuwyd ac yn ceisio llunio casgliadau a fyddai'n cynnig ffordd ymlaen. Daethpwyd i dri phrif gasgliad. Yn gyntaf, gellid dirnad barn gytûn rhwng y Bwrdd a'r Undeb yng Nghymru ar nifer o faterion allweddol. 'Roedd rhain yn cynnwys hyder yn nyfodol y diwydiant glo yng Nghymru, yr angen am weithwyr disgybledig, celfydd a theyrngar, yr angen am reolwyr profiadol a thosturiol, y gyd-ddibyniaeth rhwng y diwydiant glo a'r cymunedau glofaol, yr angen am sicrhau cytundeb drwy gyd-drafod a bod dyfodol y diwydiant ynghlwm wrth benderfyniadau'r gymdeithas ehangach. Felly, ar sail y ddirnadaeth hon, pwyswyd am i'r cyd-drafod Prydeinig rhwng y Bwrdd a'r Undeb ailgychwyn ar frys. Yn ail, credwyd fod y sefyllfa'n galw am sefydlu Corff Adolygu Annibynol 'i ystyried yn ofalus ddyfodol y diwydiant glo yn y Deyrnas Unedig ac i gyflwyno'i gasgliadau i'r Bwrdd glo Prydeinig, i Undeb Cenedlaethol y Glowyr a'r Llywodraeth, fel y gallent wneud penderfyniadau cyfrifol gyda'i gilydd.' Credid y dylid gofyn i'r Corff Adolygu ystyried polisi ynni tymor hir ac anghenion y cymunedau sy'n prynu a chynhyrchu glo. Yn drydydd, galwyd ar yr eglwysi 'i gydweithio â'i gilydd ac â'r gymuned ehangach...yn y dasg o ddwyn iachâd a chymod...' Credid fod i'r casgliadau hyn berthnasedd cyffredinol ac fe'u rhannwyd â'r enwadau, y cyrff cydeglwysig ym Mhrydain a'r cyrff eraill a oedd yng nghanol yr anghydfod glo.

Cyhoeddwyd datganiad y grŵp o bedwar mewn cynhadledd i'r wasg yng Nghaerdydd ar 3 Rhagfyr 1984. Chwe gohebydd oedd yno a chyhuddwyd y grŵp o fod yn naïf ac anwybodus! Nid oedd hyn yn ddechrau calonogol.

Ar yr un adeg, rhannwyd casgliadau'r grŵp â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni, Peter Walker A.S.. Yn ei ymateb dyddiedig 21 Rhagfyr nododd fod adolygiadau annibynnol eisoes wedi eu cynnal a'u bod yn gytûn bod angen lleihad yng nghynnyrch y diwydiant 'to bring their capacity more into line with present and foreseeable demand levels and to make the industry more efficient. The NCB's proposals

are intended to secure for the industry a viable and long-term future.' Tra'n croesawu unrhyw gamau a fyddai'n sicrhau fod y glowyr yn dychwelyd i'w gwaith 'it must be on a basis that can offer the industry a healthy and viable future. So far, Mr. Scargill (*llywydd Undeb Cenedlaethol y Glowyr*) has not shown himself to be interested in such a settlement.'

Ar 30 Tachwedd lladdwyd David Wilkie. 'Roedd yn gyrru modur a fyddai'n arfer cludo glowyr a oedd yn torri'r streic i'w gwaith. Fe'i lladdwyd pan ollyngwyd darn mawr o goncrit o bont ar draws ffordd pennau'r cymoedd ger Rhymni. Syfrdanwyd pawb. Dyma un o drasiedïau treisiol mwyaf erchyll yr holl anghydfod, yn sicr yn Ne Cymru. Sut oedd yr eglwysi i ymateb i driasiedi o'r fath? Onid oedd unrhyw awgrym o gefnogaeth i achos y glowyr yn arwydd fod yr eglwysi yn ochri gyda threiswyr nad oeddent yn hidio dim am werth bywyd unigolion? Bu'r rhain yn ddyddiau anodd.

Esgob Llandâf, y diweddar John Poole Hughes, oedd un o'r rhai cyntaf i ymateb yn gyhoeddus. Yn ei bregeth yn angladd David Wilkie yn Eglwys y Santes Fair, Glyntaf, Pontypridd ar 11 Rhagfyr dywedodd:

> The best we can do now is to dedicate ourselves anew to repairing the evil that has arisen among us. That evil is the result of intransigence in <u>many</u> quarters and the tragedy is the inevitable result of escalating violence once the path of negotiation seems closed....
>
> Would it be possible for some sort of moratorium to be agreed, allowing for an immediate return to work without prejudice to tactical gains so far achieved...? Then an impartial board might be set up to look at the wider issues involved in an energy policy for the whole country...

Cafwyd adroddiad o eiriau'r Esgob yn y *Western Mail* ar 13 Rhagfyr a nodwyd fod yr argymhelliad hwn yn tarddu o'r ddogfen a gyflwynwyd gan y grŵp o bedwar. Yn yr un adroddiad nodwyd fel a ganlyn: 'a major church initiative to try to break the deadlock is gathering momentum and could be taken up at the highest level nationally.' Dyma oedd y cyfeiriad cyntaf yn y Wasg at argymhellion yr eglwysi. O hyn ymlaen câi'r ymdrechion hyn gryn sylw.

Un o'r prif resymau dros hyn oedd i Gyngor Eglwysi Cymru ac arweinwyr a phrif swyddogion yr enwadau fabwysiadu'r argymhellion. Ar 6 Rhagfyr rhoddwyd cefnogaeth unfrydol i'r argymhellion (yn cynnwys yr alwad am sefydlu Corff Adolygu Annibynnol i ystyried dyfodol y diwydiant) gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor. Mewn llythyr at yr enwadau ar 12 Rhagfyr nodir fod arbenigwyr yn cefnogi'r argymhelliad hwn 'yn y gred ei fod yn un o'r syniadau allai wneud cyfraniad allweddol i'r drafodaeth am ddyfodol y diwydiant y mae mawr angen amdani.' Yn yr un llythyr gwahoddwyd arweinwyr a phrif swyddogion yr enwadau i roi eu cefnogaeth bersonol i'r penderfyniad hwn o eiddo'r Pwyllgor Gwaith. Credid 'y byddai arweiniad o'r fath gan arweinwyr yr eglwysi yn gymorth mawr tuag at sicrhau sylw effeithiol i'r argymhellion hyn ymhlith y sawl sydd â chyfrifoldeb dros ddyfodol y diwydiant.'

Erbyn 14 Rhagfyr 'roedd arweinydd neu brif swyddog pob enwad mewn aelodaeth o'r Cyngor, yn ogystal ag Archesgob Caerdydd (yr Eglwys Gatholig Rufeinig) wedi cytuno â'r penderfyniad. Ar sail y cytundeb danfonwyd llythyr at y Prif Weinidog - yn amlinellu'r cytundeb y daethpwyd iddo - yn enw'r deg enwad. Nid ymgyrch answyddogol gan grŵp o bedwar gweinidog ydoedd mwyach ond ymdrech gytûn gan arweinwyr yr holl enwadau i lefaru ag un llais yn enw'r enwadau mewn anghydfod a oedd yn cael effaith gynyddol ddrwg ar unigolion, cymunedau a chenedl. Danfonwyd y llythyr ar 14 Rhagfyr yn y gred y gallai'r argymhellion 'gynnig fframwaith adeiladol ar gyfer ailgychwyn trafodaethau'.

'Roedd ymateb arweinydd yr Wrthblaid, Neil Kinnock A.S., yn gadarnhaol iawn. Cymeradwyai'r argymhelliad am Fwrdd Adolygu Annibynnol gan nad oedd strategaeth gyfansawdd gan y Llywodraeth ar gyfer y diwydiannau ynni a'r cymunedau a oedd yn ddibynnol ar y diwydiant glo. Yn anffodus, nid oedd ymateb y Prif Weinidog mor gadarnhaol! Mewn cyfweliad gan olygydd y *Western Mail* (15 Ionawr 1985) gofynnwyd iddi am ei hymateb i'r llythyr. Gwrthododd sôn yn uniongyrchol am ei gynnwys. Yn hytrach, credai mai'r cam nesaf yn yr anghydfod fyddai mwy o

bobl yn dychwelyd i'w gwaith ac nad oedd unrhyw amcan mewn cynnal arolwg arall. Pan ofynnwyd iddi eilwaith, yr un oedd ei hateb: 'The real way to end the strike is the way that is happening...' (erbyn canol Ionawr 'roedd pobl yn dechrau dychwelyd i'w gwaith) ...and it is very encouraging indeed.' Ac ni fu unrhyw newid yn ymddygiad y Llywodraeth tuag at ymdrechion yr enwadau weddill y cyfnod.

Yn y cyfamser, aethpwyd ati i weithredu ar drydedd elfen argymhellion y grŵp, sef, hybu a chefnogi gwaith bugeiliol yr eglwysi yn y cymunedau glofaol. Yn genedlaethol, y prif gyfrwng oedd cynhadledd frys yn Neuadd Bwrdeistref, Merthyr Tudful, ar 14 Rhagfyr. Daeth tua 40 o weinidogion ac offeiriaid ynghyd o ardaloedd glofaol De Cymru i rannu profiad ac i ddysgu oddi wrth ei gilydd. Yn ei anerchaid agoriadol dywedodd Archesgob Cymru, Derrick Childs, fod yr eglwysi a'u gweinidogion yng nghanol yr argyfwng hwn yn lleol a chenedlaethol 'oherwydd fod pwysau'r efengyl Gristnogol arnom'. Gwelai'r anghydfod arbennig hwn yng nghyd-destun y newidiadau chwyldroadol a oedd wedi digwydd i'n cymdeithas oddi ar yr Ail Ryfel Byd. Credai fod y newidiadau hyn y tu ôl i lawer a ddigwyddasai yn Ne Cymru, fel mewn ardaloedd eraill. Byddai bugeilio unigolion a chymunedau yn galw am sensitifrwydd i'r dylanwadau hyn ar unigolion a theuluoedd:

> 'Are we not witnessing not only the end of a particular industrial phase in human history but also the exposure of the exhaustion in our own day of the spiritual capital created and bequeathed to us by those who have gone before us?'

Aeth ymlaen i nodi'r camau mewn bugeilio cymunedau: gweddi ddofn a chyson am i bobl ymglywed â galwad Tywysog Tangnefedd a chyhoeddi drwy weithredoedd ysbryd tosturi a chynhaliaeth mewn dioddefaint a fyddai'n medru arwain at barodrwydd i faddau.

Un o gasgliadau pwysicaf y gynhadledd hon oedd na ellid gwahanu'r bugeiliol oddi wrth y gwleidyddol. Y mae'r naill yn dibynnu ar y llall. Y mae gofalu yn gofyn am gydymdrechu i newid achosion dioddefaint unigolion neu gymuned. Geilw hefyd am ddatblygu rhwydwaith o ofal cymunedol er mwyn magu profiad a chyd-ddeall a

fyddai'n sylfaen i'r dyfodol. Byddai'r rhwydweithiau hyn yn cynnwys nid eglwysi yn unig ond grwpiau o bob math a fyddai'n cynnig gofal yn y gymuned. Yn bennaf oll, pwysleisiodd y gweinidogion a ddaethant at ei gilydd ym Merthyr mai'r angen pennaf oedd gobaith i unigolion a chymunedau a oedd ar ben eu tennyn. Yn y bôn, efallai mai dyma gyfraniad mwyaf yr eglwysi yng Nghymru. Yn ei bregeth (ar y thema "Pris Gobaith") yng Nghadeirlan Durham ddydd ei orseddu'n esgob yno (yn ystod yr anghydfod), dywedodd David Jenkins: 'There is the power and possibility (under the almightiness of God and through the down-to-earth presence of God) of hope in our present discontents' [1] Aeth ymlaen i ddweud mai 'negotiated settlement which is a compromise and demands of us all further work on the problems both of the miners and of society at large is the only hopeful thing' [2] Yn y termau hyn 'roedd argymhellion yr eglwysi'n mynegi gobaith, hyd yn oed os na fuont yn ffrwythlon mewn termau eraill.

Bu'r cyfnod dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yn dawel iawn o safbwynt ymdrechion yr eglwysi yng Nghymru, ond ar 8 Ionawr 1985 cefnogwyd cynllun yr eglwysi gan bwyllgor gwaith Undeb y Glowyr ac ar yr un diwrnod rhoddodd erthygl olygyddol y *Western Mail* gefnogaeth frwd iddo:

> 'The proposals (of the Welsh churches)...take an impressive look at the problems facing the industry after the strike has ended...The churches' proposals rightly call for a broadening of coal policy to take in the full scope of the country's long term energy needs and resources...
>
> 'It is possible to hope... that the churches' leaders' far-seeing proposals may not be totally at cross-purposes with the Government's and Mr. McGregor's thinking'.[3]

Dau ddiwrnod yn ddiweddarach 'roedd erthygl gan Mike Smith, Golygydd Diwy-

---

1. David Jenkins, *God Politics and the Future*, SCM Press, tud. 8
2. ibid. tud. 9
3. *Western Mail*, 8 Ionawr 1985. Mr. McGregor oedd Cadeirydd y Bwrdd Glo Cenedlaethol.

diannol y *Western Mail*, yn sôn am y gefnogaeth gynyddol i'r cynllun ymhlith aelodau seneddol a'r `early day motion' yn Nhŷ'r Cyffredin yn ei gefnogi. Adroddir hefyd fod Llywydd Plaid Cymru, Dafydd Ellis Thomas A.S., wedi galw ar y Prif Weinidog i weithredu ar sail argymhellion yr eglwysi, gan eu galw yn "the collective view of Wales."[1]

Yn ystod y cyfnod hwn 'roedd yr ymgyrch yn magu egni o ddydd i ddydd, gyda mynych gyfeiriadau yn y wasg a'r cyfryngau darlledu, nifer o gyfarfodydd gydag unigolion a phwyllgorau allweddol yng Nghymru ac yn Llundain. Ar 15 Ionawr cynhaliwyd cyfarfod arweinwyr a phrif swyddogion yr enwadau a'r eglwysi yng Nghymru i dderbyn adroddiadau o'r datblygiadau diweddaraf a chynllunio'r camau nesaf. Y diwrnod canlynol cyhoeddodd erthygl olygyddol y *Western Mail*:

> It is vital that hopes of a negotiated peace in the coal industry should be kept alive. Those hopes have had their biggest stimulus in months from initiatives by the leaders of the churches in Wales"[2]

Mynegodd yr erthygl olygyddol y diwrnod canlynol ofid mawr fod Peter Walker, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni, wedi gwrthod yr argymhellion, a hynny ar waethaf y cyngor arbenigol a gafwyd wrth eu llunio. Ar y pryd, 'roedd yn anhygoel fod camau a gafodd cyn lleied o sylw ddechrau Rhagfyr 1984 wedi dod yn un o elfennau mwyaf canolog ymdriniaeth y Wasg o'r anghydfod hwn erbyn canol Ionawr 1985.

Canlyniad hyn oedd cyflwyno (ar 16 Ionawr 1985) sylfaen i drafodaethau rhwng y Bwrdd Glo Cenedlaethol ac Undeb Cenedlaethol y Glowyr yn seiliedig ar argymhellion a thrafodaethau Cyngor Eglwysi Cymru. 'Roedd y gefnogaeth sylweddol a gafwyd ymlith cynrychiolaeth eang o'r farn gyhoeddus yng Nghymru, ac i ryw raddau yng ngweddill Prydain, yn rhoi hyder i'r eglwysi gynnig tri cham tuag at

---

1. *Western Mail*, 10 Ionawr 1985
2. *Western Mail*, 16 Ionawr 1985

ddatrys yr anghydfod mewn modd cyfiawn. Yn gyntaf, galwyd ar y Llywodraeth i sefydlu Corff Adolygu Annibynnol. Yn ail, awgrymwyd na ddylid cau unrhyw bwll glo hyd nes y cyflwynid adroddiad y Corff Adolygu, ac eithrio ar sail diogelwch neu fod y glo wedi darfod. Yn drydydd, argymhellwyd fod y Corff Adolygu yn dwyn ei adroddiad ar ddyddiad i'w gytuno gan y pleidiau yn yr anghydfod. Credid y byddai hyn yn sail ddigonol i ail-gydio yn y trafodaethau rhwng y Bwrdd a'r Undeb a fedrai arwain at ddod â'r streic i ben.

Ar 23 Ionawr gwahoddwyd cynrychiolwyr yr eglwysi (Archesgob Cymru, Archesgob Caerdydd, Douglas Bale, Noel Davies, John Morgans a Dafydd Owen) i drafod y cynllun hwn gyda Peter Walker A.S. ac ag arweinydd yr wrthblaid, Neil Kinnock A.S.. Gwrthodwyd y cynllun yn llwyr gan Peter Walker, am yr un rhesymau â chynt. Yn ôl llefarydd ar ran yr arweinwyr: 'there was no encouragement at all for the kind of proposals we have made so far... Mr. Walker said that (our) plans...would only delay decisions that had to be faced now'.[1]

Wythnos yn ddiweddarach dychwelwyd i Lundain i gyfarfod â Chadeirydd y Bwrdd Glo Prydeinig a'r diwrnod canlynol â Phwyllgor Gwaith Undeb Cenedlaethol y Glowyr. Negyddol - fel y gellid disgwyl - oedd ymateb y naill, tra bod y llall wedi rhoi croeso i'r ymdrechion. Er hynny, 'roedd lle i gredu y gallai'r eglwysi weithredu fel canolwyr rhwng y partïon ac er mwyn hybu'r dasg hon lluniwyd 'sylfaen ar gyfer trafodaethau' yng ngoleuni'r cyfarfodydd hyn, a'i gyhoeddi ar 1 Chwefror. Fe'u derbyniwyd gan yr Undeb ond nis derbyniwyd hwy gan y Bwrdd. Erbyn diwedd Chwefror, er gwaethaf yr ymdrechion gorau, ni lwyddwyd i ailgychwyn y trafodaethau ac ar ddechrau Mawrth 1985 dechreuodd glowyr De Cymru fynd yn ôl i'r pyllau. Gwnaethant hynny gyda thristwch ond gydag anrhydedd hefyd, er iddynt hwy a'r eglwysi yng Nghymru sylweddoli, yng ngeiriau John Davies, 'Er

--------------------

1. *Western Mail*, 24 Ionawr 1985

gwaethaf yr arwriaeth a'r solidariaeth, hybodd y streic yr union broses y bwriedid iddi ei rhwystro'.[1] Treuliwyd egni anhygoel i gynnal ymdrechion dibaid yr eglwysi dros gyfnod o bedwar mis, nid yn unig ymhlith yr arweinwyr cenedlaethol ond hefyd mewn cymunedau lleol led-led y maes glo. Profiad poenus i bawb a fu ynglŷn â'r ymdrechion hyn oedd gweld na enillwyd y dydd i gyfiawnder a dyfodol i'r cymunedau glo a bod yr argoelion yn dywyll i lawer o'r cymunedau hyn. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach, profwyd fod y proffwydoliaethau hyn yn boenus o gywir a'r anghenion yn y cymunedau yn dal yr un.

Pan ddaethpwyd i ystyried arwyddocâd yr hyn a ddigwyddodd yng nghyfarfod gwanwyn y Cyngor ar 25 Ebrill 1985 gwnaed awgrym y dylid adolygu dyfodol y diwydiant glo yng Nghymru yng nghyd-destun ehangach polisi ynni ar gyfer y cenhedloedd hyn, yn unol ag argymelliad cyson y Cyngor yn ystod yr argyfwng. Chwe mis yn ddiweddarach, yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ar 2 Tachwedd 1985, cytunwyd ar y penderfyniad canlynol:

> `Bod corff adolygu yn cael ei sefydlu i ymchwilio i ddyfodol y diwydiant glo a'r cymunedau glofaol yng Nghymru, fyddai'n canolbwyntio ar anghenion y cymdogaethau ac ymateb cadarnhaol yr eglwysi i'r argyfwng yn yr ardaloedd hynny, (bod) y corff adolygu yn gwahodd tystiolaeth amrywiol dros gyfnod o tua wythnos, a bod adroddiad, fyddai'n cynnwys argymellion cyffredinol ynghyd ag argymellion i'r eglwysi, yn cael ei gyhoeddi mor fuan â phosibl...'[2]

Cytunwyd hefyd na ddylid gwario mwy na £2,000 ar yr adolygiad hwn.

Pan ystyriwyd sut i weithredu'r penderfyniad, yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 2 Rhagfyr 1985, 'roedd penderfyniadau ynglŷn â dyfodol y diwydiant a'r cymunedau bellach wedi eu gwneud. Y dasg i'r eglwysi fyddai dod i delerau â'r newidiadau hyn. Galwad i genhadaeth a oedd o'u blaen ac felly cytunwyd i ganolbwyntio ar ddadansoddi'r argyfwng, ystyried y goblygiadau diwinyddol a pharatoi rhaglen ar gyfer ymateb yr eglwysi mewn cenhadaeth a thystiolaeth. Pwysleisiodd y Pwyllgor

---

1. John Davies, Hanes Cymru, tud. 660
2. Cofnodion y Cyngor, 2 Tachwedd 1985.

Gwaith y dylai hyn fod yn flaenoriaeth ar raglen y Cyngor ac y dylid herio'r eglwysi i ryddhau adnoddau i alluogi'r Cyngor i wneud y gwaith gyda brys. Ysywaeth yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 10 Mawrth 1985 adroddwyd na chymerwyd camau pellach ac ni cheir cyfeiriad pellach at y cynllun hwn.

**CASGLIADAU**

Erys y cwestiwn sylfaenol wrth geisio cloriannu'r ymdrechion hyn: beth fu arwyddocâd hyn yn nhermau tystiolaeth Gristnogol? Daeth nifer o wersi hollbwysig i'r amlwg.

Yn gyntaf, gweithredwyd ar sail y gred fod stiwardiaeth gyfrifol o adnoddau'r cread yn elfen hanfodol o'n hufudd-dod Cristnogol. 'Roedd hyn yn sylfaen penderfyniad Cyngor Eglwysi Cymru ar 12 Hydref 1984: 'Ni ddylia'r ddadl fod ynglŷn ag elw yn unig ond ynglŷn â'n stiwardiaeth o roddion naturiol Duw er lles pawb.' Dyma paham y daeth yr angen am bolisi ynni yn hollbwysig. Y mae stiwardiaeth y cread yn galw am gydbwysedd cyfiawn yn y defnydd o adnoddau, am sicrhau bod adnoddau digonol o ynni ar gael ar gyfer y dyfodol ac ymwrthod â'r rhesymeg economaidd sy'n gorfodi dibyniaeth gynyddol ar ynni niwclear heb ymboeni'n ormodol am bris dynol polisi felly yn y dyfodol.

Y mae rhaglen Cyngor Eglwysi'r Byd, *Cyfiawnder, Heddwch a Chyfanrwydd y Cread*, wedi atgoffa'r eglwysi o'r newydd fod ffydd yr Eglwys yn Nuw y Crëwr, Duw sydd â'i fryd ar achub cread sydd yn cael ei sarnu drwy bechod dynolryw a'i hunanoldeb crebachlyd. Y mae agwedd gyfrifol tuag at adnoddau ynni yn hanfodol i'n hufudd-dod i'r Duw sydd wedi mynegi ei bwrpas, 'sef dwyn yr holl greadigaeth i undod yng Nghrist, gan gynnwys pob peth yn y nefoedd ac ar y ddaear'. (Effesiaid 1:10)

Yn ail, taflwyd goleuni ar natur penderfyniadau economaidd yn ein cymdeithas ni.

Yr oedd yn ganolog i'r anghydfod - yn wir, ar un ystyr dyma oedd asgwrn y gynnen - fod penderfyniadau economaidd yn cael eu gwahanu oddi wrth eu heffeithiau ar unigolion, teuluoedd a chymunedau ac, yn wir, ar dynged Cymru. 'Roedd teitl penderfyniad y Cyngor yn arwyddocaol yn y cyd-destun hwn, *Dyfodol y Diwydiant Glo yng nghyd-destun Dyfodol Cymru*. Yn nhrafodaethau cynrychiolwyr yr eglwysi fe ddaeth diffinio'r termau 'economaidd' ac 'aneconomaidd' yn hollbwysig. Soniwyd, er enghraifft, am 'y gost gyfan', sef, nid y gost gyfrifyddol yn unig ond costau personol, cymunedol a chenedlaethol - ymsyniad oedd yn adlewyrchu'r dadansoddiad a wnaed gan y Pwyllgor Diwydiant flynyddoedd yng nghynt. Methwyd yn lân â chael yr awdurdodau i gydnabod y ddealltwriaeth hon. Y cwestiwn yw: paham y methiant hwn? Mae'r ateb yn cael ei awgrymu yn y papur ar *Dangerous Trends in British Society.* Y mae'n sôn am

> 'the disproportionate increase in long-term unemployment, in poverty, in divided families and communities, in conflict between allies and colleagues, in the erosion of hope, in the feeling of powerlessness and despair and...an increase in most measures of social and personal disturbances...
>
> 'The Government...has exercised a covert influence on the dispute....by a shrewd assessment of how people and groups are likely to react when their own interests are set against the interests of others, when the immediate benefits are set against the long term and when private and personal considerations are set against those of the group.'[1]

Yn y blynyddoedd oddiar hynny, ni leihaodd y rhaniadau hyn. Yn wir gellir dadlau eu bod wedi dwysáu. Yn sicr, ni leihaodd yr her a roddwyd i Gristnogion yn ystod yr anghydfod hwn i geisio darganfod gweledigaeth o gymdeithas ddynol sydd yn adlewyrchu seiliau a delfrydau Teyrnas Dduw, mewn cyfiawnder a chyd-ddibyniaeth, lle mae'r gwrthodedig yn gyfryngau barn y Duw sy'n trawsnewid ei fyd fel y bo pawb yn ildio'i hawliau economaidd ei hunan i'w gilydd.

---

1. *Dangerous Trends in British Society?* Cyngor Eglwysi Cymru, 1985 (heb ei gyhoeddi)

Yn drydydd, ac yn fwy ymarferol, crëwyd partneriaethau newydd drwy'r anghydfod hwn. Mewn llawer ardal bu'r eglwysi'n cydweithio â mudiadau eraill oddi fewn i'r gymuned i gwrdd â gofynion materol teuluoedd y glowyr ac i fynegi cydlyniad â hwy yn eu safiad. Ofnai llawer mai mynd ar goll a wnâi'r rhain pan fyddai'r anghydfod yn dod i ben, a dyna ysywaeth a ddigwyddodd yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Ond fel y gwelwyd eisoes, 'roedd y bartneriaeth rhwng yr enwadau, ac yn fwyaf arbennig rhwng eu prif swyddogion ac arweinwyr yn allweddol i ymwneud yr eglwysi â'r anghydfod hwn. Dywedodd un arweinydd fod y cydweithio hwn 'wedi gwneud mwy dros ecwmeniaeth na nemor ddim arall..'

Dywedwyd yn eglur gan y Cyngor ar ddiwedd yr anghydfod fod yn rhaid adeiladu ar y bartneriaeth hon drwy fynd ati i sicrhau cydweithrediad mor gyflawn â phosibl rhwng yr enwadau mewn materion o gyfrifoldeb cymdeithasol, gan rannu adnoddau mewn profiad, gweithwyr a chyllid â'i gilydd. Ond daeth yn amlwg hefyd - nid lleiaf drwy fethiant y Cyngor i weithredu'r argymelliad fod adolygiad trylwyr o oblygiadau'r newidiadau yn y cymunedau glofaol i genhadaeth yr eglwysi yn cael ei gynnal gyda brys yn ystod 1986 - na ellid gwneud hyn yn effeithiol heb benodi person i hybu'r cydweithio hwn. Tristwch y sefyllfa yw fod adnoddau'r enwadau mor brin yn y maes hwn yng Nghymru - dim ond yr Eglwys yng Nghymru sydd wedi gwneud penodiad amser-llawn yng Nghymru - fel bod gwasgfa materion eraill wedi golygu na adeiladwyd fel y dylid ar y bartneriaeth glos a fu'n bosibl yn ystod y streic. Y mae her amlwg yma i'r enwadau a'r eglwysi sydd bellach yn aelodau Cytûn. Nid oes amheuaeth nad mewn partneriaeth â'i gilydd y bydd yr eglwysi'n effeithiol yn eu tystiolaeth genedlaethol a lleol a bod y cydweithio hwn yn gofyn am gryn ymroddiad mewn amser ac egni ac arian os yw am fod yn effeithiol. Y dasg allweddol yw darganfod modd o hybu'r bartneriaeth hon mewn meysydd lle mae cryn gytundeb rhwng yr enwadau a dod i gyd-ddealltwriaeth llawnach yn y meysydd hynny lle mae cryn anghytundeb ar egwyddorion sylfaenol.

**DIWEITHDRA ETO**

Drwy gydol yr '80au 'roedd canran diweithdra yng Nghymru wedi bod yn cynyddu'n raddol o 8.4% ym 1980 i 14.6% ym 1985, canran a oedd o gwmpas 3% yn uwch na'r raddfa gyfatebol ar gyfer Y Deyrnas Unedig yn ystod yr un cyfnod.[1] 'Roedd 173,000 yn ddiwaith yng Nghymru ym 1985 o'i gymharu â 78,000 ym 1980.[2] Mewn ymateb i hyn cyhoeddwyd datganiad ar ddiweithdra ar Ddydd Gŵyl Ddewi 1986 gan grŵp o ddeunaw o bobl flaenllaw yng Nghymru, gyda rhai o'r eglwysi yn eu plith. Craidd y datganiad hwn oedd fod y raddfa hon o ddiweithdra yn annerbyniol:

> `...the economic and social losses from unemployment at its present scale (make) it intolerable; (we call) for a more active policy to expand the economy and create opportunities for the unemployed to do useful work.'[3]

Un canlyniad i'r datganiad hwn fu penderfyniad Cyngor Eglwysi Cymru i ymuno ag eraill i gynnull cynhadledd arbennig ar 31 Hydref 1986 ar gyfer arweinwyr diwydiannol, cynrychiolwyr asiantau a chyrff gwirfoddol ynghyd â'r eglwysi. Amcan y gynhadledd genedlaethol hon oedd ystyried yn ddyfnach ddiweithdra yng Nghymru a cheisio ffyrdd ymarferol o ymateb i'r sefyllfa. Bu'r gynhadledd yn gyfle i gynrychiolwyr y Cyngor gydweithio ag eraill (Syr Bryan Hopkin a Syr Goronwy Daniel, a oeddynt yn gyn-swyddogion yn y Swyddfa Gymreig, a Roy Thomas, o Goleg y Brifysgol, Caerdydd) mewn trefnu cyfle i gynrychiolwyr yr eglwysi ystyried y materion hyn ar y cyd ag eraill. Fel y gwelwyd, bu cydweithio o'r fath rhwng cynrychiolwyr yr eglwysi ac eraill yn y gymuned ehangach yn nodweddu gweithgarwch y Cyngor ym myd diwydiant. Dylid sylwi hefyd i'r cais i drefnu'r gynhadledd hon fynd yn gyntaf at Archesgob Cymru, Derrick Childs, ond iddo ef a'i gyd-esgobion deimlo

--------------------

1. *Contemporary Wales: An Annual Review of Economic and Social Research*, Cyfrol 2, 1988, tud. 165.

2. ibid., Cyfrol 1, 1987, tud. 30.

3. *Unemployment: What Can Be Done? A Statement for St. David's Day 1987*, tud. 7.

y byddai'n fwy priodol fod y dasg hon yn cael ei chyflawni'n ecwmenaidd drwy'r Cyngor. Cyflwynwyd yr anerchiad agoriadol gan Syr Richard O'Brien, a fu'n gadeirydd Comisiwn Archesgobion Eglwys Loegr ar *Urban Priority Areas*, a gynhyrchodd *Faith in the City*. Pryderai ef yn bennaf fod `diwylliant o ddiweithdra' wedi datblygu ac y daethpwyd i gredu na ellid gwneud dim yn ei gylch.[1] Pryderai hefyd fod pocedau o ddiweithdra mewn rhai ardaloedd, ac ymhlith lleiafrifoedd ethnig a ieuenctid ac aeth ymlaen i amlinellu rhai o'r dulliau o wrthweithio hyn a awgrymwyd gan ddod i'r casgliad:

> `...if...following Archbishop Temple we accepted that unemployment was the most hideous of our social evils, it follows that we should be prepared to carry that idea into our personal objectives.'[2]

Ochr yn ochr â dadansoddiad Syr Richard O'Brien cafwyd darluniau o effaith diweithdra mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru ac amlinelliad o ymatebion ymarferol asiantau ac eglwysi lleol i'r sefyllfa hon. Ond pa bolisïau y dylid eu mabwysiadu? Gwnaed rhai awgrymiadau dadleuol gan Goronwy Daniel. Er enghraifft, credai fod angen diwygio'r sustem drethi a chymorth `which at present damaged the incentives needed to reduce unemployment and did not encourage responsible economic and social behaviour...The growth of consumption and welfare expenditure would have to be limited...(There is) need for sacrifices all round in the interest of a fairer and more fully employed community.'[3]

Wrth grynhoi prif drafodaethau'r gynhadledd cyflwynodd Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyngor saith prif gasgliad.[4] Yn gyntaf, 'roedd angen cydnabod mai diweithdra oedd argyfwng mawr y cyfnod. Yn ail, prif ganlyniad yr argyfwng oedd creu anobaith; byddai'n rhaid i'r eglwysi ymwrthod â'r gred na ellid gwneud dim. Yn dry-

---

1. Adroddiad o'r Gynhadledd gan Syr Bryan Hopkin, tud. 1.
2. ibid., tud. 2.
3. ibid., tud. 7 - 8.
4. ibid., tud. 10.

dydd, byddai unrhyw ymateb yn galw am bartneriaeth rhwng pob rhan o gymdeithas. Yn bedwerydd, cytunwyd fod angen newidiadau macro-economaidd yn ein cymdeithas er bod anghytundeb rhwng y rhai a gredai mai cynnydd economaidd oedd yr ateb a'r lleill a gredai fod angen adfywiad diwydiannol. Yn bumed, ni ellid derbyn y gyfatebiaeth a wnaed gan amlaf rhwng y nifer sy'n ddiwaith ac anghenion mewn cymdogaethau; nid oedd disgwyl i'r diwaith gyflawni'r anghenion hyn, yn unig am eu bod yn ddiwaith. Dylid rhoi sylw priodol i'w hangen am gael adfer eu hurddas oddi fewn i'r gymdeithas gyfoes. Yn chweched, 'roedd ymwneud yr eglwysi yn tarddu o'r Efengyl ei hun; nid ymyrraeth mewn gwleidyddiaeth oedd hyn. Yn olaf, 'roedd her i ddiwinyddiaeth Gristnogol roddi mynegiant newydd i foesoldeb Gristnogol ar gyfer gwaith.

Pennaf gyfraniad y gynhadledd hon, fel rhai cyffelyb yn y gorffennol, fu meithrin ymwybyddiaeth o her y sefyllfa ymhlith y cynrychiolwyr er mwyn iddynt gydweithio'n well â'i gilydd a hybu partneriaeth fwy effeithiol rhwng asiantau a'i gilydd yng Nghymru. A pharhaodd y Pwyllgor Diwydiant â'i weithgaredd arbenigol yn y maes hwn. Un canlyniad i hyn oedd datganiad pellach ar ddiweithdra a gyhoeddwyd ar Ddydd Gwyl Ddewi 1987, ar ran Cyngor Eglwysi Cymru a'r sawl a arwyddodd ddatganiad Gwyl Ddewi 1986. Ceisiodd gynnig ffyrdd ymlaen ar sail y gynhadledd a'r gred fod diwedd yr '80au yn `adeg o newid sylfaenol' yn y gymdeithas Gymreig. Cynigiodd hefyd ganllawiau ar gyfer newidiadau polisi mewn meysydd megis buddsoddion, hyfforddiant mewn arbenigedd diwydiannol, polisi rhanbarthol ac ymdrechion lleol, cymorthdal cymdeithasol a threth, a'r Rhaglen Gymuned. Ond ochr yn ochr â'r newidiadau hyn a oedd yn gofyn am ymatebion gwleidyddol 'roedd angen newidiadau mewn ymddygiad. `Something more will be needed than changes in economic policy; changes in attitude are essential too. Such changes would contribute not only to a reduction in unemployment but to the creation of a

united, socially healthier and even happier nation.'[1]

Y mae paragraffau olaf y datganiad hwn yn crynhoi nid yn unig drafodaethau'r '80au ynglŷn â diwydiant ond holl feddylfryd y Pwyllgor Diwydiant a Chenhadaeth Ddiwydiannol dros gyfnod o 25 mlynedd yng Nghymru:

> `...our greatest need is for hope, and for the confidence that unemployment on the present scale is not inevitable...It was, in part, to challenge pessimism and its consequent apathy, that the 1986 St. David's Day Declaration was issued, and the Conference was convened last year.
>
> `The sense of hopelessness which so often characterises talk about unemployment and industrial decline derives in part from the heresy that `Mammon Rules'. There clearly are economic constraints. But it is wrong that in the name of those constraints, standards of social provision which are essential to a fair and responsible society are denied. The Bible insists that it is `righteousness' (which here means social justice, not just being good) that makes a nation great, and that social justice is a necessary part of real prosperity.
>
> `The Church has its part to play in seeking to change those attitudes which unnecessarily prolong the agony of unemployment. But the Church's voice is not the only voice that is being heard demanding effective measures to create jobs and reduce unemployment...(The subject of this paper) is the lives of men and women, their families, and their communities, and indeed the wealth and well-being of our country as a whole...the need for action is now.'[2]

Dyma paham y rhoddodd cymaint o bobl flaengar y fath egni, brwdfrydedd ac ymroddiad i waith a oedd, drwy gydol y cyfnod o dan sylw, yn torri tir newydd yn hanes tystiolaeth yr eglwysi yng Nghymru. Y mae'r angen yn parhau am i'r eglwysi a'r enwadau ddysgu gwersi'r gweithgarwch hwn nid yn unig er mwyn cryfhau eu gallu i neilltuo adnoddau digonol ar gyfer y genhadaeth arbenigol mewn diwydiant ond hefyd er mwyn cryfhau tystiolaeth a gwasanaeth yr eglwysi'n lleol mewn ardaloedd led-led Cymru lle y mae'r wasgfa economaidd yn peri dioddefaint i unigolion a'u teuluoedd. Ac hyd heddiw, ychydig yn yr eglwysi sy'n rhoi'r flaenoriaeth briodol i'r dystiolaeth Gristnogol ym myd diwydiant.

--------------------

1. *Unemployment: What Can Be Done?*, 1987, tud. 21.
2. ibid., tud. 22 - 24.

PENNOD 14

# HILYDDIAETH A DE'R AFFRIG

Pan etholwyd Y Blaid Genedlaethol, ym 1948, i lywodraethu yn Ne'r Affrig mewn etholiad ymhlith y lleiafrif gwyn, gwnaed hynny wedi iddi ymgyrchu ar lwyfan apartheid (sef, arwahanrwydd) fel sail i amddiffyn grym a breintiau'r bobl wyn. Er mai dyma'r tro cyntaf y defnyddiwyd y term hwn gellir olrhain yr egwyddor gymdeithasol yn ôl i 1913, o leiaf, pan gytunodd y llywodraeth ar Ddeddf Dir i fod yn sail gwahanu'r mwyafrif du (80% o'r boblogaeth) oddi wrth y lleiafrif gwyn (13% o'r boblogaeth). 'Roedd dechreuadau diwinyddol apartheid mor bell yn ôl â 1829 pan benderfynodd Synod un o Eglwysi Diwygiedig yr Iseldiroedd yn Ne'r Affrig y dylai pobl liw gael eu rhwystro rhag cydgymuno â phobl wyn. O'r cychwyn cyntaf 'roedd `sylfaen' ddiwinyddol wedi ei gosod i bolisi apartheid a bu gan yr eglwysi ar draws y byd, a chyrff cydeglwysig yn fwyaf arbennig, gonsyrn dwfn am anghyfiawnder yr arwahanrwydd hwn ac ymrwymwyd i'w wrthwynebu.

Ni ddaeth ar agenda Cyngor Eglwysi Cymru tan 1970 pan soniwyd, yn y penderfyniad a oedd yn mynegi llawenydd ar achlysur pen-blwydd y Cenhedloedd Unedig, am gonsyrn Cynhadledd Caerfyrddin fod adroddiadau am ailgychwyn y fasnach arfau i Dde'r Affrig. Mynegodd y brysneges a ddanfonwyd i Lywodraeth Prydain y gred fod hyn `contrary to the United Nations resolutions'[1] ac ychwynegir `we suggest that such a policy can only weaken the authority of the UN in that area and thereby be a serious threat to peace.'

Pan sefydlwyd Adran Eglwys a Chymdeithas y Cyngor ym 1973 credid y dylid rhoi blaenoriaeth, ymhlith materion eraill, i ymgyrchu dros `drefn wleidyddol a chymdei-

---

1. Adroddiad Cynhadledd Yr Eglwys a Chymdeithas, Caerfyrddin, Gorffennaf 1970, tud. 10.

thasol gyfiawn mewn gwladwriaethau'[1], a dyfynnwyd De'r Affrig a Rhodesia fel yr enghreifftiau o hyn.

Eisoes, fodd bynnag, 'roedd Cyngor Eglwysi'r Byd wedi bod yn weithredol yn gwrthwynebu hilyddiaeth ac apartheid. Gwnaeth y Gymanfa gyntaf yn Amsterdam ddatganiad fod rhagfarn yn seiliedig ar hil neu liw yn gwadu cyfiawnder ac urddas dynol.[2] Cynullwyd ymgynghoriad - ar gais Archesgob Eglwys Anglicanaidd Talaith Deheudir yr Affrig, Joost de Blank - yn Cottesloe, y tu allan i Johannesburg, yn Rhagfyr 1960, naw mis ar ôl erchylltra Sharpeville, pan laddwyd 60 o bobl ddu, a chlwyfo 180. Daeth cynrychiolwyr Cyngor Eglwysi'r Byd a'r eglwysi yn Ne'r Affrig at ei gilydd ac fe dderbyniwyd datganiad ar ddiwedd yr ymgynghoriad a oedd yn cymell cydraddoldeb rhwng yr hiliau mewn materion personol, cymdeithasol, gwleidyddol ac eglwysig. Ond er i gynrychiolwyr y ddau enwad diwygiedig (gwyn) yn Ne'r Affrig dderbyn y datganiad, fe'i gwrthodwyd gan yr enwadau eu hunain. Yn ddiweddarach, ym 1961 tynnodd y ddau enwad allan o Gyngor Eglwysi'r Byd.

Ym 1968, ar sail Cynhadledd Eglwys a Chymdeithas Genefa (1966) cyflwynodd Cymanfa Uppsala - ychydig wythnosau ar ôl lladd Martin Luther King jnr. a oedd wedi ei wahodd i annerch - fframwaith ddadansoddiadol ar gyfer dileu hilyddiaeth, gan bwyso ar yr eglwysi i ymgymryd ag ymgyrch gref yn ei erbyn. Diffiniwyd hilyddiaeth fel:

> 'ethnocentric pride in one's own racial group and preference for the distinctive characteristics of that group...strong negative feelings towards other groups who do not share these characteristics, coupled with the thrust to discriminate against and exclude the outgroup from full participation in the life of the community.'[3]

Rhoddwyd sylw arbennig i hilyddiaeth pobl wyn a oedd wrth wreiddyn eu domi-

---

1. Memorandwm a gyflwynwyd i gyfarfod cyntaf yr Adran , 12 Mawrth 1973.
2. *The First Assembly of the World Council of Churches*, SCM, 1949, tud. 81.
3. Dyfynir yn *Dictionary of the Ecumenical Movement*, tud. 841.

nyddiaeth a'u breintiau.

Dyma oedd sylfaen penderfyniad Pwyllgor Canolog Cyngor Eglwysi'r Byd ym 1969 i sefydlu Rhaglen i Wrthweithio Hilyddiaeth *(Programme to Combat Racism)*, `during a heated and emotional debate' yn ôl y cofnod. Dyma'r rhaglen fwyaf dadleuol a gynlluniwyd gan y Cyngor erioed a chafodd fwy o sylw na'r un arall gan wrthwynebwyr a charedigion y Cyngor; a bu'n fwy dylanwadol na'r un hefyd yn magu hygrededd y Cyngor ymysg y gorthrymedig a'r rhai a geisiai ymdrechu trostynt. 'Roedd i'r rhaglen bum prif bwyslais. Yn gyntaf, byddai'n rhoi blaenoriaeth i hilyddiaeth pobl wyn (`by far the most dangerous form of present conflicts').[1] Yn ail, rhoddai sylw i hilyddiaeth sefydliadol mewn strwythurau sy'n defnyddio hilyddiaeth i ddwysáu eu grym. Yn drydydd, gwelwyd angen am ailddosbarthu grym allan o feddiant y grymus i ddwylo'r di-rym. Yn bedwerydd, 'roedd yn rhaid cydnabod nad oedd un strategaeth fyd-eang yn briodol ar gyfer gwrthweithio hilyddiaeth. Yn olaf, 'roedd angen dadansoddi a chywiro tueddiadau hiliol yr eglwysi eu hunain. I'r dibenion hyn y lansiwyd rhaglen a chronfa arbennig am gyfnod arbrofol o bum mlynedd, ar y cychwyn, ac fe'i hadnewyddwyd ym Mhwyllgor Canolog y Cyngor ym 1974.

Daeth y memorandwm a gyflwynwyd i drydydd cyfarfod Adran Eglwys a Chymdeithas Cyngor Eglwysi Cymru ym Mai 1973 yn drwm o dan ddylanwad y datblygiadau byd-eang hyn. Un o'r cymhellion dros godi'r mater hwn mor gynnar ym mywyd yr Adran newydd oedd fod erthygl yn *The Guardian* ar 12 Mawrth 1973 yn honni fod 97 o'r 100 o gwmnïau Prydeinig a oedd yn gweithredu yn Ne'r Affrig yn camdrin eu gweithwyr du. Ond 'roedd ei chonsyrn am y sefyllfa'n gyffredinol, a hynny am resymau dynol yn hytrach nag ystadegol (`...in presenting its report (the Department) would remind the churches that these figures relate to human suffering

--------------------

1. ibid., tud. 825.

and raise deep religious questions...')[1] 'Roedd y memorandwm hwn yn dwyn at ei gilydd ofal yr Adran am apartheid yn benodol a'r Rhaglen i Wrthweithio Hilyddiaeth fel modd o ymgyrchu yn ei erbyn. Credai y gellid cyfiawnhau rhoi sylw i hilyddiaeth yn Ne'r Affrig

> `...because white racism is the openly and officially acknowledged foundation of the country's social, political and economic life and, moreover, because we in Britain are not distant observers of the system but deeply involved in its maintenance.'[2]

Pwysleisir hefyd fod pawb yn rhannu yn yr anghyfiawnder hyn gan fod cwmnïau yswiriant a chwmnïau pensiwn yn buddsoddi yno a phobl gyffredin Prydain yn elwa o hynny (`the vast majority...have a stake in the South African economy.') A gwnaed hyn drwy'r sustem apartheid a oedd yn cadw'r gweithwyr duon yn ddar-ostyngedig i'w cyflogwyr gwyn drwy dlodi trefedigaethau'r bobl ddu, y `pass laws' a'r gwaharddiad ar undebau llafur i'r bobl ddu.

Yn wyneb sefyllfa fel hon 'roedd gan yr eglwysi gyfrifoldeb i sicrhau

> `...that their worship of God is not in fact substantially financed by the exploitation of the defenceless...(The facts) preclude any self-righteous condemnation (by the churches) of secular bodies...This is such a blatant denial of God's purpose, and a source of such human suffering for others, and material benefits for ourselves, that we in Britain dare not acquiesce in it any longer.'[3]

Os oedd yr eglwysi i beidio ag ymelwa ar y sustem anghyfiawn hon, byddai'n rhaid iddynt adolygu eu buddsoddion yn Ne'r Affrig a gwneud un o ddau beth (`We consider that it would be indefensible for Christians to continue to profit from the exploitation of black labour without adopting one or other of these two alternatives.')[4] Y dewis cyntaf oedd gwerthu eu buddsoddion. Dyna oedd polisi Cyngor

--------------------

1. Memorandwm i Adran Eglwys a Chymdeithas, Cyngor Eglwysi Cymru, Medi 1973, tud. 1.

2. ibid., tud. 1.

3. ibid., tud. 2.

4. ibid., tud. 3.

Eglwysi'r Byd a hynny am fod buddsoddi yn cryfhau'r lleiafrif gwyn. Y dewis arall oedd defnyddio'r buddsoddion er mwyn dwyn pwysau ar y cwmnïau i wella amodau gwaith pobl ddu, ac 'roedd Cyngor Eglwysi Prydain yn ystyried cyd-drefnu ymdrechion yr eglwysi i'r cyfeiriad hwn.

Y mae'r memorandwm yn mynd yn ei flaen i amlinellu natur ac amcanion Rhaglen i Wrthweithio Hilyddiaeth Cyngor Eglwysi'r Byd. Tanlinellir yr hyn a bwysleisiwyd gan y Cyngor ei hun, sef, fod grantiau yn cael eu rhoi i fudiadau sy'n ymdrechu yn erbyn hilyddiaeth ar yr amod nad yw amcanion y mudiad yn anghyson ag amcanion cyffredinol Cyngor Eglwysi'r Byd ac na ddefnyddir yr arian i ddibenion militaraidd ond ar gyfer cynlluniau dyngarol ymhlith pobl a oedd yn dioddef o ganlyniad i boli-sïau hiliol. Cyfaddefwyd nad yw'n annisgwyl fod cryn feirniadu wedi bod ar hyn, gyda Christnogion nad oeddent am weld newid yn cyhuddo'r Rhaglen o roi cymorth i derfysgwyr a'r rhai a oeddent yn gefnogol i'r ymdrech yn erbyn hilyddiaeth yn gweld ynddi gefnogaeth i ddulliau treisiol o drawsnewid cymdeithasau anghyfiawn. Ond er gwaethaf yr amheuon hyn ymhlith rhai argymhellodd yr Adran fod Cyngor Eglwysi Cymru'n cymeradwyo'r Rhaglen i ystyriaeth enwadau Cymru gan eu hannog i gyfrannu at y Gronfa. Derbyniodd y Cyngor y ddau argymelliad yn ei gyfarfod blynyddol ar 11 - 12 Hydref 1973 gan wneud un newid yn unig, sef, bod enwadau yn cael eu hannog `i ystyried cyfrannu i'r Gronfa' yn hytrach nag `i gyfrannu i'r Gronfa'![1] Cyflwynwyd yr argymhellion hyn i'w trafod a'u gweithredu gan yr enwadau.

'Roedd y cyfuniad hwn o hyrwyddo gwrthwynebiad i apartheid yn Ne'r Affrig a chefnogaeth i'r Rhaglen yn adlewyrchu pwyslais Cyngor Eglwysi'r Byd (yn fwyaf arbennig ar ôl 1972) a oedd yn neilltuo cryn dipyn o weithgarwch y Rhaglen i ymgyrchu yn erbyn apartheid drwy argymell galw'n ôl fuddsoddion, dwyn benthy-

--------------------

1. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 11 - 12 Hydref 1973.

ciadau gan fanciau i ben, argymell pobl wyn i beidio â mewnfudo i Dde'r Affrig, pwyso am waharddiad cyflawn ar werthu arfau yno ac ataliadau economaidd cyflawn. Ac ar waethaf yr holl feirniadu ar draws y byd daliodd y Rhaglen ei thir ac ym marn un sylwedydd `The World Council of Churches would never be the same again; it had taken sides with the racially oppressed...Concrete action against racism had severely tested the ecumenical fellowship, but it was not broken.'[1] Ond yng Nghymru dechrau yn unig oedd hyn!

Erbyn Ionawr 1975, er nad oedd yr holl enwadau wedi ymateb i argymhellion y Cyngor, 'roedd Cadeirydd yr Adran, Esgob B.N.Y.Vaughan yn medru ysgrifennu at Pauline Webb, a oedd ar y pryd yn un o islywyddion Pwyllgor Canolog Cyngor Eglwysi'r Byd:

> `...we know that not all - if any - accept the policy of the WCC to withdraw all investment from South Africa. For this reason it would be advisable to let you know that you should not presume that unanimous support will be forthcoming from the churches in Wales for a policy of total withdrawal. However, I think you can presume that a policy to exercise stockholder pressure on companies and governments in the interest of justice will be fully supported by the churches of Wales.'[2]

Ym Medi 1975 cyhoeddwyd Memorandwm pellach ar Ddeheudir yr Affrig (ac nid De'r Affrig yn unig) fel rhan o ymdriniaeth yr Adran o thema Pumed Cymanfa Cyngor Eglwysi'r Byd (Nairobi, 23 Tachwedd i 10 Rhagfyr 1975), `Iesu Grist yn Rhyddhau ac Uno'. Amcan hwn oedd cadarnhau'r egwyddorion a fabwysiadwyd eisoes a dwyn sylw at rai materion a oedd yn gofyn am weithredu brys. Gwneir arolwg eang o'r sefyllfa yn Neheudir yr Affrig yn gyffredinol, yng ngoleuni'r newidiadau enfawr a oedd wedi digwydd yn y cyfandir oddi ar yr Ail Ryfel Byd, yn cynnwys y symudiadau tuag at annibyniaeth mewn cynifer o wledydd. Ond yn

--------------------

1. Baldwin Sjollema yn *Dictionary of the Ecumenical Movement*, tud. 825.
2. Llythyr dyddiedig 6 Ionawr 1975.

Neheudir yr Affrig 'roedd hen strwythurau dominyddiaeth y gwyn yn dal mewn grym, yn Ne'r Affrig ei hun, yn Ne Orllewin yr Affrig (Namibia) a Rhodesia (Zimbabwe). Ailfynegwyd gwrthwynebiad i apartheid a oedd, yng ngeiriau Cyngor Eglwysi De'r Affrig, yn ffydd ffals, yn efengyl newydd, mewn gwrthdrawiad ag Efengyl Iesu Grist.[1] Y mae'r memorandwm yn tanlinellu'r ffaith fod Prydain yn buddsoddi mwy nag unrhyw wlad arall yn strwythur dominyddol apartheid. Ym 1970 mewn cyfanswm o £2,984m o fuddsoddion daethai £1,728m o Brydain.[2]

Y mae gweddill y ddogfen yn ystyried rhai sefyllfaoedd arbennig a'r modd y gallai eglwysi Cymru ymateb iddynt. Yn gyntaf, mynegir pryder am ddyfodol Sefydliad Cristnogol De'r Affrig (The Christian Institute of South Africa) - a sefydlwyd ym 1963, yn anuniongyrchol o ganlyniad i ymgynghoriad Cottesloe, i geisio gwneud Cristnogaeth yn ddylanwad mwy grymus yn y gymdeithas - ac am ddiogelwch ei gyfarwyddwr, Dr. Beyers Naudé. 'Roedd ef wedi gwrthod tystiolaethu'n gyfrinachol o flaen is-bwyllgor o Gomisiwn Le Grange a oedd wedi ei sefydlu `to inquire into certain organisations' ac fe'i dygwyd gerbron y Llys.[3] Aethai Archesgob Cymru, G.O.Williams, i'w brawf ar ran Cyngor Eglwysi Prydain.

'Roedd amddiffyniad Naudé gerbron y Llys yn un o uchelbwyntiau'r dystiolaeth Gristnogol yn erbyn apartheid yn Ne'r Affrig. Mewn ateb i un cwestiwn darllenodd ei bregeth i'w gynulleidfa pan gyhoeddodd ei fod am ei gadael i fod yn gyfarwyddwr y Sefydliad Cristnogol. Ei destun oedd Actau 5 adnod 29: 'Rhaid ufuddhau i Dduw yn hytrach nag i ddynion'. Yn ystod y bregeth wynebodd y dewis a oedd o'i flaen:

--------------------

1. Memorandwm Adran Eglwys a Chymdeithas, Medi 1975, tud. 2.

2. ibid., tud. 3.

3. Am gefndir, cynnwys a dadansoddiad o'r prawf gweler, *The Trial of Beyers Naudé: Christian Witness and the Rule of Law*, Gol. International Commission of Jurists, Search Press, 1975.

> `...the choice before me is not firstly a choice between pastoral work and other Christian work...(nor) between the Church and the Christian Institute...It is a choice between religious conviction and submission to ecclesiastical authority. By obeying the latter unconditionally I would save face but lose my soul.'[1]

Diweddglo'r bregeth oedd apêl at holl Gristnogion ac eglwysi De'r Affrig;

> `You who together with us confess loyalty to Christ and his Word, is your primary obedience and loyalty to Christ? Are you willing to call your people and your racial group to seek and to put this obedience before all other things? Even when this clashes with their deepest human sentiments?...To all Christians of all Churches and races and languages and peoples who sincerely seek this obedience to God, and pray, comes his glorious assurance also for the uncertain future - if God is for us, who can be against us. Amen.'[2]

Fe'i cafwyd yn euog o'r cyhuddiad yn ei erbyn. Dedfryd y Llys oedd dirwy o R50.00 neu fis mewn carchar, gyda thri mis ychwanegol mewn carchar wedi eu gohirio am dair mlynedd, ar yr amod na fyddai'n ei gael yn euog eto ar yr un cyhuddiad yn ystod y cyfnod hwn. Ond pan aethpwyd â'r dyfarniad hwn i apêl dyfarnodd y Llys Apêl fod y cyhuddiad yn erbyn Dr. Naudé yn anghyfreithlon ac felly diddymwyd y ddedfryd. Y mae Memorandwm yr Adran yn dyfynnu datganiad Cyngor Eglwysi Prydain mewn ymateb i'r ddedfryd wreiddiol: `...The actions of the South African Government are...reprehensible since it claims to be motivated by Christian principles. We urge Churches and Christians in the U.K. to express their support for the Christian Institute and their opposition to the attempt by the S.A. Government to stifle religious freedom of conscience.'[3] A chefnogwyd y safbwynt hwn gan yr Adran a'r Cyngor.

Yn ail, atgoffwyd yr enwadau am y neges a ddanfonwyd atynt ym 1973 yn gofyn iddynt ystyried naill ai dynnu 'n ôl eu buddsoddion yn Ne'r Affrig neu eu defnyddio i ddwyn pwysau i wella amodau gwaith y bobl ddu. Nodir nad oedd yr holl enwa-

---

1. ibid., tud. 71.

2. ibid., tud. 73-4.

3. Memorandwm yr Adran, Medi 1975, tud. 4.

dau wedi ymateb i'r neges hon.

Yn drydydd, cyflwynwyd dadansoddiad o'r sefyllfa yn Namibia (lle 'roedd De'r Affrig yn gwrthod cydymddwyn â phenderfyniad y Cenhedloedd Unedig a oedd yn gwrthod ei hawl ar y wlad gan nad oedd wedi gweithredu er budd y trigolion nac yn unol â'r gyfraith ryngwladol) a Rhodesia (lle 'roedd Ian Smith wedi gwneud datganiad anghyfreithlon o annibyniaeth y wlad ym 1965.)

Yn bedwerydd, rhoddir cryn sylw i'r Rhaglen i Wrthweithio Hilyddiaeth. Wedi cyflwyno amlinelliad byr o hanes a natur y Rhaglen, ceir ymdriniaeth o'r cwestiwn sylfaenol, Pa fath o gefnogaeth a ddylai'r eglwysi roi i'r Rhaglen? Os cytunir y dylai'r eglwysi gymryd safiad o blaid y gorthrymedig ac yn erbyn y gorthrymwyr, gallai heddychwyr ddadlau fod y gorthrymedig yn fforffedu eu hawl i gefnogaeth Gristnogol os ydynt yn dwyn arfau i'w rhyddhau eu hunain. A oes gennym ni hawl i fynnu eu bod hwy'n gweithredu'n ddi-drais? Ond tra'n gwerthfawrogi'r safbwynt heddychol, 'roedd eglwysi wedi cefnogi byddinoedd yn ystod y rhyfel yn erbyn Natsïaeth ('...which was preferable to acquiescing in the violence which the Nazis were using...')[1]. Os nad ydynt yn cymryd agwedd heddychol pa mor bell y gallant fynd? A ellir, er enghraifft, weddïo dros lwyddiant ymgyrchoedd milwrol mudiadau rhyddhad?

Barn y memorandwm yw fod gwahaniaethu rhwng cefnogaeth filwrol a chefnogaeth ddyngarol - fel y gwnai'r Rhaglen ei hun - yn ddilys, ac er fod hyn yn ymddangos yn naïf i wrthwynebwyr y Rhaglen, bernir mai rhesymol yw i Gyngor Eglwysi'r Byd gynnig cymorth i fudiadau rhyddhad ar yr amod ei fod yn cael ei ddefnyddio at ddibenion dyngarol, ond heb geisio gwarant o hynny. Pwysleisir hefyd nad oes dim o'r arian hyn yn dod o gyllid cyffredinol Cyngor Eglwysi'r Byd,

---

1. ibid., tud. 7.

ac yr ariennir yr holl Raglen drwy gyfraniadau arbennig.

Ystyriwyd y ddogfen hon gan Gyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 16 Hydref 1975 a derbyniwyd nifer o argymhellion i'w danfon at yr enwadau a oedd yn ail adrodd yr hyn a gytunwyd ym 1973, gan ychwanegu cais fod yr enwadau yn mynegi eu cefnogaeth i'r Sefydliad Cristnogol yn Ne'r Affrig ac yn dwyn pwysau ar Lywodraeth Prydain i gefnogi polisi'r Cenhedloedd Unedig ar Namibia ac i weithio tuag at annibyniaeth cyfreithlon i Rhodesia (Zimbabwe) drwy drafodaethau rhyngwladol. Ar sail yr argymhellion hyn danfonwyd llythyr at Ian Smith, Prif Weinidog Rhodesia, yn pwyso arno i gymryd camau brys tuag at sicrhau llywodraeth fwyafrifol yn ei wlad.

Ymhen dwy flynedd, ar 19 Hydref 1977, cyhoeddodd Llywodraeth De'r Affrig fod y Sefydliad Cristnogol ynghyd â dau ar bymtheg mudiad pobl ddu wedi eu dynodi'n fudiadau anghyfreithlon a chafodd eu swyddogion naill ai eu gwahardd neu eu carcharu heb brawf. Yn eu plith 'roedd Beyers Naudé a Brian Brown, gweinidog gyda'r Methodistiaid, a ddeuai gyda hyn yn Ysgrifennydd yr Affrig i Gyngor Eglwysi Prydain. Pan dorrodd y newyddion hyn cyhoeddodd swyddogion Cyngor Eglwysi Cymru ddatganiad cryf yn datgan gwrthwynebiad cadarn i'r weithred orthrymus hon:

> `Such repressive actions cannot but exacerbate the situation of the black population in South Africa. The voice of black consciousness and hopes has been stifled; but their determination to struggle for justice and for basic human rights for their people must be strengthened through this action.
>
> `We particularly deplore the banning of the Christian Institute of Southern Africa, and of its director, Dr. Beyers Naudé...The Institute...has stood beside and spoken for those opposed to apartheid and who are committed to a peaceful struggle for justice and equality in South Africa...we share with the Institute...in the Christian struggle of bringing about the equality and justice which is the goal and reality of our vision of society, both in our own country and in all countries, where human rights are denied and injustice reigns...'[1]

---

1. Datganiad a gyhoeddwyd ar 20 Hydref 1977 ac a arwyddwyd gan y Llywydd, George Evans, Cadeirydd yr Adran Eglwys a Chymdeithas, Esgob B.N.Y. Vaughan, ac Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyngor, Noel Davies.

Fel y gellid disgwyl, gan mai llywodraeth Lafur a oedd mewn grym ym Mhrydain ar y pryd cafwyd ymateb cadarnhaol oddi wrth y Swyddfa Dramor: `...We believe that a society like ours is morally bound to oppose apartheid and to bring about change in South Africa by peaceful means...If this does not take place we fear that the prospect may be one of increasing violence in South Africa.'[1] 'Roedd ymateb Llysgennad De'r Affrig yn Llundain yn dra gwahanol, fodd bynnag. Honnwyd fod y trais ymhlith pobl ddu De'r Affrig yn gynnyrch ymdrechion nifer fechan o `political activists' a oedd yn ceisio creu `...a revolutionary climate which could be exploited when conditions were right'.[2] Credai nad oedd y mudiadau a wnaed yn anghyfreithlon ar 19 Hydref yn gweithio dros newidiadau heddychlon i sicrhau hawliau gwleidyddol cyfartal. Yn bennaf oll, meddai, 'roedd gweithgarwch y mudiadau hyn wedi achosi polareiddio cynyddol rhwng du a gwyn a byddai canlyniadau difrifol i hynny yn nhermau cydberthynas hiliol yn y wlad. Dim ond ar ôl ystyriaeth ofalus, yng ngeiriau'r Llysgennad, y penderfynodd y Llywodraeth wahardd y mudiadau a'r unigolion hyn, a hynny er mwyn diogelu cyfraith a threfn. Y mae'r llythyr yn cloi drwy ddatgan ymrwymiad ei Lywodraeth i sicrhau hawliau dynol sylfaenol ac mai ei phrif ddyletswydd, o ganlyniad, oedd `...that the people under its jurisdiction were not subjected to intimidation, and their fundamental rights were not encroached upon by subversive methods and actions.' Honiad anhygoel o gofio'r hyn a wnaeth y Llywodraeth i danseilio hawliau sylfaenol pobl ddu a phobl liw'r wlad ers 1948!

Neilltuwyd 1978 yn Flwyddyn Gwrth-Apartheid gan y Cenhedloedd Unedig ac ar 21 Ionawr cynhaliwyd Seminar yng Nghaerdydd ar y cyd rhwng Cyngor Eglwysi Cymru a Christian Concern for Southern Africa `i ddyfnhau dealltwriaeth o'r sefyllfa yn Ne Affrig ac i ddarganfod sut y gallwn ni, Gristnogion yng Nghymru, chwarae

---

1. Llythyr dyddiedig 28 Hydref 1977.

2. Llythyr oddi wrth y Llysgennad, Mr. Matthys I. Botha, dyddiedig 25 Tachwedd 1977.

ein rhan yn yr ymdrech dros gyfiawnder i'r bobl ddu yno'.[1] Daeth cynrychiolwyr o'r rhan fwyaf o'r enwadau ynghyd i wrando ar nifer o anerchiadau yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa yn Ne'r Affrig, cost apartheid i'r bobl ddu a'r modd y gallai eglwysi ac unigolion ymateb i'r sefyllfa yn Ne'r Affrig ei hun ac yma. Cyflwynwyd chwe argymhelliad i'r eglwysi. Yn gyntaf, dylid `dal ar bob cyfle i gyhoeddi...y neges Gristnogol o gydraddoldeb pob person, o'r cymod rhwng pawb a wneir yn bosibl yng Nghrist ac o'r cariad at bawb a wneir yn bosibl i ni gan Dduw, sy'n Dad i bawb...' Yn ail, cymeradwywyd fod amser yn cael ei neilltuo mewn Cymanfaoedd, Cyrff Llywodraethol, ac yn y blaen, `i rannu gwybodaeth am y wir sefyllfa yn Ne Affrig...' Yn drydydd, galwyd ar yr enwadau (unwaith eto) i ail ystyried galw'n ôl fuddsoddion mewn cwmnïau sy'n gweithredu yn Ne Affrig `...am y gallai ataliadau economaidd ddal i chwarae rhan ganolog mewn cyflawni newid heddychol yno'. Yn bedwerydd, anogwyd eglwysi lleol a chynghorau eglwysi lleol i geisio dihuno barn leol `...mewn gwrthwynebiad i bolisïau apartheid De Affrig.' Yn bumed, galwyd Cristnogion sy'n aelodau o undebau llafur yn y wlad hon i hyrwyddo gwybodaeth am sefyllfa gweithwyr du De'r Affrig ymhlith eu cydweithwyr a'u cymell i ymdrechu yn erbyn apartheid. Yn olaf, awgrymwyd fod mwy o bwysau yn cael ei roi ar aelodau seneddol i geisio dylanwadu ar y Llywodraeth a'r Senedd er mwyn rhoi `...mwy o rym y tu ôl i'w gwrthwynebiad i bolosiau *(sic)* Llywodraeth Voester ac yn galw'n ol *(sic)* pob buddsoddiad gan y Llywodraeth Brydeinig yn Ne Affrig a dwyn i ben pob masnach a'r *(sic)* wlad'.

Ym mis Awst 1977 'roedd Pwyllgor Gwaith Cyngor Eglwysi'r Byd wedi neilltuo swm o $85,000 o Gronfa Arbennig y Rhaglen i Wrthweithio Hilyddiaeth ar gyfer yr ymdrech dros gyfiawnder hiliol a hunanlywodraeth yn Simbabwe, gan awdurdodi'r swyddogion i'w ryddhau i fudiad neu fudiadau addas pan dybient ei fod yn briodol gwneud hynny. Trosglwyddwyd yr arian i'r Patriotic Front yn Simbabwe ym mis

---

1. Llythyr i'r eglwysi yn dilyn y Seminar, Sul y Dioddefaint 1978.

Awst 1978 i'w ddefnyddio, yn unol ag amodau'r Rhaglen, i ddibenion dyngarol. Achoswyd ystorm fyd-eang yn yr eglwysi a'r cyfryngau a chyhuddwyd y Cyngor o roi *grants for guerrillas* byth oddi ar hynny gan ei wrthwynebwyr. Ar yr un adeg, cafodd mudiadau dyngarol a oedd yn sianelu eu cymorth hwythau drwy Gyngor Eglwysi'r Byd eu pardduo yn yr un modd. O ganlyniad i'r cymorthdal hwn a rhai tebyg penderfynodd Byddin yr Iachawdwriaeth `to suspend its membership of the (WCC) pending inquiries' a hynny'n bennaf oherwydd safbwynt anwleidyddol y Fyddin. Ar yr un pryd, mynegwyd cefnogaeth i'r grantiau hyn gan laweroedd o Gristnogion ar draws y byd. Er enghraifft, mewn erthygl yn *The Guardian*, dywed Trevor Beeson:

> `...they identify the WCC with those who are struggling to rid themselves of racial oppression and thus provide moral as well as material aid. Hence the cries of protest from the comfortable West, and the WCC's own struggle to keep the friendship and support of some of its more privileged members'.[1]

Mewn erthygl yn *The Times* ysgrifennodd Clifford Longley:

> `Feeling in the WCC and among church authorities in Britain is that the Council's grant to the Patriotic Front is defensible in principle, once it is accepted that the Front is the only available means by which such supplies as clothing and shelter can be given to refugees'.[2]

Gan mai un o gyfrifoldebau Cyngor Eglwysi Cymru oedd dehongli, cefnogi a hyrwyddo Cyngor Eglwysi'r Byd ymhlith eglwysi a Christnogion Cymru, penderfynwyd y dylai'r Cyngor wneud datganiad i fynegi cefnogaeth i'r grant, i'r Rhaglen i Wrthweithio Hilyddiaeth ac i Gyngor Eglwysi'r Byd. Daethpwyd i gytundeb unfrydol ar ddatganiad priodol yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor yn y Drenewydd, ar 19 Hydref 1978. Ynddo mynegir hyder y Cyngor yng Nghyngor Eglwysi'r Byd a gelwir ar yr enwadau a oedd yn aelodau o Gyngor Eglwysi Cymru i wneud hynny hefyd. Wedi mynegi gwerthfawrogiad o gyfraniad cyfoethog Cyngor Eglwysi'r Byd i genhadaeth a gwasanaeth yr eglwysi yng Nghymru ac esbonio natur y Rhaglen a'r

--------------------

1. O *Face to Faith*, yn *The Guardian*, 19 Awst 1978, tud. 6.

2. *The Times*, 22 Awst 1978.

grant arbennig i Simbabwe, y mae'r datganiad yn ceisio wynebu'n agored holl gwestiwn defnyddio trais mewn sefyllfaoedd anghyfiawn ac yn gwneud safiad clir:

> `Tra'n parchu'r sawl sydd yn gwneud safiad heddychol unplyg, er hynny, ni all Cyngor Eglwysi'r Byd gondemnio'r sawl sydd, ar ol *(sic)* disbyddu pob dull rhesymol arall, yn cael eu gorfodi i ddefnydd o drais, gyda chydwybod dda, fel modd i ennill cyfiawnder i'r sawl y maent yn brwydro ar eu rhan. Er hynny, y mae Cyngor Eglwysi'r Byd wedi rhannu ac yn parhau i rannu yn y condemniad o'r erchyllderau *(sic)* a gyflawnwyd gan y ddwy ochr yn Zimbabwe.[1]

Y mae'r datganiad yn cydnabod hefyd fod ar yr eglwys gyfrifoldeb `...i ofalu am rai sy'n dioddef o ganlyniad i'r frwydr barhaol yn Zimbabwe, oddifewn *(sic)* i'r wlad yn ogystal ag yn y gwledydd hynny y ffoisant iddynt fel ffoaduriaid'.[2] Ac wedi ail-adrodd dwy egwyddor sylfaenol y Rhaglen, sef, bod yn rhaid i egwyddorion unrhyw fudiad sy'n derbyn cymorth beidio â `...gwrthdaro yn erbyn amcanion cyffredinol Cyngor Eglwysi'r Byd a'i unedau' a bod yn rhaid defnyddio'r arian `...ar gyfer gweithgareddau dyngarol' y mae'n gorffen drwy honni na ellir peidio â chymryd ochr mewn gwlad fel Simbabwe os oedd yr eglwys i fod yn effeithiol yn ei thystiolaeth yn erbyn anghyfiawnder:

> `Mae cymhlethdod y sefyllfa wleidyddol yn Zimbabwe yn golygu fod dod i farn wleidyddol yn annodd *(sic)* iawn. Gall Cristnogion unigol gael eu hunain mewn anghytundeb llwyr a'r *(sic)* farn y daeth y Cyngor iddi ond ni all Cyngor Eglwysi'r Byd osgoi mentro dod i'r fath farn wleidyddol os ydyw i rannu yn yr ymdrech i wrthweithio gorthrwm hiliol'.[3]

'Roedd y datganiad hwn a gafodd, fel y nodwyd eisoes, gefnogaeth unfrydol y Cyngor, yn fwy diamwys ei gefnogaeth i benderfyniad swyddogion Cyngor Eglwysi'r Byd a'i Bwyllgor Gwaith na nemor unrhyw ddatganiad cyffelyb ym Mhrydain ar y pryd. Fel y gellid dychmygu, bu'r ymateb iddo yn gymysg. Cefnogwyd y datganiad gan Synod Talaith Cymru o'r Eglwys Fethodistaidd a gyfarfu yn Llanrhaedr ym

---

1. Datganiad Cyngor Eglwysi Cymru, 19 Hydref 1978, para. 5.
2. ibid., para. 6.
3. ibid., para. 8.

der its decision and make its grant not to the Patriotic Front, but channel it through Christian Aid or some other similiar organisation'.[1]

Yn ei ymateb esboniodd Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyngor yr anhawster mewn perthynas â hyn:

> '...Christian Aid and the Commission on Inter Church Aid and World Refugee Service (of the World Council of Churches) do play a vital role in caring for victims of racial violence and oppression in Rhodesia but...there are many refugees both inside and outside Rhodesia to whom the Patriotic Front has access which conventional aid agencies can reach only with difficulty. The humanitarian purpose of this grant is vital but it is a caring which aims also at combatting racism. No such purpose can be achieved without some political judgement and political involvement. Para. (8)...seeks to express the agonising conflict for any Christian as he seeks to stand against racism.'[2]

Ceir yr argraff eglur na fu'r ymateb i'r Rhaglen nac i'r grant arbennig hon mor chwyrn yng Nghymru ag a fu ymhlith llawer o'r eglwysi mewn gwledydd Gorllewinol eraill, nid lleiaf yn Lloegr. Un rheswm am hyn yw tuedd a thraddodiad radicalaidd llawer o'r enwadau yng Nghymru, a'r enwadau anghydffurfiol yn fwyaf arbennig. Ond y mae lle i ofni fod difaterwch ac anwybodaeth mewn perthynas â Chyngor Eglwysi'r Byd a'i weithgarwch yn elfen hefyd.

Fodd bynnag, ymhen blwyddyn arall, ym mis Hydref 1979, cyhoeddodd Cyngor Eglwysi Prydain ei adroddiad, *Political Change in Southern Africa: Britain's Responsibility* a lluniodd Adran Eglwys a Chymdeithas Cyngor Eglwysi Cymru adroddiad arno a fyddai'n cynorthwyo eglwysi Cymru i'w ystyried. Fel cefndir i'w waith gofynnodd yr Adran i'r Athro Ieuan G.John baratoi papur ar *South Africa's position in international politics*, sy'n cynnig dadansoddiad manwl o gryfderau a gwendidau safle'r wlad o safbwynt economaidd a gwleidyddol, yn amlinellu'r newidiadau yn ei safle strategol oddi fewn i ddeheudir yr Affrig ac yn awgrymu beth a allai ddigwydd yno yn y dyfodol. Wedi astudio'r ddau adroddiad cynigiodd yr Adran destun datganiad a fwriadwyd i fod yn gynorthwyol i eglwysi Cymru. Y mae'r datganiad yn

---

1. Llythyr dyddiedig 18 Hydref 1978.
2. Llythyr gan Noel Davies dyddiedig 9 Tachwedd 1978.

Mochnant yn Ebrill 1979. Eisoes yn ei Gyfarfodydd Blynyddol ym Mehefin 1978 yng Nghaernarfon 'roedd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg wedi pasio penderfyniad yn cefnogi'r Rhaglen ac yn cytuno i wneud cyfraniad o £50 tuag at y Gronfa Arbennig (yr unig enwad Cymreig i wneud cyfraniad ati). Cafwyd ymateb mwy gochelgar oddi wrth Gyngor Taleithiol Cenhadaeth ac Undeb yr Eglwys yng Nghymru yn mynegi `anesmwythyd' nid yn gymaint mewn perthynas â'r grant ei hun ond â'r modd y cafodd ei benderfynu a'i gyhoeddi. Ond ailfynegwyd cefnogaeth i waith y Cyngor yn gyffredinol:

> `Carwn sicrhau Cyngor Eglwysi Cymru o'n bwriad i barhau i ddwyn gwaith Cyngor Eglwysi'r Byd i sylw ystyrlon a gweddigar yr Eglwys yng Nghymru. Wrth i ni ddatgan ein pryder ynglŷn â rhai agweddau ar y PCR i Gyngor Eglwysi'r Byd yn uniongyrchol gwnaethom hynny yn gariadlon fel aelod o'r Cyngor hwnnw'.[1]

Gan adlewyrchu ysbryd cyffelyb mynegodd Archesgob Cymru, G.O.Williams, (y cyntaf erioed o Gymru i wasanaethu ar Bwyllgor Canolog Cyngor Eglwysi'r Byd) yr un awydd i feithrin perthynas yr Eglwys â'r Cyngor. Pan oedd nifer yn galw ar yr Eglwys yng Nghymru i dynnu allan o Gyngor Eglwysi'r Byd ei ymateb yn y Corff Llywodraethol oedd, `When my church does something with which I disagree, I do not withdraw my membership...'

Oddi wrth Gyngor Eglwysi Llandudno y cafwyd yr unig ymateb lleol, a hynny i gyhoeddiad Cyngor Eglwysi'r Byd yn hytrach nag i ddatganiad Cyngor Eglwysi Cymru:

> `...(we) desire to register our very strong protest against the WCC grant to the Patriotic Front.
>
> `...We all appreciate, of course, that many thousands of refugees have fled from Rhodesia...and most of them are now homeless and urgently require help.
>
> `However, the majority of our Council (*ond nid pawb, yn ôl pob golwg*) considered that, if possible, the World Council should reconsi-

---

1. Llythyr oddi wrth Roy T. Davies, Ysgrifennydd y Cyngor Taleithiol, 27 Ionawr 1979.

ceisio ateb nifer o gwestiynau allweddol.

Wrth esbonio pam y dylai'r Eglwysi wneud datganiadau ar faterion gwleidyddol y mae'n dyfynnu adroddiad Cyngor Eglwysi Prydain:

> `Mewn cyfrifoldeb gerbron Duw, Creawdwr nefoedd a daear, mewn cariad at Grist, a gyfeirir yn arbennig at y tlawd, yr anghenus a'r pechaduriaid, ac hefyd yng ngobaith am ddyfodiad Teyrnas Dduw pan y bydd tangnefedd perffaith yn teyrnasu, nid oes gan yr eglwys unrhyw ddewis ond cysegru ei neges a'i holl fywyd i geisio sicrhau yma 'nawr gymaint o urddas dynol, o gyfiawnder, tangnefedd a rhyddid â phosibl'.[1]

Wedi ailadrodd y rhesymau dros roi sylw arbennig i Dde'r Affrig a phwysleisio mai'r nod oedd dileu apartheid a sefydlu gwlad aml-hiliol a chyfiawn, cynnigiodd ddadansoddiad o'r dylanwadau a oedd ar waith yno ar y pryd, gan gynnwys penderfyniadau'r Cenhedloedd Unedig, buddiannau economaidd a gwleidyddol, perthynas gorllewin a dwyrain, cyfoethog a thlawd, cynnydd yn nifer gwladwriaethau annibynnol yn yr Affrig, buddsoddion Prydain yn y wlad, cryfderau a gwendidau economi De'r Affrig a gwrthwynebiad cynyddol pobl ddu i'r drefn a oedd yn bod. Daeth i'r casgliad fod angen gweithredu brys os oedd y sefyllfa i gael ei newid ac awgrymir nifer o gamau a fyddai'n bosibl i'r eglwysi. Gan ei bod yn amlwg fod y polisi o geisio dwyn pwysau am newid drwy ddefnyddio cysylltiadau economaidd wedi methu, dylid mabwysiadu polisi o ddadymrwymiad *(disengagement)* a sancsiynau economaidd. Cymhellwyd yr eglwysi `i wrando'n astud ar arweinwyr duon...sy'n siarad dros y gorthrymedig' ac `i weddio a gweithio er mwyn sicrhau rheolaeth gan y mwyafrif oddifewn *(sic)* i drefn ddemocrataidd o lywodraeth oddifewn *(sic)* i Dde Affrig Unedig'. Credid hefyd y dylid pwyso ar y llywodraeth `i attal y ffrwd i mewn i'r wlad o'r cyfalaf, y technoleg a'r cyfarwyddyd technolegol proffesiynnol sy'n ei galluogi i wrthsefyll y pwysau rhyngwladol i newid ei threfn apartheid'.[2]

--------------------

1. Dyfynnir yn natganiad yr Adran o *Political Change in Southern Africa: Britain's Responsibility*, Cyngor Eglwysi Prydain, 1979, tud. 8.

2. Dyfyniadau o'r adroddiad a gyflwynwyd i Gyngor Eglwysi Cymru ar 19 Hydref 1979.

Pan drafodwyd yr adroddiad hwn ar lawr y Cyngor fe fynegwyd amheuon. A fyddai'n cynrychioli llais eglwysi Cymru, mewn gwirionedd? Teimlai rhai (gan gynnwys Cadeirydd yr Adran, Esgob B.N.Y. Vaughan) na fyddai'r enwadau'n cefnogi ymataliadau economaidd ac y byddai'n ddoethach i beidio â phasio penderfyniad ond gofyn i'r Adran astudio'r mater ymhellach. Dyma enghraifft o anhawster y Cyngor mewn materion o'r fath. Codwyd cwestiwn ataliadau economaidd nifer o weithiau bellach gan y Cyngor a phob tro cytunwyd i'w argymell i ystyriaeth yr enwadau. Ond a gafodd yr argymhellion hyn eu hystyried ganddynt? A lle digwyddodd hynny, a lwyddodd y Cyngor i adlewyrchu barn yr enwadau neu a newidiwyd barn unrhyw enwad o ganlyniad i arweiniad y Cyngor? Mewn sefyllfa ecwmenaidd lle nad oedd gan y Cyngor - a hynny'n ddigon priodol - unrhyw awdurdod dros yr enwadau, 'roedd yn dibynnu'n unig ar ddylanwad effeithiol. Mewn perthynas â mater dadleuol fel hwn y mae lle i ofni fod hinsawdd y drafodaeth oddi fewn i'r Cyngor ei hun (lle 'roedd gan yr holl enwadau eu cynrychiolwyr) yn dra gwahanol i'r hinsawdd mewn trafodaethau ar yr un pwnc oddi fewn i lysoedd a phwyllgorau enwadol. Os gwir yw hyn, y mae'n codi eto - fel y gwelir drosodd a thro wrth olrhain hanes y Cyngor - gwestiwn sylfaenol am natur y bartneriaeth ecwmenaidd yng Nghymru yn y cyfnod hwn a dylanwad penderfyniadau'r Cyngor ar benderfyniadau a pholisïau'r enwadau.

Boed hynny fel y bo, am y tro, ceisiodd Jim Wilkie, o Gyngor Eglwysi Prydain, ymateb i'r drafodaeth drwy bwysleisio mai'r hyn yr oedd ei angen oedd newid cyffredinol mewn ymagwedd. Meddai `...keeping on talking is not enough...greater energy is necessary. Urgency is increasing daily. Education is more important than pompous statements'.[1] 'Roedd sylw Erastus Jones yn nodweddiadol ohonno: `Caution must be set alongside urgency'.

Ar ddiwedd y drafodaeth pasiwyd y ddau benderfyniad yn yr adroddiad, sef, fod y

---

1. O nodiadau ysgrifenedig o'r drafodaeth gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol.

Cyngor `yn cymeradwyo'n galonog Adroddiad Cyngor Eglwysi Prydain i'w astudio' ac yn `cefnogi polisi o "sanctions" economaidd ar Dde Affrig er mwyn sicrhau fod mwyafrif y bobl yn cael llais effeithiol ym mhenderfyniadau cenedlaethol'.[1] 'Roedd y geiriad yma yn hepgor o'r geiriad gwreiddiol y cymal 'mewn egwyddor' ar ôl y gair `cefnogi', a'r cymal `o ddadymrwymiad *(disengagement)*' ar ôl y gair `polisi'; y naill newid yn cryfhau'r alwad am ataliadau economaidd a'r llall yn gwanhau'r pwysau ar Lywodraeth a masnach Prydain i dynnu'n ôl fuddsoddion yn Ne'r Affrig. 'Roedd y penderfyniad hwn, felly, yn gam yn ôl o'i gymharu â rhai o benderfyniadau blaenorol y Cyngor, ond efallai yn fwy cynrychioliadol o safbwyntiau'r enwadau ar y mater dadleuol hwn!

Yn yr un cyfarfod codwyd, am y tro cyntaf, holl gwestiwn anodd chwaraeon, ac yn yr achos arbennig hwn, rygbi. 'Roedd tîm rygbi'r Barbariaid ar fin ymweld â Chymru o Dde'r Affrig ar wahoddiad Undeb Rygbi Cymru, i chwarae dwy gêm, un yng Nghasnewydd a'r llall yn Llanelli, a'r gyntaf i'w dangos ar y teledu gan y BBC. O ganlyniad i drafodaeth a oedd yn gwau i mewn i'r drafodaeth ar y penderfyniadau uchod ac a oedd, felly, yn ymwybodol o gyd-destun ehangach y pwnc hwn, cytunwyd ar dri phenderfyniad yn condemnio'r Undeb, y ddau glwb a'r Gorfforaeth. Gwnaed hynny'n unfrydol. Mewn llythyr a aeth gyda'r penderfyniadau esboniodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol:

> `...the multiracial nature of this present team does not reflect the true state of rugby playing in South Africa itself, but, rather, in our judgement, serves to generate sympathy for the present unjust apartheid system'.[2]

Yn ei ymateb nododd Owen Edwards ar ran y BBC nad oedd yn briodol iddynt wneud penderfyniadau ar faterion fel hyn am resymau gwleidyddol ond yn unig ar seiliau golygyddol!

--------------------

1. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 19 Hydref 1979.
2. Llythyr dyddiedig 29 Hydref 1979.

Eisoes ym 1977 'roedd Llywodraeth Prydain wedi arwyddo cytundeb Gleneagles ar apartheid mewn chwaraeon a dderbyniwyd yn unfrydol gan arweinwyr holl wledydd y Gymanwlad. Drwy hynny 'roeddent yn derbyn

> `...as the urgent duty of each of their governments vigorously to combat the evil of apartheid by withdrawing any form of support for, and by taking every practical step to discourage contact or competition by their nationals with sporting organisations, teams or sportsmen from South Africa or from any other country where sports are organised on the basis of race, colour or ethnic origin'.[1]

Mewn papur cynhwysfawr a luniwyd ar gais Cadeirydd yr Adran Eglwys a Chymdeithas yn Ionawr 1981 pwysleisiodd Brian Brown, a oedd erbyn hyn yn Ysgrifennydd yr Affrig yng Nghyngor Eglwysi Prydain, fod pobl ddu De'r Affrig yn credu fod cynnal chwaraeon rhyngwladol yn Ne'r Affrig neu yn erbyn timau oddi yno yn tanseilio'r ymdrech yn erbyn apartheid drwy gynnig cefnogaeth i'r lleiafrif gwyn a rhoi'r argraff iddynt y gallent arfer apartheid a pharhau i fwynhau derbyniad rhyngwladol. 'Roeddent hefyd yn cyfrannu at ddelwedd ryngwladol apartheid ar y cyfryngau a oedd yn anwybyddu'r ffeithiau ym mywyd a hamdden y bobl ddu a'r bobl liw, ac yn fwy na dim efallai yn hybu cred y bobl wyn y byddai newidiadau cosmetig yn ddigonol i ennill cefnogaeth y gymuned ryngwladol.

Felly, pan basiwyd penderfyniad pellach ar Dde'r Affrig yng nghyfarfod y Cyngor ar 5 Mai 1983 galwyd ar y Llywodraeth `i barhau i lynnu'n gadarn wrth Gytundeb Gleneagles sy'n rheoli perthynas â Gwerinlywodraeth De'r Affrig ym maes chwaraeon'.[2] Yn yr un penderfyniad (a basiwyd yn unfrydol), galwyd hefyd ar yr eglwysi `i ddilyn polisi o ddadgysylltiad *(sic)* economaidd, ac i annog eu haelodau i dynnu buddsoddion allan o Dde Affrig'. Felly, ar ôl cyfnod o dair blynedd, dyma dderbyn egwyddor a wrthodwyd cynt.

--------------------

1. *Commonwealth Statement on apartheid in sport*, Gleneagles, 15 Mehefin 1977.

2. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 5 Mai 1983.

Yn y cyfamser, 'roedd bygythiad newydd yn wynebu'r eglwysi yn Ne'r Affrig, a Chyngor Eglwysi De'r Affrig yn fwyaf arbennig. Ym 1981 penodwyd Comisiwn Eloff gan Lywodraeth De'r Affrig i edrych i mewn i weinyddiaeth a chyfraniadau ariannol Cyngor Eglwysi De'r Affrig; o leiaf, dyna oedd y rheswm swyddogol. Daeth yn amlwg yn fuan, fodd bynnag, fod y Comisiwn wedi'i awdurdodi gan y Llywodraeth i ymholi i `the inception, development, objectives, history and activity of the Council as well as the organisation and people connected with the financial support or assets of the South African Council of Churches'.[1] 'Roedd pennaeth yr heddlu wedi cymeradwyo fod y cyngor yn cael ei ystyried yn `affected organisation'. Effaith hynny, ymhlith pethau eraill, fyddai na allai dderbyn unrhyw gyfraniadau ariannol o'r tu allan i'r wlad. Gan fod y Cyngor yn dibynnu ar y rhain am 96% o'i gyllid i gynnal ei gyfundrefn a'i raglenni cymorth - canran llawer rhy uchel, gyda llaw, i fod o les i'w waith ei hun ac i bartneriaeth yr eglwysi â'i gilydd drwyddo - byddai penderfyniad o'r fath wedi tanseilio ei holl fodolaeth.

Ar 1 Medi 1982 galwyd Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyngor, Esgob Desmond Tutu, o flaen y Comisiwn, ac yn ei dystiolaeth pwysleisiodd nad cyllid na gweithgareddau'r Cyngor a oedd yn y fantol, `It is the Christian faith, it is the Christian churches who are members of the South African Council of Churches who are on trial.'[2] Anghydfod diwinyddol oedd yr anghydfod rhwng y Cyngor a'r llywodraeth. `The South African authorities are trying to dictate to the SACC what the nature of Christian ministry should be. No one can understand why we exist as a Council and why we do and say the things we do unless they understand our theological, biblical justification for doing so', meddai'r Esgob.[3]

Tra oedd y Comisiwn yn dal i eistedd danfonodd Cyngor Eglwysi Cymru lythyr o

---

1. O neges gan Bwyllgor Gwaith Cyngor Eglwysi'r Byd, 28 Chwefror 1984.
2. ibid..
3. ibid..

gefnogaeth a chyfarchion at Esgob Tutu a Chyngor Eglwysi De'r Affrig, ar sail y penderfyniad a wnaed fis Mai 1983. Yn ei ymateb y mae'n gosod allan gynseiliau diwinyddol ei safiad ef a'r Cyngor:

> `...we have no doubt that the great Liberator God, the God of the Exodus, will lead us all, black and white, in South Africa to true freedom for all because whilst one section is still unfree, no one can be truly free. We belong to a wonderful fellowship which transcends time, space, race, culture, wherein we are members one of another because we are members of the body of Christ...We know that those for us are many times those against us'.[1]

Cyhoeddwyd adroddiad Comisiwn Eloff ar 15 Chwefror 1984 a chyhoeddodd y ddedfryd hon ar Gyngor Eglwysi De'r Affrig: `It is revolutionary, destabilizing, secretive and confrontational'.[2] Fe'i condemnir am beidio â chyfyngu ei hun `...to spiritual work and advocating a radical transformation of society...It is inappropriate for a church...body to make pronouncements on political or economic policies (such as the promotion of disinvestment.)'

Yn wyneb y condemniad hwn pasiwyd penderfyniad arall ar Dde'r Affrig yng nghyfarfod Cyngor Eglwysi Cymru ym Mai 1984 yn dwyn sylw'r eglwysi yng Nghymru at eiriau'r Esgob Tutu mewn ymateb i adroddiad y Comisiwn, fod `Cyngor (Eglwysi De'r Affrig) yn cael ei orfodi gan Efengyl Iesu Grist i gondemnio apartheid am ei fod yn ddrygionus ac anfoesol mewn ystyr absoliwt'.[3] Yn wyneb rhai newidiadau a wnaed gan y Llywodraeth yn ei hagwedd tuag at wledydd cyfagos, a thuag at Asiaid oddi fewn i'r wlad, aeth y penderfyniad yn ei flaen i gadarnhau 'nas gall unrhyw newidiadau yn Neheudir Affrig sy'n gadael y sustem apartheid heb ei newid gyfiawnhau cefnogaeth i Dde'r Affrig; (ac) yn mynegi cefnogaeth i Gyngor Eglwysi De'r Affrig a'i Ysgrifennydd...yn ei wrthwynebiad i apartheid'.

--------------------

1. Llythyr oddi wrth Esgob Desmond Tutu dyddiedig 30 Mehefin 1983.
2. Neges Cyngor Eglwysi Byd, tud. 2.
3. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 5 Mai 1984.

Yn yr un modd mynegwyd cefnogaeth gadarn iddo gan Gyngor Eglwysi'r Byd:

> `We affirm our solidarity with you in your ongoing struggle for justice and peace, and commend the SACC and its member churches to the constant loving care of the God of justice and truth...We pledge ourselves to join with the world-wide community of the Christian Church to stand by you and to uphold you in prayer, in witness and in action'.[1]

Yn ystod 1984 ymdeimlodd yr Adran â'r angen am fynd i gyfeiriad newydd. Am ddeng mlynedd a mwy 'roedd yr ymdrech mewn perthynas â De'r Affrig wedi canolbwyntio ar adroddiadau a ddaethant yn sail i benderfyniadau i'w cyflwyno i ystyriaeth yr enwadau ac i ddwyn pwysau ar Lywodraethau Prydain a De'r Affrig. Yn awr, teimlwyd fod angen hybu ymdrechion lleol yn erbyn apartheid a chafwyd caniatâd y Cyngor i baratoi deunydd ar gyfer ymgyrch addysgiadol a gweithredol o ymwrthod â `ffrwythau apartheid'. Sylfaen yr ymgyrch oedd geiriau Paul yn ei Lythyr at y Colosiaid:

> `Peidiwch â dweud celwydd wrth eich gilydd, gan eich bod wedi diosg yr hen natur ddynol, ynghyd â'i gweithredoedd, a gwisgo amdanoch y natur ddynol newydd, sy'n cael ei hadnewyddu ar ddelw ei Chreawdwr, i adnabod Duw. Nid oes yma ragor rhwng Groegwr ac Iddew, enwaediad na dienwaediad, barbariad, Scythiad, caeth, rhydd; ond Crist yw pob peth, a Christ sydd ym mhob peth'.[2]

Lluniwyd taflen boblogaidd yn sôn am bolisi'r Cyngor ac effaith apartheid ar y bobl ddu. Ceisiwyd hefyd ymateb i rai o'r cwestiynau a ofynnwyd yn gyson am weithgarwch gwrth-apartheid, megis, pam nad yw pobl sydd wedi bod yno ar eu gwyliau yn gweld pethau fel hyn, ac, onid y bobl ddu fydd yn dioddef fwyaf os na phrynir nwyddau o Dde'r Affrig?

Ni ddisgwylid dim mwy na gwrthod prynu nwyddau o Dde'r Affrig ac esbonio pam i'r perchennog neu'r rheolwr. A phwysleisiwyd nad dylanwadu ar y sefyllfa yn Ne'r Affrig oedd y nod pennaf, ond yn hytrach ceisio addysgu Cristnogion Cymru am y sefyllfa yno a dod i wneud mwy i'w gwella. Lansiwyd yr ymgyrch yng nghyfarfod y

---

1. Neges Cyngor Eglwysi'r Byd, 28 Chwefror 1984.
2. Colosiaid 3: 9 - 11.

Cyngor ar 25 Ebrill 1985 a bwriadwyd iddi ddod i'w huchafbwynt yng Ngŵyl Teulu Duw[1] ar 24 Mai 1986 pan fyddai Esgob Tutu yn brif westai. Y mae'n amhosibl gwybod sut ymateb a fu i'r ymgyrch hon. Fe ddosbarthwyd nifer fawr o daflenni Cymraeg a Saesneg, ac ymunodd nifer o unigolion a chynulleidfaoedd a chynghorau eglwysi ynddi. Yn sicr, yn ystod y blynyddoedd fe ymwrthododd nifer fawr o Gristnogion ac eraill yng Nghymru â phrynu ffrwythau a chynnyrch o Dde'r Affrig o ganlyniad i ymgyrchoedd tebyg i hon.

Bu 1985 yn flwyddyn hanesyddol i Gristnogion De'r Affrig am ddau reswm. Yn gyntaf, dyma flwyddyn cyhoeddi Dogfen Kairos[2], a oedd yn cynnig ymdriniaeth ddiwinyddol o anghydfod gwleidyddol y wlad gan nifer o ddiwinyddion ac eraill yn Ne'r Affrig. Cafodd y ddogfen hon ddylanwad anhygoel. Yn ôl y Rhagair i'r Ail Argraffiad:

> `Responses...were overwhelming...(It) generated more discussions and debate than any other theological document in South Africa. (There was) overwhelming excitement about it in the Black townships. It reinforced the people's faith and hope for a new and just society in South Africa...It was welcomed as a statement of what it means to be truly Christian in a violent apartheid society'.[3]

Man cychwyn yr ymdriniaeth ddiwinyddol oedd fod y *kairos* wedi cyrraedd yn Ne'r Affrig, `The moment of truth has arrived. South Africa has been plunged into a crisis which is shaking the foundations and there is every indication that the crisis has only just begun...It is the moment of truth not only for apartheid but also for the Church...'[4] Yn wyneb hyn ceir ymdriniaeth feirniadol o ddiwinyddiaeth y wladwriaeth a diwinyddiaeth eglwysig. Cymherir y naill â gau broffwydi'r Hen Destament a gyhuddir gan Eseciel o "arwain fy mhobl ar gyfeiliorn a dweud,

---

1. gweler pennod 6

2. *The Kairos Document: Challenge to the Church*, Medi 1985.

3. *The Kairos Document*, Ail Argraffiad Diwygiedig, Skotaville Publishers, Medi 1986.

4. ibid., tud. 1.

`Heddwch', er nad oedd heddwch, y maent yn codi wal simsan ac yn ei dwbio â gwyngalch...Chwalaf y mur a wyngalchwyd...A phan syrth o'ch cwmpas, fe'ch dinistrir; yna byddwch yn gwybod mai myfi yw'r Arglwydd'.[1] Perygl y ddiwinyddiaeth eglwysig oedd yn dominyddu'r eglwys yn Ne'r Affrig oedd gwneud ffydd ac ysbrydoledd yn faterion arallfydol nad oedd ganddynt ddim i'w wneud â'r hyn a ddigwyddai yn y byd hwn, materion unigolyddol a phreifat nad oedd a wnelo bywyd y gymdeithas ddim â nhw. Deuir i'r casgliad nad oes i'r ysbrydoledd a'r ffydd hyn unrhyw sylfaen Feiblaidd:

> `The Bible does not separate the human person from the world in which he or she lives; it does not separate the individual from the social or one's private life from one's public life. God redeems the whole person as part of God's whole creation. A truly biblical spirituality would penetrate into every aspect of human existence and would exclude nothing from God's redemptive will. Biblical faith is prophetically relevant to everything that happens in the world'.[2]

Yr hyn oedd ei angen, felly, oedd diwinyddiaeth broffwydol yn seiliedig ar y Beibl, a oedd yn medru darllen arwyddion yr amserau, yn alwad i weithredu, oedd felly bob amser yn ymosodol (`It confronts the evils of the time and speaks out against them...'),[3] yn ysbrydol (`infused with the spirit of fearlessness and courage, a spirit of love and understanding, a spirit of joy and hope, a spirit of strength and determination') ac yn fugeiliol (`It will denounce sin and announce salvation'). A'r angen pennaf oedd gobaith: `As the crisis deepens day by day, what the oppressor and the oppressed can legitimately demand of the churches is a message of hope.'[4] Ond byddai'r ffordd tuag at y gobaith sicr hwn yn un galed a phoenus, 'Roedd hynny bellach yn anochel gan mor ystyfnig y gorthrymydd. Dyma'r amser i weithredu. A daeth y ddogfen i ben gyda her i weithgarwch. Byddai hyn yn gorfod golygu ochri gyda'r gorthrymedig, cyfranogi yn yr ymdrech o blaid cyfiawnder,

---

1. Eseciel 13: 10 a 14.
2. ibid., tud. 16.
3. ibid., tud. 18.
4. ibid., tud. 26.

trawsnewid gweithgareddau eglwysig, ymgyrchoedd arbennig, anufudd-dod sifil a chynnig arweiniad moesol. Her i'r Eglwys oedd y ddogfen hon. `The challenge of the faith and of our present *kairos* is addressed to all who bear the name of Christian'.[1] Ac 'roedd ynddi her hefyd i'r eglwys fyd-eang: `we...repeat our call to our Christian brothers and sisters throughout the world to give us the necessary support in this regard so that the daily loss of so many young lives may be brought to a speedy end'.

Ni chafodd y ddogfen chwyldroadol hon gymaint â hynny o sylw yng Nghymru ac ni ddylanwadodd yn fawr ychwaith ar feddwl ac ymdrechion Cyngor Eglwysi Cymru mewn perthynas â De'r Affrig. Gallai hynny fod yn fethiant mewn cyfathrebu, ar ran y Cyngor a'r enwadau yng Nghymru, neu'n enghraifft arall o ddifaterwch cenhadol a diwinyddol. Ymhlith y sawl a roddodd sylw i'r ddogfen codwyd cwestiynau hollbwysig nid yn unig am y sefyllfa yn Ne'r Affrig ond hefyd am ein hymateb diwinyddol ac ymarferol ni, fel Cristnogion ac eglwysi yng Nghymru, i'r argyfwng cynyddol a oedd yma. Ond ni throdd dyfalu felly naill ai'n weithgarwch diwinyddol neu'n weithredu proffwydol ar sail y ddogfen hon.

Ym mis Rhagfyr 1985 galwodd Cyngor Eglwysi'r Byd gynhadledd ryngwladol yn Harare, 25 mlynedd ar ôl y gynhadledd ryngwladol gyntaf a gynullwyd gan y Cyngor yn Cottesloe ym 1960. Cyhoeddwyd memorandwm sylweddol yn sgil y gynhadledd hon a oedd yn cynnwys camau y dylid eu cymryd ar unwaith: dod â'r `state of emergency' i ben; tynnu'r milwyr allan o'r trefedigaethau duon; rhyddhau Nelson Mandela a phob carcharor gwleidyddol; creu'r amgylchiadau i alluogi alltudion i ddychwelyd; rhyddhau pawb oedd yn y ddalfa heb brawf; dileu'r gwaharddiad ar bob mudiad gwaharddedig; dechrau trafodaethau gydag arweinwyr gwirioneddol y bobl gyda golwg ar drosglwyddo grym i'r bobl. Prif argymhelliad y gyn-

1. ibid., tud. 31.

hadledd oedd y dylid dal i bwyso am ataliadau economaidd:

> `It is the strategy of economic sanctions that emerged for us most powerfully and touched us most deeply...We recognised the consistent demand from South Africa for powerful economic sanctions as the strategy of the hour in the defeat of apartheid'.[1]

Yn y Datganiad a gyhoeddwyd ar ddiwedd y gynhadledd (y daethpwyd i'w adnabod fel *The Harare Declaration*) mynegir cefnogaeth i'r rhai hynny yn Ne'r Affrig a oedd yn galw am ymddiswyddiad y Llywodraeth. `We regard this as the most appropriate and least costly process of change'.[2] Ymhlith yr argymhellion 'roedd y canlynol: galwad i eglwysi oddi fewn ac oddi allan i Dde'r Affrig i barhau i weddïo drosti ac i neilltuo 16 Mehefin 1986 (sef, deng mlynedd union ar ôl trasiedi Soweto) fel Dydd Byd-eang o Weddi ac Ympryd dros ddisodli llywodraeth anghyfiawn yn Ne'r Affrig; galwad i beidio ymestyn nac adnewyddu benthyciadau i Dde'r Affrig gan fanciau; a galwad i osod ataliadau cyflawn yn erbyn De'r Affrig ar unwaith.

Dyma oedd sylfaen penderfyniad arall ar Dde'r Affrig a basiwyd yn unfrydol yng nghyfarfod y Cyngor ar 1 Mai 1986. Tra'n croesawu rhai newidiadau, er enghraifft, yn y `pass laws', y mae'n ail-ddatgan y gred y dylid mabwysiadu polisi ataliadau economaidd penodol *(`targetted economic sanctions')* gan y Cyngor a'r enwadau `fel yr unig ffordd sydd ar ôl i ddwyn pwysau ar y Llywodraeth i ddadfeilio apartheid a dwyn cyfiawnder a heddwch i'r holl bobl'.[3] Pwyswyd eto am barhau i weithredu Cytundeb Gleneagles mewn perthynas â chwaraeon rhyngwladol (mater na gafodd sylw yng nghynhadledd Harare) a galwyd ar Gristnogion Cymru `i ymuno yn y Dydd o Weddi ac Ympryd dros roi diwedd ar y llywodraeth Anghyfiawn yn Ne'r Affrig (ar Fehefin 16) ac i ymuno yn y lobi o Dŷ'r Cyffredin ar ataliadau economaidd (ar Fehefin 17)'.

--------------------

1. *Memorandum from Harare*, yn *PCR Information*, Rhif 23, Cyngor Eglwysi'r Byd, 1986, tud. 29 ymlaen.

2. ibid., tud. 16.

3. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru 1 Mai 1986.

Mewn gwironedd, cafodd De'r Affrig fwy o sylw yng Nghyngor Eglwysi Cymru yn ystod 1986 nag a gafodd ar unrhyw adeg cynt na wedyn. Ym mis Chwefror aeth yr Ysgrifennydd Cyffredinol ar ymweliad â De'r Affrig fel sylwedydd ar ran Cyngor Eglwysi Prydain mewn dau brawf llys am deyrnfradwriaeth yn Delmas ac yn Pietermaritzburg. Yn y naill achos a'r llall 'roedd Cristnogion amlwg ar brawf a sicrhawyd presenoldeb cyson o blith y teulu ecwmenaidd byd-eang yn y llysoedd. 'Roedd yn gyfle hefyd i ymweld â Chyngor Eglwysi De'r Affrig, a oedd yn gyfrifol am drefnu'r daith. Cafwyd sgwrs hir â Dr. Beyers Naudé, a oedd yn Ysgrifennydd Cyffredinol ar y pryd, a bu'n bresennol mewn cyfarfod o Bwyllgor Gwaith y Cyngor, pan oedd rhai o arweinwyr amlycaf yr eglwysi yn bresennol, yn cynnwys Esgob Tutu a'r Dr. Alan Boesak. Yn ystod y cyfarfod daeth newydd am derfysg enbyd yn nhrefedigaeth Alexandria, y tu allan i Johannnesburg, ac aeth nifer o'r arweinwyr mwyaf blaenllaw yn syth yno a llwyddo i dawelu'r terfysg. Ond nid cyn i nifer o fechgyn ifanc gael eu lladd. Aeth yr arweinwyr hyn i ganol sefyllfa dra pheryglus, a hynny heb betruso o gwbl. Dyma oedd eu gweinidogaeth a'u tystiolaeth. Ac 'roedd yn rhaid iddynt fod yn barod i dalu'r pris.

Cafwyd cyfle hefyd i ymweld â phrif swyddogion nifer o'r enwadau a oedd â'u prif swyddfeydd yn Johannesburg, yn cynnwys Eglwys Anglicanaidd Talaith Deheudir yr Affrig ac Eglwys Gynulleidfaol Unedig Deheudir yr Affrig, a nifer o fudiadau Cristnogol arall. Yn ei adroddiad i Gyngor Eglwysi Cymru soniodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol am dri pheth a fyddai, ym marn y mwyafrif a gyfarfu, yn ganolog i ddatrys anghydfod y wlad. Yn gyntaf, rhyddhau Nelson Mandela. Yn ail, 'roedd yn rhaid sicrhau addysg cyfartal i bawb. Yn olaf, pan ofynnodd i bobl beth allai Cristnogion Prydain ei wneud, yr ateb, bron yn ddieithriad oedd, 'Cefnogi ataliadau economaidd'. Yng ngeiriau Beyers Naudé, `Dyma'r cyfle olaf efallai am newid heddychol yn Ne'r Affrig'.[1]

---

1. ibid..

Ond heb amheuaeth uchafbwynt holl ymwneud Cyngor Eglwysi Cymru (ac, efallai, holl eglwysi ac enwadau Cymru) â'r sefyllfa yn Ne'r Affrig oedd ymweliad Esgob Tutu â Chymru ar gyfer Gŵyl Teulu Duw ar 24 Mai 1986. Treuliodd dri diwrnod yng Nghymru yn cyfarfod ag arweinwyr a swyddogion yr enwadau, yn derbyn rhyddid tref Merthyr Tydfil, yn rhoi cyfweliadau diddiwedd, yn siarad a phregethu yn yr Wyl ei hun ac yn pregethu mewn oedfa arbennig yng Ngellimanwydd, Rhydaman ar y Sul, 25 Mai. Cafodd ddylanwad anhygoel gan ddenu, yn ôl awdurdodau'r Sioe Genedlaethol, lle y cynhaliwyd yr ŵyl, rhwng pymtheg ac ugain mil o bobl a nifer o aelodau'r wasg gyhoeddus a chrefyddol nid o Gymru'n unig ond o Brydain yn gyffredinol. Uchafbwynt Gŵyl Teulu Duw oedd ei bregeth yn yr oedfa derfynol ar destun o Genesis, `Nid da bod y dyn ar ei ben ei hun...' (Genesis 2 adnod 18). Thema ei bregeth oedd ein bod wedi ein gwneud i fod mewn cymdeithas: `...we are made for fellowship, for community, for partnership, for independence; made for family'.[1] Dyfynnodd ddihareb Affricanaidd, 'Y mae person yn berson drwy bersonau eraill'. Credai fod hyn yn sylfaenol i ddynolryw: `...at a time of nuclear disasters and economic imbalances no one can lay claim to absolute self-sufficiency that can enable them to ignore others with gay abandon...'[2] Daeth Iesu, meddai, i ganol cymdeithas ranedig, a gwelwyd gwyrth yn ymagor o'u blaen. 'Roedd caethweision a meistri, cyfoethog a thlawd, dynion a merched, Iddewon a Chenhedloedd yn trin ei gilydd nid fel pobl gydradd yn unig ond fel brodyr a chwiorydd. A phan y mae pobl yn frodyr a chwiorydd y maent yn frodyr a chwiorydd deued a ddelo: `He can be more awkward, can be an utterly uncongenial and unlovely creature, it makes not an iota of difference...he is your brother'.[3] 'Roedd goblygiadau hyn i'r sefyllfa yn Ne'r Affrig yn amlwg:

--------------------

1. O ricordiad o'r oedfa gan gwmni Llygad y Ffynnon, 1986.
2. ibid..
3. ibid..

> `P.W.Botha (*Arlywydd De'r Affrig ar y pryd*) and I are brothers by virtue of our baptism. I may not like the evil policies of his government but I can't consign him to hell. I am my brother's brother. I am consigned by my faith...to be concerned for the welfare of white South Africans. I must understand their fears and anxieties...I must long for the very best for them...I must announce with fervour that God loves them and that this love is unconditional and unchanging...Nothing to do with achievement'.[1]

Yn bennaf oll, cymuned o weddi oedd yr eglwys. Soniodd am lythyr a gafodd gan leian `anchorite' a oedd yn byw mewn cwt mewn coedwig yng Nghaliffornia yn ei sicrhau ei bod yn gweddïo drosto wrth ei enw bob dydd: `I was being prayed for by name in the woods of California at 2 a.m. every day. What chance does the South African Government stand?'. Mewn cymuned felly fe'n gelwir i rannu poen hefyd a dyfynnodd ddihareb Affricanaidd arall, `When a thorn enters the foot the whole body has to bend to remove it!'. A phan ddaeth at ddiweddglo ei bregeth 'roedd y gynulleidfa gyfan, ynghanol y glaw, yn curo dwylo ac yntau'n gorfod codi ei lais uwchlaw'r sŵn:

> `God says, "Help me to change the evil...in this world so that they become the compassion and the caring, the love and the joy and the sharing of my kingdom" so that the kingdoms of this world will become the kingdom of our God and of his Christ; and he shall reign for ever and ever. Amen'.[2]

Bu'n ysbrydoliaeth, yn galondid ac yn her, a bu'r ŵyl ei hun yn fodd, drwyddo ef, i ddod â'r sefyllfa yn Ne'r Affrig i flaen meddyliau pobl. Ac ar hyd y blynyddoedd dilynol parhaodd pobl a fu yno i sôn am ddylanwad yr Esgob arnynt, ar eu ffydd ac ar eu dirnadaeth o argyfwng a chyfle De'r Affrig.

Dair wythnos yn ddiweddarach, ar 16 Mehefin, cynhaliwyd y Dydd o Weddi ac Ympryd Byd-eang dros Dde'r Affrig. Gwahoddwyd eglwysi a chynghorau eglwysi yng Nghymru i ymuno yn y dydd. Cefnogwyd y Dydd Gweddi gan yr enwadau a

---

1. ibid..

2. ibid..

daeth eu swyddogion a'u harweinwyr at ei gilydd yng Nghaerdydd i ymuno yn y gweddïo dros Dde'r Affrig ac am ddiwedd ar lywodraeth anghyfiawn yn y wlad. Paratowyd taflen ddwyieithog i gynorthwyo unigolion ac eglwysi. Ynddi 'roedd y weddi hon:

> `Nertha, O Arglwydd, y rhai sydd yn gweithio
> i ddadlennu galluoedd drygioni
> ac i dorri i lawr sustem
> a wreiddiwyd mewn anghyfiawnder.
> Dyfnha ymgysegriad dy bobl
> wrth iddynt ymdrechu i ddiorseddu galluoedd gorthrwm
> a sefydlu cyfiawnder yn y tir...'[1]

Gweddi chwyldroadol o dan yr amgylchiadau.

Ni wnaed unrhyw ddatganiad pellach ar Dde'r Affrig tan 1989 pan basiwyd penderfyniad manwl yn cefnogi dogfen a luniwyd ar y cyd rhwng Cyngor Eglwysi Prydain a Chymorth Cristnogol ac a gyflwynwyd i gynhadledd arbennig yn Church House, Llundain ar 28 Chwefror 1989. 'Roedd penderfyniad y Cyngor yn cadarnhau argymhellion y ddogfen hon ac, felly, yn ailadrodd polisïau a gytunwyd nifer o weithiau yn y gorffennol. Ei ganolbwynt oedd cymeradwyo'r hyn a ddywedwyd gan Grŵp Personau Amlwg y Gymanwlad yn dilyn ei ymweliad â De'r Affrig ym 1988:

> `(Y mae'r Cyngor) yn cytuno a *(sic)*Grwp Personau Amlwg y Gymanwlad mai nod y pwysau rhyngwladol a mewnol o hyd yw dadfeilio apartheid, sichrau rhyddid i gymdeithasu a thrafod, tynnu'r milwyr allan o'r trefedigaethau, rhyddhau carcharorion gwleidyddol a rhoi paid ar drais o'r naill du a'r llall, er mwyn i drafodaeth gyfansoddiadol wirioneddol gychwyn ynglyn a *(sic)* dyfodol democrataidd ac anhiliol'.[2]

Yn yr un cyfarfod pasiwyd penderfyniad `yn gresynu at benderfyniad Undeb Rygbi Cymru i ganiatáu chwaraewyr Cymreig i rannu yn nathliadau canmwlyddiant Undeb Rygbi De'r Affrig ac yn gwrthod unrhyw ddadl eu bod yn rhannu yn y dathliadau fel

--------------------

1. O'r daflen ar gyfer y Dydd o Weddi ac Ympryd Byd-eang, 16 Mehefin 1986.
2. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru 11 Mai 1989.

unigolion yn unig'.[1]

Un canlyniad uniongyrchol i'r prif benderfyniad oedd cynnal cynhadledd arall - yr olaf yn hanes Cyngor Eglwysi Cymru - ar y cyd rhwng y Cyngor a Chymorth Cristnogol yng Nghymru i ystyried y ddogfen, *The Way Forward*, ac i gytuno ar weithredu priodol. Daeth tua 60 at ei gilydd i Neuadd y Ddinas, Abertawe, ar 12 Chwefror 1990. Ni ellid fod wedi dewis diwrnod mwy priodol. Ar 11 Chwefror digwyddodd yr hyn y bu hir ddisgwyl amdano ac ymgyrchu drosto ymhlith pobl ddu De'r Affrig ac yn wir ar draws y byd: rhyddhawyd Nelson Mandela! Yn naturiol, creodd hyn awyrgylch cyffrous yn y gynhadledd; dyma arwydd sicr fod newidiadau yn bosibl a fyddai'n chwyldroi'r wlad. Fodd bynnag, ymdeimlad cryf y cynrychiolwyr o'r undebau llafur, mudiadau chwaraeon, asiantau datblygiad, Mudiad Gwrth Apartheid Cymru yn ogystal â'r eglwysi, oedd mai dyma'r union adeg i sicrhau fod y pwysau rhyngwladol ar Dde'r Affrig yn parhau. Ac, felly, prif argymhelliad y gynhadledd oedd y dylid parhau'r pwysau ar y llywodraeth `nes bod newidiadau sylfaenol mewn cyfreithiau (megis y Ddeddf Tir, Deddf Cofrestru Poblogaeth, Deddfau Addysg) sy'n cynnal apartheid fel cyfundrefn orthrymus'.[2] Yn benodol, byddai hyn yn gofyn am `barhau sancsiynau... (a dwyn) pwysau ar y banciau i beidio cytuno ar fenthyciadau newydd i Dde'r Affrig...am [ein] bod yn credu y dylid gwrando ar lais y rhai a gawsant eu gorthrymu dros y 40 mlynedd hyn fel gwir lais heddwch gyda chyfiawnder yn Ne'r Affrig'.[3] Pwyswyd hefyd am ddal i weithredu Cytundeb Gleneagles a chyflwynwyd cyfarchion i Gyngor Cristnogol Namibia ar achlysur annibyniaeth y wlad ar 21 Mawrth 1990.

--------------------

1. ibid..

2. Datganiad, Cymru a De'r Affrig: Y Ffordd Ymlaen, Cyngor Eglwysi Cymru, Chwefror 1990.

3. ibid..

Daeth Cyngor Eglwysi Cymru i ben cyn gweld ffrwyth y gefnogaeth gyson hon i ymdrechion ac ymgyrchoedd costus ein brodyr a'n chwiorydd yn Ne'r Affrig. Ar 27 Ebrill 1994 cynhaliwyd etholiad cyffredinol i'r boblogaeth gyfan pan etholwyd Nelson Mandela, a fu yn y carchar am 27 mlynedd, yn Arlywydd y wlad, i lywyddu dros y broses o greu gwlad unedig, ddemocrataidd, gyfartal ac anhiliol. Y dasg i'r eglwysi yn Ne'r Affrig bellach - ac i Gristnogion yng Nghymru fyddai am eu cefnogi - fyddai symud oddi wrth weinidogaeth gwrthdystio a gwrthweithio yn erbyn apartheid i weinidogaeth gwasanaeth a phartneriaeth er mwyn ailadeiladu cenedl a chymdeithas newydd.

**CASGLIADAU**

Wrth edrych yn ôl dros ugain mlynedd o ddatganiadau a gweithgarwch gan y Cyngor mewn perthynas â De'r Affrig, gellir dod i nifer o gasgliadau. Yr hyn sy'n ein taro, yn gyntaf, yw cysondeb ymwneud y Cyngor, a'r enwadau a oedd yn aelodau ohono, â'r sefyllfa ac unfrydedd eu gwrthwynebiad i apartheid. Drwy ddatganiadau a gweithgareddau a gweddïau, ac o bryd i'w gilydd, drwy ymweliadau o'r naill wlad i'r llall mynegwyd gofal Cristnogol am y sefyllfa a chydlyniad dwfn â'r bobl ddu a'r bobl liw a oedd yn cael eu gorthrymu. Yr oedd cytundeb hefyd oddi fewn i'r Cyngor, ac ymhlith yr enwadau ei bod yn hollol briodol i ganolbwyntio fel y gwnaed ar Dde'r Affrig, nid yn unig am y dylai Cristnogion ymdrechu dros y rhai sy'n dioddef gorthrwm ym mhob man, ond hefyd oherwydd y cyswllt hanesyddol, gwleidyddol ac economaidd a fu rhwng y ddwy wlad. Y mae'n hanes wedi eu gwau i'w gilydd ac y mae gan Lywodraeth Prydain a Christnogion Prydain gyfrifoldeb arbennig i geisio sicrhau dyfodol cyfiawn a rhydd i'n brodyr a'n chwiorydd yno mewn gwlad unedig ac anhiliol. Ond drwy gydol y cyfnod cytunwyd hefyd na ellid canolbwyntio ar Dde'r Affrig yn unig. 'Roedd arnynt gyfrifoldeb i sefyll hefyd dros ryddid a chyfiawnder i bobloedd y gwledydd cyfagos, yn fwyaf arbennig, Namibia a Simbabwe (Rhodesia).

Yn ail, cymerodd y Cyngor ei arweiniad, yn ddiwinyddol ac yn ymarferol, yn bennaf oddi wrth Gyngor Eglwysi'r Byd (ac i raddau hefyd, oddi wrth Gyngor Eglwysi Prydain). 'Roedd amseriad datganiadau a'u cynnwys yn adlewyrchu gweithgarwch cyson y Cyngor hwnnw, a fu'n ddiflino ei wrthwynebiad o'r flwyddyn (1948) pan ddaeth y Blaid Genedlaethol i rym yn Ne'r Affrig ac y sefydlwyd Cyngor Eglwysi'r Byd. Yn wir, gymaint fu ymrwymiad y Cyngor hwnnw i'r ymdrech hon nes y'i cyhuddwyd fwy nag unwaith o fod yn unllygeidiog, ac yn ddall i argyfyngau eraill. Beirniadaeth annheg yw honno, ond ni all neb wadu unplygrwydd Cyngor Eglwysi'r Byd yn ei safiad a'i ymdrechion yn erbyn apartheid a dylanwadodd hyn oll yn drwm ar waith Cyngor Eglwysi Cymru.

Yn drydydd, ni chafwyd ymdriniaeth ddiwinyddol drwyadl naill ai mewn perthynas â hilyddiaeth yn gyffredinol nac apartheid yn benodol. O bryd i'w gilydd, fodd bynnag, ymddangosai ambell gnewyllyn diwinyddol a gellir crynhoi'r rhain fel hyn:

a) Fe'n crewyd oll gan Dduw ar ei ddelw ei hun i fod yn blant iddo ac felly'n frodyr a chwiorydd i'n gilydd. Yng ngeiriau Desmond Tutu yng Ngŵyl Teulu Duw, fe'n crewyd i fod yn gymdeithas.

b) Ewyllys Duw yw cyfiawnder a rhyddid i bawb, mewn byd sy'n adlewyrchu ei ewyllys. Felly, y mae pob anghyfiawnder, pob gorthrwm a phob grym sy'n gwahanu pobl oddi wrth ei gilydd ar sail hil neu liw neu genedl neu ddiwylliant, yn groes i ewyllys Duw. Hanfod apartheid yw gwahanu rhwng pobl a'i gilydd ar sail hiliol. Felly, y mae apartheid yn groes i ewyllys Duw a rhaid ei gondemnio yn ddigyfaddawd.

c) Y mae'r Efengyl yn cynnig cymod i bawb a hynny drwy groes Crist. Felly, ni all yr Eglwys ymateb i'r alwad i rannu yng ngweinidogaeth cymod heb wynebu realiti pechod y ddynolryw a gwrthwynebu canlyniadau'r pechod hwnnw mewn gorthrwm a chreulondeb a dioddefaint, na chwaith heb y sicrwydd fod Duw yn cymodi drwy groes Crist, er mwyn creu cymdeithas

newydd.

ch) Os yw'r weinidogaeth hon mewn cymdeithas a chenedl i fagu hygrededd rhaid i'r cymod hwn fod ar waith hefyd ym mywyd yr eglwys ei hun. Yno, yn gyntaf, y mae'n rhaid `chwalu...y canolfur o elyniaeth oedd yn...gwahanu' pobl wrth ei gilydd ac adeiladu cymdeithas newydd lle nad oes `ragor rhwng Groegwr ac Iddew, enwaediad a dienwaediad, barbariad, Scythiad, caeth, rhydd...' Felly, rhaid condemnio a dileu pob apartheid rhwng hil a hil oddi fewn i'r eglwys yn ogystal ag oddi fewn i gymdeithas.

d) Y mae'r weinidogaeth hon yn ein galw i weithredu diwinyddiaeth broffwydol (fel yr un a amlinellir yn nogfen *Kairos*) sy'n ein cymell i gydnabod fod a wnelo'r Efengyl â bywyd cyfan ac â'r byd cyfan ac nid â bywyd `ysbrydol' yn unig; fod galwad arnom i gyhoeddi ewyllys Duw i'r gorthrymydd a'r gorthrymedig; fod hyn, o bryd i'w gilydd, yn ein gorfodi i fentro herio llywodraethau ac awdurdodau sy'n gwadu, drwy eu gweithredoedd, ewyllys Duw; a bod arnom ddyletswydd Gristnogol i sefyll gyda'r gorthrymedig ac i weddïo dros y gorthrymedig a'r gorthrymydd fel ei gilydd.

Yn bedwerydd, yr oedd cytundeb lled gyffredinol fod y Rhaglen i Wrthweithio Hilyddiaeth a'i Chronfa Arbennig yn cynnig dealltwriaeth dderbyniol o natur yr ymdrech yn erbyn hilyddiaeth, fframwaith briodol ar gyfer cyfranogi yn yr ymdrech honno a modd effeithiol i gynorthwyo'r sawl oedd yn dioddef o ganlyniad i bolisïau hiliol. Yn benodol, ar waethaf gwrthwynebiad rhai yn yr eglwysi yng Nghymru, cymeradwyodd y Cyngor fod enwadau Cymru yn cefnogi gweithgarwch y Rhaglen hon yn Neheudir yr Affrig (er mai dim ond un enwad, fel y gwelwyd, a wnaeth gyfraniad - a hwnnw'n un cymharol fychan - tuag at y Gronfa Arbennig.).

Yn olaf, cytunwyd o'r cychwyn fod yna o leiaf bum agwedd i ymdrechion y Cyngor a'r enwadau yng Nghymru yn erbyn apartheid a chânt eu hailadrodd yn gyson

mewn datganiadau a phenderfyniadau cydeglwysig ac enwadol. 'Roedd polisi gwrth-apartheid y Cyngor yn cynnwys galwad am ataliadau economaidd cyffredinol neu benodol, dadymrwymiad neu ddatgysylltiad drwy dynnu'n ôl fuddsoddion yn y wlad, ynysu De'r Affrig - ei thimau a'i hunigolion - ym maes chwaraeon rhyngwladol (elfen a gafodd fwy o sylw yng Nghymru nag yng ngwledydd eraill Prydain), addysgu Cristnogion (ac eraill) yng Nghymru am anghyfiawnder apartheid a'i effeithiau, a gweddïo'n gyson dros gyfiawnder a rhyddid i bawb yn y wlad.

Yn ystod y blynyddoedd, fel y gwelwyd, fe fu anghytundeb ar rai o'r materion hyn, ond at ei gilydd, yn y maes hwn rhagor na mewn perthynas â materion cenedlaethol a rhyng-genedlaethol eraill, cafwyd cryn gytundeb nid yn unig ar egwyddorion ond hefyd ar y modd o gynnal y dystiolaeth Gristnogol yn erbyn apartheid yn Ne'r Affrig. Ond erys dau gwestiwn poenus. Yn gyntaf, rhoddodd y Cyngor gryn sylw i hilyddiaeth yn Ne'r Affrig ond ychydig iawn o sylw i hilyddiaeth yma yng Nghymru ac ym Mhrydain yn gyffredinol. Gellir beirniadu'r Cyngor am hyn. Un yw cyfiawnder ac un, felly, ddylai'r frwydr yn erbyn hilyddiaeth fod. Yn ail, drwy gydol y blynyddoedd bu'r datganiadau cyhoeddus gan y Cyngor a'r enwadau yn ddigon clir ond y mae lle i amau i ba raddau y llwyddwyd i gyfieithu penderfyniadau ar lawr cynhadledd neu gyngor yn ymdrechu effeithiol yn erbyn apartheid drwy weithredu ataliadau economaidd a datgysylltiad buddsoddion gan Gyngor, neu enwad neu unigolion. Un peth yw cytuno ar egwyddor, boed hynny'n gydeglwysig neu'n enwadol, mater cwbl arall yw ei gweithredu'n effeithiol.

Cyfraniad bychan, ar un olwg, a wnaeth Cymru, yn yr ymdrech fyd-eang hon. Pobl ddu a phobl liw De'r Affrig a'r cyfeillion gwyn a safodd yn wrol gyda hwy a ymdrechodd fwyaf ac a dalodd y pris uchaf, ond drwy sefyll wrth eu hymyl fe wnaeth y Cyngor ei gyfraniad a thrwy hynny daethpwyd i ddeall yn well alwad Duw ar yr eglwysi yng Nghymru i ymdrechu yn erbyn anghyfiawnder lle bynnag y'i ceir.

## PENNOD 15

## RHYFEL A HEDDWCH: DIARFOGI NIWCLEAR

**Y DECHREUADAU**

Yng ngynhadledd y Cyngor ar 'Yr Eglwys a Chymdeithas' yng Nghaerfyrddin ym 1970 y gwnaed y cyfeiriad cyntaf at ryfel a heddwch. Yn nhrafodaethau Adran III ar `Flaenoriaethau Economaidd a Phenderfyniadau Gwleidyddol yng nghyd-destun Tlodi a Heddwch y Byd' trafodwyd moesoldeb rhyfel, ac yn ôl yr adroddiad 'roedd cryn amrywiaeth barn yn y drafodaeth:

> `...Nevertheless all were agreed in condemning nuclear war and even the stockpiling of missiles employed in such strategy. Few adopted the pacifist attitude and some agreed that there were occasions when a war with conventional weapons could be justified. On the positive side, the groups considered that the Church should be deeply concerned in finding the causes of war and of ensuring that these were eradicated.'[1]

O gofio erchylltra'r Ail Ryfel Byd, ei gost mewn bywydau a dioddefaint yng Nghymru ac yn fyd-eang (lladdwyd 15,000 o filwyr o Gymru, a chyfanswm o 30,000,000 o bobl led-led byd), a'r safiadau cryf a gwrol a wnaed gan gynifer (yn ôl John Davies, caed mwy o wrthwynebwyr cydwybod o Gymru, ar gyfartaledd, nag o wledydd eraill yr ynysoedd hyn)[2] y mae'n syndod fod y Cyngor wedi cymryd cyhyd cyn mynegi unrhyw farn o gwbl ar gwestiwn rhyfel. Y mae'n fwy o syndod fyth o gofio traddodiad heddychol cryf llawer o'r eglwysi a dylanwad rhai o arweinwyr y mudiad, megis, George M.Ll.Davies.

Yn sicr, ni fu'r mudiad ecwmenaidd yn cyffredinol yn dawedog ar gwestiwn heddwch. Pan gyfarfu Cymanfa Gyntaf Cyngor Eglwysi Byd yn Amsterdam gwnaeth ddatganiad cryf ar y pwnc:

> `War as a method of settling disputes is incompatible with the teaching and example of our Lord Jesus Christ. The part that war plays in our present international life is a sin against God and a degradation of

--------------------

1. Adroddiad Cynhadledd Eglwys a Chymdeithas, Caerfyrddin, 1970, tud. 3
2. John Davies, Hanes Cymru, tud. 575.

man.'[1]

Fodd bynnag, 'roedd anghytundeb ymhlith aelodau'r Adran a fu'n trafod y cwestiwn canolog hwn: a fedr rhyfel bellach fod yn weithred gyfiawn? Rhaid oedd bodloni ar gyflwyno'r gwahanol agweddau at ryfel ymhlith Cristnogion. Daeth adroddiad Cadeirydd yr Adran i'r Gymanfa i ben drwy honni, yn wyneb y gwahaniaethau hyn:

> `...there is a deep consciousness that the ecumenical movement had come for just such a day as this - perhaps just in time for the churches to face their task.'[2]

A dechreuadau Cyngor Eglwysi Cymru wedi dod mor drwm o dan ddylanwad Amsterdam a'r mudiad ecwmenaidd ehangach, pam na chafodd cwestiwn rhyfel a heddwch fwy o sylw yn ystod y blynyddoedd cynnar?

Y mae lle i gredu fod dau brif reswm. Yn gyntaf, rhoddwyd y flaenoriaeth bennaf yn y cyfnod hwn i hyrwyddo undod dyfnach rhwng yr enwadau yng Nghymru a chymell mwy o gydweithio ac undod yn lleol. Yn wir, dyma oedd prif gymhelliad ffurfio'r Cyngor, a chanolbwyntiwyd ar hyn, nid yn unig oddi fewn i fywyd a gwaith y Cyngor ei hun, ond hefyd yn yr amrywiol ysgrifau ac erthyglau a gyhoeddwyd mewn gwahanol gylchgronau yng Nghymru yn y 40au diweddar a'r 50au cynnar. Yn ail, ymdeimlwyd â chyfrifoldeb arbennig i geisio cael yr enwadau i siarad ag un llais ar faterion cyhoeddus yn ymwneud â Chymru a'i phobl; er enghraifft, tir yng Nghymru, darlledu, diweithdra. Disbyddwyd llawer iawn o egni corff bychan, nad oedd ganddo unrhyw weithwyr cyflogedig, ar y ddwy flaenoriaeth hyn a dim ond yn raddol y daeth yn bosibl iddo ystyried materion ehangach. Un enghraifft o hyn oedd y sylw cynyddol a roddwyd i Gymorth Rhyng-Eglwysig a

1. *The First Assembly of the World Council of Churches, The Official Report,* Ed. W.A.Visser 't Hooft, SCM Press Ltd., 1949, tud. 89.

2. ibid., tud. 100.

oedd yn ceisio cyfarfod ag anghenion ffoaduriaid ar draws y byd, llawer ohonynt yn dioddef o ganlyniad i'r erlid a ddigwyddodd ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd.

Digon naturiol, felly, oedd canolbwyntio ar faterion ffydd a threfn ar y dechrau - cynhadledd Caerfyrddin ym 1963 a chynhadledd Nottingham ym 1964 - a dim ond ar ôl rhoddi amser i weithredu rhai o brif argymhellion y cynadleddau hyn (gyda chychwyn y trafodaethau ynglŷn â'r Cyfamod tuag at Undeb yng Nghymru, er enghraifft, ym 1965) y dechreuwyd ystyried sut orau i weithredu ar faterion cyhoeddus a rhyngwladol.

Fel y gwelwyd eisoes, un o'r prif ddylanwadau oedd Cynhadledd Eglwys a Chymdeithas Cyngor Eglwysi Byd yng Ngenefa ym 1966 a roddodd sylw i'r angen am newidadau chwyldroadol, yn llythrennol felly, ym mhatrymau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd y byd yn wyneb yr anghyfiawnder enbyd a oedd yn bodoli ac yn cynyddu. Nid yw'n rhyfeddod, felly, fod cynhadledd Caerfyrddin, a ddaeth gymaint o dan ddylanwad cynhadledd Genefa, wedi cyfuno - am y tro cyntaf ym mywyd Cyngor Eglwysi Cymru - y consyrn am heddwch a chyfiawnder byd-eang a chyfiawnder a chymod yng Nghymru.

## DIARFOGI NIWCLEAR

Felly, pan sefydlwyd Adran Eglwys a Chymdeithas y Cyngor ym 1973 cytunwyd ei bod yn rhoi sylw, fel y gwelwyd eisoes, i'r `ymgais am heddwch byd' ymhlith nifer o faterion cenedlaethol a rhyngwladol eraill. Ond ni weithredwyd ar y flaenoriaeth hon tan yr 80au, pan y cafwyd cyfres o benderfyniadau ar ddiarfogi niwclear ym 1981, 1982, 1983 ac 1986.[1] Mewn un ystyr y rhain sy'n cynrychioli barn y Cyngor ar ddiarfogi niwclear yn ystod y cyfnod hwn, barn a ddaeth yn drwm o dan

1. Ymddengys y rhain i gyd mewn atodiad i adroddiad Cyngor Heddwch Cyngor Eglwysi Cymru, Wrecsam, 10 Mawrth 1987, tud. 48 ymlaen.

ddylanwad rhai o arweinwyr y Cyngor (gan gynnwys Huw Wynne Griffith, a oedd yn ysgrifennydd yr Adran yn ystod y cyfnod hwn) a rhai arbenigwyr yn y maes. Ym 1984 cyhoeddwyd pecyn addysgol ar ddiarfogi niwclear *Cleddyfau yn Sychau*. Yn ôl y Rhagair

> `Paratowyd y pecyn i gynorthwyo'r Eglwysi i astudio'r materion cymhleth sy'n codi ac i ddarganfod ffyrdd o rannu mewn gweithgarwch i sicrhau diarfogi niwclear'[1]

Gwnaed hynny am fod cynnydd sylweddol wedi digwydd `mewn consyrn am fygythion i heddwch a pharhad dynoliaeth sydd ynghlwm wrth berchnogi a defnyddio arfau niwclear'.

Ym 1986 paratowyd dadansoddiad o safiad yr eglwysi a'r enwadau (yn fwyaf arbennig drwy'r Cyngor) ar faterion heddwch, gan ysgrifennydd y Pwyllgor ar Faterion Cenedlaethol a Rhyng-genedlaethol (John Holdsworth). Ym Mawrth 1987 cynullwyd Cyngor Heddwch gan Gyngor Eglwysi Cymru a roddodd sylw yn bennaf i ddiarfogi niwclear ond a ystyriodd hefyd faterion eraill yn ymwneud â heddwch.

Drwy gydol y cyfnod hwn bu'r drafodaeth genedlaethol a rhyng-genedlaethol yn un fywiog iawn. Dyma flynyddoedd cryfder mudiadau megis CND. Ffurfiwyd CND Cymru a chafodd y Cyngor wahoddiad i ymuno. Methwyd â chytuno ar hyn oherwydd, fel y gwelwn, 'roedd cryn wahaniaeth barn ymhlith yr eglwysi a'r enwadau yng Nghymru. Ar y llaw arall, cytunodd y Cyngor ym 1981 i gymeradwyo aelodaeth o'r Ymgyrch Fyd-eang dros Ddiarfogi[2], nad oedd yn cymell diarfogi unochrog fel yr unig ffordd ymlaen ond yn derbyn diarfogi amlochrog fel cam pwysig tuag at ddiarfogi niwclear cyflawn. Bu cryn bwysau hefyd o blaid yr Ymgyrch Rhewi Niwclear. Cafodd sylw yng Nghyngor Heddwch 1987 a chefnogaeth nifer o ar-

---

1. ibid., tud.1.
2. gweler Adroddiad y Cyngor Heddwch, 1987, tud. 49.

weinwyr yr enwadau ond ni ddaeth yn bolisi swyddogol y Cyngor.

Dadansoddir safbwynt y Cyngor ar y materion cymhleth hyn o dan bedwar pennawd: y sylfeini diwinyddol, dehongli a dadansoddi'r sefyllfa, negesau i'r llywodraeth, ac arweiniad i'r eglwysi.

**Diarfogi Niwclear: Y Sylfeini Diwinyddol**

Dau gwestiwn sylfaenol sy'n codi wrth ystyried seiliau diwinyddol datganiadau a chyhoeddiadau'r Cyngor, sef, yn gyntaf, beth yw seiliau athrawiaethol y safiadau hyn, ac yn ail, a all rhyfel niwclear ac ataliadau niwclear fod yn `gyfiawn' yn ystyr draddodiadol y term hwn? Yn ôl Mark Ellingsen[1]:

> `...more church statements call for peace by appealing to doctrinal themes not associated with the doctrine of creation than those that appeal to that doctrine.'

Y mae'n mynd ymlaen i gefnogi'r honiad hwn â thystiolaeth o ddatganiadau gan eglwysi o wahanol wledydd ar draws y byd. Nid yw hyn yn wir am ddatganiadau'r Cyngor. Yn y rhain y mae'r athrawiaeth am Dduw y Crëwr a'r athrawiaeth am Grist yr un mor ddylanwadol â'i gilydd. Er enghraifft, ym mis Ebrill 1981 datganodd y Cyngor:

> `A ni'n credu fod y ddaear a'r hyn oll sydd ynddi yn eiddo Duw a bod Duw wedi datguddio yn yr Arglwydd Iesu Grist Deyrnas ei gariad; a bod Duw wedi ymddiried i ddyn benderfyniadau o fywyd a marwolaeth' cymhellir ni gyda phob gostyngeiddrwydd i ystyried yn ddwys yr argyfwng sy'n wynebu'r hil o ganlyniad i ddarganfod ynni niwclear.'[2]

Yn yr un modd, ym Mai 1983, 'roedd y Cyngor

---

1. *The Cutting Edge: How Churches Speak on Social Issues*, CEB, 1993, tud. 58.

2. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 30 Ebrill 1981.

> `...yn datgan (ei) gred fod goruchwyliaeth cread Duw yn gyfrifoldeb ar bawb o bobl Crist, yn deall fod amcanion cariadus Duw am ei gread wedi eu datguddio yng Nghrist ac yn canfod y bygythiad i'r cread ac i amcanion cariadus Duw ar ei gyfer a geir ym meddiant a lledaeniad arfau niwclear.'[1]

Yn y ddwy enghraifft hyn cyfunir yr athrawiaeth am Dduw y crëwr (â chyfrifoldeb y ddynolryw fel stiwardiaid ei greadigaeth) â'r athrawiaeth Gristolegol fod Duw wedi datguddio'i gariad achubol tuag at y ddynolryw yn Iesu Grist a bod galwad arnom i ufuddhau i'w amcanion cariadus: y mae dinistr yr hil yn y fantol.

Pan aed ati yn *Cleddyfau yn Sychau* i drafod y berthynas rhwng arfau niwclear a'r pwrpas dwyfol[2] mynnwyd fod perchnogi neu ddefnyddio arfau niwclear `...yn codi cwestiynau sylfaenol ynglŷn ag ystyr bywyd a gobaith yr hil.' Yn wir mater o ffydd oedd hyn yn bennaf oll a chyfle i dystio i'r ffydd yn y Crist atgyfodedig.

> `...Rhydd argyfwng o'r fath gyfle arbennig i'r eglwys gyhoeddi'r ffydd mai eiddo yr Arglwydd y ddaear a'i chyflawnder a'i fod am ddwyn ei waith i ben nid trwy ddinistrio gelynion ond trwy eu caru...Dylai Cristnogion ymwrthod â'r bom mewn llawn hyder ffydd fod gan Dduw ffordd well o ddwyn ei amcanion i ben; er y gallai hynny olygu ein bod yn dioddef ein hunain yn hytrach na pheri dioddefaint i eraill.'[3]

Y mae'r bennod olaf yn ymdrin â chwestiwn rhyfel a dialedd Duw ac yn herio'r honiad fod rhyfel yn brawf o Dduw dialgar. Sut fedr y Duw a ddatguddiodd ei hunan yn Iesu, yr un 'na ddadleuodd i amddiffyn ei hunan' o flaen ei gyhuddwyr a'i groeshoeliwyr, ddioddef lladd y miliynau? I lawer a welodd y dioddefaint enbyd a'r lladd yn rhyfeloedd y ganrif hon nid ar chwarae bach y gwrthodir y gred mewn Duw dialgar. Haws ganddynt weld ei ddialedd na'i gariad achubol. Ond odid fod yr allwedd nid yn gymaint mewn athrawiaeth am ddialedd Duw ond mewn iawn ddeall enbydrwydd dioddefaint y ddynolryw yng ngoleuni ffydd mewn Duw sydd â'i fryd

--------------------

1. Cofnodion y Cyngor, 5 Mai 1983.
2. Cleddyfau yn Sychau, Ionawr 1984, tud. 4.
3. ibid., tud. 4.

ar achub y byd yn Iesu Grist. Nid yw *Cleddyfau yn Sychau* yn ymdrin â hyn yn uniongyrchol ond y mae'n gorgyffwrdd â'r ateb wrth sôn am 'y gobaith am iachawdwriaeth ym mywyd a marwolaeth Crist' a'r ymwybyddiaeth 'o bechod cynhenid dyn'. Y mae'n dadleu mai sail gobaith y ddynolryw, hyd yn oed yn wyneb bygythiad niwclear, yw fod gan y Duw sy'n llywodraethu hanes 'yr ewyllys i greu byd newydd'. Y mae'r dyfodol 'yn arfaeth Duw' a gall ef 'ein synnu ni o'r newydd'[1], drwy'r un a groeshoeliwyd ac a atgyfodwyd, yn yr hwn y mae popeth yn cydsefyll. Os ydym i wynebu'r dyfodol yn obeithiol ar sail y sicrwydd hwn, y mae gorfodaeth arnom i ystyried goblygiadau ymarferol 'gweithredu mewn gobaith'. Rhestrir nifer o faterion i'w hystyried ymhellach gan yr eglwysi[2]. Byddai'n rhaid dod o hyd i ffordd o ddefnyddio awdurdod gwleidyddol 'yn gyfiawn, heb drais na bygythiad' ac i ddatrys gwrthdrawiadau 'heb ddefnyddio grym arfau'. Awgrymir fod angen ystyried arwyddocâd 'maddeuant mewn gwleidyddiaeth' a sut y mae 'sianelu'r wybodaeth dechnegol niwclear at ddibenion heddychlon'.

> 'Byd Duw yw'n byd. Ni all dim. hyd yn oed digalondid ac anobaith rhonc ein rhyddhau o'n cyfrifoldeb i'w warchod. Ond rhaid i ymwybyddiaeth o realiti effeithio'n gobeithion, a rhaid i'n gweithredoedd eu gwireddu.'[3]

Mewn pregeth (yn seiliedig ar Salm 120, adnod 6) i'r Gymdeithas Heddwch Anglicanaidd ym 1987 daeth Archesgob Efrog, John Habgood, i gasgliadau cyffelyb:

> '...We need more than prophecy and policy. Without prophetic vision there is no fire, no drive, no sense of ultimate goals. Without careful policy-making there is no effectiveness. The bridge (between prophecy and policy) is the process by which God teaches us through history...we have to reflect on and learn from human experience - on history as the arena for the Spirit's action...It is on the plane of histor-

---

1. ibid., tud. 13.
2. ibid., tud. 17
3. ibid., tud. 16.

ical events that Christ meets us...'[1]

Elfen arall bwysig yn ymdriniaeth ddiwinyddol *Cleddyfau yn Sychau* oedd y berthynas rhwng diarfogi a datblygiad byd. Man cychwyn diwinyddol y drafodaeth hon yw'r ddirnadaeth o *Shalom (Heddwch gyda chyfiawnder)* yn y Beibl. Honiad y bennod hon yw fod y weledigaeth Feiblaidd o *Shalom* wedi ei chyflawni yn Iesu, a darlunnir hyn drwy sôn am `sefydlu'r Deyrnas', dwyn `y ddynoliaeth a'r greadigaeth i gyfanrwydd', byw `mewn cydlyniad â'r rhai oedd ar ymylon cymdeithas', `edifeirwch a gynhwysai...ail-asesiad llwyr o flaenoriaethau economaidd bywyd unigolion a chymdeithas' a `byw cariad sy'n dinistrio ofn hunanganolog'[2]

Yn y Cyngor Heddwch ym Mawrth 1987 daeth Sian ap Gwynfor, a wahoddwyd i gyflwyno'r safbwynt heddychol, i gasgliad cyffelyb, sef, fod gennym gyfrifoldeb i warchod creadigaeth Duw ac i gyflwyno gobaith:

> `...Mae'r ysgrythur yn ein dysgu na allwn ddweud ein bod yn caru a pharchu Duw os nad ydym yn caru a pharchu creadigaeth Duw. Ac ar hyn o bryd mae ei greadigaeth yn cael ei ddinistrio *(sic)*...Yn y cyflwr anobeithiol hwn y mae cyfle'r Eglwys i gyflwyno gobaith Efengyl Iesu Grist...(a) dod yn rym positif, perthnasol i anghenion y byd heddiw. Nid credu yn unig sydd yn bwysig ond gweithredu.'[3]

Felly, y mae seiliau diwinyddol cadarn i safbwynt y Cyngor ar ddiarfogi. Y man cychwyn yw athrawiaeth Duw y Crëwr, sy'n galw ei bobl i warchod y cread a roddwyd iddynt yn rhodd, a Duw'r Achubydd a gyflawnodd yng Nghrist Deyrnas ei gariad a'i amcanion cariadus tuag at y cread a'r ddynolryw. Nid oes i rym dinistriol le yn y Deyrnas hon; un o'i rhoddion yw *shalom*, heddwch gyda chyfiawnder, drwy ei farw a'i atgyfodiad dros bawb. Yng Nghrist, gelwir y ddynolryw i edifeirwch, i osod blaenoriaethau newydd, blaenoriaethau Teyrnas Dduw ac i roi o'r neilltu arfau

---

1. John Habgood, *Confessions of a Conservative Liberal*, SPCK, 1988, tud. 173.
2. ibid., tud. 12.
3. Adroddiad Cyngor Heddwch, Cyngor Eglwysi Cymru, 1987, tud. 23.

dinistr. Yn wyneb bygythiadau enbyd gelwir ni i gyflwyno gobaith yr Efengyl, sef, mai pwrpas Duw yw adnewyddu'r byd drwy'r Crist atgyfodedig.

Fe fu'r drafodaeth ar gwestiwn `rhyfel cyfiawn' yn un anodd i'r Cyngor, nid yn unig mewn perthynas â rhyfel niwclear ond hefyd mewn perthynas â rhyfel o bob math. Y mae *Cleddyfau yn Sychau* yn crynhoi'r canllawiau traddodiadol ar gyfer rhyfel cyfiawn. Rhaid sicrhau 'awdurdod cymwys a chyfansoddiadol'. Rhaid fod yr achos yn gyfiawn a 'phob ffordd o osgoi rhyfel wedi methu'. Sefydlu heddwch parhaol' yw'r unig fwriad sy'n cyfiawnhau rhyfel, a hynny drwy nod a dulliau cymesur. Yn olaf, 'ni ddylai'r rhyfel effeithio ar y sawl nad ydynt yn ymladd ac ni ddylid ymosod ar dargedau anfilitaraidd'.[1]

Bernir y cyfyd `anhawsterau *(sic)* difrifol o dan bob un o'r penawdau hyn.' Yn ei ddadansoddiad o agweddau traddodiadaol tuag at ryfel y mae Robin Gill yn dod i'r casgliad fod hanes agweddau diwinyddol tuag at ryfel yn dangos fod athrawiaeth rhyfel cyfiawn yn hanfodol i eglwys sydd am gymryd y wladwriaeth a'i buddiannau o ddifrif.[2] Dim ond sect fedr gymryd agwedd heddychol! Ond cydnebydd hefyd fod i ddamcaniaeth o'r fath anawsterau enbyd. Yn eu plith y mae'n rhestru'r anhawster o gysoni ymatebion yr Hen Destament a'r Testament Newydd i ryfel, o ddiffinio `awdurdod cyfreithlon' mewn byd o lywodraethau anghyfiawn, ac o gymhwyso'r ddamcaniaeth at ryfela cyfoes sy'n defnyddio grym arfog mor erchyll. Ond y mae'n rhoddi sylw arbennig i ryfel niwclear yn y cyswllt hwn ac yn dod i'r casgliad y medrai hyd yn oed perchnogi arfau niwclear fynd y tu hwnt i ffiniau athrawiaeth rhyfel cyfiawn:

--------------------

1. Cleddyfau yn Sychau, tud. 8.

2. Robin Gill, *A Textbook of Christian Ethics*, T. and T. Clark, (argraffiad cyntaf 1983), ailargraffiad 1993, tud. 301 ymlaen.

> `Nuclear warfare...may exceed the bounds of any Christian just-war theory...exacerbated by the connection that is becoming increasingly apparent between nuclear weapons and nuclear power, by the proliferation of nuclear knowledge beyond the Western countries, by the possibility of nuclear terrorism or by strategical discussions of limited nuclear war.'[1]

Wedi ystyriaeth drwyadl o ddaliadau Cristnogol traddodiadol a chyfoes, barn Gill yw:

> `...if modern warfare is to be justifiable at all it is only to be justified with extreme reluctance and as a very last resort. Even the possession of a nuclear deterrent is a concession to an evil world.'[2]

Yng Nghyngor Heddwch 1987 gofynnwyd i Ddeon Llanelwy, Raymond Renowden, gyflwyno cyfiawnhad dros ryfel cyfiawn. Yn ei farn ef, 'roedd cyfiawnhad o'r fath yn rhagdybio `trefn gymdeithasol a gwleidyddol', `fod y natur ddynol yn ffaeledig', a'i bod yn `gyfrifoldeb moesol i wrthwynebu rhai sydd am fygwth y drefn (gymdeithasol a gwleidyddol)'.[3] Ar sail hyn barna fod egwyddorion rhyfel cyfiawn `yn dal i fod yn berthnasol ar waethaf grym dinistriol arfau niwclear - drwy apêl i egwyddorion dirnadaeth a chymesuredd.' Y mae'n mynd ymlaen i drafod y gwahaniaeth moesol rhwng `defnydd' ac `ataliad' ac yn casglu, ar ddiwedd ei anerchiad:

> `Ar waethaf yr holl amheuon difrifol ynglŷn â moesoldeb <u>defnyddio</u>, y mae ataliad yn dderbyniol yn foesol o dan amgylchiadau penodol, yn arbennig gan <u>na ddylid</u> gweld hyn fel <u>bwriad ynddo'i hun</u> ond fel cam tuag at sustem o reoli arfau ac o <u>ddiarfogi cynyddol</u>....Beth bynnag yw gwendidau moesol polisi o ataliad, rhaid eu pwyso yn erbyn gwendidau moesol y dewisiadau eraill sydd gennym'[4]

Adlewyrchai hyn ddatganiad y Pab Ioan Pawl II yn ei anerchiad i Ail Sesiwn Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar Ddiarfogi ym 1982: `In current conditions `deterrence' based on balance, certainly not as an end in itself, but as a step towards

--------------------

1. ibid., tud. 302.
2. ibid., tud. 413.
3. Adroddiad y Cyngor Heddwch, 10 Mawrth 1987, tud. 16.
4. ibid., tud. 20.

progressive disarmament, may still be judged morally acceptable.'[1]

Ond ni fabwysiadwyd y safbwynt hwn erioed fel safbwynt swyddogol y Cyngor. Yn wir, deuir i'r casgliad yn *Cleddyfau yn Sychau* fod yna `wrthdaro cynhenid rhwng y cysyniad o ataliad ac athrawiaeth rhyfel gyfiawn *(sic)*: pa fwyaf anghymesuradwy yw'r bygythiad, yna mwyaf effeithiol yw.'[2] Ac er fod nifer yn yr eglwysi a'r enwadau, gan gynnwys rhai o'u cynrychiolwyr ar y Cyngor, yn dadlau fod athrawiaeth `rhyfel cyfiawn' yn dderbyniol mewn perthynas â pherchnogaeth, os nad y defnydd, o arfau niwclear, glynodd y Cyngor ym mhob un o'i ddatganiadau at y farn a fynegwyd yn eglur gan Gyngor Eglwysi Prydain yn ei ddatganiad yn Nhachwedd 1979, sef, bod `...arfau niwclear yn wrthun i Dduw ac yn wadiad o'i bwrpas ar gyfer dyn'[3] ac, felly, bod eu perchnogi yn ogystal â'u defnyddio yn anghyson â gofynion moesol rhyfel cyfiawn. Bydd yn rhaid i ni ddychwelyd at y dadleuon hyn.

**Diarfogi Niwclear: Dadansoddi a Dehongli**

Ni fu unrhyw amheuaeth o du'r Cyngor fod effeithiau erchyll arfau niwclear yn wrthun. Nodir er enghriafft[4] fod 60,000 wedi eu lladd yn Hiroshima o gwmpas 6 Awst 1945 a bod cyfanswm o 200,000 wedi eu lladd erbyn yr 80au cynnar, a bod gan y pwerau niwclear ddigon o fomiau i ddinistrio'i gilydd ugain neu ddeg ar hugain o weithiau. Yn ôl y gymdeithas Americanaidd `Meddygon dros Gyfrifioldeb Cymdeithasol'

--------------------

1. Roger Williamson, erthygl ar ddiarfogi yn Dictionary of the Ecumenical Movement, Cyngor Eglwysi'r Byd, 1991, tud. 298.

2. Cleddyfau yn Sychau, tud. 10.

3. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 30 Ebrill 1981.

4. Cleddyfau yn Sychau, tud. 6.

`Mae cynllunio meddygol yn ddiystyr. Ni fydd unrhyw bosibilrwydd o ymateb meddygol...Byddai y rhan fwyaf o'r ysbytai wedi eu dinistrio a'r rhan fwyaf o'r gweithwyr meddygol wedi eu lladd neu'n glwyfedig...byddai'r rhan fwyaf o oroeswyr y gyflafan ddechreuol yn marw...Byddai tanseiliau *(sic)* bywyd dynol wedi eu dinistrio yn yr U.D., Rwsia a rhan helaeth o'r byd. Byddai'r llwch ymbelydrol o'r bomiau wedi lychwino *(sic)* llawer o'r ddaear a byddai effeithiau atmosfferig yn niweidio pob peth byw.'[1]

Yn ogystal â'r effeithiau meddygol byddai'r canlyniadau economaidd yn echrydus hefyd. Dyfynnir papur gan Academi Frenhinol Sweden oedd yn honni y byddai hyd at fil o filiynau yn marw yng ngwledydd y De oherwydd fod seiliau masnach a marchnadoedd wedi'u dinistrio. Cytunir â chynhadledd Pugwash[2] ym 1980 mai camgymeriad fyddai meddwl y gellid goroesi rhyfel niwclear, fod amddiffyn sifil yn debygol o ddiogelu parhad cymdeithas a bod yn rhaid i'r ddwy ochr gael arfau cyfartal er mwyn rhwystro ymosodiad.

Gan fod y bygythiad gwleidyddol ynghlwm wrth anghyfiawnder economaidd y drefn bresennol holir, `...a ydyw'n bosibl fod creu trefn gyfiawn a thosturiol fyd-eang yn amod i ddatrysiad o'r argyfwng niwclear?'[3]

Galwodd J.E.Williams, ar ddechrau ei ddarlith ar `Y Gymdeithas Ryngwladol a'r Ymchwil am Heddwch' yng Nghyngor Heddwch y Cyngor am wynebu'r sefyllfa hon fel y mae. `Nid oes unrhyw ymatebion cyflym...Y mae'n rhaid i'n harweinwyr ffaeledig ddelio â sefyllfaoedd amhosibl gyda gwybodaeth annigonol a dirnadaeth amherffaith.'[4]

--------------------

1. ibid., tud. 6.

2. Cymdeithas o wyddonwyr oedd Pugwash a roddodd sylw arbennig i faterion yn ymwneud ag arfau a phwer niwclear a'u dylanwadau. 'Roedd y Dr. E.M.Job, Aberystwyth, a fu'n ganolog yng ngweithgarwch y Cyngor, yn aelod o'r gymdeithas hon.

3. ibid., tud. 7.

4. Adroddiad y Cyngor Heddwch, 10 Mawrth 1987, tud. 4.

Wrth ddadansoddi a dehongli'r sefyllfa llwyddodd y Cyngor i gadw mewn côf erchylltra'r bygythiad niwclear a'r realaeth gwleidyddol hyn. Rhoddwyd sylw arbennig i nifer o faterion yng nghwrs y blynyddoedd wrth i'r Cyngor geisio dadansoddi'r sefyllfa. Yn gyntaf, ym 1981 ac eto ym 1983, mynegwyd pryder fod yr argyfwng niwclear yn dwysáu'r rhaniadau gwleidyddol yn y byd `yn ôl ideoleg wleidyddol fel petai'r rhaniad hwn yn gyfystyr â'r gwahaniaeth rhwng da a drwg.'[1] Dyma hefyd yw canlyniad propaganda rhagrithiol y ddwy `ochr': `...astudiaeth o hunangyfiawnhad a sataneiddio'r gelyn yw astudiaeth o bropaganda - fel Cristnogion gwrthwynebwn y tueddiadau hyn yn gryf.'[2] Yn wir, holodd J.E.Williams onid oedd propaganda o'r fath yn angenrheidiol i'r polisi: `efallai y bu'r rhaid i lywodraethau baentio'r byd mewn termau moesol moel er mwyn cael perswad ar bobl i dderbyn polisi oedd yn rhagdybio parodrwydd i gyflawni hunanladdiad cenedlaethol.'[3]

Yn ail, rhoddwyd sylw arbennig i'r berthynas rhwng diarfogi a datblygiad. Dyfynnir Adroddiad Brandt (yn y Gymraeg):

> `Y mae'r cynnydd mewn arfau mewn rhannau helaeth o'r trydydd byd...yn peri ansefydlogrwydd cynyddol ac yn tanseilio datblygiad. Y mae dealltwriaeth newydd o amddiffyn a diogelwch yn anhepgor...Nid yw mwy o arfau yn gwneud dynoliaeth yn dwy diogel, ond yn dlotach.'[4]

Derbynnir barn adroddiad Palme (1982) nad oes obaith am ddiogelwch cyffredin heb adferiad economaidd.

> `...'rydym yn ddibynol fwy-fwy ar ein gilydd...'Rydym yn wynebu peryglon sy'n gyffredin i ni, felly, gyda'n gilydd hefyd y mae meithrin

---

1. Cofnodion y Cyngor, 5 Mai 1983.
2. Cleddyfau yn Sychau, tud. 19.
3. Adroddiad y Cyngor Heddwch, tud. 11.
4. O Adroddiad Brandt, tud. 117, yn Cleddyfau yn Sychau, tud. 12.

ein diogelwch.'[1]

Y mae mwy o anghytundeb ar y trydydd mater a drafodir, sef, ataliad. Yn ôl J.E.Williams, sylfaen ataliad `yw'r gred fod y sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn cael eu dylanwadu gan fygythiad cosb, yn arbennig os na ellir osgoi y gosb honno o gwbl' a'r hyn sy'n peri aflonyddwch `yw'r modd y mae'r ymsyniad syml yma wedi cael ei ddefnyddio i gyfiawnhau adeiladu peiriant rhyfel bwystfilaidd'.[2] Ar y llaw arall, cydnebydd fod `grym ataliol arfau niwclear yn fwy effeithiol nag unrhyw system flaenorol o arfau am fod y dial yn fwy ac yn sicrach, oherwydd hyd yma nid oes amddiffyn effeithiol yn erbyn taflegren.'[3] Fodd bynnag, daw i'r casgliad fod

> `y lobi heddwch yn iawn i gondemnio ataliad niwclear fel peth moesol anghyfrifol. Y mae strategaeth sy'n mynd ati yn fwriadol i ladd miliynau o bobl ddiniwed yn wallgo a drygionus...Ar yr un pryd, rhaid cydnabod fod i rai o'r amcanion sydd gan y ddwy gynghrair filitaraidd yma werth foesol uchel iawn - heddwch, annibyniaeth a rhyddid.'[4]

Ar y llaw arall, 'roedd Raymond Renowden yn medru cyfiawnhau polisi ataliad:

> `...tra y byddai yn anfoesol i ddefnyddio arfau niwclear eu cadw at ddibenion ataliol yw'r llwybr llai drygionus sydd ar hyn o bryd yn agored inni...Yr unig amcan sydd i (arfau niwclear) yw atal ymladd rhyfel niwclear. Yr hyn sy'n angenrheidiol yw'r ataliad lleiaf.'[5]

Felly, daw i'r casgliad fod ataliad `yn dderbyniol yn foesol o dan amgylchiadau penodol, yn arbennig gan na ddylid gweld hyn fel bwriad ynddo'i hun ond fel cam tuag at sustem o reoli arfau ac o ddiarfogi cynyddol...Beth bynnag yw gwendidau moesol polisi o ataliad rhaid eu pwyso yn erbyn gwendidau moesol y dewisiadau eraill sydd gennym.'[6]

--------------------

1. ibid., tud. 12, yn dyfynu o Adroddiad Palme (Y Comisiwn Annibynol ar Faterion Diarfogi a Diogelwch 1982).

2. Adroddiad y Cyngor Heddwch, tud. 10.

3. ibid., tud. 9.

4. ibid., tud. 10.

5. Adroddiad y Cyngor Heddwch, tud. 16.

6. ibid., tud. 20.

Yn bedwerydd, ceisiwyd pwyso a mesur rhai o'r rhaglenni diarfogi ac amddiffyn a awgrymwyd, megis yr ymgyrch rhewi a'r SDI. Bu'r Ymgyrch Rhewi Niwclear yn dra dylanwadol yn ystod yr 80au a chafodd gefnogaeth nifer o'r enwadau yng Nghymru a'u harweinwyr. Amcan yr ymgyrch ryngwladol hon oedd atal moderneiddio ac amlhau arfau niwclear fel cam cyntaf tuag at ddiarfogi, a hynny'n hanfodol drwy gamau amlochrog. Yn ystod cyflwyniad byr ar yr ymgyrch hon yn y Cyngor Heddwch ym 1987, dadleuodd Roberta Owen, un o drefnwyr yr ymgyrch yng Nghymru, `mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol ymlaen'[1]. Ond er iddi awgrymu nifer o ffyrdd y gellid eu mabwysiadu gan y Cyngor i hyrwyddo'r ymgyrch, ni weithredwyd arnynt ac ni ddaeth yr Ymgyrch Rhewi yn bolisi swyddogol Cyngor Eglwysi Cymru, er i'r Cyngor (ym Mai 1986) gymeradwyo'r Ymgyrch i Gristnogion yng Nghymru.

Dadleuodd John Holdsworth[2] y medrai person sinicaidd honni mai prif gyflawniad yr ymgyrch oedd sbarduno'r Arlywydd Reagan i argymell ei `Anti-freeze political initiative' ym Mawrth 1983 drwy awgrymu Cynllun Amddiffyn Strategol (Strategic Defence Initiative) gyda'r geiriau hyn:

> `...let me share with you a vision which offers hope...What if free people could live in the knowledge that their security did not rest upon the threat of instant US retaliation...We could intercept...strategic ballistic missiles before they reached our own soil and that of our allies...I call upon the scientific community to turn their great talents to the cause of mankind and world peace.'[3]

Wrth grynhoi ymateb y Cyngor i'r weledigaeth hon y mae John Holdsworth yn mynegi amheuaeth y gymuned ryngwladol fod y fath gynllun yn bosibl ac y byddai'n effeithiol yn economaidd. `Why not concentrate only on reducing offensive

--------------------

1. Adroddiad y Cyngor Heddwch, tud. 30.
2. Yn ei bapur, Peace Issues, tud. 4.
3. ibid., tud. 5.

weapons, which could be done quickly, cheaply and without the distabilisation (sic) that a 20 or 30 year development programme would bring'.[1]

Ar sail y farn hon, mabwysiadwyd penderfyniad yng nghyfarfod y Cyngor ym Mai 1986 a oedd yn croesawu dadansoddiad y papur o'r Cynllun Amddiffyn Strategol, yn 'rhannu amheuon' y Llywodraeth amdano ac yn honni y byddai gostyngiad mewn arfau niwclear 'yn cyflawni dibenion y Cynllun yn fwy effeithiol'.[2]

Yn bumed, ceisiwyd pwyso a mesur effeithiolrwydd polisi o ddiarfogi unochrog o'i gymharu â pholisi o ddiarfogi amlochrog. Y mae *Cleddyfau yn Sychau* yn cynnig nifer o ddadleuon o blaid diarfogi unochrog o du Prydain. Byddai'n atalfa ar `y rhuthr pendramwnwgl i'r dibyn...Gallai symud un o'r rhwystrau sy'n atal y trafodaethau amlochrog hyd yn hyn...Byddai'n cryfhau Prydain o safbwynt moesol ac economaidd. Fe fyddai'n galluogi Prydain i gyfrannu'n fwy effeithiol i'r (sic) dasg o rannu adnoddau'r ddaear yn fwy teg i'r trydydd byd. Byddai'n cryfhau dwylo'r rheini yn y Dwyrain yn ogystal â'r Gorllewin sy'n sylweddoli ynfydrwydd y ras arfogi nad oes iddi ddiwedd mewn golwg ond difodiant.'[3]

Ond wrth `Grynhoi Meddyliau' yn y bennod olaf y mae *Cleddyfau yn Sychau* yn dadlau nad yw `gwrthgyferbynu diarfogi unochrog ac amlochrog yn gynorthwyol'[4] ac awgrymir i Lywodraeth Prydain, fel cam cyntaf, beidio adnewyddu Polaris na sefydlu system Trident er mwyn lliniaru'r rhwystrau na ellir eu symud gan drafodaethau diplomataidd yn unig, a hynny mewn modd na fyddai'n bygwth sefydlogrwydd rhyngwladol. Nodir fod grwpiau eraill a ddaeth i'r un casgliad wedi eu cyhud-

---

1. ibid., tud. 6.
2. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 1 Mai 1986.
3. Cleddyfau yn Sychau, tud. 3.
4. Cleddyfau yn Sychau, tud. 17.

do o ddymuno gadael Prydain `yn noeth a diamddiffyn'[1] Yn ôl yr awduron, `y mae hyn yn ymateb emosiynol a chamarweiniol...' ac eir ymlaen i ddadlau'n gryf o blaid y math ar ddiarfogi unochrog/amlochrog a argymellir, yn wyneb nifer o ddadleuon cryfion o blaid y safbwynt hwn. Y mae'n `cydnabod realiti'r sefyllfa ryngwladol,...yn caniatáu lle i ymyrraeth Duw ac yn gobeithio amdano, ...yn lleihau tensiwn rhyngwladol ac yn helpu achos diarfogi amlochrog.'[2] Gwelir y safbwynt hwn fel cyfuniad o gymhwyso egwyddorion rhyfel cyfiawn at y sefyllfa niwclear â chyfrifiad realistig o ganlyniadau tebygol gweithredoedd neilltuol. Yn yr un modd y mae J.E.Williams yn dadlau dros gyfuniad o reoli arfau a gweithredu unochrog cyfrifol, ynghyd â chytundebau i ymwrthod â defnydd cyntaf o arfau niwclear, ac i greu ardaloedd diniwclear.

Gwelir, felly, fod y Cyngor wedi llwyddo i gasglu ynghyd gryn arbenigedd technolegol a gwleidyddol wrth ddadansoddi a dehongli'r materion cymhleth hyn. O ganlyniad ni ellid cyhuddo'r Cyngor o naïfrwydd a daethpwyd i benderfyniadau mewn modd cyfrifol a deallus. Gwnaeth gyfraniad pwysig, hefyd, yn arbennig drwy *Cleddyfau yn Sychau* a Chyngor Heddwch 1987, i roi mynegiant i'r dadansoddiad hyn a'i rannu â'r eglwysi a'r enwadau yn ogystal â Christnogion mewn eglwysi lleol. Ysywaeth, er cystal y dogfennau a'r adroddiadau eu hunain, ni lwyddwyd i sicrhau cylchrediad eang iddynt na chyhoeddusrwydd effeithiol i'w casgliadau - beirniadaeth sydd yr un mor deg mewn perthynas ag agweddau eraill o weithgarwch y Cyngor mewn meysydd o'r fath. Llwyddodd y Cyngor, yn ogystal, i osgoi'r pegynu a oedd yn berygl amlwg i gorff a oedd yn pontio rhwng enwadau yng Nghymru a oedd yn coleddu safbwyntiau mor wahanol i'w gilydd ar faterion a oedd yn ennyn teimladau cryfion yn ystod y blynyddoedd hyn. O ganlyniad llwyddodd i gynnig ffordd ganol gyfrifol a oedd, ar y cyfan, yn dderbyniol i'r naill `ochr'

---

1. ibid., tud. 18.
2. ibid., tud. 18 ymlaen.

a'r llall yn y ddadl hon.

**Negesau at y Llywodraeth**

Ar sail y trafodaethau diwinyddol a'r dadansoddi gofalus cyflwynwyd nifer o negesau i'r Llywodraeth. Un enghraifft o hyn oedd penderfyniad y Cyngor ar 29 Ebrill 1982 `...yn condemnio penderfyniad diweddar Llywodraeth ei Mawrhydi i brynu'r arfau *super-trident*' ac yn annog y Llywodraeth

> `...i gyfrannogi yn Sesiwn Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar Ddiarfogi gyda ymrwymiad newydd a brys i ddefnyddio'i holl ddylanwad i sirchau cytundeb ar fesurau sylweddol tuag at ddiarfogi niwclear er mwyn arafu'r ras arfau ac er mwyn sicrhau y bydd y Sesiwn Arbennig yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at heddwch y byd.'[1]

Ym Mai 1983, yn rhannol ar sail casgliadau *Cleddyfau yn Sychau* pwyswyd ar y Llywodraeth i ymroi i raglen ddiarfogi arfog i ddileu atalydd niwclear annibynnol Prydain ac i symud arfau niwclear oddi ar dir Prydain.[2]

Yn ei ddarlith i'r Cyngor Heddwch awgrymodd J.E.Williams nifer o alwadau y gellid eu cyflwyno i'r llywodraeth gan gynnwys galwad `...i ail-ystyried natur y bygythiad o'r Dwyrain,... i roi'r gorau i ddarlunio achosion gwaethaf,...i hyrwyddo polisiau fydd yn cymell rhyngddibyniaeth mewn masnach...ac i sicrhau fod ymchwil am ddaioni cyffredinol bydeang (sic) yn cymryd lle balchder Gaullaidd.'[3]

Yng nghyfarfod y Cyngor ar 29 Ebrill 1982 trafodwyd hefyd benderfyniadau pob Cyngor Sir yng Nghymru (ac eithrio Cyngor Sir Powys, ar y pryd) i fod yn `ardal ddiniwclear' gan nodi'r penderfyniadau hyn `gyda chymeradwyaeth' a mynegi'r `...gobaith diffuant y bydd y gweithredoedd sumbolaidd yma yn gamau cyntaf

---

1. Cofnodion y Cyngor, 29 Ebrill 1982
2. Atodiad i Adroddiad y Cyngor Heddwch, Mawrth 1987, tud. 51.
3. Adroddiad y Cyngor Heddwch, tud. 13.

effeithiol tuag at ddiarfogi niwclear cyffredin.' Mewn cyflwyniad byr i'r Cyngor Heddwch esboniodd Mervyn Phillips, prif weithredwr Cyngor Sir Clwyd, arwyddocâd y penderfyniadau sirol hyn:

> `Y mae'n sefyll gyda'r etholiad i Dy'r Cyffredin yn 1923 gan Brifysgol Cymru o George Davies fel Aelod Seneddol oedd yn heddychwr Cristnogol, Neges Ewyllys Da plant Cymru, enwi'r Deml Heddwch yng Nghaerdydd a'r penderfyniad yn 1947 i sefydlu Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, yn ddatganiad cyffredinol gan bobl Cymru i achos heddwch.'[1]

Y mae lle i gredu fod gor-ddweud yn y gosodiad hwn ond nid oes gwadu iddynt fod yn benderfyniadau arwyddocaol wrth lunio barn gyhoeddus yng Nghymru mewn perthynas ag arfau niwclear. Y mae Adroddiad y Cyngor Heddwch yn cyhoeddi ymateb y Llywodraeth i benderfyniad Cyngor Sir Clwyd. Y mae'r ymateb yn crynhoi holl safbwynt y llywodraeth ar ddiarfogi:

> `...The Government believes that nuclear weapons are an essential part of the defence policy of maintaining adequate defence forces, both conventional and nuclear, sufficient to deter attack by a potential aggressor. The first responsibility of any Government must be the security of the nation...Our main objective is not to win a war but to prevent one from happening in the first place...this strategy is intended to maintain peace between East and West in Europe, as it has done for over 30 years...NATO countries do not believe that nuclear weapons could be used to achieve military victory in any meaningful sense and have no desire to fight a limited nuclear war...Unilateral disarmament by the United Kingdom - and a nuclear free zone in Europe would be, for us, the same as unilateral disarmament - would do nothing to reduce the dangers of war. Indeed...such a move might make war more rather than less likely.'[2]

Y mae'r ymateb hwn yn datgelu maint y gagendor a oedd rhwng y Llywodraeth a safbwynt lled gymedrol y Cyngor ar fater diarfogi niwclear. Nid yw'n rhyfeddod fod cynifer yn yr eglwysi (ac oddi allan iddynt, wrth gwrs) yn ymdeimlo â dig a rhwystredigaeth wrth i'w lleisiau syrthio, drosodd a thro, ar glustiau byddar y llywodraeth. Eto, mynnodd y Cyngor a'r enwadau a oedd yn aelodau ohono barhau i alw

---

1. Adroddiad y Cyngor Heddwch, tud. 28.
2. ibid., tud. 54.

am ddiarfogi niwclear a fyddai'n gyfraniad hanfodol i heddwch a chyfiawnder byd-eang, mewn cyfnod pan oedd y bygythiad niwclear yn frawychus a real.

**Arweiniad i'r Eglwysi**

Ar un olwg 'roedd y cyfan a wnaeth y Cyngor yn y maes hwn - fel ym mhob maes arall - yn anelu'n gyntaf oll at gynnig arweiniad i'r eglwysi, i'w galluogi hwythau i weithredu yn fwy effeithiol, a hynny gyda'i gilydd, pan oedd hynny'n bosibl. Yn y cyd-destun arbennig hwn, prif awydd y Cyngor oedd meithrin dealltwriaeth ac ymrwymiad mewn perthynas â diarfogi niwclear ymhlith Cristnogion Cymru, ac yr oedd y rhan fwyaf o'r penderfyniadau y cyfeiriwyd atynt eisoes yn anelu at hyn. Dyna oedd unig ddiben *Cleddyfau yn Sychau* ond y mae lle i amau na chafodd y cyhoeddusrwydd na'r dylanwad a ddymunwyd.

Gwelodd y Cyngor Heddwch angen brys am ddeunydd a fyddai'n cynorthwyo'r eglwysi i `ystyried goblygiadau efengyl tangnefedd ym mhob agwedd o fywyd eglwys...yn arbennig mewn addoliad.'[1] Credai hefyd fod cryn bellter rhwng y person yn y sedd a'r penderfyniadau y mae'r eglwysi a'r enwadau yn eu gwneud fel cyrff sefydliadol a bod angen dod o hyd i ffyrdd i `gymell aelodau cyffredin i gymryd camau bychain mewn gwneud heddwch' ac mai un rheswm, o leiaf, dros hyn oedd yr anhawster a deimlai llawer o Gristnogion mewn perthynas ag ymwneud â gwleidyddiaeth - anhawster a darddai, yn ôl yr adroddiad o'r tyndra rhwng y ddealltwriaeth gorfforaethol a'r ddealltwriaeth unigolyddol o Gristnogaeth.

**Diarfogi Niwclear: Diweddglo**

Erbyn i Gyngor Eglwysi Cymru ddod i ben ym 1990 'roedd y darlun gwleidyddol byd-eang wedi newid yn ddirfawr. 'Roedd mur Berlin wedi ei ddymchwel a hynny'n arwydd o newidiadau anhygoel yn ideoleg a gwleidyddiaeth y gwledydd yn Nwyrain

---

1. Adroddiad y Cyngor Heddwch, tud. 31.

a Chanolbarth Ewrop a fuont yn rhan o'r Cynghrair â'r Undeb Sofietaidd. Yn wir, yn fuan wedyn chwalwyd yr Undeb Sofietaidd ei hun, a chyflymodd yr ymgyrchu a'r brwydro dros annibyniaeth i'r gwledydd a fu'n rhan o'r Undeb hwnnw. Yn yr un modd bu'r newidiadau cymdeithasol a gwleidyddol yng ngwledydd Dwyrain a Chanolbarth Ewrop yn rhai dwfn a chostus a deil Ewrop, hyd heddiw, i geisio ymgodymu â'r newidiadau sylfaenol hyn.

Ond 'roedd un canlyniad yn eglur iawn. Nid oedd yn bosibl mwyach i feddwl am wledydd Dwyrain Ewrop fel gelynion ac nid oedd ganddynt bellach na'r dymuniad na'r gallu i fynd i ryfel yn erbyn gwledydd Ewrop ac America. Ymbellhaodd y bygythiad niwclear a dechreuwyd dinistrio'r arfau a greodd y fath fraw a dychryn a cheisio dod o hyd i ffyrdd i hyrwyddo partneriaethau gwleidyddol ac economaidd â'r gwledydd hyn. Bellach y mae bygythion eraill ar y gorwel o rannau eraill o'r byd. Ond gyda chwalu mur Berlin a'i ganlyniad anhygoel daeth pennod bwysig yn hanes ymdrechion yr eglwysi dros heddwch i ben, am y tro beth bynnag.

PENNOD 16

## RHYFEL A HEDDWCH: RHYFEL YNYSOEDD Y MALFINAS

Ar 2 Ebrill 1982 meddiannwyd Ynysoedd y Malfinas (neu Ynysoedd y Falklands), yng nghefnfor De'r Iwerydd, gan luoedd Ariannin. Ar y pryd bu'n rhaid i'r mwyafrif ohonom fynd i chwilio am yr Ynysoedd hyn ar fap o'r byd, ond dros nos daethant yn brif newyddion y dydd. Meddiannwyd yr Ynysoedd gan Brydain ym 1833 ac, yn ôl cyfraith ryngwladol, eiddo Prydain oeddynt. Nid felly y gwelai'r Ariannin y sefyllfa: tir yr Ariannin oedd hwn yn hanesyddol ac yn ddaearyddol, yn eu golwg hwy. Cyfrifai trigolion yr Ynysoedd eu hunain yn Brydeinwyr ac yr oedd yno lywodraethwr a benodwyd gan Lywodraeth Prydain. Bu perchnogaeth y Malfinas yn bwnc cyd-drafod diplomataidd rhwng llywodraethau'r ddwy wlad ers pymtheg mlynedd, ond ychydig iawn a ddeilliodd o'r trafodaethau hyn. Barn llawer o arbenigwyr ym 1982 oedd fod Llywodraeth Prydain wedi bod yn llugoer ei hymdrechion i sicrhau canlyniad derbyniol i'r trigolion. Ond bellach 'roedd yn argyfwng rhyngwladol.

Nid oedd amheuaeth ymhlith yr eglwysi ym Mhrydain yn gyffredinol, nac ychwaith yma yng Nghymru, fod yr Ariannin wedi gweithredu'n anghyfreithlon ac anfoesol. 'Roedd ymateb Cynulliad Cristnogion Ifanc Cymru yn nodweddiadol: `Gresynna('r) (sic) Cynulliad...i'r Ariannin benderfynu cymryd meddiant o Ynysoedd y Falklands trwy dreisio iawnderau dynol â grym milwrol...'[1] Yn yr un modd 'roedd penderfyniad Cyngor Eglwysi Cymru `yn gresynu yr oedwyd cyhyd cyn dod i gytundeb ar ddyfodol yr Ynysoedd ar waethaf pymtheg mlynedd o drafodaethau (ac) yn condemnio Llywodraeth Milwrol (sic) yr Ariannin am gymryd meddiant milwrol o'r Ynysoedd yn groes i gyfraith ryngwladol a dymuniad yr ynyswyr...'[2]

Ond sut oedd ymateb i'r meddiant milwrol anghyfreithiol hwn? Danfonodd y

--------------------

1. Llythyr dyddiedig, 26 Ebrill 1982.
2. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 29 Ebrill 1982.

Llywodraeth y gweithredlu ar 5 Ebrill 1982, a hynny er mawr ofid i lawer yn eglwysi Cymru. Gan ragweled fod anghydfod militariadd bellach yn anochel 'roedd llywydd Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig (ar 1 Ebrill 1982) wedi galw ar lywodraethau Prydain a'r Ariannin i beidio â bygwth na defnyddio grym milwrol yn rhanbarth Ynysoedd y Malfinas ac ar 3 Ebrill cytunodd y Cyngor Diogelwch ar benderfyniad 502 a oedd yn galw am roi terfyn ar y brwydro, am i holl filwyr yr Ariannin adael yr Ynysoedd ac am i'r ddwy Lywodraeth geisio ateb diplomataidd ac i barchu egwyddorion Siarter y Cenhedloedd Unedig.[1]

Gyda'i dreiddgarwch arferol, rhybuddiai Huw Wynne Griffith, Ysgrifennydd Adran Eglwys a Chymdeithas y Cyngor, rhag ymatebion syml naill ai ar dir heddychol neu ar sail rhyfel cyfiawn. Yn hytrach, credai fod yr argyfwng hwn yn datgelu sefyllfa newydd y ddynolryw, gan fod hawliau honedig y naill lywodraeth a'r llall yn seiliedig ar rym, bod gallu pobloedd i symud o un fan i'r llall mewn rhanbarthau o'r byd yn cymylu'r diffiniad o genedl a'r sofraniaeth sy'n gysylltiedig â chenedl, bod sofraniaeth genedlaethol yn israddol i nerthoedd byd-eang ac felly bod y canolbwynt yn symud o wladwriaethau sofran i'r Cenhedloedd Unedig.[2] Argymhellodd, felly,

> `...Negatively, the issue must not be one of sovereignty;...Positively, the aim (should be) to build up the United Nations as an effective organ for valid world interests... Practically, should urge the Government to pursue agreement through negotiations under UN auspices.'

Ar yr un diwrnod cyhoeddodd Cyngor Eglwysi Prydain ddatganiad a oedd yn sylfaen i elfennau o ddatganiad Cyngor Eglwysi Cymru (gweler uchod), yn galw am i benderfyniad 502 y Cenhedloedd Unedig gael ei weithredu ar fyrder a phe bai'r trafodaethau diplomataidd ar sail y penderfyniad hwn yn methu, yn pwyso ar i Lywodraeth Prydain `...not to launch an armed attack until all remedies available in

---

1. Cynhwyswyd mewn casgliad o ddogfennau perthnasol gan Gyngor Eglwysi Prydain.

2. Nodyn i Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyngor, 23 Ebrill 1982.

the UN have been explored.'

Yn y cyfamser, cyhoeddodd Cyngor Eglwysi'r Byd ddatganiad cydeglwysig o'r Ariannin:

> `In the name of Jesus Christ, Prince of Peace, we fervently urge the Governments of Argentina and Great Britain to refrain from all military action which would endanger precious human lives and world peace. Our churches will pray and work without ceasing for a peaceful, just and permanent solution to the dispute, confident in the help of God, our Lord.'[1]

Cefnogwyd y farn hon gan Gyngor Eglwysi'r Byd, gan ychwanegu, `...Violence runs the risk of escalating into a major conflagration, further exacerbating world tensions and the security of all peoples.'

Fodd bynnag, mynd yn ei flaen a wnaeth y gweithredlu Prydeinig a meddiannwyd Ynys Georgia ar 25 Ebrill. Pan gyfarfu Cyngor Eglwysi Cymru ar 29 Ebrill cyflwynwyd papur gan Huw Wynne Griffith a'r Ysgrifennydd Cyffredinol a oedd yn cynnwys y datganiadau uchod a wnaed gan gyrff eraill, drafft o benderfyniad i'w gynnig i'r Cyngor a phedwar cwestiwn ynglŷn â sofraniaeth genedlaethol mewn byd a oedd yn newid, gan awgrymu y dylid eu hystyried wrth drafod yr argyfwng. Holwyd a oedd perygl 'mewn cysylltu sofraniaeth â grym milwrol', ac a oedd 'sofraniaeth drefedigaethol' yn dderbyniol bellach. Awgrymwyd ei bod yn angenrheidiol 'i geisio deall sofraniaeth cenedl yn nhermau partneriaeth ryngwladol yn hytrach (na) hawl ddiymwâd' a bod angen meddwl bellach yn nhermau'r Cenhedloedd Unedig fel canolbwynt perthynas gyd-genedlaethol yn hytrach na glynu at hawliau'r 'wladwriaeth sofran' fel canolbwynt grym ac awdurdod rhyngwladol.[2]

--------------------

1. Brysneges oddi wrth Gyngor Eglwysi'r Byd, 21 Ebrill 1982.
2. Papur dyddiedig 27 Ebril 1982 a gyflwynwyd i'r Cyngor, 29 Ebrill 1982.

'Roedd y papur hwn yn awgrymu hefyd fod yna egwyddorion Cristnogol a moesol sy'n sylfaenol i fywyd pob cenedl, yn cynnwys, `...parchu hawliau sylfaenol pob person, fel un a grëwyd ar ddelw Duw, rhyddid pobloedd i ddewis eu llywodraeth eu hunain ac i ddisgwyl iddynt weithredu yn eu henw...'

Cafwyd trafodaeth hir ac anodd ar y papur, gyda chryn dyndra rhwng y sawl a oedd yn medru derbyn y rhyfel - oherwydd dyna ydoedd erbyn hyn - fel rhyfel cyfiawn ac eraill a deimlai nad oedd y fath beth â rhyfel cyfiawn ac y dylid condemnio'r naill ochr a'r llall fel ei gilydd; tyndra a oedd yn nodweddiadol o wahaniaethau barn oddi fewn i'r enwadau yng Nghymru yn ogystal â rhyngddynt ar fater rhyfel yn gyffredinol. Ar un olwg, cryfhawyd y penderfyniad drafft drwy ychwanegu'r paragraff cyntaf canlynol:

> `Y mae Cyngor Eglwysi Cymru yn bryderus iawn am yr ysbryd impirilaidd (sic) [*jingoistic* oedd y gair Saesneg cyfatebol] a militaraidd ym mhobl Prydain a'u harweinwyr a ddangoswyd yn eu hymateb i feddiannu'r Ynysoedd gan yr Ariannin, gan gredu fod yr ymateb yma yn groes i'r dystiolaeth Gristnogol i ffordd tangnefedd.'[1]

Ar y llaw arall, newidiwyd y cymal `yn condemnio defnyddio grym milwrol i adennill sofraniaeth dros yr Ynysoedd...' i ddarllen `yn gwrthwynebu defnydd pellach o rym milwrol...', a hynny er mwyn dofi'r condemniad o Lywodraeth Prydain ac adlewyrchu barn rhai aelodau fod yr hyn a wnaed eisoes i geisio adfeddiannu'r Ynysoedd yn dod oddi fewn i derfynau rhyfel cyfiawn.

Y mae'r penderfyniad yn parhau

> `[Y mae Cyngor Eglwysi Cymru]...yn gwrthwynebu defnydd pellach o rym milwrol i adennill sofraniaeth dros yr ynysoedd, yn arbennig gan nad yw pob llwybr diplomataidd posibl tuag at ateb heddychol a chyfiawn i'r argyfwng wedi ei ddilyn i'r eithaf, ac yn mynegi pryder dwys fod y fath filitariaeth, o'r ddau du, yn peryglu heddwch a diogelwch y

--------------------

1. Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 29 Ebrill 1982.

ddynoliaeth;

yn croesawu ymateb cyntaf y Cenhedloedd Unedig drwy benderfyniad 502 y Cyngor Diogelwch...ac yn galw ar lywodraethau yr Ariannin a Phrydain i geisio datrys eu gwahaniaethau yn ddiplomataidd;

yn pwyso'n daer ar Lywodraethau Prydain a'r Ariannin i ddefnyddio holl adnoddau'r Cenhedloedd Unedig i geisio ateb heddychlon, cyfiawn a pharhaol i'r argyfwng, ac i geisio cael ar wledydd y byd i wneud y Cenhedloedd Unedig yn offeryn mwy effeithiol a chydnabyddedig yn rhyngwladol yn wyneb sefyllfaoedd fel hyn;

ac yn galw ar ein cyd-Gristnogion i weddïo am ateb i'r argyfwng na fydd yn ddibynol ar rym milwrol ac a rydd i'r Ynysoedd ddyfodol heddychol a sicr.[1]

Ar y pryd, gwelwyd y penderfyniad hwn, ymhlith penderfyniadau cyrff cyd-eglwysig yng ngwledydd Prydain, fel un o'r rhai mwyaf eglur ei feirniadaeth o'r agwedd jingoistaidd a militaraidd a nodweddai'r Llywodraethau a'r cyhoedd yn y ddwy wlad. 'Roedd ei bwyslais ar barhau ymdrechion diplomataidd yn hytrach nag ymgyrchoedd militaraidd, a'i alwad am roi'r lle blaenaf i'r Cenhedloedd Unedig yn nodweddiadol o benderfyniadau enwadau a chyrff ecwmenaidd eraill.

Un o'r penderfyniadau mwyaf radical oedd eiddo Cymdeithas y Cymod yng Nghymru a gytunwyd mewn cyfarfod o'r Gymdeithas ar 1 Mai. Y mae'n mynegi

`...siom ac arswyd i ymateb Llywodraeth Prydain...a'n tristwch wrth sylweddoli mor rhwydd yw i gynhyrfu trwch poblogaeth gwledydd Prydain i gefnogi rhyfel...Canlyniad uniongyrchol i gael polisi militaraidd yw'r sefyllfa bresennol. Canlyniad anochel polisi o arfogi yw cynnydd yn yr ymdeimlad rhyfelgar...Cyhoeddwn mewn tristwch nad yw'r Eglwys (*sef, enwadau Cymru*) wedi wynebu ei chyfrifoldeb a galwn arni i ddeffro i weithredu yn enw Iesu Grist.'[2]

Gofynnodd y Gymdeithas i Gyngor Eglwysi Cymru alw cyfarfod cyhoeddus cenedlaethol `a fyddai'n gyfle i lais yr Eglwys Gristionogol gael ei fynegi.' (Ond ni chynhaliwyd cynhadledd o'r fath, er i'r Cyngor gynnull grwp bychan i ystyried goblygiadau'r rhyfel i dystiolaeth yr eglwysi yng Nghymru.)

---

1. Cofnodion y Cyngor, 29 Ebrill 1982.

2. Llythyr at Gyngor Eglwysi Cymru, 6 Mai 1982.

Pan ddanfonwyd penderfyniad Cyngor Eglwysi Cymru at y Prif Weinidog barnai'r Ysgrifennydd Cyffredinol `that it expresses the deep concern of our fellow Christians in Wales that the present military action is inconsistent with a Christian spirit and places the islanders and the whole of humanity in great danger. We believe that other means towards a negotiated agreement, particularly through the United Nations, should be pursued urgently before any further military action is undertaken.'[1]

Yn ei hymateb, mynnodd y Prif Weinidog,

> `It has always been our wish, and it still is our wish, to settle this dispute by negotiation...Military achievements have been in support of our overall strategy; they have not been and will not become a substitute for it...Our immediate concern is to implement the resolution passed by the UN Security Council...But so far the Argentinians have shown no inclination to implement the resolution. Until they do, we will continue to exercise our rights of self-defence, including the use of force under Article 51 of the UN Charter, if this proves necessary.'[2]

'Roedd ymateb y Swyddfa Dramor ar yr un llinellau, gan bwysleisio hawliau'r ynyswyr i benderfynu eu dyfodol eu hunain a bod y Llywodraeth yn benderfynol '...that the Argentines should not achieve by force what they have failed to achieve in the negotiations...'[3]

Yn yr un cyfarfod o'r Cyngor cytunwyd i ddanfon cyfarchion at Gyngor Ymgynghorol Eglwysi'r Ariannin (a oedd yn cynnwys enwadau Protestannaidd yn ogystal â'r Eglwys Gatholig Rufeinig). Fe'i danfonwyd ar 12 Mai 1982 a gwelwyd hyn fel rhan o'r ymdrech Gristnogol `...i gadw, â rhwymyn tangnefedd, yr undod y mae'r Ysbryd yn ei roi' (Effesiaid 4 adnod 3):

--------------------

1. Llythyr dyddiedig 30 Ebrill 1982.
2. Llythyr dyddiedig, 6 Mai 1982.
3. Llythyr dyddiedig 19 Mai 1982.

> `The Council asserts that Christians should not be primarily concerned with sovereignty over islands...but with the Kingdom of God and his righteousness...It realises that control over the Falkland Islands (Islas Malvinas) has in the past rested on military power and regrets that the Governments of Argentina and of Britain have sought and are seeking to establish control of the islands for the future in the same way, by the use of force...It judges that the Governments of Argentina and Britain should obey the resolution of the Security Council and, if necessary, refer the further settlement of their dispute to the UN.'

Y mae'r llythyr yn cloi gyda'r dymuniad i weld Cristnogion Cymru a'r Ariannin yn dod o hyd i gymdeithas ddyfnach â'i gilydd ar ôl i'r rhyfel ddod i ben.

Ar 28 Gorffennaf 1982 (wedi i'r rhyfel orffen) danfonodd Cyngor Ymgynghorol Eglwysi'r Ariannin gopi o ymateb cyffredinol a luniwyd ar gyfer cyd-Gristnogion ar draws y byd a oedd wedi eu cyfarch yn ystod cyfnod y rhyfel. Amgaeodd Esgob Federico Pagura (Llywydd y Cyngor, Esgob Eglwys Fethodistaidd Efengylaidd yr Ariannin, ac un o arweinwyr amlwg y mudiad ecwmenaidd yn America Ladin ac yn fyd-eang) neges ar gerdyn ymweld yn ei lawysgrif ei hun:

> `Thank you for the Declaration of the Council of Churches for Wales with reference to the recent war. It has been very much appreciated in the Welsh congregations at the Patagonian Region of our Church. We are glad to send you the last document of our Consultative Council of Churches, hoping it will help you to understand something of our feelings and hopes.'

Yn ystod y dyddiau'n dilyn cyfarfod y Cyngor gwaethygodd y sefyllfa. Ar 1 Mai bomiodd awyrenau Prydain faes awyr Stanley; ar 3 Mai suddwyd un o longau rhyfel yr Ariannin, y General Belgrano, a'r diwrnod canlynol suddwyd y llong Brydeinig, H.M.S. Sheffield. Collwyd nifer fawr o fywydau.

'Roedd y Pab Ioan Pawl yr Ail i ymweld â Phrydain yn ystod mis Mai a Mehefin a bu amheuon ynglŷn â'r ymweliad bron hyd at y dydd iddo gyrraedd (sef, 28 Mai). Mewn anerchiad grymus yn Coventry ar 30 Mai, a ddewiswyd oherwydd y dinistr a fu yno yn ystod yr Ail Ryfel Byd, galwodd am adeiladu heddwch, fel yr adeiladwyd y Gadeirlan yn Coventry, yn amyneddgar, gyda ffydd ddisigl.

> `...the cathedral of peace is again destroyed. Today, the scale and horror of modern warfare - whether nuclear or not - makes it totally unacceptable as a means of settling differences between nations. War should belong to the tragic past, to history; it should find no place on humanity's agenda for the future.'[1]

Parhaodd yr ymladd drwy gydol fis Mai ac ar 8 Mehefin cyhoeddodd y Prif Weinidog na fyddai'n dychwelyd i'r Cenhedloedd Unedig. 'Roedd yn amlwg i'r eglwysi na fyddai'n bosibl dylanwadu ymhellach ar y broses wleidyddol gan fod y Llywodraeth yn benderfynol o sicrhau buddugoliaeth filitaraidd. Ar 12 Mehefin dechreuodd yr ymosodiad olaf ar Port Stanley ac ar 15 Mehefin arwyddwyd y ddogfen a oedd yn ildio'r fuddugoliaeth i Brydain.

**CWESTIYNAU I GRISTNOGION**

Codwyd nifer o gwestiynau pwysig i Gristnogion gan y rhyfel hwn a bu cryn drafodaeth arnynt ymhlith yr enwadau a'u harweinwyr.

**Ymyrryd mewn gwleidyddiaeth**

Yn gyntaf, 'roedd ymwneud yr eglwysi a'r enwadau mewn materion gwleidyddol yn dal yn fater dadleuol, oddi fewn ac oddi allan i'r eglwysi. Er enghraifft, ysgrifennwyd erthygl feirniadol iawn gan Clifford Longley yn *The Times* ar 3 Mai yn condemnio `the major religious institutions of Britain' am fynegi ar ran yr Eglwys `judgements which are quite beyond their competence to make.' Y mae'n dyfynnu Cyngor Eglwysi Prydain, Yr Eglwys Fethodistaidd ac Undeb Bedyddwyr Prydain fel enghreifftiau o hyn. `The bodies holding these opinions are made up of mere newspaper readers...It is a pervasive and peculiar conceit that persuades executives and assemblies and councils that they have something to say on the detail of political and diplomatic processes.' Dadleuai mai mewn perthynas â materion

---

1. *The Pope Teaches: The Pope in Britain - the complete texts*, CTS, 1982, tud. 170.

moesol a diwinyddol yn unig yr oedd gan eglwysi hawl i ymyrryd, ac felly na ddylent ymyrryd mewn materion diplomataidd a gwleidyddol. Yn anffodus, nid yw'r llinell rhwng yr agweddau hyn o sefyllfa megis rhyfel y Malfinas fyth mor eglur ag a dybiai Longley. Ar y llaw arall, 'roedd mudiadau Cristnogol ac arweinwyr eglwysig eu hunain yn credu'n gryf ei bod yn gyfrifoldeb Cristnogol ar yr eglwysi i fynegi barn ddeallus a chyfrifol ar faterion a oedd yn ymwneud â bywyd y genedl. Holodd Esgob John Robinson, er enghraifft, `Has the voice of prophecy really departed from the land? Is there no troubler in Israel prepared to confront the statements of each side...especially since they both claim to lead Christian countries.'[1] Fel y gwelwyd, byddai'r un anniddigrwydd yn dod i'r amlwg yn nhrafodaethau'r Cyngor Heddwch ym 1987, a hynny'n tarddu'n bennaf o'r tyndra rhwng dealltwriaeth o Gristnogaeth sy'n bennaf yn gorfforedig neu'n bennaf unigolyddol. 'Roedd gwahanol draddodiadau oddi fewn i'r Cyngor yn dal gwahanol agweddau at y tyndra hwn a hyn oedd yn rhannol gyfrifol am betruster rhai (yn bennaf, yr Eglwys Gatholig Rufeinig) ynglŷn â datganiadau ar faterion cyhoeddus, yn fwyaf arbennig gan gyrff ecwmenaidd. Nid yw her ddiwinyddol y tyndra hwn wedi diflannu eto.

**Moesoldeb y rhyfel**

Yn ail, bu cryn drafodaeth ynglŷn â moesoldeb y rhyfel hwn. Credai rhai ei fod yn rhyfel cyfiawn. Mewn datganiad ar 28 Ebrill dyfynnodd y Cardinal Hume, Archesgob Westminster, adroddiad Ail Gyngor y Fatican ar `Yr Eglwys yn y Byd Cyfoes':

> `As long as the danger of war persists and there is no international authority with the necessary competence and power, governments cannot be denied the right to lawful self-defence, once all peaceful efforts have failed.'[2]

Ar sail egwyddorion traddodiadol rhyfel cyfiawn (gweler tud. 338 uchod) daw i'r

--------------------

1. Llythyr i *The Guardian* ar 3 Mai 1982.

2. *The Church in the Modern World*, adroddiad Ail Gyngor y Fatican, tud. 79.

casgliad fod y rhyfel hwn yn cyfarfod â'r gofynion:

> `Unilateral annexation [of the Falkland Islands] by armed invasion breaches international law and ignores the rights and...wishes of the inhabitants...Such action is unacceptable both legally and morally...Faced with aggression it is not morally wrong to resist or to reassert rights with a measured degree of force.'[1]

Ond mynnai hefyd nad oedd yn ddigonol i Gristion orffwys ar ddadl felly: `We should be active in such areas as educational programmes for peace, in work for the abolition of the arms trade and in extending between countries a greater flow of cultural exchanges particularly between young people.'

Yr un oedd safbwynt Archesgob Caergaint mewn datganiad ar 2 Mai: `...within the complexities of an imperfect world, self-defence and the use of armed force in the defence of clear principles can sometimes be justified.' Fodd bynnag, 'roedd Cynhadledd Lambeth o Esgobion Anglicanaidd ym 1948, 1958, 1968 a 1978 wedi datgan: `War as a method of settling international disputes is incompatible with the teaching of our Lord Jesus Christ'- dyfyniad bron air am air o adroddiad Cymanfa gyntaf Cyngor Eglwysi'r Byd [gweler tud. 330]. Mewn argyfwng moesol o'r fath 'roedd gan John Habgood, Archesgob Caer Efrog, air yn ei bryd:

> `Christian people may sometimes find themselves regretfully drawn into war and accept it as part of the penalty of living in a sinful world...But we must be careful not to glorify the fighting itself, or see it as anything other than evidence of human failure.'[2]

Mewn papur a gyflwynwyd i Gymanfa Cyngor Eglwysi Prydain yn Nhachwedd 1982 y mae Roger Williamson, un o ysgrifenyddion Adran Materion Rhyngwladol y Cyngor, yn ceisio dadansoddi cyfiawnhad moesol y rhyfel yn wyneb yr egwyddorion traddodiadol. Tra bo rhai o'r egwyddorion wedi'u cyflawni (megis, awdurdod y

--------------------

1. *Statement of Moral Issues in the Falklands Crisis*, 28 Ebrill 1982.
2. Llythyr i *The Times*, 30 Ebrill 1982.

llywodraethau, datganiad swyddogol o ryfel, sicrwydd go dda o lwyddiant, osgoi clwyfo neu ladd y boblogaeth sifil ac, efallai, fod y dulliau'n gymesur â'r achos). Barnai, fodd bynnag, ei bod yn llawer mwy anodd i ddod i benderfyniad ar faterion megis achos cyfiawn, mynd i ryfel wedi disbyddu pob posibilrwydd arall, a chymesuredd drygioni a dinistr y rhyfel o'u cymharu â'r anghyfiawnder a'i hachosodd. 'Roedd nifer o gynrychiolwyr yr enwadau yng Nghymru a oeddynt yn foddlon derbyn egwyddor foesol 'rhyfel cyfiawn' yn rhannu'r amheuon a'r ansicrwydd hwn mewn perthynas â rhyfel y Malfinas ond yn tueddu i feddwl y gellid cyfiawnhau gweithred llywodraeth Prydain ar y cyfan, tra'n glynu at y gred fod pob rhyfel yn arwydd o fethiant dynol.

Ar yr un pryd, wrth gwrs, 'roedd llawer o'r enwadau, yn fwyaf arbennig yr enwadau anghydffurfiol Cymraeg, yn cymryd safbwynt heddychol ar y rhyfel hwn fel ar bob rhyfel, fel y dengys eu penderfyniadau. Ac er mai cynrychiolwyr y traddodiad hwn a oedd yn tueddu bod yn y mwyafrif yn y Cyngor, 'roedd y tyndra rhwng y ddau safbwynt yn un anodd a phoenus. Ni wnaed llawer yn ystod y blynyddoedd dilynol i gyrraedd consensws ar y mater. Bu'n rhaid i gyfarfod cyntaf Cyngor Cytûn, yn Nhachwedd 1990, ddod i farn ar Ryfel y Culfor a oedd yn cael ei ymladd ar y pryd a lluoedd Prydain ynghanol y gyflafan. Cyflwynwyd drafft o benderfyniad i'r Cyngor ar sail cryn ymgynghori â'r enwadau a'u harweinwyr, penderfyniad a oedd yn dilyn trywydd moesol cyffelyb i'r un a dderbyniwyd ar 29 Ebrill 1982. Ond ni chafodd ei dderbyn. Y prif reswm dros hyn oedd fod y lleisiau o blaid yr egwyddor foesol o ryfel cyfiawn wedi cynyddu yn y corff newydd. Y canlyniad oedd cyfaddawd gwan a chyffredinol. Beirniadwyd Cytûn yn enbyd gan rai am safiad mor aneffeithiol a chrewyd rhagfarn ymhlith rhai na allai Cytûn fyth fod yn broffwydol mewn materion cyhoeddus o'r fath os oedd yn mynnu gwneud tegwch â safbwynt yr holl enwadau ac eglwysi a oeddynt yn aelodau ohono. Y gwir, fodd bynnag, yw fod gwahaniaeth barn rhwng y gwahanol enwadau ac eglwysi ar bwnc rhyfel a heddwch. Yn wir, y mae lle i gredu fod llawn cymaint o wahaniaeth barn ar

y materion hyn oddi fewn i'r enwadau hwythau. Fel y sylwodd Cyngor Heddwch 1987, y mae cryn bellter ar brydiau rhwng barn swyddogol enwad - hyd yn oed enwad heddychol ei safbwynt - ac aelodau mewn cynulleidfaoedd lleol. Y mae angen diwinydda ac addysgu oddi fewn i'r enwadau a rhyngddynt a'i gilydd cyn y ceir unfrydedd ar foesoldeb rhyfel.

Yn drydydd, gwelwyd bod angen rhoi sylw arbennig i nifer o faterion rhyngwladol a ddaeth i'r amlwg o ganlyniad i'r rhyfel hwn. Pan gyfarfu Pwyllgor Materion Cenedlaethol a Rhyng-genedlaethol y Cyngor ar 26 Gorffennaf 1982 i ystyried y cais am gynnal cynhadledd genedlaethol (na chynhaliwyd yn y diwedd) cytunwyd mai'r pwnc canolog oedd Sicrhau Heddwch Byd-eang, ac y dylid ystyried materion megis effeithiolrwydd y Cenhedloedd Unedig yn wyneb ei fethiant yn ystod rhyfel y Malfinas, sofraniaeth mewn byd niwclear a'r angen am gymod rhwng Prydain a'r Ariannin.[1] Pan gyfarfu grŵp i drafod rhai o'r materion hyn, nodwyd mai un o'r cwestiynau allweddol - nid lleiaf yng Nghymru - oedd y berthynas briodol rhwng gwladgarwch a chydberthynas ryngwladol, a pherthynas gwledydd Prydain ac Iwerddon â'i gilydd. 'Roedd Cyngor Eglwysi Prydain yn gweld yr angen am ystyriaeth newydd o'r fasnach arfau (yn wyneb amwysedd tybiedig polisi llywodraeth Prydain a oedd wedi gwerthu arfau i'r Ariannin) a goblygiadau parodrwydd i fynd i ryfel dros hawl ynyswyr y Malfinas i benderfynu eu tynged eu hunain mewn perthynas â thrigolion tiriogaethau eraill (megis, Hong Kong) sydd hefyd yn awyddus i fynnu eu hawliau.

**Cymru a'r Ariannin**

Yn bedwerydd, tra'n dal i gondemnio'r Ariannin am feddiannu'r Ynysoedd trwy ddulliau milwrol, bu'r rhyfel yn fodd i ddyfnhau dealltwriaeth o safbwynt trigolion yr

---

1. Cofnodion Pwyllgor Materion Cenedlaethol a Rhyng-genedlaethol y Cyngor, 26 Gorffennaf 1982.

Ariannin, gan gynnwys Cristnogion y wlad. 'Roedd yr ymateb a ddanfonwyd gan Gyngor Ymgynghorol Eglwysi'r Ariannin ar 28 Gorffennaf yn un arbennig o ddadlennol. Y mae'n dra beirniadol o lywodraeth a chymdeithas y wlad. Chwalwyd sefydliadau democrataidd gan gyfres o lywodraethau militaraidd *de facto*. Gwadwyd iawnderau dynol. Bellach rhaid oedd adolygu ac ailadeiladu. `In this process Christians of all confessional families must participate without reserve as a sign of our fidelity to Jesus Christ and our love for the people to which we belong.'[1] Ar waethaf hyn, y maent yn gwbl gefnogol i hawl yr Ariannin ar y Malfinas: `...we shall continue supporting our present or future leaders in their efforts to achieve the recovery of the territory which belongs to us historically and geographically.' Cadarnhawyd yr ymdeimlad dwfn hwn gan yr Athro Jose Miguez Bonino, un o lywyddion Cyngor Eglwysi'r Byd a diwinydd blaenllaw yn yr Ariannin, pan ymwelodd â Phrydain rhwng 29 Mai a 1 Mehefin 1982. Credai ef fod rhan o hunanymwybyddiaeth yr Ariannin ynghlwm wrth yr ynysoedd. `This is an old deeply felt claim, They are part of the integrity of Argentina.'[2] Ymhellach mynegir amheuon fod y cynghrair Gorllewinol a Christnogol (yn eu geiriau hwy) a fu'n ymladd yn Ne'r Iwerydd yn arwydd o argyfwng dwfn gwledydd y Gorllewin, `...which conserves very little Christianity and very much of a materialistic and imperialistic spirit...(and betrays) a much deeper crisis of values.' Daethant yn ymwybodol hefyd o solidariaeth pobloedd America Ladin â phobl yr Ariannin a oedd yn peri i bobl yr Ariannin ailddarganfod eu hunaniaeth. Galwyd ar Gristnogion ymuno yn yr achos mawr hwn `...which may mark the beginning of a fuller and more genuine independence for our peoples and justice for their oppressed classes...' I lawer o Gristnogion Cymraeg yng Nghymru, 'roedd y rhain yn wersi cymharol rwydd i'w dysgu. 'Roedd sefydlu'r Wladfa ym Mhatagonia wedi creu perthynas agos iawn rhwng Cymru a'r

---

1. Datganiad gan Gyngor Ymgynghorol Eglwysi'r Ariannin, 6 Gorffennaf 1982.

2. *The Aftermath of the Falklands Crisis*, adroddiad i Gymanfa Cyngor Eglwysi Prydain, Tachwedd 1982, Atodiad III.

Ariannin; 'roedd nifer o bobl a oedd bellach yng Nghymru naill ai wedi byw yn y Wladfa neu â theuluoedd neu gyfeillion yno. Bu'r dolenni crefyddol a diwylliannol yn rhai agos iawn. Creodd hyn oll gryn gydymdeimlad, yn arbennig ymhlith yr enwadau anghydffurfiol Cymraeg. Nodwyd eisoes neges Esgob Pagura yn hysbysu'r Cyngor fod y cynulleidfaoedd Gymraeg yn y Wladfa wedi gwerthfawrogi'r neges a ddanfonwyd at Gyngor Ymgynghorol Eglwysi'r Ariannin.

Dymunwyd adeiladu ar sylfaen y cydymdeimlad a'r ddealltwriaeth ddyfnach, drwy geisio meithrin perthynas newydd rhwng eglwysi'r ddwy wlad a'i gilydd. Eisoes mynegwyd hyn yn y neges a ddanfonwyd at y Cyngor Ymgynghorol ddechrau Mai. Pan gyfarfu Pwyllgor Canolog Cyngor Eglwysi'r Byd yng Ngenefa yng Ngorffennaf 1982 cynhaliwyd cyfarfod anffurfiol rhwng cynrychiolwyr o'r Ariannin, Prydain ac Iwerddon a rhannodd Ysgrifennydd Cyngor Eglwysi Cymru yn y cyfarfod. Cydnabyddwyd y bu methiant i ddefnyddio'r gydberthynas ecwmenaidd `to counsel together to help avoid the present conflict and to promote a deeper understanding of the issues involved.'[1] Credwyd ei bod o'r pwysigrwydd mwyaf fod trafodaethau'n parhau rhwng Cristnogion Prydain a'r Ariannin, gan y gallent gynorthwyo cymod rhwng y ddwy wlad a darganfod ateb cyfiawn a heddychol i'r sefyllfa. Yn y neges a gyhoeddwyd gan Gyngor Ymgynghorol Eglwysi'r Ariannin ar 6 Gorffennaf gwerthfawrogwyd y ffaith fod sianeli gweddi a chyfathrebu wedi dal ar agor drwy gydol yr argyfwng a holwyd tybed a oedd yr amser wedi dod `...for our confession of faith as disciples of Jesus Christ to include the rejection of the contemporary idols (of the arms race and the monster of war) which threaten humanity with destruction.'[2] Mynegwyd yr un awydd mewn cyfarchion Nadolig a dderbyniwyd gan Gyngor Eglwysi Cymru, yn ogystal â Chynghorau eraill ac enwadau ym Mhrydain:

--------------------

1. ibid., Atodiad VIII.
2. Neges Cyngor Ymgynghorol Eglwysi'r Ariannin, 6 Gorffennaf 1982, tud. 3.

> `...Yn awr, ni allwn ond gofyn i chwi mewn cariad, am i ni barhau i fod mewn cyswllt â'r sawl sydd â'r hawl i wneud penderfyniadau, gan geisio dylanwadu arnynt, fel, gyda chymorth Duw, y bydd yn bosibl datrys y gwahaniaethau sydd rhwng ein cenhedloedd mewn modd cyfiawn ac anrhydeddus.'[1]

Yng Ngorffennaf 1985 bu Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Eglwysi Cymru ar ymweliad â Buenos Aires fel aelod o ddirprwyaeth o dri pherson o Gyngor Eglwysi Prydain. Cafwyd cyfle i ymweld ag arweinwyr yr enwadau Protestannaidd a'r Eglwys Gatholig Rufeinig, yn ogystal â'r Coleg Diwinyddol Cydeglwysig a mudiadau iawnderau dynol yn y brifddinas, gyda'r bwriad penodol o drafod sut orau i ailadeiladu perthynas rhwng eglwysi ac enwadau Prydain a'r Ariannin.

Ffrwyth y mudiad ecwmenaidd byd-eang oedd y camau hyn ond y mae lle i amau a fuont mor effeithiol ag y dylent fod. Yng ngeiriau Roger Williamson, `...How can the ecumenical fellowship be maintained and improved so that we are not restricted to exchanges of points of view in wartime, but are able through the ecumenical movement to make a genuine contribution to peace, conflict, prevention and resolution?'[2]

**Peryglon gorfoleddu mewn buddugoliaeth**

Yn olaf, ymdeimlwyd â pheryglon gorfoleddu ym `muddugoliaeth' lluoedd Prydain a'r ymelwa gwleidyddol a'i dilynodd. John Habgood oedd un o'r arweinwyr eglwysig cyntaf i rybuddio rhag y perygl hyn: `The danger is...that the scent of victory distorts perceptions. A subtle process begins whereby putting the `Great' back into Britain becomes an unacknowledged war aim.'[3] Yn ei hunangofiant y mae Dennis Healey, fel y gellid disgwyl efallai, yn gwneud pwynt cyffelyb:

---

1. Cyfieithiad Cymraeg o'r neges, dyddiedig 8 Rhagfyr 1982.
2. *The Aftermath of the Falklands Crisis,* Tachwedd 1982, tud. 17.
3. Llythyr i *The Times*, 30 Ebrill 1982.

> `...Mrs. Thatcher exploited the victory of our forces in the Falklands to create the feeling, both at home and abroad, that Britain was great again. We have ceased to be a nation in retreat...We have instead a new-found confidence - born in the economic battles at home and tested and found true eight thousand miles away'[1]

Daeth yn fwyaf amlwg yn ystod y paratoadau ar gyfer gwasanaeth yng Nghadeirlan Sant Pawl i gofio diwedd y rhyfel. Gwrthododd Deon Sant Paul ac Archesgob Caergaint i gydsynio â chais y Prif Weinidog i `lawenhau' yn y fuddugoliaeth. Bu'r safiad hwn yn achos cryn feirniadaeth. Ar un adeg, 'roedd awgrym y dylid adrodd Gweddi'r Arglwydd mewn Sbaeneg yn ystod y gwasanaeth, fel arwydd o gymod. Pan benderfynwyd peidio â gwneud hyn ymddangosodd adroddiad yn *The Sun*: The disgraceful plan for the Lord's Prayer to be said in Spanish was, thankfully, dumped.' Fodd bynnag, gweddïwyd dros deuluoedd y rhai a laddwyd o Brydain a'r Ariannin, a thros filwyr y ddwy wlad a glwyfwyd. Yn ei bregeth, tanlinellwyd hyn gan Archesgob Caergaint: `In our prayers we shall quite rightly remember those who are bereaved in our own country and the relations of the young Argentinian soldiers who were killed. Common sorrow could do something to reunite those who were engaged in this struggle. A shared anguish can be a bridge of reconciliation. Our neighbours are indeed like us.'[2] Aeth ymlaen i ddweud: [God] is able to deepen and enlarge our compassion and to purify our thanksgiving...talk of peace and reconciliation is just fanciful and theoretical unless we are prepared to undergo such a revolution.'[3] Edmygwyd y safiad hwn gan lawer yn eglwysi Cymru ar y pryd, ar adeg pan oedd gorfoleddu mewn buddugoliaeth mewn perygl o gau ein llygiad i erchylltra rhyfel a'u bris mewn bywydau i'r naill ochr a'r llall.

**RHYFEL A HEDDWCH: DIWEDDGLO**

Y mae'r arolwg hwn o ymwneud y Cyngor â chwestiwn diarfogi niwclear a rhyfel

--------------------

1. *The Time of my Life*, gan Dennis Healey, Penguin, 1990, tud. 494.
2. Robert Runcie, gan Adrian Hastings, Mowbray, 1991, tud. 185.
3. ibid., tud. 186.

Ynysoedd y Malfinas yn ein galluogi i ddod i rai casgliadau cyffredinol.

Yn gyntaf, tra ymdrechwyd i osod sylfaen ddiwinyddol i safiad y Cyngor ar ddiarfogi niwclear, pragmataidd ar y cyfan oedd yr ymateb i ryfel y Malfinas. Fel y gwelwyd, craidd y ddiwinyddiaeth honno oedd athrawiaeth y creu a'r athrawiaeth am Crist. Ychydig o ymdrech a wnaed i ystyried y dystiolaeth Feiblaidd mewn perthynas â'r materion hyn. Efallai bod yr amwysedd yn y dystiolaeth honno yn cyfrannu at y methiant hwn, er bod achos cryf dros ddadlau nad oes unrhyw amwysedd yn nysgeidiaeth Iesu ei hun. Y mae'n wir dweud hefyd, tra bu cryn drafod ynglŷn â pherthnasedd yr athrawiaeth am ryfel cyfiawn ni roddwyd ystyriaeth fanwl i fynegiant Tomas Acwin ac eraill o'r athrawiaeth hon - o leiaf, os yw tystiolaeth ddogfennol i'w derbyn. Trafodaeth ar sail ffynonellau eilradd ydoedd, ar y cyfan. Ac ni ddaethpwyd i unfrydedd barn ychwaith ar berthnasedd athrawiaeth rhyfel cyfiawn naill ai i ryfel confensiynol (megis rhyfel y Malfinas) neu i ryfel niwclear. Byddai'r sawl a gredai fod yr athrawiaeth yn dal i fod yn berthnasol yn ei chael yn haws dadlau'r achos hwnnw mewn perthynas â rhyfel confensiynol ond yn cydnabod fod perygl bob amser yn y sefyllfa gyfoes fod rhyfel o'r fath yn datblygu i fod yn rhyfel niwclear, ac na ellid cymhwyso'r athrawiaeth i gyfiawnhau'r grymusterau erchyll a fyddai'n weithredol mewn sefyllfa felly. Wrth gwrs, y mae'r drafodaeth hon yn gyfangwbl ddamcaniaethol a rhwystredig i'r sawl - efallai y mwyafrif ymhlith cynrychiolwyr enwadau Cymru ar y Cyngor - sy'n proffesu safbwynt heddychol ar sail dysgeidiaeth Iesu. Iddynt hwy, nid oes unrhyw gyfiawnhad o dan unrhyw amodau i ryfel. Y mae lle i gredu fod y llais hwn yn gryfach ymhlith eglwysi Cymru nag ydyw yng ngwledydd eraill Prydain ac Iwerddon. Ond ni lwyddwyd hyd yn hyn i ddod i unfrydedd diwinyddol a moesol ar gwestiwn rhyfel. Dyma un o'r ychydig bynciau ym maes yr eglwys a chymdeithas lle na ddatblygwyd consensws o ganlyniad i'r bartneriaeth ecwmenaidd gynyddol dros yr hanner canrif ddiwethaf. Y mae angen diwinydda pellach, a hynny yng nghyd-destun patrwm gwleidyddol byd-eang newydd, diwinydda sy'n ystyried perthnasedd hen athrawiaethau diwinyddol i

sefyllfa newydd ac yn ceisio cymhwyso'r efengyl ar gyfer bygythion yr unfed ganrif ar hugain.

Yn ail, pennaf gyfraniad y Cyngor yn y maes hwn oedd hybu astudiaeth o bwnc rhyfel a heddwch a chytuno datganiadau a oedd yn anelu at fynegi barn yr enwadau yng Nghymru. Nid oedd yn anelu at fod yn fudiad ymgyrchol. Fel y gwelwyd, llwyddodd i ddwyn at ei gilydd nifer o arbenigwyr yn y meysydd hyn, yn bennaf o'r Brifysgol, a chynrychiola *Cleddyfau yn Sychau*, yn fwyaf arbennig, ffrwyth y llafur hwn. Y tristwch yw na chafodd yr astudiaethau hyn - fwy nag astudiaethau mewn meysydd eraill - y dylanwad a ddymunid. Ond yr astudiaethau hyn oedd cryfder y Cyngor. 'Roedd llawer yn dymuno i'r Cyngor fod yn fudiad ymgyrchol, yn cynnig arweiniad i'r eglwysi, yn fwyaf arbennig yn lleol, mewn perthynas â rhyfel, heddwch a diarfogi. Ar un olwg, cynnig adnoddau ar gyfer hynny oedd amcan *Cleddyfau yn Sychau* a Chyngor Heddwch 1987. Yn y naill a'r llall, 'roedd adnoddau gwerthfawr ar gael gan y Cyngor i alluogi eglwysi a Christnogion unigol i ddeall y materion o dan sylw yn well ac i weithredu arnynt yn fwy effeithiol. Ond ni ddymunai'r Cyngor, ac yn sicr, ni fedrai'r Cyngor gyda'i adnoddau ariannol a phersonol prin, ymgyrchu yn y maes hwn. Achosodd hyn gryn rwystredigaeth i nifer oddi fewn i'r Cyngor ac i arweinwyr mudiadau eraill a oedd yn awyddus i gael cydweithrediad y Cyngor mewn ymgyrchoedd arbennig. Bu'n rhaid boddloni ar gynnig cefnogaeth gyffredinol yn unig i geisiadau o'r fath.

Yn drydydd, yn y maes hwn, fel mewn meysydd eraill, pwyswyd yn drwm ar y bartneriaeth rhwng cyrff ecwmenaidd a'i gilydd, yn fwyaf arbennig Cyngor Eglwysi Prydain a Chyngor Eglwysi'r Byd. 'Roedd gan y ddau Gyngor hwnnw arbenigwyr llawn amser yn canolbwyntio ar faterion rhyngwladol a gwnaed defnydd helaeth o'u gwaith. Ni allai Cyngor Eglwysi Cymru fod wedi gweithredu'n wahanol, heb gynnydd sylweddol yn yr adnoddau a oedd at ei ddefnydd. Y mae lle i ddadlau ai da neu ddrwg yw'r gyd-ddibyniaeth hon. Ond yn y maes arbennig hwn, lle y mae

cydberthynas gwledydd a llywodraethau â'i gilydd yn elfen mor bwysig, nid oes amheuaeth fod eglwysi Cymru wedi elwa'n fawr o gael bod yn rhan o'r bartneriaeth ehangach. Drosodd a thro, ehangwyd gorwelion ein deall a'n gweddi drwy'r berthynas a adeiladwyd rhyngom a Christnogion mewn gwledydd eraill. Y mae'r mudiad ecwmenaidd ar ei orau pan y mae perthynas rhwng gwledydd a'i gilydd yn y fantol. Y mae cwestiwn Roger Williamson yn dal yn hynod berthnasol wrth inni ymdrin â materion rhyngwladol mor dyngedfennol â rhyfel a heddwch: Sut y gall ein cymdeithas ecwmenaidd â'n gilydd gael ei chynnal a'i dyfnhau...fel y gallwn, drwy'r mudiad ecwmenaidd, gyfrannu'n wirioneddol at heddwch y byd a datrys anghydfod rhwng gwledydd? Gallai traddodiad heddychol cryf nifer o enwadau Cymru wneud cyfraniad pwysig i'r bartneriaeth ecwmenaidd hon.

## CASGLIADAU

Y mae'r traethawd hwn wedi canolbwyntio ar ddwy ffrwd ym mywyd a gwaith Cyngor Eglwysi Cymru, sef, yn gyntaf, meithrin perthynas ac undeb ac, yn ail, tystiolaeth Gristnogol yng Nghymru ac yn fyd-eang. Bu ffrydiau eraill yn ogystal, megis cenhadaeth ac efengylu a Chymorth Cristnogol, yn ganolog i hanes ecwmenaidd diweddar Cymru, wrth gwrs, ond dengys stori'r ddwy ffrwd hon fod y mudiad ecwmenaidd yng Nghymru - fel y bu yn fyd-eang - yn fwy na'r ymgais am undeb Cristnogol ac yn fwy na fframwaith ar gyfer cydweithio mewn tystiolaeth Gristnogol. Yn y bôn, y mae curiad calon y mudiad ecwmenaidd ym mherthynas y ddwy ffrwd â'i gilydd. Gall cyd-dystiolaethu gryfhau undod a gall dyfnhau undod hyrwyddo'r dystiolaeth. Bu'r Cyngor yn gatalydd i'r proses hwn yng Nghymru, ond nid yng Nghymru'n unig. Un o gyfraniadau pennaf y Cyngor, fel un offeryn bychan yn y mudiad ecwmenaidd, fu codi golygon Cristnogion Cymru i ganfod cyffro a her yr Eglwys fyd-eang. Felly, wrth gloriannu hanes y Cyngor rhaid inni wneud hynny o berspectif Cymreig a byd-eang.

### Y CYNGOR A'R EGLWYSI

Dengys y traethawd hwn fod ymagwedd yr enwadau tuag at y Cyngor wedi amrywio'n fawr o enwad i enwad ac o bwnc i bwnc. Er enghraifft, ysgogwyd y trafodaethau am gyfamodi tuag at undeb gan y Cyngor ei hun, o ganlyniad i Gynhadledd Ffydd a Threfn Nottingham ym 1964, ond perchnogwyd y gweithgarwch hyn gan yr eglwysi a buont yn fwy na pharod i ymddiried i'r Cyngor gyfrifoldeb am hyrwyddo'r trafodaethau. Yn yr un modd, bu'r Cyngor yn fodd sicrhau partneriaeth yr eglwysi a'r enwadau â'i gilydd yn ystod yr anghydfod yn y maes glo. Eu partneriaeth drwy'r Cyngor oedd y ffactor bennaf yn effeithiolrwydd yr ymgyrch honno. Mewn sefyllfaoedd fel hyn, gellid gweld y Cyngor fel corff a oedd yn cynrychioli'r enwadau.

Ar y llaw arall, mewn meysydd megis hunanlywodraeth i Gymru ac ymgyrchu yn

erbyn *apartheid* yn Ne'r Affrig, 'roedd y Cyngor yn cynrychioli safbwynt rhai o'r enwadau ond yn cymryd safiad annerbyniol gan enwadau eraill. I raddau, felly, 'roedd y Cyngor yn arloesydd, yn cynnig arweiniad i'r eglwysi a thrwy raglenni astudiaeth, gweithgarwch ac addoli, yn ceisio cael gan yr enwadau a'r eglwysi lleol goleddu safbwynt y Cyngor.

'Roedd ymateb yr enwadau i'r Cyngor yn dibynnu i raddau ar 'statws' a chyfrifoldeb cynrychiolwyr yr enwadau ar y Cyngor. 'Roedd rhai enwadau'n sicrhau fod eu prif swyddogion ymhlith y cynrychiolwyr bob amser ac yr oeddent hwy'n medru sicrhau fod safbwynt y Cyngor yn cael ei ystyried pan oedd materion arbennig yn cael eu trafod gan yr enwad. Bryd arall, penodwyd cynrychiolwyr a oedd â diddordeb arbennig yn y mudiad ecwmenaidd ond nad oedd ganddynt 'statws' na chyfrifoldeb arbennig oddi fewn i'w henwad. Yn y naill achos a'r llall, 'roedd perygl fod cynrychiolwyr yn methu gweld fod cymaint o gyfrifoldeb arnynt hwy eu hunain ag ar y Cyngor fel y cyfryw i sicrhau cyfathrebu effeithiol ac ystyriaeth gyfrifol yn eu henwadau o faterion a gawsai flaenoriaeth gan y Cyngor.

Ond i'r Cyngor, hefyd, y mae priodoli'n bennaf y cyd-ddealltwriaeth a'r cydweithio sydd wedi tyfu i fod yn elfen mor naturiol o fywyd yr enwadau a'r cynulleidfaoedd lleol. O bryd i'w gilydd, y mae'n anhepgor fod gwahaniaethau barn yn creu tyndra ond nid ydynt yn aml yn gwahanu enwadau ac eglwysi oddi wrth ei gilydd. Bu gan y Cyngor le amlwg yn y proses hwn o fagu cyfeillgarwch naturiol ac ymddiriedaeth ymhlith Cristnogion Cymru.

Ffactor arall ym mherthynas y Cyngor a'r eglwysi fu cyfathrebu. O bryd i'w gilydd, wrth gwrs, llwyddwyd i gyfathrebu'n dra effeithiol. Yr enghraifft glasurol oedd ymwneud y Cyngor a'r enwadau yn yr anghydfod yn y maes glo, pan roddwyd sylw i'r farn eglwysig bron yn ddyddiol. 'Roedd nifer o resymau am hyn. Yn gyntaf, 'roedd y Cyngor a'r enwadau yn mynegi safbwynt Cristnogol ar faterion a oedd o'r

pwys a'r diddordeb mwyaf i'r cyhoedd. Yn ail, 'roedd yr holl enwadau, yn bennaf trwy eu prif swyddogion a'u harweinwyr, yn rhannu'n llawn yn y gweithgarwch ac - o bryd i'w gilydd - yn cyhoeddi datganiadau ar y cyd. Yn drydydd, 'roedd effeithiolrwydd yr ymgyrch arbennig hon yn dibynnu ar barodrwydd swyddogion y Cyngor (ac eraill) i neilltuo'r rhan fwyaf o'u hamser yn ystod y cyfnod hwnnw i drefnu'r gweithgarwch a hyrwyddo cyfathrebu.

Gan amlaf, nid oedd gan y Cyngor adnoddau digonol i roi'r fath flaenoriaeth i gyfathrebu. 'Roedd rhesymau eraill hefyd dros fethu cyfathrebu'n effeithiol. Yn aml, cyflawnwyd gwaith da mewn maes arbennig heb ofyn sut orau i gyflwyno'r gwaith yn fwyaf effeithiol. Ni fu'r enwadau ychwaith yn sianelau i hyrwyddo gwybodaeth am waith y Cyngor ymhlith eu heglwysi; 'roedd gwybodaeth yn cyrraedd prif swyddfeydd heb gael ei ledaenu ymhellach.

'Roedd anawsterau ariannol yn wynebu'r Cyngor drwy gydol y blynyddoedd. O'r cychwyn cyntaf, 'roedd nifer o arweinwyr y Cyngor yn awyddus i sicrhau swyddog cyflogedig i hyrwyddo datblygiadau ecwmenaidd yng Nghymru, ond methwyd â gwneud hynny am ugain mlynedd oherwydd diffyg arian.

Gellir priodoli'r anawsterau hyn i nifer o ffactorau. Yn gyntaf, y mae parodrwydd i gyfrannu'n ariannol at gorff cydeglwysig yn fesur o ymrwymiad ecwmenaidd eglwys neu enwad. Dim ond gydag ymrwymiad dyfnach y deuai cyfrannu mwy digonol. Bu ymrwymiad newydd yr enwadau i'w gilydd drwy Cytûn yn drobwynt ariannol i'r mudiad ecwmenaidd yng Nghymru.

Yr ail reswm dros yr anawsterau ariannol oedd y tyndra rhwng y ddealltwriaeth o'r Cyngor fel mudiad heriol, radical, hyderus a chyffrous, a'r Cyngor fel sefydliad eglwysig a chenedlaethol. Yn y blynyddoedd cynnar, 'roedd y Cyngor yn gorff heriol a radical, yn dibynnu ar weledigaeth, ymroddiad ac egni rhai o'i arweinwyr a'i

weision arloesol. 'Roedd yr enwadau'n cyfrannu'n ariannol at y gwaith, ond nid oedd y gofynion ariannol yn drwm, ac ni fynnent ychwaith gynyddu eu cyfraniadau.

Ond pan benodwyd ysgrifennydd llawn amser, gyda swyddfa yn Abertawe a chymorth ysgrifenyddol, newidiodd ansawdd y Cyngor. Aeth yn sefydliad eglwysig. Aeth y materion a gawsai flaenoriaeth gan y Cyngor yn flaenoriaethau i'r enwadau hefyd a neilltuwyd mwy a mwy o amser ac adnoddau enwadau i faterion ecwmenaidd. 'Roedd y broses hon wedi bod ar waith cyn 1977, ond penodiad 1977 oedd y trobwynt allweddol. O'r pryd hwnnw ymlaen, 'roedd gan yr enwadau gyfrifoldeb penodol am gynnal sefydliad ecwmenaidd gyda'i staff cyflogedig a'i swyddfa. O bryd i'w gilydd, bu hyn yn straen ond nid oedd dianc rhag yr ymrwymiad.

Ffactor arall, wrth gwrs, oedd nad Cyngor Eglwysi Cymru oedd yr unig gorff cyd-eglwysig a oedd yn gofyn am gefnogaeth. 'Roedd rhai o'r enwadau yn perthyn hefyd i Gyngor Eglwysi Prydain, Cynhadledd Eglwysi Ewrop a Chyngor Eglwysi'r Byd, yn ogystal â chyrff enwadol byd-eang, a phob un ohonynt yn gofyn am gefnogaeth ariannol drwy gyfraniadau blynyddol a thrwy fynychu cyfarfodydd. 'Roedd pris i'w dalu am y newid a ddigwyddodd yn y mudiad ecwmenaidd, yng Nghymru ac yn fyd-eang, o fod yn ymylol i fywyd a gwaith yr enwadau i fod yn ganolog iddynt ac nid ar chwarae bach y daethpwyd o hyd i'r adnoddau ariannol i dalu'r pris hwnnw.

**Y CYNGOR AC UNDEB CRISTNOGOL**

Blaenoriaeth uchaf yr arloeswyr a oedd yn bennaf gyfrifol am sefydlu'r Cyngor oedd sicrhau offeryn a fedrai hyrwyddo 'adundeb' yr eglwysi. Yn y 50au a'r 60au 'roedd y cylchgronnau enwadol ac ecwmenaidd yn llawn erthyglau yn annog symudiadau tuag at undeb Cristnogol ac yn ystyried ei briodoldeb. 'Roedd yr ar-

loeswyr hyn yn hyderus fod Duw yn galw'i bobl i undeb a bod y Cyngor yn gyfrwng i'w hyrwyddo yng Nghymru.

Bu'r Cyngor yn dra effeithiol yn y blynyddoedd cynnar, yn canolbwyntio sylw ac egni ar nod undeb, yn fwyaf arbennig yn sgil cynadleddau Caerfyrddin a Nottingham. 'Y Cyfamod tuag at Undeb' oedd ffrwyth y gweithgarwch hwn. Yn ystod yr un cyfnod gwelwyd trafodaethau 'Tuag at Uno' rhwng y pedwar enwad a'r ymddiddanion rhwng yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Fethodistaidd. Drwy gydol y cyfnod dan sylw yn y traethawd hwn parhaodd yr ymdrechion i hyrwyddo'r Cyfamod - nid lleiaf drwy'r Cyngor ei hun. Ond er fod y cyd-ddeall a'r cydweithio rhwng yr Eglwysi Cyfamodol wedi cynyddu, yn genedlaethol a lleol, nid oes argoelion am 'undeb gweledig' rhyngddynt yn y dyfodol agos. Yn y cyfnod diweddar, cychwynwyd ymddiddanion newydd rhwng yr Eglwysi Rhyddion yng Nghymru gydag golwg ar Un Eglwys Rydd Gymreig a bu trafodaethau hefyd rhwng yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Fethodistaidd.

Hynny yw, wedi cyfnod pan nad oedd undeb Cristnogol yn uchel iawn ar agenda'r enwadau cymerodd le blaenllaw unwaith eto. Yn sicr, y mae'r hinsawdd cydeglwysig yn dra gwahanol yn y 90au o'i gymharu â'r 50au a'r 60au. Ond odid fod y nod wedi newid hefyd. Y mae lle i gredu nad yw'r mwyafrif yn yr enwadau'n meddwl yn nhermau un gyfundrefn eglwysig weledig mwyach ond yn nhermau patrwm 'ffederal' a fyddai'n galluogi eglwysi i gydnabod ei gilydd a chydnabod a chyfnewid gweinidogion ac aelodau, a thrwy hynny fyw fel un eglwys neu enwad tra'n cadw'u hunaniaeth eu hunain. Ac er bod hon yn weledigaeth tra gwahanol i eiddo'r arloeswyr cynnar, gwnaeth y Cyngor gyfraniad pwysig tuag at gadw gweledigaeth undeb Cristnogol gerbron yr eglwysi, hyrwyddo ystyriaeth gyson o'r pynciau anodd yr oedd yn rhaid eu hwynebu a magu ffyddlondeb wrth geisio undeb llawnach.

Bu'r bartneriaeth ddyfnach â'r Eglwys Gatholig Rufeinig - yn arbennig yn ystod

degwad olaf y Cyngor - yn ffactor bwysig yn y newid hwn. Bu'r bartneriaeth hon yn destun llawenydd i'r mwyafrif a oedd ynglŷn â Chyngor Eglwysi Cymru. Ar y naill law, rhoddodd fin newydd i'r ymgais am undeb Cristnogol, sy'n uchel iawn ym mlaenoriaethau'r Eglwys Gatholig Rufeinig. Ar y llaw arall, y mae'r bartneriaeth newydd hon wedi codi cwestiynau newydd a sylfaenol am natur yr Eglwys a'i gweinidogaeth, ac am gynnwys y ffydd. Y mae'n deg nodi hefyd fod yr Eglwys Gatholig Rufeinig wedi cymell enwadau eraill i gymryd camau tuag at undeb llawnach â'i gilydd na allai hi eu cymryd. Ond yn ddi-os, y mae presenoldeb yr Eglwys Babyddol yn y bartneriaeth gydeglwysig wedi gwneud gwahaniaeth sylfaenol. Bron y gellid dweud fod yr ymgais am undeb yn gorfod bod ar wastad hollol wahanol a'i bod, o angenrheidrwydd, yn arafach ac anos. Bu'r Cyngor yn allweddol yn hyrwyddo'r bartneriaeth ond yn llai effeithiol yn hyrwyddo ystyriaeth o'r cwestiynau a godwyd yn ei sgil.

Dichon fod angen yn awr am weledigaeth ehangach o undeb Cristnogol nag a goleddwyd yng Nghymru yn ystod y cyfnod diweddar, gweledigaeth sy'n cyfuno'r ymgais am undeb yr eglwysi a'r ymgais am undod, cymod a chyfiawnder i bersonau, cymdeithas, cenedl a dynolryw. Yn ôl Michael Taylor, '...here...lies the real genius of the ecumenical movement...to unite a divided church, to make one a divided world, to make the many into a whole, to draw together into communities what is separate and apart'.[1] Dichon mai drwy ddatblygu gweledigaeth o undeb Cristnogol sy'n seiliedig ar y cyfanrwydd hwn y gellir darganfod her a chyffro'r alwad ecwmenaidd i Gristnogion Cymru'r unfed ganrif ar hugain.

## Y CYNGOR A'R BYWYD CYHOEDDUS

Y mae hanes y Cyngor yn datgelu tyndra rhwng Cristnogaeth gorfforedig a Christnogaeth unigolyddol. Gan amlaf, mynegir y tyndra hwn, oddi fewn i'r eglwysi ac yn y

1. Michael Taylor, *Not Angels but Agencies*, CEB, 1995, tud. 167

cyfryngau, ar ffurf cwestiwn: Pa hawl sydd gan yr eglwysi i ymyrryd mewn gwleidyddiaeth? Tarddodd llawer o'r feirniadaeth ar y Cyngor ymhlith pobl a anghytunai â safbwynt arbennig a gymerodd, gan amlaf mewn perthynas â'r bywyd cyhoeddus yng Nghymru neu'n fyd-eang. Y mae hanes ymwneud y Cyngor â De'r Affrig, er enghraifft, a'i gefnogaeth i'r Rhaglen i Wrthweithio Hilyddiaeth, yn datgelu'r tyndra hwn mewn ffordd ddramatig. Drwy gydol ei hanes 'roedd gan Gyngor Eglwysi Cymru hefyd ymrwymiad i sefyll dros gyfiawnder yng Nghymru ac ar draws y byd. Yn wir, y materion dadleuol hyn a roddai hygrededd i'r Eglwys ym marn pobl a oedd y tu allan iddi. Credai'r Cyngor fod tystiolaeth Gristnogol ar faterion cyhoeddus yn elfen ganolog mewn efengylu.

**Y CYNGOR A DIWINYDDA YNG NGHYMRU**

Awgrymir cwestiwn arall gan y traethawd hwn: i ba raddau y llwyddodd y Cyngor i hyrwyddo diwinydda cydenwadol yng Nghymru? Y mae enghreifftiau nodedig yn dod i'r amlwg yn hanes y Cyngor. 'Roedd lle amlwg i ddiwinyddiaeth yr eglwysi yn y trafodaethau mewn perthynas â chyfamodi tuag at undeb yng Nghymru. Gwnaeth y traethodau ar natur yr Eglwys, y weinidogaeth, yr offeiriadaeth, a'r sacramentau gyfraniad pwysig i gyd-ddealltwriaeth diwinyddol o draddodiadau'r eglwysi. Yn yr un modd, bu'r gwahoddiad i ymateb i adroddiad Cyngor Eglwysi'r Byd, *Baptism, Eucharist and Ministry* yn gyfle unigryw i ddiwinydda uwchben rhai o bynciau sylfaenol y ffydd Gristnogol.

Mewn maes cwbl wahanol, gwnaeth y Pwyllgor Diwydiant gyfraniad nodedig yn ceisio ystyried arwyddocâd diwinyddol y byd diwydiannol a'r newidiadau tyngedfennol a ddigwyddodd i bersonau a chymunedau. 'Roedd *Towards a Contemporary Theology of Work* yn gyfraniad unigryw yng Nghymru yn y maes hwn a chynnyrch gweithgarwch oddi fewn i Gyngor Eglwysi Cymru ydoedd. Yn yr un modd, 'roedd *Cleddyfau yn Sychau* a Chyngor Heddwch Wrecsam ym 1987, yn ymdrechion i gloriannu'r deunydd diwinyddol ac i ddod i farn gytûn ar un o faterion mwyaf

tyngedfennol y ganrif hon.

Ond i ba raddau y cafodd y diwinydda hyn ddylanwad ar ddiwinyddiaeth yr enwadau? Er enghraifft, 'roedd derbyniad *(reception)* yn agwedd hollbwysig o'r broses *Bedydd, Ewcharist a Gweinidogaeth*. Cafwyd tystiolaeth ym mhennod 4 fod hyn wedi digwydd yma ac acw, ond na newidiodd safbwyntiau swyddogol y rhan fwyaf o enwadau Cymru yng ngoleuni eu hymateb i'r adroddiad byd-eang.

Y mae rhai'n dadlau nad yw Cristnogion nac enwadau Cymru diwedd yr ugeinfed ganrif yn cymryd diwinyddiaeth o ddifrif, yn enwedig o'i gymharu â chyfnod y dadleuon diwinyddol ffyrnig yn y gorffennol. Gallai hyn fod yn gyfrifol am unrhyw fethiant ar ran y Cyngor i hyrwyddo diwinydda cydenwadol yng Nghymru. Gall fod nifer o ffactorau ar waith mewn proses fel hon: dihidrwydd ynglŷn â diwinyddiaeth fel y cyfryw, neu (yn waeth) dihidrwydd am natur a chynnwys y ffydd Gristnogol, neu ddiffyg crebwyll diwinyddol ymhlith arweinwyr Cristnogol yng Nghymru. Un o gyfraniadau'r mudiad ecwmenaidd cyfoes yw ysgogi ystyriaeth o'r modd y mae gweithgarwch Cristnogol, diwinyddiaeth gyfoes a datblygiadau Cymreig a byd-eang yn herio'r traddodiad, yn taflu goleuni newydd arno ac yn ein cymell i adnewyddu'r traddodiad ar gyfer cyfnod newydd. Y mae'r traethawd hwn yn dangos fod y deunydd crai ar gyfer y proses hwn eisoes ym meddiant yr eglwysi. Yr her yn awr yw ymgymryd â'r dasg hon.

Ymhellach, i ba raddau y llwyddodd y Cyngor i hyrwyddo trafodaethau ar faterion diwinyddol dadleuol sydd wedi rhannu'r enwadau? Cyffyrddwyd â rhai o'r materion hyn eisoes, gan fod traethodau'r cyfamod a'r ymatebion i *Bedydd, Ewcharist a Gweinidogaeth* wedi wynebu'r union gwestiynau hyn, megis natur yr eglwys, natur a chydnabod gweinidogaeth, ystyr y sacramentau a chyd-gymuno. 'Roedd derbyn y Cyfamod gan rai enwadau ym 1974 yn arwydd eu bod wedi dynesu at ei gilydd i ryw raddau mewn perthynas â'r pynciau dadleuol hyn. Ond fel y gwelwyd ni

chafwyd trafodaethau sylweddol ar rai o'r pynciau sylfaenol eraill sy'n rhannu Cristnogion, megis perthynas y Beibl a'r traddodiad fel ffynonellau awdurdod yn yr Eglwys, lle Mair, mam Iesu, yn nhrefn y cadw, ac ystyr cyfiawnhâd trwy ffydd.

**DYLANWAD Y CYNGOR**

Erys y cwestiwn sylfaenol, Pa ddylanwad a gafodd y Cyngor? Bu rhai o'r dylanwadau pennaf yn rhai nodedig iawn. Bu cyhoeddi'r Beibl Cymraeg Newydd a ysgogwyd drwy Gyngor Eglwysi Cymru, yn un o ddigwyddiadau hanesyddol y ganrif hon. Bu ffurfio Cymorth Rhyng-eglwysig a Gwasanaeth i Ffoaduriaid (sef, Cymorth Cristnogol erbyn hyn) a'i ddatblygiad yn ystod mwy na hanner canrif o'i hanes yn un o'r dylanwadau ecwmenaidd allweddol yng Nghymru. Fel y gwelwyd, drwy gydweithio dros Gymorth Cristnogol y dechreuodd ecwmeniaeth leol mewn llawer ardal yng Nghymru a pharhaodd i fod yn un o'r offerynnau mwyaf effeithiol i feithrin partneriaeth eglwysi â'i gilydd, a'u hymwybyddiaeth o bartneriaeth â chyd-Gristnogion ar draws y byd. Y mae'r rhain yn enghreifftiau o'r modd y bu i'r Cyngor ysgogi gweithgarwch ecwmenaidd yng Nghymru a ddatblygodd, gydag amser, i fod yn hunangynhaliol tra'n trysori'r cyswllt agos â gweithgarwch ecwmenaidd yng Nghymru drwy'r Cyngor.

Y mae lle i gredu na fyddai rhai cynlluniau a datblygiadau wedi digwydd o gwbl onibai am weledigaeth rhai arloeswyr cynnar yn y Cyngor. Dwy enghraifft nodedig o hyn oedd y cynadleddau a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin ym 1963 a 1970. O'r naill tarddodd y trafodaethau a arweiniodd at y Cyfamod tuag at Undeb, astudiaethau ecwmenaidd o addoliad a litwrgi, ac ysgogi arborfion a chynlluniau ecwmenaidd lleol. O'r llall tarddodd y cydweithio cynyddol ym maes cyfrifoldeb cymdeithasol yng Nghymru ac yn fyd-eang, yn benodol drwy sefydlu'r Adran Eglwys a Chymdeithas a roddodd i enwadau Cymru fforwm ar gyfer astudiaeth a gweithgarwch yn y maes hwn am y tro cyntaf.

Un agwedd bwysig o'r gweithgarwch hwn, a ragflaenodd ddatblygu'r Adran Eglwys a Chymdeithas, oedd y dystiolaeth mewn diwydiant. Drwy gydol y blynyddoedd bu'r Cyngor yn fodd hyrwyddo'r gweithgarwch creadigol a blaengar hwn, drwy geisio meithrin ymwybyddiaeth o'r materion hyn ymhlith Cristnogion a chefnogi caplaniaethau diwydiannol. Bu'r profiad hwn yn allweddol i ymdrechion y Cyngor i weithio dros gymod yn ystod yr anghydfod yn y maes glo.

Cafodd y Cyngor ddylanwad hefyd ar berthynas Cristnogion Cymraeg a Saesneg eu hiaith oddi fewn i'r enwadau. Yn y blynyddoedd cynnar, yn bennaf oherwydd diffyg adnoddau, Saesneg oedd prif gyfrwng gweinyddiad a chyfarfodydd y Cyngor. Pan gynyddodd yr ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr iaith yn ystod y 60au cynyddodd y defnydd o'r Gymraeg yn y Cyngor. Erbyn y 70au 'roedd holl brif gyhoeddiadau'r Cyngor, megis cofnodion ac adroddiadau (gan gynnwys pob adroddiad mewn perthynas â chyfamodi tuag at undeb) yn ddwyieithog. Erbyn yr 80au 'roedd cyfarfodydd y Cyngor ei hun yn cael eu cynnal yn ddwyieithog drwy gyfrwng offer cyfieithu ar y pryd. Bu'r datblygiadau hyn yn fodd meithrin cydymdeimlad ac ymddiriedaeth rhwng cynrychiolwyr Cymraeg a Saesneg eu hiaith ar y Cyngor. Bu hyn yn ei dro yn gyfraniad at feithrin cefnogaeth barod i'r iaith Gymraeg a'i buddiannau ymhlith holl eglwysi ac enwadau Cymru.

**Y CYNGOR A'R MUDIAD ECWMENAIDD BYD-EANG**

Dengys y traethawd hwn mai sefydlu Cyngor Eglwysi'r Byd yn Amsterdam ym 1948 oedd un o'r cymhellion pennaf - efallai'n wir y cymhelliad pennaf oll - dros sefydlu Cyngor Eglwysi Cymru ym 1956. Bu'r Gymanfa gyntaf hon yn arwydd, dair blynedd ar ôl yr Ail Ryfel Byd, fod cymod rhwng Cristnogion yn bosibl, hyd yn oed wedi cyflafan mor erchyll yn Ewrop.

Ar hyd blynyddoedd ei hanes - ac yn ystod y blynyddoedd cynnar yn fwyaf arbennig - cafodd cynadleddau byd-eang ddylanwad creiddiol ar ddigwyddiadau ecwme-

naidd Cymru. Y mae enwi'r cynadleddau hyn bron yn ddigon: Ail Gymanfa Cyngor Eglwysi'r Byd, Evanston, 1954; Y Drydedd Gymanfa yn Delhi Newydd, 1961; Cynhadledd Ffydd a Threfn Montreal, 1963 (a arweiniodd at gynhadledd Brydeinig Nottingham 1964); Cynhadledd Eglwys a Chymdeithas, Genefa, 1966 (a oedd yn sylfaen Cynhadledd Caerfyrddin bedair mlynedd yn ddiweddarach); Pedwaredd Cymanfa Uppsala, 1968 (a welwyd fel cyfle i adnewyddu'r weledigaeth a'r ymrwymiad ecwmenaidd yng Nghymru drwy gyfrwng y llyfryn, *Uppsala a Chymru*.) Bu cynrychiolwyr o Gymru'n bresennol yn y rhan fwyaf o'r cynadleddau hyn ac mewn cynadleddau a chymanfaoedd dilynol.

Ond ni fyddai'r rhain wedi cael y dylanwad a gawsant onibai fod arloeswyr ecwmenaidd cynnar Cymru wedi rhannu gweledigaeth y cynadleddau hyn ac wedi ymroi i wreiddio'r weledigaeth fyd-eang gyffrous yn naear Cymru, ei diwylliant, ei chyflwr cymdeithasol a'i bywyd Cristnogol. Gellid dadlau mai gweledigaeth yr arloeswyr hyn oedd yr allwedd a lwyddodd i ddatgloi'r datblygiadau ecwmenaidd a ddaeth yn rhan naturiol o fywyd yr eglwysi a'r enwadau ym mlynyddoedd olaf y Cyngor.

Pan ddaeth Cyngor Eglwysi Cymru yn Gyngor Cysylltiedig â Chyngor Eglwysi'r Byd ym 1982 fe'i gwelwyd fel mynegiant o ymrwymiad y Cyngor i'r mudiad byd-eang a hynny bellach drwy berthynas uniongyrchol ac nid drwy Gyngor Eglwysi Prydain fel cynt.

Rhaid cydnabod, wrth gwrs, fod gan Gyngor Eglwysi Prydain le pwysig yn hanes ecwmenaidd Cymru. Bu tri o enwadau cynhenid Gymreig Cymru, sef, yr Eglwys yng Nghymru, Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn aelodau o Gyngor Eglwysi Prydain ers blynyddoedd cynnar ei fodolaeth. Bu'r enwadau Prydeinig yr oedd ganddynt eglwysi yng Nghymru yn aelodau ohono hefyd, wrth gwrs. O ganlyniad bu'n fodd i hyrwyddo'r ymwybyddiaeth ecwme-

naidd yng Nghymru yn y blynyddoedd rhwng 1942 (pan sefydlwyd Cyngor Eglwysi Prydain) a 1956. Ond, yn negyddol, un rheswm dros sefydlu Cyngor Eglwysi Cymru oedd ymdeimlad ymhlith llawer nad oedd Cyngor Eglwysi Prydain yn medru cynrychioli buddiannau Cymru'n effeithiol (er enghraifft, mewn perthynas â hy-rwyddo ecwmeniaeth leol a meithrin ymwybyddiaeth o'r mudiad ecwmenaidd ehangach, yn fwyaf arbennig drwy gyfrwng y Gymraeg.) Wrth i'r ymwybyddiaeth genedlaethol dyfu yng Nghymru tyfodd yr awydd hefyd i gryfhau Cyngor Eglwysi Cymru fel corff ecwmenaidd cenedlaethol a oedd yn weinyddol annibynnol ar Gyngor Eglwysi Prydain ond a oedd hefyd yn parhau i gydweithio ar faterion cyf-fredin, gyda chefnogaeth ysgrifenyddion cyffredinol megis Harry O. Morton a Philip Morgan (a oedd ei hunan o dras Cymreig ac wedi gweinidogaethu yng Nghymru.) Yn gadarnhaol, rhaid cydnabod na fyddai Cyngor Eglwysi Cymru wedi bod mor effeithiol ag y bu mewn llawer maes onibai am gymorth parod a phroffesiynol rhai o swyddogion arbenigol Cyngor Eglwysi Prydain a fu'n barod iawn eu cymorth gyda materion megis hybu ecwmeniaeth leol a hyrwyddo ymwneud y Cyngor â materion rhyngwladol.

Yn ystod y blynyddoedd, bu cryn fynd a dod rhyngwladol. Er enghraifft, bu Philip Potter ac Emilio Castro ar ymweliad â Chymru ar ran Cyngor Eglwysi'r Byd. Bu aelodaeth G.O Williams (1968 - 75), Meirion Lloyd Davies (1975 - 83) a Carol Abel (1983 - 91) o Bwyllgor Canolog Cyngor Eglwysi'r Byd yn ddolen bwysig iawn. Derbyniwyd dirprwyiaethau o'r Undeb Sofietaidd a Tseina, yn ogystal ag ymwelia-dau gan unigolion o wledydd eraill, megis Desmond Tutu (1986). Bu Noel Davies, yn ystod ei gyfnod fel ysgrifennydd cyffredinol, ar ymweliad ag India a Sri Lanka (1981), Tseina a Hong Kong (1983), Ariannin (1985), a De'r Affrig a Lesotho (1986), yn ogystal â mynychu nifer o brif gyfarfodydd Cyngor Eglwysi'r Byd. Drwy'r cyfnewid hwn magwyd ymwybyddiaeth ddyfnach o bartneriaeth yr eglwysi â'i gilydd oddi fewn i'r un mudiad ecwmenaidd byd-eang.

## ADEILADU'R TY

Mewn myfyrdod grymus ar ddelweddau Beiblaidd y tŷ *(oikos)* a'r ddaear neu'r ddynoliaeth gyfan *(oikoumene)*, meddai Philip Potter:

> It is this image and understanding of the living house which has motivated the ecumenical movement...(It is) the means by which the churches which form the house, the *oikos* of God, are seeking so to live and witness before all the peoples that the whole *oikoumene* may become the *oikos* of God...[1]

Fel y gwelwyd, bu tuedd yng Nghymru i feddwl am y mudiad ecwmenaidd yn nhermau undeb eglwysig yn unig, a'i farnu ar sail ymagweddau gwahanol at yr undeb hwnnw. Y mae'r delweddau sy'n darddiad y gair 'ecwmenaidd' yn dangos fod hon yn ddealltwriaeth rhy gyfyng. Nid dwy agwedd ar wahân yw'r ymgais am undeb Cristnogol a thystiolaeth yr eglwysi i gymod, cyfiawnder a heddwch, ond yn hytrach elfennau o'r un ymdrech ecwmenaidd. Cyfrwng a fu Cyngor Eglwysi Cymru i adeiladu'r tŷ hwn yng Nghymru. Ar hyd y blynyddoedd bu'n rhaid ei ehangu a'i addasu. Erbyn 1990 teimlwyd fod yn rhaid ei ailadeiladu. Ond yr amcan drwy'r cyfnod hwn oedd ei wneud yn adeilad mwy hylaw ac addas ar gyfer aelodau'r teulu Cristnogol yng Nghymru ac yn arwydd mwy effeithiol o'r cymod a'r undod a'r adnewyddiad sydd yn bosibl i genedl y Cymry drwy'r Efengyl.

Ymgais a fu'r traethawd hwn i groniclo hanes y tŷ hwn, ei lwyddiant a'i fethiant. Adroddwyd y stori yn y gred fod Cyngor Eglwysi Cymru wedi bod yn gyfrwng adnewyddiad, drwy'r Ysbryd Glân, nid yn unig yn yr eglwysi ond, ar ei orau, mewn cymunedau lleol ac yn y genedl, a hynny, yng ngeiriau sylfaen y Cyngor, 'er gogoniant Duw, Dad, Mab ac Ysbryd Glân'.

---

1. *Gathered for Life: The Official Report of the Sixth Assembly of the World Council of Churches*, Gol. David Gill, CEB, 1983, tud. 193

ATODIAD I: Prif Swyddogion Cyngor Eglwysi Cymru

| | | |
|---|---|---|
| 1956 - 58: | Llywydd: | Esgob Tŷ Ddewi |
| | Islywyddion: | E. Whitford Roberts |
| | | J. R. Evans |
| | Cyd-ysgrifenyddion: | E. Curig Davies |
| | | W. R. Williams |

1958 - 60: Llywydd: J. R. Evans
(Nid oes cofnod o enwau islywyddion)
Parhaodd y ddau ysgrifennydd am ail gyfnod o ddwy flynedd.

| | | |
|---|---|---|
| 1960 - 62: | Llywydd: | W. R. Williams |
| | Islywyddion: | Eryl S. Thomas |
| | | Whitford Roberts |
| | Cydysgrifenyddion: | W. Ungoed Jacob |
| | | E. Curig Davies |
| 1962 - 64: | Llywydd: | W. R. Williams (am ail gyfnod) |
| | Islywyddion: | Whitford Roberts |
| | | E. Curig Davies |

Nodyn: Bu farw'r Prifathro W. R. Williams yn ystod ei ail dymor ac etholwyd Whitford Roberts yn Llywydd am weddill y cyfnod a G. O. Williams yn Islywydd.

| | | |
|---|---|---|
| | Cydysgrifenyddion: | W. Ungoed Jacob |
| | | M. J. Williams |
| 1964 - 66: | Llywydd: | G. O. Williams |
| | Islywyddion: | E. Curig Davies |
| | | W. J. Roberts |
| | Cydysgrifenyddion: | M. J. Williams |
| | | Gwilym H. Jones |
| 1966 - 68: | Llywydd: | G. O. Williams (am ail gyfnod) |
| | Islywyddion: | Huw Wynne Griffith |
| | | M. J. Williams |
| | Ysgrifennydd: | Dafydd H. Owen (am flwyddyn) |
| | | Erastus Jones (o 1967, am bum mlynedd) |

Nodyn: O hyn ymlaen penodwyd un islywydd yn flynyddol, i wasanaethu am gyfnodau o ddwy flynedd, er mwyn sicrhau parhad ymhlith y swyddogion.

| | | |
|---|---|---|
| 1968 - 70: | Llywydd: | Huw Wynne Griffith |
| | Islywyddion: | M. J. Williams (am flwyddyn arall) |
| | | W. Ungoed Jacob |
| 1970 - 72: | Llywydd: | Huw Wynne Griffith |
| | Islywyddion: | W. Ungoed Jacob (am flwyddyn arall) |
| | | Alun Francis |

| | | |
|---|---|---|
| 1971: | Llywydd: | W. Ungoed Jacob |
| | Islywyddion: | Alun Francis (am flwyddyn arall) |
| | | Emrys Jones |

Nodyn: Yn ystod 1972 penodwyd Meirion Lloyd Davies yn Ysgrifennydd Cyffredinol am gyfnod o bum mlynedd.

| | | |
|---|---|---|
| 1973: | Llywydd: | W. Ungoed Jacob |
| | Islywyddion: | W. George Evans |
| | | Emrys Jones (am flwyddyn arall) |
| 1974: | Islywydd: | Glyn Parry Jones |
| 1975: | Llywydd: | W. Ungoed Jacob (am flwyddyn arall) |
| | Islywyddion: | W. George Evans (ailethol) |
| | | Glyn Parry Jones (ailethol) |
| 1976: | Llywydd: | W. George Evans |
| | Islywyddion: | Glyn Parry Jones |
| | | B. N. Y. Vaughan |

Nodyn: Ym 1977 penodwyd Noel A. Davies yn Ysgrifennydd Cyngor Eglwysi Cymru a Chomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol am gyfnod cyntaf o saith mlynedd.

| | | |
|---|---|---|
| 1978: | Llywydd: | Glyn Parry Jones |
| | Islywyddion: | B. N. Y. Vaughan |
| | | Iorwerth Jones |

Nodyn: Ymddiswyddodd Glyn Parry Jones yn Ebrill 1980 ar gyfrif afiechyd (bu farw ym 1983), a phenodwyd B. N. Y. Vaughan yn Llywydd am weddill y cyfnod; byddai Iowerth Jones yn parhau'n islywydd am flwyddyn arall a phenodwyd Hugh Rowlands yn islywydd am gyfnod o ddwy flynedd.

| | | |
|---|---|---|
| 1982: | Llywydd: | Iorwerth Jones |
| | Islywyddion: | Meirion Lloyd Davies |
| | | Iorwerth Thomas |
| 1984: | Llywydd: | Mervyn Woodman |
| | Islywyddion: | Iorwerth Thomas |
| | | W. O. Thomas |
| 1986: | Llywydd: | John I. Morgans |
| | Islywyddion: | Erastus Jones |
| | | Irene Williams |
| 1988: | Llywydd: | John I. Morgans (ailethol) |
| | Islywyddion: | Irene Williams |
| | | Dafydd H. Owen |

ATODIAD II: Crynodeb o raglen waith y Grŵp Astudio Litwrgi

Sefydlwyd y Grŵp ym 1965, yn ganlyniad uniongyrchol i Gynhadledd Ffydd a Threfn, Cyngor Eglwysi Prydain, Nottingham 1964. Gwahoddwyd pob enwad a oedd yn aelod llawn o'r Cyngor i benodi tri chynrychiolydd. Yn ogystal gwahodd-wyd yr Eglwys Gatholig Rufeinig a Chymdeithas Grefyddol y Cyfeillion i benodi cynrychiolwyr - cam arbennig o bwysig mor fuan ar ôl Ail Gyngor y Fatican. Yn y cyfarfod cyntaf, penodwyd W. Ungoed Jacob yn Gadeirydd a pharhaodd tan Rhagfyr 1976 pan benodwyd Noel A. Davies yn Gadeirydd. Parhaodd yntau yn y swydd nes i'r Grŵp gael ei olynu gan Grŵp Undod mewn Gweddi ym 1981. E. Stanley John oedd yr Ysgrifennydd am y cyfnod cyntaf ffurfiannol. O'r cychwyn gwelai'r grŵp mai ei amcan pennaf oedd astudio egwyddorion a phatrymau addoliad enwadau ac eglwysi Cymru. Gellir crynhoi ei brif weithgareddau dan dri phenawd.

Yn gyntaf, yn ystod y blynyddoedd cyntaf canolbwyntiwyd ar egwyddorion cyffre-dinol addoliad yr enwadau a'r eglwysi. Ym 1971 cyhoeddwyd cyfres o'r papurau mewn llyfr hollbwysig, 'Eiddot ti yw'r gogoniant' [*Thine is the glory*]. Yn ôl cadeir-ydd y grŵp 'roedd hwn yn cynrychioli 'years of pioneering work'. Yn ogystal â phenodau ar addoliad a litwrgi, y mae'n cynnwys dadansoddiad o addoliad y Sul yn y gwahanol draddodiadau yng Nghymru, astudiaeth ar elfennau addoliad, a pheno-dau ar Swper yr Arglwydd, Bedydd, Y Flwyddyn Eglwysig, ac Addoli yng Nghymru Yfory. Yng Nghymru diwedd y chwedegau 'roedd hwn yn gyhoeddiad blaengar a phwysig.

Yr ail elfen o'r rhaglen waith oedd astudiaethau arbennig ar y sacramentau. Ca-nolbwyntiwyd ar ddwy brif sacrament bedydd a'r ewcharist. Paratowyd papurau ar agweddau arbennig o'r pynciau hyn a golygwyd y rhain gan aelodau'r grŵp gyda golwg ar gyhoeddi llyfryn arall. Ond ni ddigwyddodd hynny. Yn hytrach fe'i had-daswyd drwy lunio datganiad ar y ddau sacrament, gyda chyflwyniad ar ystyr

sacrament mewn addoliad. Ystyriwyd cyhoeddi dogfen drafod hefyd ar y sacramentau i ddangos y cynnydd mewn cyd-ddealltwriaeth a fu rhwng yr eglwysi a'r enwadau. Ond ni chyhoeddwyd naill ai'r ddogfen na'r datganiadau yn y diwedd. 'Roedd hyn yn drueni mawr gan eu bod yn cynrychioli gwaith creiddiol. Fodd bynnag, cyfrannodd y gweithgarwch hwn at gyd-ddealltwriaeth yr eglwysi mewn ffyrdd eraill. Defnyddiwyd y gwaith hwn fel sail ymdrechion Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru i grynhoi ystyr a threfn y sacramentau a llunio trefn cymundeb. Y mae ôl y cyd-ddeall hwn hefyd ar ymatebion yr enwadau i *Baptism, Eucharist and Ministry*.

Yn olaf, cyflawnodd y grŵp nifer o dasgau amrywiol ar ran y Cyngor, megis llunio trefn oedfa ar gyfer oedfaon unedig lleol (a fu ar y gweill am ryw bedair blynedd). Astudiwyd dogfen Cyngor Eglwysi'r Byd *Towards One Baptism, One Eucharist and a Mutually Recognised Ministry*, un o raglfaenwyr *Baptism, Eucharist and Ministry*. Ystyriwyd datganiad pwysig Mainc Esgobion Yr Eglwys yng Nghymru (1975) ar gyd-gymuno a dechreuwyd ystyried egwyddorion addoliad teuluol a phatrymau arbrofol, a gweinidogaeth i'r afiach.

Nid yw gofod wedi caniatáu ystyriaeth drwyadl o'r materion hyn. Dichon fod y crynodeb hwn yn dangos fod y grŵp hwn wedi gwneud cyfraniad allweddol i broses adeiladu ar ddatganiadau cadarnhaol ond cyffredinol Nottingham ac agor y ffordd i'r cydgyfeiriad cynyddol a ddigwyddodd yn ystod y chwarter canrif ddiwethaf mewn perthynas â diwinyddiaeth a phatrymau addoli.

# LLYFRYDDIAETH

Yn y rhestri sy'n dilyn defnyddir y talfyriadau canlynol:

CEC: Cyngor Eglwysi Cymru
CEP: Cyngor Eglwysi Prydain
CEB: Cyngor Eglwysi'r Byd
CTS: Catholic Truth Society
CUP: Cambridge University Press
OUP: Oxford University Press

## 1. LLYFRAU


A History of the Ecumenical Movement, Cyfrol I, 1517-1948, Rouse a Neill (Goln), CEB, Trydydd Argraffiad, 1986.

A History of the Ecumenical Movement, Cyfrol II, 1948-1968, Fey, Harold E. (Gol),CEB, Ail Argraffiad, 1986.

Abrecht, Paul, The Churches and Rapid Social Change, Doubleday New York, 1961.

Ariarajah, I.S. Wesley, Did I betray the Gospel?, CEB, 1996.

Ariarajah, I.S. Wesley, Gospel and Culture, CEB, 1994.

Autton, Norman, Gweini i'r rhai sy'n marw, CEC, 1979

Ballard, Paul H., (Gol), Towards a Contemporary Theology of Work, Cardiff Collegiate Centre for Theology, 1982

Ballard, Paul H. a Jones, D. Huw, (Goln), This Land and People, Cardiff Collegiate Centre for Theology, 1979.

Barth, Karl, The Church and the Churches, London, 1936.

Bell, George, Christian Unity: The Anglican Position, Cyfrolau I - III, Hodder and Stoughton, 1948.

Bell, George, Documents on Christian Unity, 1920-1930, Pedair Cyfrol, OUP, 1928 - 50.

Bell, George, The Kingship of Christ: The Story of the World Council of Churches, CEB, 1954.

Best, Thomas E., (Gol), Beyond Unity-in-Tension, CEB, 1988.

Best, Thomas E., (Gol), Built Together, adroddiad o chweched ymgynghoriad i eglwysi unedig ac eglwysi yn uno, CEB, 1996.

Best, Thomas E., (Gol), Instruments of Unity. National Councils of Churches within the One Ecumenical Movement, CEB, 1988.

Best, Thomas E. (Gol), Living Today Towards Visible Unity, Report of the Fifth Consultation for United and Uniting Churches, CEB, 1988.

Best, Thomas E. a Gassman, Gunther, (Goln), On the way to a fuller koinonia, Adroddiad Swyddogol, Pumed Cynhadledd Ffydd a Threfn 1993, CEB, 1994.

Best, Thomas E. a Granberg-Michaelson, (Goln), Costly Obedience: Koinonia and Justice, peace and the integrity of creation, CEB, 1993.

Best, Thomas E. a Robra, Martin, (Goln), Costly Obedience, CEB, 1997.

Bethge, Eberhard, Deitrich Bonhoeffer: A Biography, Fount, reprinted 1985.

Bethge, Eberhard, Friendship and Resistance: Essays on Dietrich Bonhoeffer, CEB, 1995.

Bevan, R.J.W., (Gol), The Churches and Christian Unity, London, 1963.

Blatherwick, David, Adventures in Unity, CEP, 1974.

Boesak, Allan, Black and Reformed: Apartheid, liberation and the Calvinist tradition, Skotaville, 1984.

Boesak, Allan, Walking on thorns: The call to Christian obedience, CEB, 1984.

Bosch, David, Transforming Mission, Orbis Books, 1992.

Bria, Ion a Heller, Dagmar (Goln), Ecumenical Pilgrims, CEB, 1995.
Butler, David, Dying to be one, English Ecumenism: History, Theology and the Future, SCM Press, 1996
Carden, John, (Gol), With All God's People: The Ecumenical Prayer Cycle, CEB, 1990.
Cashmore, Gwen a Puls, Joan, Every Bush is Burning, CEB, 1985.
Castro, Emilio, A Passion for Unity, CEB, 1992.
Castro, Emilio, Sent Free, CEB, 1985.
Catechism of the Catholic Church, Geoffrey Chapman, 1994.
Chadwick, Owen, Michael Ramsey: A Life, OUP, 1990.
Contemporary Wales: An Annual Review of Economic and Social Research, Cyfrolau I - II, Gwasg Prifysgol Cymru, 1987 - 1989.
Conway, Martin, Unity - Why not yet?, Cyngor Eglwysi Prydain, 1980.
Crow, Paul A., Jnr. a Gassman, Günther, Lausanne 1927 to Santiago de Compostela 1993, CEB, 1993.
David, Kenith A., Sacrament and Struggle, CEB, 1994.
Davies, John, Hanes Cymru, Penguin Books, 1990.
Davies, Noel A., Wales: Language, Nation, Faith and Witness, CEB, 1996.
Davies, Rupert E., Methodists and Unity, Epworth Press, 1962.
Davies, Rupert E., Unity Begins at Home, A report of the first British conference on faith and order, Nottingham 1964, SCM Press, 1964.
de Gruchy, John W., Bonhoeffer and South Africa: Theology in dialogue, Eerdmans, 1984.
de Gruchy, John W., The Church Struggle in South Africa, SPCK, 1979.
Dunn, James D.G., Unity and Diversity in the New Testament, Ail Argraffiad, SCM Press, 1990.
Edwards, David L., The British Churches Turn to the Future, SCM Press, 1973.
Ellingsen, Mark, How Churches Speak on Social Issues, CEB, 1993.
Evans, G.F., The Church and the Churches, CUP, 1994.
Evans, Owen E. (Gol), Gwarchod y Gair, Gwasg Gee, 1993.
Flesseman-van Leer, Ellen, (Gol), The Bible: Its authority and interpretation in the ecumenical movement, Papur Ffydd a Threfn Rhif. 99, CEB, 1983.
Forrester, Duncan, The True Church and Morality, CEB, 1996.
Fung, Raymond, The Isaiah Vision, CEB, 1992.
Gassman, Gunther, (Gol), Documentary History of Faith and Order 1963-1993, CEB, 1993.

Gill, David, (Gol), Gathered for Life, The Official Report of the Sixth Assembly of the WCC, Vancouver 1983, CEB, 1983.
Gill, Robin, A Textbook of Christian Ethics, T. and T. Clark, 1993.
Goodall, Norman, The Ecumenical Movement, OUP, 1961.
Goosen, Gideon, Bringing churches together: An introduction to ecumenism, Dwyer, 1993.
Habgood, John, Confessions of a Conservative Liberal, SPCK, 1988.
Harling, Per, (Gol), Worshipping Ecumenically, CEB, 1995.
Hastings, Adrian, A History of English Christianity, 1920-1985, Fount, 1987.
Hastings, Adrian, Robert Runcie, Mowbray, 1991.
Healey, Denis, The Time of My Life, Penguin Books, 1990.
Hopkins, C. Howard, John R. Mott, 1865-1955, CEB, 1979.
Howells, Ron, A tale of two grandmothers: Memoirs of an ecumenist, Gwasg John Penri, 1994.
Huxtable, John, A New Hope for Christian Unity, Fount, 1977
International Commission of Jurists, (Gol), The Trial of Beyers Naudé, Search Press, London, 1975.
Jenkins, David, God, Politics and the Future, SCM Press, 1988.
Jones, R. Tudur, Yr Undeb, Gwasg John Penry, 1975.
Kinnamon, Michael, Truth and Community, CEB, 1988.
Kinnamon, Michael (Gol), Signs of the Spirit, The Official Report of the Seventh

Assembly of the WCC, Canberra 1991, CEB, 1991.
Kinnamon, Michael a Best, Thomas E., (Goln), Called to be One in Christ: United Churches and the Ecumenical Movement, CEB, 1985
Kinnamon, Michael a Cope, Brian, (Goln), The Ecumenical Movement, CEB, 1996.
Leeming, Bernard, The Vatican Council and Christian Unity, 1966.
Linn, Gerhard, (Gol), Hear what the Spirit says to the churches, CEB, 1994.
Lossky, Bonino, Pobee, Stransky, Wainwright and Webb (Goln.), Dictionary of the Ecumenical Movement, CEB, 1991.
Matthews, John, The Unity Scene, CEP, 1986.
Morgan, D. Densil, (Gol), Torri'r Seiliau Cedyrn, Gwasg Gomer, 1993.
Morgan, Kenneth O., The Rebirth of a Nation 1880-1980, Volume V in A History of Wales, Gol. Glanmor Williams, Gwasg Prifysgol Cymru, 1981.
Morgan, W.J., (Gol), The Welsh Dilemma, 1973.
Müller-Fahrenholz, Geiko, God's Spirit, CEB, 1995.
Naudé, C.F. Beyers, a Sölle, Dorothee, Hope for faith, CEB, 1986.
Newbigin, Lesslie, The Gospel in a Pluralist Society, CEB/SPCK, 1989.
Newbigin, Lesslie, The Other Side of 1984, CEB, 1990.
Nuttall, Geoffrey a Chadwick, Henry, From Uniformity to Unity, 1662-1962, ???
Paton, David M., (Gol), Breaking Barriers, The Official Report of the Fifth Assembly of the WCC, Nairobi 1975, CEB, 1976.
Payne, Ernest A., Thirty Years of the British Council of Churches, 1942 - 72, CEP, 1972.
Phillips, Alan Butt, The Welsh Question: Nationalism in Welsh Politics, 1945-70, Gwasg Prifysgol Cymru, 1975.
Phillips, G.O., Yr Eglwys ac ynni niwclear, CEC, 1978.
Pope Teaches, The, Addresses and Homilies of Pope John Paul II, CTS, 1982.
Potter, Philip, What is the World Council of Churches, CEB, 1979.
Preston, Ronald H., Religion and the Persistence of Capitalism, The Maurice Lectures for 1977, SCM Press, 1979.
Raiser, Konrad, Ecumenism in Transition, CEB, 1989.
Raiser, Konrad, To Be The Church, CEB, 1997.
Ramsey, Michael, Lambeth Essays on Unity, ???
Rasmussen, Larry L., Earth Community, Earth Ethics, CEB, 1996.
Slack, Kenneth, Nairobi, Adroddiad o Gymanfa CEB, SCM Press, 1976.
Smith, Bernard, The Fraudulent Gospel: Politics and the WCC, Church League of America, 1977.
Stendahl, Krister, Energy for Life, CEB, 1990.
Taylor, Michael, Not Angels but Agencies, CEB/SCM Press, 1995.
Templeton, Elizabeth, God's February: A Life of Archie Craig, 1888 - 1985, CEP/CEPI, 1991.
Thurian, Max, (Gol), Churches Respond to BEM, Cyfrolau I - VII, CEB, 1986-1988.
Thurian, Max, (Gol), Ecumenical Perspectives on Baptism, Euachrist and Ministry.
Together on the Way: A Theology of Ecumenism, Christopher J. Ellis, CEP, 1990.
Torrance, T.F., Conflict and Agreement in the Churches, Cyfrol I: Order and Disorder, London, 1936.
van Beek, Huibert, Sharing Life, CEB, 1989.
van der Bent, Ans J., Commitment to God's World: A concise critial survey of ecumenical social thought, CEB, 1995.
van der Bent, Ans J., From Generation to Generation, CEB, 1986.
van der Bent, Ans J., Voice of Unity, Essays in honour of W.A. Visser 't Hooft, CEB, 1981.
VanElderen, Marlin, Introducing the World Council of Churches, CEB, 1992.
Villa-Vicencio, Charles, a de Gruchy, John W., (Goln), Resistance and Hope: South African essays in honour of Beyers Naudé.
Visser 'T Hooft, W.A., Memoirs, Ail Argraffiad, CEB, 1987.
Visser 'T Hooft, W.A., The First Assembly of the World Council of Churches, The Official Report, SCM Press, 1949.
Visser 'T Hooft, W.A., The Genesis and History of the World Council of Churches,

CEB, 1987.
Webb, Pauline, (Gol), A Long Struggle, CEB, 1994.
Webb, Pauline, She Flies Beyond, CEB, 1993.
Williams, Jeff, Nes Unionir y Cam, CEC, 1988

## 2. COFNODION, DOGFENNAU AC ADRODDIADAU

### a. Cyngor Eglwysi Cymru

Adroddiad ar Adroddiad Comisiwn Kilbrandon, CEC, 1974.
Adroddiad Cyngor Heddwch, CEC, 1987.
Adroddiad Cynhadledd yr Eglwysi a Chymdeithas, CEC, Caerfyrddin, 1970.
Adroddiad Dros Dro Gweithgor Adolygu, Cyngor Eglwysi Cymru, 1988.
Adroddiad Fforwm ar Wastraff Niwclear, Wrecsam, CEC, 1981.
Adroddiad Fforwm ar Ynni Niwclear, Wrecsam, CEC, 1977.
Adroddiad Gweithgor Bedydd, Ewcharist a Gweinidogaeth, CEC, 1984.
Adroddiad y Comisiwn ar Ganolbarth Cymru, CEC, 1960.
Adroddiadau Blynyddol y Cyngor, 1960 ymlaen, ond na chyhoeddwyd yn flynyddol drwy gydol y cyfnod.
Adroddiadau cynhadleddau Pwyllgor Diwydiant, CEC, 1967 ymlaen.
Adroddiadau'r Cydbwyllgor Cyfamodi: Yr Alwad i Gyfamodi (1965), Cyfamodi yng Nghymru (1968) Cyfamodi ar gyfer Undeb yng Nghymru, Rhan I a II (1971), Pam Cyfamodi? (1972)
Baptism, Eucharist and Ministry, Report of a Consultation, CEC, 1985.
Cleddyfau yn sychau, CEC, 1983.
Cofnodion a phapurau Gweithgor ar y cyd rhwng Cyngor Eglwysi Cymru a'r Eglwys Gatholig Rufeinig yng Nghymru, 1980 - 1983.
Cofnodion a phapurau Pwyllgor Ieuenctid, Cyngor Eglwysi Cymru, 1965 - 1986.
Cofnodion ac adroddiadau Adran Gweithgarwch Ecwmenaidd, CEC, 1965 - 1980.
Cofnodion ac adroddiadau Pwyllgor Cenedlaethol a Rhyng-genedlaethol, CEC, 1982 - 1990.
Cofnodion Adran Eglwys a Chymdeithas, CEC, 1972 - 1982.
Cofnodion Cyngor Eglwysi Cymru, 1959 - 1990.
Cofnodion Pwyllgor Gwaith Cyngor Eglwysi Cymru, 1961 - 1990.
Cofnodion y Pwyllgor Diwydiant, CEC, 1965 ymlaen.
Cyhoeddiadau'r Proses Rhyngeglwysig (CEP/CTS 1986): Views from the Pews, Reflections (Gol Vincent Nicholls), Observations (Gol Colin Davey).
Datganiad ar Ddiweithdra, CEC, Dydd Gŵyl Ddewi, 1987.
Eiddot ti yw'r gogoniant, Grŵp Astudio Litwrgi, CEC, 1971.
Llythyron cyffredinol Cyngor Eglwysi Cymru, 1956 - 1990.
Neges i'r Eglwysi, Cynhadledd Ffydd a Threfn, Caerfyrddin, 1963.
Pecyn trafod Teulu Duw, CEC, 1985.
Pobl Drws Nesaf, CEC, 1967.
Teulu Duw yn Addoli, CEC, 1986.
The Theology of Experiment, Adroddiad Grŵp Ymgynghorol Diwinyddol, CEC, 1971.
Uppsala a Chymru, CEC, 1968.
Yr Undeb a Geisiwn, CEC, 1964.

b. Adroddiadau eraill


Baptism, Eucharist and Ministry, Papur Ffydd a Threfn Rhif 111, CEB, 1982.
Baptism, Eucharist and Ministry 1982 - 1990, Report on the Process and Responses, Papur Ffydd A Threfn Rhif 149, CEB, 1990.
British and Irish Churches Respond to BEM, CEP, 1988.
Church and World: The Unity of the Church and the Renewal of Human Community, Papur Ffydd a Threfn, Rhif 151, CEB, 1990.
Churches Together in Pilgrimage, CEP/CTS, 1989.
Conversations between the Church of England and the Methodist Church, A Report, Church Information Office and Epworth Press, 1963.
Devolution and the British Churches, adroddiad i Gymanfa CEP i'w Gymanfa ym Mangor, Gwanwyn 1977, CEP, 1977.
Egwyddorion Undeb Gweledig yng Nghymru, Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol, 1980.
Four Nations, One Church? papur gan Adran Materion Ecwmenaidd, CEP, 1982.
God's Reign and Our Unity: Adroddiad Comisiwn Rhyngwladol Eglwysi Anglicanaidd a Diwygiedig, St. Andrews Press/SPCK, 1984.
In each place: Towards a fellowship of Churches truly united, CEB, 1977.
Not Strangers but Pilgrims, papurau ar gyfer cynhadleddau cenedlaethol y Proses Rhyngeglwysig, CEP, 1987.
One Baptism, One Eucharist and a Mutually Recognized Ministry, Papur Ffydd a Threfn Rhif 73, CEB, 1975.
Prospects for Wales, Peter Brierley a Byron Evans, Cymdeithas y Beibl a Marc Europe, 1983.
Sixth Report of Joint Working Group between the Roman Catholic church and the World Council of Churhces, CEB, 1990.
The Easter People, Neges Esgobion Catholig Cymru a Lloegr yng ngoleuni'r Cyngh-rair Bugeiliol Cenedlaethol, St. Paul Publications, 1980.
The Failure of the English Covenant, CEP, 1983.
Tuag at Uno, Cyd-Bwyllgor y Pedwar Enwad, 1963.
Ut Unum Sint, Cylchlythyr y Pab Ioan Pawl II ar Ymrwymiad i Ecwmeniaeth, CTS, 1995.
Whose Rubicon? Adroddiad am ymweliad i Dde'r Affrig gan gynrychiolwyr eglwysi Prydain, CEP, 1986.
Your Kingdom Come, Adroddiad Cynhadledd Fyd-eang ar Genhadaeth ac Efengylu, Melbourne, 1980, CEB, 1980.
Your Will Be Done, (Gol. Frederick R. Wilson) Adroddiad Cynhadledd fyd-eang ar Genhadaeth ac Efnegylu, San Antonio, CEB, 1990.


3. CYLCHGRONAU


Dysgedydd, Y.
Ecumenical Review, The.
Efrydydd, Yr.
Eurgrawn, Yr.
Haul, Yr.
International Review of Mission, The.
One World.
Porfeydd
Tyst, Y.